

Cydggyfeirio – ERDF

Ewrop a Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd
Cydggyfeirio

Rhaglen Weithredol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol
Ewropeaidd
2007-2013



Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru



Wedi ei argraffu ar ddeunydd sy'n cynnwys 75%
o wastraff defnyddiwyd a 25% o feydion ECF/TCF

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

**Rhaglen Gydgyfeirio Gorllewin Cymru
a'r Cymoedd**

**Rhaglen Weithredol ar gyfer Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewropeaidd**

2007-2013

Rhif CCI: 2007UK161PO002

01 Mehefin 2009

Rhaglen Weithredol

Cynnwys

<i>Pennod</i>	<i>Tudalen</i>
Cyflwyniad	1
1 Crynodeb Gweithredol	3
2 Dadansoddiad Cryno	7
3 Y Strategaeth	31
4 Blaenoriaethau	80
5 Themâu Trawsbynciol	140
6 Gweithredu Darpariaethau	150
7 Darpariaethau Ariannol	180

Atodiadau¹

Dadansoddiad Llawn	A
Rhestr o'r Prif Brosiectau	B
Dangosyddion Craidd	C
Dangosyddion Sylfaenol	CH
Gwersi a Ddysgwyd	D
Rhag-werthusiad	DD
Crynodeb annhechnegol o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol	E
Asesiad Amgylcheddol Strategol Llawn	F
Matrics Cydraddoldeb	FF
Matrics Amgylcheddol	G
Organogram Llywodraeth Cynulliad Cymru	NG
Manylion yr ymgynghoriad yn cynnwys rhestr lawn o ymgynghoreion	H
Rhestr Ddangosol o Fframweithiau Strategol	I
Cyfrifoldebau Cydgysylltwyr y Fframwaith Strategol	L
Ffrydiau a Rheolaethau Ariannol	LL
Crynodeb o'r Cynllun Monitro a Gwerthuso	M

¹ Mae'r atodiadau ar gael mewn fformat electronig ar safle we WEFO:
www.wefo.cymru.gov.uk

Rhestr o Ffigurau a Thablau'r Rhaglen Weithredol

Ffigur 1.	Map o ardal Rhaglenni Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	8
Ffigur 2.	CMC y pen (Cydraddoldebau Pŵer Prynu (a)) UE25=100 (b)	9
Ffigur 3.	Dadansoddiad o wahaniaethau mewn GYC y pen ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o'u cymharu â'r cyfartaledd ar Cyfer Cymru, cyfartaledd ar gyfer 2001-2003	10
Ffigur 4.	Cynnydd yn erbyn targedau Lisboa, 2005 a 2010	13
Ffigur 5.	Cyfraddau anweithgarwch economaidd yn ôl y cymhwyster uchaf, 2004 (canran o'r boblogaeth o oedran gweithio).....	14
Ffigur 6.	Set cymwysterau/sgiliau, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (DU=1).....	14
Ffigur 7.	Dadansoddiad o enillion (a) gwahanredol (gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â chyfartaledd Prydain Fawr).....	16
Ffigur 8.	Swyddi'r Gweithlu Sifil yn ôl diwydiant, siartiau swigod	18
Ffigur 9.	Cofrestriadau TAW i bob 1,000 o'r boblogaeth o oedran gweithio	20
Ffigur 10.	Llifau traffig	22
Ffigur 11.	Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.....	24
Ffigur 12.	Cysylltiadau rhwng y prif Heriau a'r Blaenoriaethau	34
Ffigur 13.	Cysylltiadau rhwng y Rhaglen Weithredol, Canllawiau Strategol y Gymuned a'r Canllawiau Integredig.....	36
Ffigur 14.	Cyswllt rhwng amcanion Canllawiau Strategol y Gymuned a Blaenoriaethau'r Rhaglenni Cydgyfeirio ERDF ac ESF	37
Ffigur 15.	Gweledigaeth y Cynllun Gofodol	42
Ffigur 16.	Map o Bolisiau Cymru	43
Ffigur 17.	Strwythurau Cydweithredu a Gweithredu Cynllun Gofodol Cymru.....	154
Ffigur 18.	Strwythur arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'r is- bwyllgorau sefydlog	156
Ffigur 19.	Pennu meini prawf dethol a blaenoriaethu	160

Ffigur 20.	Cymhwyso meini prawf dethol a blaenoriaethu	161
Ffigur 21.	Llwybr ar gyfer sicrhau grant Cronfeydd Strwythurol	162
Tabl 1.	Crynodeb o'r farchnad lafur, cymhariaeth UE25 (canran)	12
Tabl 2.	Dadansoddiad SWOT ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio ERDF	27
Tabl 3.	Cyfraniad ERDF Blaenoriaeth 1 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU	47
Tabl 4.	Cyfraniad ERDF Blaenoriaeth 2 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU	48
Tabl 5.	Cyfraniad ERDF Blaenoriaeth 3 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU	49
Tabl 6.	Cyfraniad ERDF Blaenoriaeth 4 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU	51
Tabl 7.	Cyfraniad ERDF Blaenoriaeth 5 at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU	52
Tabl 8.	Dangosyddion olrhain ar lefel rhaglenni	61
Tabl 9.	Dangosyddion ar lefel rhaglenni	64
Tabl 10.	Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad Cydgyfeirio yn ôl sector.....	70
Tabl 11.	Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol a'r camau a gymerwyd.....	76
Tabl 12.	Dangosyddion i olrhain hynt prosiectau a'r rhaglen - ERDF Blaenoriaeth 1	86
Tabl 13.	Dangosyddion ESF ar gyfer Blaenoriaeth 1	92
Tabl 14.	Dangosyddion i olrhain hynt prosiectau a'r rhaglen - ERDF Blaenoriaeth 2	96
Tabl 15.	Dangosyddion ESF ar gyfer Blaenoriaeth 2	100
Tabl 16.	Dangosyddion i olrhain hynt prosiectau a'r rhaglen - ERDF Blaenoriaeth 3	106
Tabl 17.	Dangosyddion i olrhain hynt prosiectau a'r rhaglen - ERDF Blaenoriaeth 4	116
Tabl 18.	Dangosyddion ESF ar gyfer Blaenoriaeth 4	121

Tabl 19.	Dangosyddion i olrhian hynt prosiectau a'r rhaglen - ERDF Blaenoriaeth 5	127
Tabl 20.	Dangosyddion ESF ar gyfer Blaenoriaeth 5	132
Tabl 21.	Aelodaeth Gynrychioliadol y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn ôl Sefydliad Sector	156
Tabl 22.	Echelau blaenoriaeth yn ôl ffynhonnell ariannu	180
Tabl 23.	Ffynhonell yrhaglen yn ôl blwyddwn (mewn Euros).....	181
Tabl 24.	Dyramiadau dangosol yn ôl categori o ymyriad	182

Cyflwyniad

Mae'r Rhaglen Weithredol Gydgyfeirio hon yn nodi strategaeth a blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer adfywio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol dros y cyfnod 2007-2013 gan ddefnyddio Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Fe'i hymestynnir gan Raglen Gydgyfeirio ar wahân ond ategol Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Gyda'i gilydd, bydd y rhaglenni hyn yn cael effaith gatalytig drwy ymestyn a gwella ymrwymadau cryf Llywodraeth Cynulliad Cymru i agendâu diwygio Lisboa (Lisbon) a Göteborg.

Datblygwyd y Rhaglen Weithredol Gydgyfeirio yng nghyd-destun y Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi (2005-2008), a Chanllawiau Strategol y Gymuned (2007-2013) sy'n nodi amcanion polisïau cydlynw ar lefel yr UE. Mae'r rhaglen yn ategu'r blaenoriaethau a'r amcanion strategol a nodwyd yn Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU ac mae'n cyfrannu'n uniongyrchol at fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd yn Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU ar gyfer Swyddi a Thwf, gyda'r nod o sicrhau twf cynaliadwy hirdymor, cyflogaeth uchel a chymdeithas deg a chynhwysol.

Bydd y Rhaglen Gydgyfeirio ERDF hon yn hyrwyddo aliniad agos rhwng polisïau'r UE a pholisïau cenedlaethol o ran swyddi a thwf. Mae strategaeth datblygu economaidd Cymru *Cymru: Economi yn Ffynnu* yn arwain y ffordd tuag at economi ddeinamig a fydd yn sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy drwy roi cyfleoedd i bawb. Mae ffocws clir ar amcanion Lisboa sef gwella twf economaidd a darparu swyddi ychwanegol i bobl Cymru, gan weithredu ar y blaenoriaethau yn *Cymru: Gwlad Well*. Mae'r strategaeth yn nodi'r gydberthynas gydategol rhwng polisïau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Fe'i hategir gan ein *Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru* gyda'i gweledigaeth o amgylchedd nodweddiadol yng Nghymru yn ffynnu ac yn cyfrannu at iechyd a lles economaidd a chymdeithasol pawb yng Nghymru. Fel gydag agenda Lisboa, mae cydberthynas gydategol gref rhwng polisïau economaidd ac amgylcheddol yng ngweledigaeth a blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r ystyriaethau hyn yn arwain at Raglen Weithredol a fydd yn:

- Datblygu'r economi wybodaeth;
- Cryfhau'r economi drwy ysgogi mentrau a datblygiadau busnes;
- Sicrhau bod gan y rhanbarth y seilwaith ffisegol sydd ei angen i ddatblygu economi gystadleuol fodern ac i ysgogi effeithiau crynhoad;
- Hybu twf busnes cynaliadwy a chyfleoedd busnes newydd mewn perthynas â heriau a chyfleoedd amgylcheddol; a
- Darparu'r atebion adfywio integredig sydd eu hangen i gynorthwyo'r broses o ddatblygu economïau lleol ffyniannus.

Mae'r Rhaglen Weithredol Gydgyfeirio ERDF yn adeiladu ar yr ymgynghoriad eang a gynhaliwyd ag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid dros y misoedd diwethaf i lunio cyfeiriad y rhaglen newydd Cronfeydd Strwythurol Ewrop.

Rhennir y ddogfen yn saith pennod, fel a ganlyn:

- Pennod 1: y Crynodeb gweithredol, sy'n esbonio pam mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys i gael cymorth parhaus y cronfeydd strwythurol ac yn rhoi trosolwg o'r rhaglen;
- Pennod 2: y Dadansoddiad, sy'n rhoi crynodeb o gryfderau, gwendidau ac anghenion y rhanbarth, yn ogystal â'r cyfleoedd, y blaenoriaethau a'r heriau sydd o'i flaen;
- Pennod 3: y Strategaeth, sy'n nodi'r amcanion strategol o ran goresgyn y gwendidau a manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a nodwyd yn y Dadansoddiad;
- Pennod 4: y Blaenoriaethau a'r Themâu sy'n rhoi manylion am flaenoriaethau, dangosyddion a thargedau ERDF y rhaglen, fel y nodwyd yn y Strategaeth;
- Pennod 5: y Themâu Trawsbynciol, sy'n nodi'r amcanion a'r strategaeth ar gyfer sicrhau bod yr ymrwymiad i Gyfle Cyfartal a Chynaliadwyedd Amgylcheddol yn cael ei brif ffrydio ar draws holl agweddau'r rhaglen;
- Pennod 6: Rhoi Darpariaethau ar Waith, sy'n nodi'r trefniadau rheoli a'r egwyddorion a fydd yn llywio'r broses gyflwyno, yn cynnwys trefniadau partneriaeth a'r ymagwedd Fframwaith Strategol; a
- Pennod 7: Dyraniadau Ariannol, sy'n esbonio sut y caiff adnoddau eu dyrannu ar draws y blaenoriaethau amrywiol.

Pennod 1: Crynodeb Gweithredol

Cyflwyniad

1.1 Mae cytundeb y Cyngor Ewropeaidd a Senedd Ewrop ar gyllideb yr UE ar gyfer 2007–2013 yn golygu y bydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cael cyllid "Cyddyfeirio" – sef y lefel uchaf o gymorth sydd ar gael o dan gylch nesaf rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys i gael y cymorth hwn oherwydd pan gytunwyd ar gyllideb yr UE ym mis Rhagfyr 2005, roedd ei Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (CMC) y pen ar gyfartaledd ychydig yn is na'r cyfartaledd Ewropeaidd sef 75% - y terfyn cymhwys.

1.2 Rhydd hyn gyfle da i Orllewin Cymru a'r Cymoedd adeiladu ar y cynnydd sylweddol iawn a wnaed o dan raglen Amcan 1 2000-2006, ac i gwblhau'r broses o drawsnewid rhanbarth sy'n dioddef o broblemau economaidd maith yn economi gref a chynaliadwy.

1.3 Bydd y rhanbarth yn cael cyfanswm o €2.08 biliwn gan y Gymuned i gefnogi rhaglenni Cyddyfeirio ERDF ac ESF gwerth dros €4 biliwn. Bydd y rhaglen Gydgyfeirio ERDF yn cael gwerth €1.25 biliwn gan y Gymuned (60% o'r cyfanswm). Pan gyfunir hyn ag arian cyhoeddus a phreifat cenedlaethol, bydd y rhaglen yn rhoi dros €2.5 biliwn i hybu twf a swyddi dros y cyfnod 2007-2013.

Gweledigaeth

1.4 Ein gweledigaeth ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yw rhanbarth bywiog, entrepreneuriaidd sydd ar y blaen ym maes datblygu economaidd cynaliadwy, gyda'i bobl yn byw mewn cymunedau ffyniannus, cryf, iach, diogel, a lle y bo'n berthnasol, dwyieithog o fewn amgylchedd naturiol sydd bob amser yn gwella.

1.5 Ein huchelgais yw i Orllewin Cymru a'r Cymoedd chwarae rhan flaenllaw yn ymgyrch yr UE i fod yn esiampl ddisglair o gynnydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i weddill y byd. Bydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn enghraifft fyd-eang o ranbarth a chanddo 1.9 miliwn o bobl sydd ar gyrion daearyddol Ewrop, ond yn ffynnu mewn marchnadoedd byd-eang cystadleuol ac yn cynnig amgylchedd o'r radd flaenaf lle y mae pobl yn dymuno byw, gweithio a buddsoddi.

Dadansoddiad

1.6 Dengys y dadansoddiad fod economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gwella yn sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, gan barhau â'r gweddnewidiad o gyfnod hir o newid economaidd a welodd ddiwydiannau traddodiadol yn dirywio ac yn diflannu. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhanbarth wedi gweld gwelliant sylweddol o ran amodau'r farchnad lafur, gyda chynnydd mewn cyflogaeth a gostyngiad mewn diweithdra, ynghyd â thwf mewn enillion.

1.7 Fodd bynnag, mae llawer i'w wneud o hyd i leihau gwahaniaethau economaidd rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a gweddill Cymru a'r DU a

sicrhau cydgyfeirio llawn â rhannau eraill o'r UE. Gellir priodoli CMC y pen cymharol isel y rhanbarth yn bennaf i gyfran uwch o'r boblogaeth o oedran gweithio nad ydynt mewn cyflogaeth a'r gwerth ychwanegol is fesul gweithiwr, sy'n adlewyrchu'n rhannol gyfansoddiad diwydiannol y rhanbarth. Ffactor arall yw'r ffaith na ellir cael budd o effeithiau crynhoed cryf, am fod trefi a dinasoedd Cymru yn gymharol fach ac mae llawer o'r rhanbarth yn brin ei boblogaeth ac ymhell o brif ganolfannau.

1.8 Mae meincnodau eraill natur gystadleuol yn nodi'r angen i gynyddu lefelau ymchwil a datblygu, y defnydd o TGCh ac entrepreneuriaeth ymhellach er mwyn parhau â'r symudiad tuag at economi wybodaeth, a'r angen i fynd i'r afael â'r rhai o'r diffygion yn y seilwaith i ategu hyn, yn cynnwys trafniadaeth a safleoedd busnes. Er mwyn creu amgylchedd deniadol a chynaliadwy, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu o ran newid yn yr hinsawdd, yn cynnwys lleihau dibyniaeth y rhanbarth ar ffynonellau ynni traddodiadol, a gwireddu potensial economaidd cynaliadwy amgylchedd naturiol y rhanbarth.

1.9 Er gwaethaf gwelliannau yn y farchnad lafur, mae cyfradd gyflogaeth y rhanbarth yn is na chyfraddau cyfartalog Cymru a'r DU o hyd, o ganlyniad i lefelau uwch o anweithgarwch economaidd. Mae helpu mwy o bobl i mewn i gyflogaeth gynaliadwy a gwella sgiliau'r boblogaeth o oedran gweithio yn her barhaus ac eir i'r afael â hyn yn y rhaglen Gydgyfeirio gydategol ESF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Cyd-destun Polisi

1.10 Bydd gan raglen newydd y Gronfa Strwythurol ar gyfer 2007-2013 ffocws cryfach ar strategaethau Lisboa a Göteborg ar gyfer twf, swyddi a datblygu cynaliadwy fel y nodir yng *Nghanllawiau Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant* a gymeradwywyd gan Aelod-wladwriaethau yn 2006. Mae amcanion a blaenoriaethau rhaglen Gydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gyson â strategaethau Lisboa a Göteborg ac maent wedi cael eu datblygu yng nghyd-destun Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU sy'n esbonio sut y bydd y Cronfeydd Strwythurol yn cyfrannu at Raglen Ddiwygio Genedlaethol y DU ar gyfer twf a swyddi.

1.11 Er mwyn sicrhau bod y Cronfeydd Strwythurol yn cael yr effaith fwyaf posibl, caiff y rhaglen Gydgyfeirio ei halinio hefyd â pholisïau perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyflawni twf cynaliadwy a swyddi. Ymhlith y rhain mae:

- *Cymru: Gwlad Well* – agenda polisi strategol ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- *Cymru: Economi yn Ffynnu* – y strategaeth datblygu economaidd;
- *Cynllun Gofodol Cymru*;
- *Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru-Dechrau Byw'n Wahanol*;
- *Y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru*.

Strategaeth

1.12 Nod cyffredinol y rhaglen Gydgyfeirio yw:

Sicrhau bod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn rhanbarth bywiog, entrepreneuriaidd sydd ar y blaen o ran datblygu cynaliadwy.

1.13 Y prif sbardunau i gyflawni hyn drwy'r rhaglen ERDF yw:

- (a) Helpu busnesau i symud yn barhaus i fyny'r gadwyn werth a chynyddu'r gwerth ychwanegol fesul swydd, gan godi cynhyrchiant ac enillion; a
- (b) Creu amgylchedd deniadol y gall pobl fyw a gweithio a buddsoddi ynddo, yn cynnwys drwy adfywio cymunedau tlotaf y rhanbarth.

1.14 Nodir llwyddiant y Rhaglen drwy olrhain cynnydd yn erbyn ystod o ddangosyddion economaidd, yn arbennig cyflogaeth, enillion a GYC, mewn termau absoliwt ac o'u cymharu â rhannau eraill o'r DU a'r UE. Caiff dangosyddion a thargedau ar gyfer blaenoriaethau unigol eu monitro'n agos hefyd a chânt eu grosio i roi targedau lefel rhaglenni. Bydd y rhaglen hefyd yn destun gwerthusiad.

Blaenoriaethau

1.15 Caiff y rhaglen ei rhoi ar waith drwy strwythur wedi'i symleiddio a fydd yn cynnwys pum prif Flaenoriaeth ynghyd â Blaenoriaeth Cymorth Technegol.

Blaenoriaeth 1: Datblygu'r Economi Wybodaeth

1.16 *Amcan* – Gwella gwybodaeth ac annog arloesedd drwy sicrhau y manteisir i'r eithaf yn fasnachol ar ymchwil a datblygu, arloesedd a thechnoleg a gwella'r cyfle i gael gafael ar TGCh a'i defnyddio.

Blaenoriaeth 2: Gwella Natur Gystadleuol Busnesau

1.17 *Amcan* – Cryfhau'r economi drwy gynyddu maint ac ehangu ystod y stoc busnes a mynd i'r afael â methiannau'r farchnad mewn perthynas â chynngor busnes, gwybodaeth a chyllid busnes.

Blaenoriaeth 3: Datblygu'r Seilwaith Strategol ar gyfer Economi Fodern

1.18 *Amcan* – Sicrhau bod gan y rhanbarth y seilwaith ffisegol sydd ei angen i ddatblygu economi gystadleuol fodern, ac i hybu effeithiau crynhoed.

Blaenoriaeth 4: Creu Amgylchedd Busnes Deniadol

1.19 *Amcan* – Hybu twf busnes cynaliadwy a chyfleoedd busnes newydd mewn perthynas â heriau a chyfleoedd amgylcheddol.

Blaenoriaeth 5: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy

1.20 *Amcan* – Ategu ymagweddau integredig tuag at adfywio a fydd yn dod â budd i gymunedau mwyaf difreintiedig y rhanbarth a chynorthwyo'r broses o ddatblygu economïau lleol ffyniannus.

1.21 Caiff y themâu trawsbynciol Cyfle Cyfartal a Chynaliadwyedd Amgylcheddol eu hintegreiddio'n llawn yn y blaenoriaethau hyn. Bydd y rhaglen hefyd yn ategu Camau Arloesol a Chydweithrediad Trawsgenedlaethol a Rhyngranbarthol. Bydd blaenoriaeth Cymorth Technegol ar wahân (Blaenoriaeth 6) yn sicrhau bod y Rhaglen yn cael ei rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

Dyraniad Ariannol

1.22 Caiff 70% o adnoddau'r rhaglen Gydgyfeirio ERDF eu targedu at y categorïau buddsoddi hynny a fydd yn cyfrannu fwyaf at gyflawni amcanion Lisboa ar gyfer twf a swyddi fel y'u diffinnir yn Erthygl 9 ac Atodiad IV o Reoliad (CE) 1083/2006. Bydd hyn yn golygu mwy o fuddsoddiad mewn meysydd fel ymchwil a datblygu, arloesedd, entrepreneuriaeth, y gymdeithas wybodaeth, cynnyrch a phrosesau ecogyfeillgar, ynni adnewyddadwy a rhai meysydd trafnidiaeth. Ar yr un pryd, cydnabyddir bod buddsoddiadau sy'n gysylltiedig ag adfywio trefol a gwledig, datblygu economaidd cymunedol, yr amgylchedd ac atal risg, rheoli gwastraff, twristiaeth a diwylliant yn parhau i fod yn sbardunau pwysig o ran twf a swyddi, er na fyddant yn cyfrannu'n uniongyrchol at dargedau clustnodi Lisboa.

1.23 Nodir dyraniadau ariannol manwl yn ôl Blaenoriaeth a dyraniadau dangosol yn ôl thema ym mhrif ddogfen y Rhaglen.

Gweithredu

1.24 Datblygwyd y rhaglen mewn partneriaeth a chaiff ei gweithredu mewn partneriaeth hefyd. Bydd un Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn goruchwyllo'r gwaith o roi'r rhaglen Gydgyfeirio a'r rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol ar waith yng Nghymru. Bydd Fframweithiau Strategol yn atgyfnerthu'r gwaith o gyflwyno'r rhaglenni ac yn sicrhau bod prosiectau yn canolbwyntio ar y prif amcanion a thargedau. Rhoddir pwyslais cryfach hefyd ar gydweithredu rhanbarthol wrth ddatblygu strategaethau a phrosiectau yng nghyd-destun Cynllun Gofodol Cymru.

PENNOD 2: Dadansoddiad Cryno O Orllewin Cymru A'r Cymoedd

Trosolwg o'r Ardal

2.1 Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cwmpasu ardal o 1.24 miliwn o hectarau (tua 12,400km²) a thua 1,150km o arfordir. Mae tua 80% o'r ardal wedi ei dynodi'n Ardaloedd Llai Ffatriol, sef ardaloedd mynyddig a thir uchel yn bennaf. Mae tua 1.86 miliwn o bobl (64% o gyfanswm poblogaeth Cymru) yn byw yn y rhanbarth.

2.2 Mae ardaloedd awdurdod lleol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn amrywiol eu natur. Mae Cymoedd De Cymru, sy'n cynnwys tua 60% o boblogaeth y rhanbarth, yn ardaloedd trefol yn bennaf gyda chynrychiolaeth uchel o ddiwydiannau cynhyrchu. Mae ardaloedd Gorllewinol a Gogleddol y rhanbarth yn wledig eu natur gyda nifer o drefi a phentrefi bach lle mae'r economi yn dibynnu i raddau helaeth ar amaethyddiaeth draddodiadol a diwydiannau'r sector gwasanaeth gyda chynrychiolaeth fach o ddiwydiannau cynhyrchu ².


2.3 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r amodau cymdeithasol, demograffig, economaidd ac amgylcheddol ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, ac yn nodi'r meysydd hynny lle mae'r rhanbarth yn wahanol i Gymru, y DU a'r Undeb Ewropeaidd. (*Ceir dadansoddiad llawn yn Atodiad A*).

2.4 Mae themâu agenda Lisboa yn rhedeg drwy'r dadansoddiad a rhoddir sylw penodol i *inter alia*, ymchwil a datblygu, arloesedd ac addysg a sgiliau o ran cryfhau natur gystadleuol yr UE a thwf cynaliadwy tra'n sicrhau cydlyniant cymdeithasol a thiriogaethol.

2.5 Mae'r map canlynol (Ffigur 1) yn dangos yr ardal yng Nghymru sy'n gymwys ar gyfer y Rhaglen.

² Y SWYDDFA YSTADEGAU GWLADOL (2006) Workplace employment in Wales by industry, 2001 to 2004 <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/econ-2007/econ-2006/hdw200607261/?lang=cy>


Ffigur 1. Map o ardal Rhaglenni Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd



Yn ganolog i gydgyfeirio economaidd mae codi CMC y pen ar draws Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau'r Undeb Ewropeaidd.

2.6 Ffigur 2 yn dangos bod CMC y pen ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y 25 o wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd. Dengys y data diweddaraf (2004) fod CMC y pen yn 77% o'r cyfartaledd ar gyfer y 25 o wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd. O'i gymharu â Chymru a'r DU gyfan, mae CMC y pen tua 84% o'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a 65% o'r cyfartaledd ar gyfer y DU.

Ffigur 2. CMC y pen (Cydraddoldebau Pŵer Prynu (a) UE25=100 (b)



(a) Cyfraddau trosi arian yw Cydraddoldebau Pŵer Prynu sy'n trosi i arian cyffredin ac yn cydraddoli pŵer prynu arian gwahanol wledydd. Mewn geiriau eraill, maent yn cael gwared â'r gwahaniaethau yn lefelau prisiau rhwng gwledydd yn y broses trosi.

(b) Nodir ffigurau ar ffurf Mynegai. Mae rhifau'r mynegai yn cymharu arsylwadau unigol yn erbyn meincnod, lle rhoddir mynegai o 100 i'r meincnod. Yn yr achos hwn, y CMC cyfartalog y pen ar draws yr UE25 yw'r meincnod a rhoddir hwn fel mynegai o 100. Mae gwerthoedd mynegai o lai na 100 yn dangos ble mae'r CMC y pen yn is na'r cyfartaledd ar gyfer yr UE25 ac i'r gwrthwyneb ar gyfer gwerthoedd mynegai dros 100.

Ffynhonnell: Eurostat

2.7 Mae Ffigur 3 yn cymharu'r gwahaniaeth³ mewn GYC⁴ y pen ar gyfer ardaloedd NUTS 3 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan. Yn gyffredinol, roedd GYC y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd tua £2,000 yn llai nag ar gyfer Cymru gyfan rhwng 2001 a 2003. Gellir


³ Nodir y gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd NUTS 3 a NUTS 2 yng Nghymru o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan

⁴ Cyfrifir GYC fel CMC llai trethiant anuniongyrchol a chymorthdaliadau. Dim ond data sy'n nodi CMC y pen sydd ar gael ar gyfer cymharu Cymru â'r cyfartaledd ar gyfer yr UE.

esbonio tua 50% o'r bwlch cyffredinol hwn drwy werth ychwanegol is fesul swydd⁵. Gellir esbonio 25% pellach o'r bwlch cyffredinol drwy'r gymhareb swyddi/cyflogaeth gymharol isel⁶, h.y. cyfran yr unigolion a gyflogir sy'n gweithio yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n adlewyrchu lleoliad swyddi o'i gymharu â lleoliad cartrefi. Yr hyn a grybwyllir (yn rhannol) yw bod cyfran gymharol uchel o weithwyr yn cymudo allan o Orllewin Cymru a'r Cymoedd i weithio. Mae'r gymhareb cyflogaeth/oedran gweithio gymharol isel (cyfradd gyflogaeth) yn esbonio'r bwlch cyffredinol sy'n weddill (rhwng 15% a 25%).

2.8 Mae amrywiad o ran cyfraniad pob un o'r elfennau hyn i'r bwlch mewn gwahanol rannau o'r rhanbarth. Yn yr ardaloedd gorllewinol a gogleddol (heb gynnwys Ynys Môn), mae gwerth ychwanegol is fesul swydd yn esbonio'r rhan fwyaf o'r bwlch. Fodd bynnag, yn ardaloedd canol y cymoedd mae cyfraddau cyflogaeth is, a chyfran is o unigolion cyflogedig sy'n gweithio yn yr ardaloedd hyn (cymhareb swyddi/cyflogaeth isel) yn arbennig, yn esbonio'r rhan fwyaf o'r bwlch cyffredinol. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, Abertawe yw'r unig ardal sydd â GYC y pen uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan; mae Ynys Môn tua £3,800 yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Ffigur 3. Dadansoddiad o wahaniaethau mewn GYC y pen ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o'u cymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, cyfartaledd ar gyfer 2001-2003



fynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru yn seiliedig ar ddata ONS

⁵ Cyfeirir ato'n aml fel cynhyrchiant, er y gall y term hwn fod yn gamarweiniol, fel y dangosir yn ddiweddarach, gan nad yw mesur cynhyrchiant o'r fath yn ystyried strwythur diwydiannol y cwmni

⁶ Mae'r gymhareb swyddi/cyflogaeth yn dangos cyfran y swyddi a leolir mewn ardal benodol o'i chymharu â'r gyfradd gyflogaeth yn yr ardal. Er enghraifft, gallai fod nifer uchel o bobl mewn cyflogaeth yn byw mewn ardal (cyfradd gyflogaeth uchel), ond gallai'r unigolion hynny fod yn gweithio y tu allan i'r ardal; h.y. cymudo i'r gwaith, sy'n golygu y gallai fod gan yr ardal gymhareb swyddi/cyflogaeth isel.

2.9 Mae hyn yn dangos yn glir bod Agenda Lisboa yn berthnasol i ardal Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae creu mwy o swyddi a gwell swyddi a gwella gwybodaeth ac arloesi ar gyfer twf yn allweddol i wella rhagolygon economaidd. Mae angen adeiladu ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran sicrhau cynnydd yng nghyfran y bobl sy'n gweithio yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd drwy greu cyfleoedd cyflogaeth, a sicrhau bod preswylwyr yn meddu ar y sgiliau ac yn cael y cyfleoedd i gael cyflogaeth. Adlewyrchir hyn yn y bariau gwyrdd yn Ffigur 3. Bydd creu gwell swyddi â gwerth ychwanegol uwch yn helpu i leddfu'r bwlch a amlygir gan y bariau glas yn Ffigur 3. Un sbardun pwysig o ran twf yn y dyfodol fydd sicrhau bod y rhanbarth yn lle deniadol i fuddsoddi a gweithio ynddo.

2.10 Mae Canllawiau Strategol y Gymuned y Comisiwn Ewropeaidd⁷ yn berthnasol iawn i'r heriau sy'n wynebu Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Gan hynny, mae'r adrannau canlynol yn dilyn y blaenoriaethau hyn, sef:

- creu mwy o swyddi a gwell swyddi;
- gwella gwybodaeth ac arloesi ar gyfer twf; a
- sicrhau bod rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn lle mwy deniadol i fuddsoddi a gweithio ynddo.

Creu Mwy o Swyddi a Gwell Swyddi

2.11 Mae amodau anffafriol yn y farchnad lafur yn esbonio rhwng 15% a 25% o'r bwlch cyffredinol mewn GYC y pen rhwng y rhanbarth a Chymru gyfan. Felly, mae sicrhau cynnydd yng nghyfran y boblogaeth o oedran gweithio mewn cyflogaeth yn ganolog i wella rhagolygon economaidd cyffredinol y rhanbarth.

2.12 Mae Tabl 1 yn dangos crynodeb o ddata ar y farchnad lafur ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru, y DU a'r cyfartaledd ar gyfer yr UE. Ers 2001, mae'r farchnad lafur yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi dangos cynnydd mewn cyfraddau cyflogaeth a gweithgarwch economaidd ynghyd â gostyngiad mewn cyfraddau diweithdra. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae'r gyfradd gyflogaeth ddau bwynt canran islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o hyd, dros bum pwynt canran islaw'r cyfartaledd ar gyfer y DU ac (ychydig) islaw'r targed o 67% a bennwyd yn Agenda Lisboa ar gyfer 2005.

2.13 Mae'r gyfradd anweithgarwch economaidd bron bum pwynt canran a hanner yn uwch na'r DU, er gwaethaf gostyngiadau diweddar. Mae gan bob rhan o Orllewin Cymru a'r Cymoedd gyfraddau anweithgarwch economaidd sy'n uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU ond mae'r broblem yn fwyaf amlwg yn y Cymoedd. Mynd i'r afael â'r gwendid hwn yw un o brif sbardunau'r rhaglen a'r rhaglen ESF gydategol.

⁷ Y Comisiwn Ewropeaidd, 2005, Polisi Cydlyniant i gefnogi Twf a Swyddi: Canllawiau Strategol y Gymuned, 2007-13., COM(2005) 0229:
http://europa.eu.int/comm/regional_policy/sources/docoffic/2007/osc/index_en.htm

Tabl 1. Crynodeb o'r Farchnad Lafur, Cymhariaeth UE25 (canran)

	2001	2005	Newid ers 2001
Cyfradd gyflogaeth (a)			
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	63.1	66.4	3.3
Cymru	65.4	68.3	2.9
DU	71.4	71.7	0.3
UE (15)	63.9	65.1	1.2
UE(25)	62.7	63.7	1.0
Cyfradd anweithgarwch economaidd (b)			
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	67.4	70.0	2.6
Cymru	69.5	71.5	2.0
DU	75.2	75.3	0.1
UE(15)	69.1	71.0	1.9
UE(25)	68.7	70.1	1.4
Cyfradd ddiweithdra (c)			
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	6.3	5.1	-1.2
Cymru	5.8	4.5	-1.3
DU	5.0	4.7	-0.3
UE(15)	7.5	8.2	0.7
UE(25)	8.6	9.0	0.4

(a) Pobl gyflogedig yw pob person rhwng 15 a 64 oed a weithiodd o leiaf awr am dâl neu elw, neu a oedd yn absennol dros dro o waith o'r fath, yn ystod yr wythnos gyfeirio (yr wythnos y casglwyd y data). Cynhwysir gweithwyr teuluol. Y gyfradd i'r rhai rhwng 15 a 64 oed.


(b) Mae'r boblogaeth sy'n weithgar yn economaidd yn cynnwys pobl gyflogedig a di-waith. Y gyfradd i'r rhai rhwng 15 a 64 oed.

(c) Mae'r gyfradd ddiweithdra'n cynrychioli pobl ddi-waith fel canran o'r boblogaeth sy'n weithgar yneconomaidd. Y gyfradd i'r rhai sy'n 15 oed a throsodd.

Ffynhonnell: Eurostat

2.14 Mae Ffigur 4 yn dangos y cynnydd a wnaed gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd tuag at gyrraedd prif dargedau cyflogaeth Lisboa. Yn 2005, ni chyrrhaeddwyd y prif darged cyflogaeth ar gyfer 2005 ond roedd y gyfradd gyflogaeth ymhlith merched yn uwch na'r targedau a bennwyd ar gyfer 2005 a 2010. Roedd cyfradd gyflogaeth gweithwyr hŷn ychydig yn is na'r targed a bennwyd ar gyfer 2010.

Ffigur 4. Cynnydd yn erbyn Targedau Lisboa, 2005 a 2010




Ffynhonnell: Eurostat

2.15 Ceir consensws cyffredinol bod newid yng nghyfansoddiad y galw am lafur yn esbonio tueddiadau allweddol yn y farchnad lafur dros y degawdau diwethaf. Mae'r galw am bobl â sgiliau isel wedi lleihau yn y byd datblygedig, ac mae hynny'n amlygu ei hun ar ffurf cyflogau cymharol is a/neu gyfraddau cyflogaeth is⁸. Mae cyfraddau cyflogaeth ymhlith pobl â sgiliau isel yn dueddol o fod yn uwch lle ceir crynadau isel o'r cyfryw bobl. (Yr enghraifft amlycaf o'r cyfryw batrwm yw De-ddwyrain Lloegr y tu allan i Lundain). Gwelir yr effeithiau negyddol fwyaf yn sgîl newidiadau yng nghyfansoddiad y galw am lafur ble mae cyflenwad y cyfryw lafur ar ei uchaf, yn cynnwys yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Felly, mae setiau sgiliau a chymwysterau addysgol yn hanfodol i ddeall anweithgarwch economaidd a chanlyniadau'r farchnad lafur.

2.16 Mae Ffigur 5 yn dangos cyfraddau anweithgarwch economaidd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru a'r DU yn ôl lefel cymwysterau uchaf yr unigolyn. Mae'n dangos y gyfradd gynyddol o weithgarwch economaidd ymhlith grwpiau â lefelau cymwysterau/sgiliau uwch (yn symud o'r dde i'r chwith ar Ffigur 5). Gwelir y gwahaniaeth mwyaf rhwng dim cymwysterau a Lefel 1 - pan geir crynhoad cymharol uchel o unigolion heb unrhyw gymwysterau ffurfiol bydd canran sylweddol uwch o'r unigolion hynny yn anweithgar yn economaidd. Ar gyfer Gogledd Cymru a'r Cymoedd, mae anweithgarwch economaidd ymhlith yr unigolion hynny heb unrhyw gymwysterau ffurfiol yn uwch nac ar gyfer Cymru a'r DU gyfan. Mae hyn yn cyfateb i'r crynhoad cymharol uchel o unigolion heb unrhyw gymwysterau ffurfiol sy'n byw yn yr ardal.

⁸ Faggio, G a Nickell, S, 2005. Inactivity Among Prime Age Men in the UK. *Papur Trafod CEP* 673: <http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp0673.pdf>


Ffigur 5. Cyfraddau anweithgarwch economaidd yn ôl y cymhwyster uchaf, 2004 (canran o'r boblogaeth o oedran gweithio)



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu

2.17 O'i gymharu â'r DU gyfan, mae gan ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd gyfran lai o unigolion â'r lefelau uchaf o sgiliau, yn enwedig Lefel 4 ac uwch. Fodd bynnag, mae gan y rhanbarth cyfan grynhoed cymharol uchel o unigolion â chymwysterau Lefel 2 a chynrychiolaeth gymharol isel o unigolion â Lefel 1 o'i chymharu â'r DU. Yn bwysicach oll, mae gan ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (a Chymru gyfan) gynrychiolaeth uwch o unigolion heb unrhyw gymwysterau ffurfiol.

Ffigur 6. Set cymwysterau/sgiliau, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (DU=1)



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu

Gwella Gwybodaeth ac Arloesi ar gyfer Twf

Dadansoddiad o'r Bwlch Gwerth Ychwanegol yng Nghymru

2.18 Mae cynyddu cynhyrchiant, neu werth ychwanegol, fesul swydd yn hanfodol i sicrhau twf economaidd hirdymor a chynnydd mewn enillion⁹. Er mai'r prif reswm am y bwlch cyffredinol mewn gwerth ychwanegol yw gwerth ychwanegol is fesul swydd¹⁰, mae dadansoddiad manwl¹¹ o'r amrywiad mewn enillion (a all fod yn ddirprwy i werth ychwanegol¹²) ledled Prydain Fawr yn awgrymu mai'r tri ffactor canlynol sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwahaniaeth rhwng Cymru a'r cyfartaleddau ar gyfer Prydain Fawr:

- cymysgedd alwedigaethol a diwydiannol anffafriol a hirsefydledig gydag ychydig iawn o swyddi gwerth ychwanegol uchel, pa un a ydynt mewn pencadlysoedd cwmnïau ac adrannau Ymchwil a Datblygu neu mewn sectorau â gwobrau uchel fel gwasanaethau ariannol neu broffesiynol;
- proffiliau cymwysterau anffafriol yn y gweithlu cyfan, sy'n gysylltiedig â hyn;
- anallu i gael budd o effeithiau crynhoad cryf yn sgîl y ffaith bod trefi a dinasoedd Cymru yn gymharol fach a bod llawer o Gymru'n brin ei phoblogaeth ac yn bell o ganolfannau mawr.

2.19 Mae Ffigur 7 yn nodi canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn¹³. Dengys fod effeithiau crynhoad yn esbonio cyfran uwch o'r enillion is yng Nghymru nag ar gyfer unrhyw ran arall o Brydain Fawr¹⁴. Mae strwythur galwedigaethol anffafriol Cymru a'i lefelau sgiliau isel yn ffactorau hefyd.

2.20 Gellir cynhyrchu'r effeithiau crynhoad mwyaf effeithiol yn agos at fannau lle gwelir màs economaidd eisoes. Mae amcangyfrifon dangosol yn dangos mai o

⁹Mae gwerth ychwanegol fesul swydd ledled y DU ar ei hôl hi o gymharu â'r gwerth hwnnw mewn prif wledydd diwydiannol eraill ac ni ddylid tanamcangyfrif pwysigrwydd cynyddu cynhyrchiant er budd twf economaidd. Yn 1999, amcangyfrifwyd pe bai'r DU yn sicrhau perfformiad tebyg i'r UD, er enghraifft, byddai cynnyrch y pen dros £6,000 yn uwch.

¹⁰Cymru: *Economi yn Ffynnu* Strategaeth Datblygu Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru: <http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/publications/wave?lang=cy>

¹¹Rice, P a Venables, A, 2004, 'Spatial determinants of productivity analysis for the regions of Great Britain', *Papur Trafod CEP* Rhif 642. <http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp0642.pdf>

¹²Mae'r prif fesur a ddefnyddir yn yr ymchwil wedi'i seilio ar fynegai enillion sy'n mesur y gwahaniaethau gofodol mewn enillion gan reoli ar gyfer y strwythur galwedigaethol. Felly, mae'n adlewyrchu gwahaniaethau gofodol mewn cynhyrchiant.


¹³Rice, P a Venables, A, 2004, 'Spatial determinants of productivity analysis for the regions of Great Britain', *Papur Trafod CEP* Rhif 642.

¹⁴Mae pedwar prif ffactor yn esbonio'r gydberthynas rhwng crynadau a gwerth ychwanegol fesul swydd. Un o'r ffactorau hyn yw effeithiau technolegol anuniongyrchol a welir pan fo cwmnïau a leolir yn agos at gwmnïau eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau cysylltiedig yn arloesi ac yn rhoi technolegau newydd ar waith yn fwy effeithlon. Yr ail yw bod cwmnïau yn manteisio ar gostau masnachu a chludo is os oes ganddynt fynediad ehangach i gwsmeriaid a chyflenwyr. Y trydydd yw bod marchnadoedd llafur mwy o faint yn gweithio'n fwy effeithlon drwy leihau costau chwilio cyflogion a chyflogwyr o ganlyniad i'r gronfa fawr o ddarpar weithwyr ac mae mynediad ehangach yn arwain at farchnad fwy o faint sy'n golygu y gellir paru unigolion a chyflogwyr yn well. Y pedwerydd ffactor yw'r pwysau cystadleuol cryfach sy'n deillio o grynadau mwy o faint o ran cwmnïau ac unigolion gan arwain at welliannau mewn cynhyrchiant.

amgylch ffiniau dinasoedd y gellir cael y budd mwyaf ac y gall lleihau'r amser cyffredinol i'r cyrchfan i 30-40 munud o ganol màs critigol gael pedair gwaith yr effaith ar gynhyrchiant o'i gymharu â symud unigolyn o fewn 60-70 munud. O ran ardal y rhaglen Gydgyfeirio, mae hyn yn awgrymu mai buddsoddi yn y gwaith o wella cysylltiadau trafnidiaeth o ardaloedd fel Cymoedd De Cymru i Gaerdydd, Casnewydd ac Abertawe fydd yn cael yr effaith fwyaf ar gynhyrchiant. Bydd gwella hygyrchedd trafnidiaeth hefyd yn helpu i wella mynediad i swyddi ar gyfer y rhai â sgiliau is, y caiff mwy a mwy o gyfleoedd eu creu iddynt mewn gwasanaethau personol a manwerthu a leolir yn y canolfannau mwy o faint.

2.21 Mae'r buddiannau sy'n deillio o gynhyrchu màs economaidd drwy fuddsoddi mewn trafnidiaeth yn amrywio yn ôl diwydiant a gwelir y buddiannau mwyaf yn y sector gwasanaeth. Mae cynnydd o 10% yn lefel y crynhoad yn cael ei gysylltu â chynnydd o 1.29% mewn cynhyrchiant cyffredinol ar gyfartaledd yn y sector gwasanaeth o'i gymharu â 0.07% yn y sector gweithgynhyrchu. Mae dull Cymru o fynd i'r afael â datblygu economaidd yn ôl sectorau yn canolbwyntio ar sectorau gwasanaethau gwerth ychwanegol uwch a chynyddu cynhyrchiant ymhlith busnesau presennol yn ogystal â chreu amodau busnes i ddenu diwydiannau gwerth ychwanegol uwch i Gymru.

Ffigur 7. Dadansoddiad o Enillion (a) Gwahanredol (gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â chyfartaledd Prydain Fawr)



(a) Mae'r prif fesur a ddefnyddir yn yr ymchwil wedi'i seilio ar fynegai enillion sy'n mesur y gwahaniaethau gofodol mewn enillion gan reoli ar gyfer y strwythur galwedigaethol. Felly, mae'n adlewyrchu gwahaniaethau gofodol mewn cynhyrchiant.

Ffynhonnell: Rice a Venables, A, 2004, 'Spatial determinants of productivity analysis for the regions of Great Britain', Papur Trafod CEP Rhif 642

2.22 Nid yw goblygiadau crynadau yn syml, er i astudiaeth ddiweddar¹⁵ ddod i'r casgliad y gall buddsoddiad priodol mewn seilwaith trafndiaeth ddatblygu mäs economaidd a chael effaith gadarnhaol ar werth ychwanegol¹⁶. Drwy leihau amser a chostau symud, gall ymyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth gynyddu dwysedd a chynyddu cynnyrch fesul cyflogai. Mae systemau trafndiaeth yn dylanwadu ar agosatrwydd at gwmnïau eraill a marchnadoedd llafur, neu ba mor hawdd yw cysylltu â hwy. Mewn gwirionedd, gall trafndiaeth newid dwysedd trefol neu ddiwydiannol drwy sicrhau bod gweithgarwch ar raddfa fwy yn fwy hygyrch. Yn amlwg, gall buddsoddi mewn trafndiaeth gynhyrchu buddiannau crynhoad sy'n cynyddu cynnyrch economaidd. Er bod y sefyllfa drafnidiaeth yn cael ei nodi yn y fan hon mewn perthynas â chrynhoad, caiff ei disgrifio'n fwy manwl yn yr adran ddiweddarach *Gwneud Cymru'n Lle Deniadol i Fuddsoddi Ynddo ac i Weithio Ynddo*.

Strwythur Diwydiannol

2.23 Y strwythur diwydiannol yw'r ail ffactor arwyddocaol sy'n esbonio'r cynnyrch y pen is yng Nghymru. Dengys strwythur diwydiannol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd fod cynrychiolaeth gymharol uchel o ddiwydiannau sydd wedi dangos cyfraddau twf cymharol isel, fel diwydiannau cynhyrchu, a chynrychiolaeth gymharol isel o ddiwydiannau, fel gweithgareddau ariannol a busnes, sydd wedi gweld twf cymharol uchel yn ddiweddar ar lefel y DU¹⁷.

2.24 Mae Ffigur 8 yn dangos swyddi'r gweithlu sifil yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae maint y swigen yn dangos cyfran gyflogaeth y sector o'i chymharu â chyfanswm cyflogaeth y rhanbarth (po fwyaf yw'r swigen yr uchaf yw cyfran cyfanswm y gyflogaeth yn y sector). Mae safle'r swigen ar hyd yr echel lorweddol yn dangos crynhoad cymharol y sector yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y DU (mae'r sectorau i'r chwith o'r echel fertigol yn cael eu tangynrychioli yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd o'u cymharu â'r DU). Mae safle'r swigen ar yr echel fertigol yn dibynnu ar y newid mewn cyflogaeth ers 2000. Os yw sector wedi gweld cynnydd mewn cyflogaeth, bydd y swigen yn rhan uchaf Ffigur 8 ac os yw cyflogaeth yn y sector wedi gostwng, bydd y swigen yn yr hanner gwaelod.

2.25 Mae Ffigur 8 yn dangos yr orddibyniaeth ar ddiwydiannau sy'n dirywio. Er bod y sector yn fach mewn termau absoliwt, mae amaethyddiaeth wedi gweld gostyngiad sylweddol o ran swyddi'r gweithlu sifil ac mae'n cynrychioli cyfran gymharol uchel ohonynt. Mae'r sector cynhyrchu yn cynrychioli cyfran fawr o gyfanswm y gyflogaeth (16%) ond mae'r sector hwn wedi dirywio. Er bod newid diwydiannol yn digwydd ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, fel y dangosir gan gyflogaeth gynyddol mewn gweithgareddau'r sector gwasanaeth, mae'r sectorau hyn yn cael eu tangynrychioli o hyd o'u cymharu â sectorau eraill ac maent yn cyfrif am gyfran gymharol fach o gyfanswm y gyflogaeth. Mae *Cymru: Economi*

¹⁵ Rice, P a Venables, A, 2004, 'Spatial determinants of productivity analysis for the regions of Great Britain', *Papur Trafod CEP* Rhif 642.


¹⁶ Graham, D. (2005), "Wider economic benefits of transport improvements: link between agglomeration and productivity: Stage 1 report", Adran Drafnidiaeth y DU.

¹⁷ Ymchwiliad Busnes Blynyddol. Mae crynodeb ar gael yn:

<http://www.statistics.gov.uk/StatBase/Product.asp?vlnk=7381&Pos=1&ColRank=1&Rank=208>

yn Ffynnu¹⁸ yn nodi amrywiaeth o sectorau â gwerth ychwanegol uchel a/neu sydd â'r potensial i dyfu. Bydd datblygu'r sectorau allweddol hyn yn helpu i gynyddu cynnyrch y pen a rhoi hwb i brif GYC Cymru hefyd.

Ffigur 8. Swyddi'r Gweithlu Sifil yn ôl Diwydiant, Siartiau Swigod



Ffynhonnell: Ymchwiliad Busnes Blynnyddol, Arolwg o Gyflogaeth Fyrdymor ac Arolwg o'r Llafurlu

Arloesedd, Ymchwil a Datblygu ac Entrepreneuriaeth

2.26 I fusnesau unigol, gall datblygu cynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd neu well fod yn sbardun pwysig i sefydlu mantais gystadleuol. Y tu hwnt i'r buddiannau uniongyrchol hyn, gall arferion arloesol arwain at sgîl-fanteision i gymdeithas yn gyffredinol wrth i unigolion weithio mewn ffyrdd mwy effeithlon ac wrth i gynnyrch newydd gael eu creu¹⁹.

2.27 Mae'r gwariant cyffredinol ar ymchwil a datblygu yn cyfrif am 1.3% o GYC Cymru (nid oes data ar gael o dan y lefel hon). Mae'r gwariant hwn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y DU gyfan, gan adlewyrchu'r gwariant is ar ymchwil a datblygu yn y sector busnes yn bennaf. Yn 2003, roedd 55% o'r gwariant ar ymchwil a datblygu yn y sector busnes, sydd dipyn yn is na'r targed o 67% a bennwyd yn Strategaeth Lisboa. Unwaith eto, mae hyn yn adlewyrchu strwythur diwydiannol economi Cymru yn bennaf (gydag, er enghraifft, cynrychiolaeth gymharol isel o gwmnïau fferyllol â gwariant uchel ar ymchwil a datblygu), gan

¹⁸ Cymru: *Economi yn Ffynnu*, Strategaeth Datblygu Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

¹⁹ OECD, 2002 Competition, Innovation and Productivity Growth: A Review of Theory and Evidence.

mai dim ond ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer y DU y mae Cymru o ran llawer o fesurau arloesedd.

2.28 Gall defnydd priodol o TGCh gael effaith gadarnhaol ar gynhyrchiant busnes²⁰ drwy wella effeithlonrwydd a rheoli perfformiad. Mae'r Arolwg Blynyddol o Fusnesau Bach²¹ yn dangos bod busnesau bach a chanolig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn defnyddio llai o TGCh na busnesau ar draws y DU gyfan. Mae gan Gymru'r gyfradd mynediad i'r Rhynggrwyd isaf ond un²² ar gyfer unigolion o bob rhan o'r DU, a'r gyfradd isaf ond un o ran nifer y teuluoedd sydd â mynediad i'r rhynggrwyd yn eu cartrefi²³. Fodd bynnag, mae data ar fynediad i'r rhynggrwyd ledled yr UE²⁴ yn dangos bod gan gyfran uwch o gartrefi yn y DU fynediad i'r Rhynggrwyd na ledled yr UE25 cyfan (nid oes gan Eurostat ddata cymaradwy ar gyfer Cymru).

2.29 Gall Sefydliadau Addysg Uwch chwarae rhan gadarnhaol²⁵ yn y broses o drosglwyddo technoleg drwy gynnal ymchwil gydweithredol gyda'r sector preifat, busnesau newydd uniongyrchol a busnesau deilliedig. Yng Nghymru, cynhyrchwyd tua £50 miliwn o incwm yn sgîl ymchwil gydweithredol rhwng y sector AU a'r sectorau cyhoeddus a phreifat yn 2002-03²⁶. Mae sefydliadau addysg uwch hefyd yn chwarae rhan yn y broses o greu busnesau gyda 22 o gwmnïau deilliedig yn cael eu creu yn 2001-02 a thua £21 miliwn o drosiant yn cael ei gynhyrchu gan yr holl gwmnïau deilliedig gweithredol.

2.30 Yn ogystal ag annog arloesedd, gall diwylliant entrepreneuriaidd cryf fod yn ffactor pwysig wrth greu busnesau newydd ac ehangu busnesau sy'n bodoli eisoes²⁷. Er nad oes un mesur unigol o entrepreneuriaeth, gellir defnyddio'r brif lefel o gofrestriadau TAW i bob mil o unigolion o oedran gweithio fel dirprwy. Fel y dangosir yn Ffigur 9, mae gan ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd lefel is gyson o gofrestriadau TAW i bob mil o'r boblogaeth o oedran gweithio o'i gymharu â Chymru a'r DU gyfan.

²⁰ Rincon, A et al, 2005, The Productivity Impact of E-commerce in the UK, 2001: Evidence from Microdata: <http://www.niesr.ac.uk/pubs/searchdetail.php?PublicationID=548>

²¹ Mae rhagor o fanylion ar gael yn:

<http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/sbsreports06/?lang=cy>

²² Wedi'i mesur yn ôl cyfran yr oedolion a oedd wedi defnyddio'r Rhynggrwyd yn y tri mis cyn iddynt gael eu cyfweld. Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

²³ Data o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol


²⁴ Eurostat.

²⁵ Rodgers, E.M et al (2000) Assessing the Effectiveness of Technology Transfer Offices at U.S. Research Universities.

²⁶ Higher Education Funding Council for England, 2005, Higher Education Business and Community Interaction Survey: http://www.hefce.ac.uk/Pubs/HEFCE/2005/05_07/#exec

²⁷ OECD, 2002 Competition, Innovation and Productivity Growth: A Review of Theory and Evidence.

Ffigur 9. Cofrestriadau TAW i bob 1,000 o'r Boblogaeth o Oedran Gweithio



Ffynhonnell: Gwasanaeth Busnesau Bach

2.31 Mae dadansoddiad manwl yn ôl grŵp diwydiant yn helpu i esbonio'r gyfradd gymharol isel o gofrestrïadau TAW. Gwelir y cyfraddau uchaf yn niwydiannau'r sector gwasanaeth, fel gwestai, bwytai, gwasanaethau ariannol a busnes, gyda'r cyfraddau isaf yn cael eu gweld yn y diwydiannau cynhyrchu ac amaethyddiaeth. Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn dueddol o weld crynhoed uchel yn y sectorau diwydiant hynny lle mae cyfraddau cofrestru TAW yn is. Felly, mae strwythur diwydiannol yn cyfrif, i ryw raddau, am y lefel gymharol isel o gofrestrïadau TAW.

2.32 Mae'r Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang²⁸ yn ceisio mesur gweithgarwch entrepreneuriaidd ledled y byd. Mae'r mynegai Cyfanswm y Gweithgarwch Entrepreneuriaidd Cam Cynnar (TEA) yn nodi cyfran y boblogaeth o oedran gweithio sydd naill ai'n dechrau busnes neu wedi bod yn rhedeg busnes am 42 mis neu lai. Yn 2005, roedd gan ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd fynegai TEA o 5.2%, o'i gymharu â 5.25% ar gyfer Cymru gyfan a 6% ar gyfer y DU. Mae Cymru wedi'i graddio tua hanner ffordd o'i chymharu â rhanbarthau a gwledydd datganoledig y DU, gyda Llundain ar frig y raddfa (8.34%).

²⁸ Y Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang (GEM) yw un o'r prosiectau ymchwil gwyddor gymdeithasol rhyngwladol mwyaf yn y byd sy'n mesur ymagweddau a gweithgareddau entrepreneuriaidd unigolion mewn 35 o wahanol wledydd. Mae mesur allweddol gweithgarwch entrepreneuriaidd y Monitor, y mynegai TEA, yn mesur cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuriaidd cam cynnar a ddiffinnir fel cyfran yr unigolion o oedran gweithio sy'n dechrau busnes neu'n rhedeg busnes sy'n llai na 42 mis oed, naill ai ar eu cyfer hwy eu hunain neu ar gyfer eu cyflogwr. Mae rhagor o fanylion ar gael yn: <http://www.gemconsortium.org/>

2.33 Mae nifer yr ymchwilwyr yn ddirprwy defnyddiol ar gyfer nifer y bobl a gyflogir ym maes darparu gwasanaethau gwerth ychwanegol uchel a swyddogaethau ymchwil a datblygu. Mae gan ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd nifer is o ymchwilwyr mewn Sefydliadau Addysg Uwch i bob 10,000 o'r boblogaeth o'i gymharu â Chymru a'r DU gyfan. Yn ogystal, mae cyfran y rhai a gyflogir mewn diwydiannau gweithgynhyrchu uwch-dechnoleg a thechnoleg uwch ganolig a gwasanaethau uwch-dechnoleg gwybodaeth-ddwys yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ychydig yn is na'r cyfartaleddau ar gyfer y DU ac Ewrop, sef ychydig o dan 10% o gyfanswm y gyflogaeth yn yr is-ranbarth.

2.34 Gall masnachu nwyddau a gwasanaethau yn allanol fod yn elfen bwysig o berfformiad busnes.²⁹ Mae'r Arolwg Blynnyddol o Fusnesau Bach yn dangos bod 11% o fusnesau bach a chanolig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gwerthu nwyddau a gwasanaethau y tu allan i'r DU, o'i gymharu â 13% ledled Cymru gyfan ac 21% ledled y DU. Mae cwmnïau sy'n allforio yn dysgu o'r cwmnïau y maent yn gwerthu iddynt ac maent yn fwy tebygol o weld twf mewn cynhyrchiant o ganlyniad i hynny³⁰. Mae'r astudiaeth hon yn nodi methiant sylweddol yn y farchnad ac yn awgrymu lle i'r llywodraeth ymyrryd i oresgyn diffygion o ran gwybodaeth a allai fod yn rhwystr i allforwyr posibl.

Gwneud Cymru'n lle mwy Deniadol i Fuddsoddi Ynddo ac i Weithio Ynddo

Patrymau Trafnidiaeth a Theithio

2.35 Mae hygyrchedd yn elfen bwysig o apêl rhanbarthau. Yn ogystal â chynhyrchu buddiannau sy'n deillio o grynhoi, gall hygyrchedd o ran trafndiaeth hyrwyddo datblygu economaidd a chydlyniant tiriogaethol.

Y Rhwydwaith Trafnidiaeth

2.36 Mae'r rhwydwaith trafndiaeth yng Nghymru wedi esblygu dros amser, er mwyn symud cynnyrch amaethyddol i farchnadoedd yn y lle cyntaf, ac yna er mwyn symud cynnyrch diwydiant i gwsmeriaid. Mae'r dwysedd poblogaeth cymharol isel, yn enwedig mewn ardaloedd i ffwrdd o arfordir y gogledd a'r de, yn benderfynydd allweddol o ran natur y system drafndiaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd gyda phedwar prif goridor trafndiaeth yn rhannu rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ddwy ran, sef y coridorau sy'n rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin yng Ngogledd, Canolbarth a De Cymru a'r coridor sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de. Gwelir rôl allweddol y rhwydwaith TEN-T yn Ffigur 10, lle mae llwybrau'r TEN-T sy'n rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin yng ngogledd a de Cymru yn cysylltu busnesau â marchnadoedd mewn rhannau eraill o Gymru, Lloegr a thu hwnt. Mae'r llwybrau hyn hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth hwyluso teithiau i'r gwaith. Fel y mae'r data ar batrymau cymudo yn dangos, mae


²⁹ Mae masnach allanol yn cynyddu maint y farchnad bosibl ar gyfer gwerthu cynnyrch a phrynu cyflenwadau. Gall cynnydd yn y farchnad bosibl arwain at gynnydd mewn trosiant ac mae'n arwain at gynnydd yn yr enillion posibl yn sgîl arbedion maint. Gall cynnydd yn y farchnad bosibl ar gyfer cyflenwadau arwain at ostyngiad mewn prisiau cyflenwadau.

³⁰ CRESPI, G et al (2006) Productivity, exporting and learning by exporting hypothesis: Direct evidence from UK firms. Papur trafod CEP Rhif 726.

<http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp0726.pdf>

llawer o deithiau yn golygu cymudo rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.

Ffigur 10. Llifau Traffig



2.37 Mae perchnogaeth ac argaeledd ceir yn ffactor allweddol o ran teithio personol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, lle ceir darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus isel yn gyffredinol. Mae cyfran y teuluoedd heb gar wedi bod yn gostwng (o 32 y cant yn 1996 i 25 y cant ar hyn o bryd) a gwneir tua 70 y cant o'r holl deithiau personol yng Nghymru mewn car. Er hynny, bydd y teuluoedd hynny nad oes ganddynt gar, yn enwedig y rhai sy'n byw i ffwrdd oddi wrth y prif ganolfannau trefol, yn wynebu anawsterau gwirioneddol o ran manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a chael gafael ar wasanaethau allweddol.

2.38 Gwneir llai o ddefnydd o fysiau a choetsys yng Nghymru nag yn unrhyw ran arall o Brydain Fawr gyda 47 o deithiau i bob person y flwyddyn o'i gymharu â 59 ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol. Gwneir hyd yn oed llai o ddefnydd o'r rhwydwaith rheilffyrdd, sef llai na hanner y cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr, er bod rhai ardaloedd (rhwydwaith Cledrau'r Cymoedd er enghraifft) wedi gweld twf cyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r rhwydweithiau hyn yn golygu y gellir teithio i swyddi yn yr ardal arfordirol ffyniannus, yn cynnwys Caerdydd a Chasnewydd.

2.39 Mae'r seilwaith trafnidiaeth yn pennu mynediad cymharol i wasanaethau, yn cynnwys canolfannau cyflogaeth. Nodwyd y cysylltiad rhwng trafnidiaeth a chynnyrch y pen uchod (gweler "gwella gwybodaeth ac arloesi ar gyfer twf"). Fodd bynnag, gall trafnidiaeth gael goblygiadau pwysig o ran cynhwysiant cymdeithasol hefyd. Amlygir pwysigrwydd rhwydweithiau trafnidiaeth da drwy ddadansoddi patrymau cymudo. Dengys dadansoddiad o lifau cymudo yng Nghymoedd De Cymru³¹ fod all-lifau net mawr o unigolion sy'n cymudo at ddiben cyflogaeth, ac mae gan ardaloedd Cymoedd De Cymru rai o'r all-lifau net mwyaf, yn enwedig Rhondda Cynon Taf, Tor-faen a Chaerffili. Gwelir yr all-lifau net mwyaf i awdurdodau lleol Caerdydd a Chasnewydd. Bydd cynnal ac, o bosibl, gwella rhwydweithiau trafnidiaeth o fewn Cymoedd De Cymru ac i ardaloedd megis Caerdydd a Chasnewydd yn bwysig iawn o ran gwella'r cysylltiadau cyflogaeth rhwng rhai o'r rhannau tlotaf o Orllewin Cymru a'r Cymoedd ac ardaloedd lle mae'r farchnad lafur yn fwy bywiog.

Tueddiadau Demograffig

2.40 Gall patrymau demograffig ddatgelu pa mor ddeniadol, yn gymharol, yw ardal i unigolion³². Prif sbardun y twf yn y boblogaeth ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw mewnfudo net. Fodd bynnag, gwelir amrywiadau sylweddol o fewn y rhanbarth. Yn gyffredinol, mae allfudo net yn nodwedd o'r cymoedd uchaf³³, tra bod y rhan fwyaf o ardaloedd eraill, yn enwedig yr ardaloedd mwy gwledig, yn gweld mewnfudo net. Rhwng 2001 a 2004, yr unig Awdurdodau Lleol yng Nghymru a welodd allfudo net oedd Tor-faen, Blaenau Gwent a Merthyr Tudful, y mae pob un ohonynt yng nghymoedd uchaf De Cymru³⁴. Dylai polisïau trefol a rhanbarthol geisio denu pobl i'r un graddau o leiaf ag y maent yn denu cwmnïau³⁵ ac mae'r cwmp yn y boblogaeth yn peri risg sylweddol i gydlyniant cymdeithasol ac economïau lleol Cymoedd De Cymru o ganlyniad i'r cysylltiadau â cholli poblogaeth yn sgîl allfudo a chanlyniadau economaidd niweidiol³⁶.

³¹ ONS, 2005, Statistics on Commuting in Wales, 2004.

<http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/econ-2007/econ-2006/econ-2005/hdw20051130/?lang=cy>

³² Rhaid nodi bod patrymau ymfudo yn ffactor o wahanol ryngweithiadau, nid dim ond o apêl gymharol.

³³ A ddiffinnir fel Awdurdodau Lleol: Blaenau Gwent; Merthyr Tudful a Thor-faen.

³⁴ Rhaid nodi bod patrymau ymfudo yn ffactor o wahanol ryngweithiadau, nid dim ond o apêl gymharol.


³⁵ Glaeser. E (2004) Four Challenges for Scotland's Cities, Allander Series
<http://www.fraser.strath.ac.uk/Allander/AllanderPapers.htm>

³⁶ Mae'r rhain yn cynnwys mynediad cyfyngedig i farchnadoedd, mynediad cyfyngedig i dechnolegau arfer gorau, manteision aruthrol i ranbarthau twf uchel sy'n cystadlu, a/neu ddiffygion eraill o ran y farchnad yn cyfyngu ar ddatblygiadau yn y rhanbarth dan sylw, llai o

Tlodi ac Amddifadedd

2.41 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005 (MALIC)³⁷ yw'r mesur swyddogol o amddifadedd ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae amddifadedd yn gysyniad ehangach na thlodi. Mae mesurau tlodi'n ymwneud ag incwm, tra bod amddifadedd yn gysylltiedig ag ystod ehangach o broblemau a achosir gan ddiffyg adnoddau a chyfleoedd yn gyffredinol (nid dim ond arian). Mae MALIC 2005 yn cynnwys saith math gwahanol o amddifadedd³⁸. Mae Ffigur 11 yn crynhoi sgoriau cyffredinol amddifadedd yng Nghymru, gan ddangos mai ardaloedd o'r cymoedd uchaf sydd â'r crynhoad uchaf o amddifadedd cymharol yn gyffredinol.

Ffigur 11. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru



Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2005

gyfleoedd cyflogaeth sy'n arwain at allfudo hirdymor ymhlith y boblogaeth ifanc, medrus a/neu addysgedig. Feser. E a Sweeney. H (1999) Out-migration, population decline and regional economic distress. Yr Adran Cynllunio Dinesig a Rhanbarthol, Prifysgol Gogledd Carolina.

<http://www.urban.uiuc.edu/faculty/feser/PUBS/EDAdoc.pdf>

³⁷ I gael rhagor o fanylion, gweler: <http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/econ-2007/econ-2006/econ-2005/hdw20051130/?lang=cy>

³⁸ Incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, tai, mynediad i wasanaethau a'r amgylchedd.

2.42 Mae MALIC hefyd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am faterion yn ymwneud â mynediad i wasanaethau³⁹, yn cynnwys trafnidiaeth, gan fod y mynegeion yn cael eu mesur o ran yr amser a gymerir i gael gafael ar wasanaeth penodol. Mae'r math hwn o amddifadedd wedi'i ganoli yn ardaloedd gorllewinol Cymru yn hytrach nag yn y cymoedd, gan adlewyrchu natur wledig Gorllewin Cymru a phrinder canolfannau trefol lle byddai'r rhan fwyaf o wasanaethau lleol wedi'u lleoli.

2.43 Mae pwysigrwydd rhwydweithiau anffurfiol a ffurfiol yn berthnasol iawn, yn enwedig i unigolion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae goblygiadau amlwg yn gysylltiedig â hyn i Orllewin Cymru a'r Cymoedd o ystyried bod cyfran fawr o'r ardal yn wledig. Mae gan y rhai sydd o dan yr anfantais fwyaf gysylltiadau cryf â'u cymuned leol a gall y cymorth cymunedol hwnnw a mynediad lleol i hyfforddiant a chyfluoedd swyddi fod yn bwysig. Dangosodd astudiaeth ddiweddar o'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd yng Nghymru fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (75 y cant) a nododd eu bod am weithio yn y dyfodol naill ai 'Ddim yn Fodlon lawn' neu 'Ddim yn Fodlon o Gwbl' symud i ddod o hyd i swydd dderbyniol. Yn yr un modd, nododd 92 y cant o'r ymatebwyr yn y grŵp hwn mai dim ond yn y dref yr oeddent yn byw ynddi neu yn yr ardal gyfagos yr oeddent yn chwilio am waith. Mae hyn yn awgrymu bod gan y rhai sy'n anweithgar yn economaidd gysylltiad cryf â'u cymunedau lleol, a gall hyn arwain at broblemau o ran dod o hyd i swyddi'n lleol a darparu gwasanaethau i gynorthwyo'r rhai sydd o dan yr anfantais fwyaf i mewn i gyflogaeth a chynhwysiant cymdeithasol ehangach.

Yr Amgylchedd

2.44 Er bod nodweddion unigolion yn bwysicach wrth bennu canlyniadau economaidd⁴⁰, mae tystiolaeth am arwyddocâd 'lle' yn dangos bod apêl gyffredinol tref neu ranbarth yn gallu cael effaith sylweddol ar ganlyniadau economaidd y trigolion⁴¹. Yn ogystal, gall cefnogi datblygiad trefi a ranbarthau deniadol gynhyrchu effeithiau crynhoad, wrth i ardaloedd deniadol ddod yn lleoliadau poblogaidd i unigolion fyw, gweithio a buddsoddi ynddynt. Gall apêl ffisegol trefi a'u bröydd fod yn hanfodol wrth ddenu pobl fedrus a chefnog ac wrth hybu eu swyddogaethau fel canolfannau gwasanaethau lleol a chyrchfannau i dwristiaid. Gall nifer o ffactorau llai diriaethol fod yn bwysig hefyd, ansawdd bywyd ac agweddau cymunedol a diwylliannol yn arbennig. Gall amgylchedd o ansawdd uchel fod yn ffactor pwysig felly i sbarduno lles economaidd a chymdeithasol, yn ogystal â bod o les i'r cyhoedd ynddo'i hyn. Bydd cynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd yn dod yn gynyddol bwysig i'n heconomi ac i ansawdd bywyd, yn oes yr economi wybodaeth.

2.45 Mae ansawdd yr aer yn un o'r prif ddangosyddion amgylcheddol. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod gollyngiadau methan a pherfflwrocarbonau wedi

³⁹ Mae gwasanaethau'n cynnwys mynediad i siop fwyd, meddyg teulu, ysgolion, deintydd GIG, llyfrgell gyhoeddus a chanolfan hamdden. I gael rhagor o fanylion, gweler:

<http://www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/reportfolders.aspx>

⁴⁰ Gweler Durlauf, S, (2004). Neighbourhood Effects. *Handbook of Urban and Regional Economics*, Cyfrol 4, *Economics*, J. V. Henderson a J.-F. Thisse, gol; Mackay, S, 2003 Local Area Characteristics and Individual Behaviour. Is-adran Ymchwil Gymdeithasol, Yr Adran Gwaith a Phensiynau. Adroddiad mewnol 123.

⁴¹ Dynamic Small Towns: Identification of Critical Success Factors. Adroddiad ar gyfer y Panel Cynghori ar Ymchwil Economaidd 2002.

gostwng tra bod gollyngiadau hydrofflwrocarbon wedi cynyddu. Yr effaith drwyddi draw fu gostyngiad amcangyfrifedig o 3.6% mewn gollyngiadau o'r fasgedaid o nwyon tŷ gwydr o Gymru yn 2003.

2.46 Mae defnyddio adnoddau adnewyddadwy neu wastraff fel ffynhonnell ynni yn elfen bwysig o sicrhau gostyngiad mewn gollyngiadau nwyon tŷ gwydr. Gan mai dim ond 0.5% o'r holl ynni a ddefnyddir yng Nghymru sy'n dod o ffynonellau adnewyddadwy, mae'n amlwg y gellir gwneud cynnydd pellach a fydd yn helpu'r UE i gyfrannu at gyrraedd targedau Kyoto. Fodd bynnag, mae'r ffigur ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac ar gyfer Cymru gyfan yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr. Fel yr amlygwyd yn Adolygiad Ynni'r DU⁴², y man cychwyn ar gyfer sicrhau gostyngiad mewn gollyngiadau carbon yw arbed ynni (yr Adran Masnach a Diwydiant, 2006). Erys nifer o rwystrau i sicrhau bod pobl yn defnyddio ynni yn effeithlon o hyd yn cynnwys diffyg gwybodaeth ynglŷn â chostau a buddiannau, absenoldeb cymhellion priodol, a diffyg ysgogiad ymhlith defnyddwyr⁴³.

2.47 Disgwylir i'r sector rheoli ynni ac ynni adnewyddadwy fod yn un o'r prif sectorau twf o ran nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol ledled y DU. Caiff y twf hwn ei sbarduno gan bolisiau (megis cyrraedd targedau cytundeb Kyoto) ond hefyd gan gynnydd ym mhrisiau petrol a barn y cyhoedd ar ddefnyddio ynni adnewyddadwy⁴⁴. O ystyried y twf disgwyliedig yn y sector hwn, mae cyfleoedd ar gael i sicrhau'r twf mwyaf posibl tra'n lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd a manteisio ar unrhyw effeithiau economaidd cysylltiedig.

2.48 Yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg mapio diweddar⁴⁵, mae'r sector Nwyddau a Gwasanaethau Amgylcheddol (EGS) yng Nghymru (heb gynnwys Diwydiannau Tirlunio) yn cyfrif am tua 4% o ddiwydiant y DU gyda chyfran sylweddol uwch na'r cyfartaledd yn yr is-sectorau Ynni Adnewyddadwy, Ymgynghoriaeth Amgylcheddol, Adfer Tir, Monitro Amgylcheddol a Thechnoleg Lanach. Amcangyfrifir bod tua 1,000 o gwmnïau EGS sylfaenol⁴⁶ yng Nghymru a 320 o gwmnïau EGS eilaidd sy'n rhoi cyfanswm o 1,320 o gwmnïau yn gweithredu yn y sector EGS gyda thua 22,000 o gyflogeion. Mae'r sector EGS wedi tyfu'n gyflym yng Nghymru ers yr astudiaeth flaenorol yn 2002 pan nodwyd 725 o gwmnïau a oedd yn cyflogi 12,400 o staff, ac mae tua 90% o'r cwmnïau yn disgwyl gweld twf mewn trosiant gyda bron 20% yn rhagweld twf uchel.

⁴² Yr Adran Masnach a Diwydiant, 2006, The Energy Challenge, Adolygiad Ynni Llywodraeth y DU: <http://www.dti.gov.uk/files/file31890.pdf>

⁴³ Yr Adran Masnach a Diwydiant, 2006, The Energy Challenge, Adolygiad Ynni Llywodraeth y DU.

⁴⁴ Yr Adran Masnach a Diwydiant, 2006, Study of Emerging Markets in the Environment Sector

⁴⁵ Quantum Strategy and Technology, 2007 Mapping the Environmental goods and services sector in Wales.

⁴⁶ Gan ddefnyddio diffiniad yr UKFEI: cwmni EGS sylfaenol yw cwmni lle mae 50% neu fwy o'r trosiant blyneddol yn y farchnad EGS neu'r sector EGS yw prif ffocws y cwmni)

Dadansoddiad SWOT

2.49 Isod ceir crynodeb o'r dystiolaeth economaidd-gymdeithasol ar ffurf dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau). Mae'r dadansoddiad SWOT yn amlygu'r meysydd arbennig lle mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn sefyll allan am eu bod yn wahanol i weddill Cymru a'r DU gyfan, ynogystal â darparu meysydd allweddol lle gall ymyrraeth a dargedir gael yr effaith fwyaf.

Tabl 2. Dadansoddiad SWOT ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio ERDF

Cryfderau	Gwendidau
-Mae gwelliannau yn amodau'r farchnad lafur gyda chyflogaeth ar gynnydd ynghyd â diweithdra'n lleihau a gostyngiad mewn anweithgarwch economaidd yn dangos nad yw'r problemau'n anorchfygol. -Mae twf cyflogaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd bron ddwywaith y gyfradd ar gyfer Dwyrain Cymru ac yn uwch na lefelau'r DU a'r UE. -Cynnydd mewn cyflogaeth ymhlith merched gyda'r gyfradd gyflogaeth bresennol yn uwch na'r targed o 60% a bennwyd yn Agenda Lisboa. -Bwlch cyflog is rhwng y rhywiau o'i gymharu â'r DU gyfan, er bod y bwlch yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer yr UE o hyd. -Cyfran is o ddisgyblion yn gadael yr ysgol yn 16 oed heb ennill cymhwyster ffurfiol o'i chymharu â Chymru gyfan a'r DU gyfan. -Cynnydd yn yr incwm a grëir yn sgîl ymchwil gydweithredol rhwng sefydliadau addysg uwch a sefydliadau cyhoeddus a sefydliadau eraill yng Nghymru o'i gymharu â'r DU gyfan. -Cynnydd pedwarplyg yn nifer yr adrannau addysg uwch â gradd 5* yng Nghymru yn ôl yr Ymarfer Asesu Ymchwil (RAE) diweddaraf. -Mae amgylchedd naturiol o ansawdd da ym mron pob un ardal yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n ddeniadol i dwristiaid, ac a ddylai fod yn ddeniadol i	-CMC isel y pen o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU gyfan. -Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario sy'n llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU. -Er gwaethaf gwelliannau, mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd gyflogaeth is, anweithgarwch economaidd uwch a diweithdra uwch na Chymru a'r DU gyfan a chyfraddau uwch na'r UE. -Enillion is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU gyfan. -Mwy o achosion o iechyd gwael ynghyd â chyfran uwch o bobl yn dweud eu bod yn anweithgar yn economaidd oherwydd afiechyd. -Proffil sgiliau anffafriol, gyda chyfran uchel o unigolion heb sgiliau ffurfiol. -Cyfran is o ddisgyblion yn ennill pum TGAU neu fwy graddau A*-G neu gymwysterau galwedigaethol cyfatebol o'i chymharu â Chymru gyfan. -Cyfran is o ddisgyblion yn aros mewn addysg bellach yn 16 oed ynghyd â lefel cyrhaeddiad U/UG is o'i chymharu â Chymru gyfan a'r DU. -Cyfran uwch o bobl ifanc 19-21 oed heb unrhyw gymwysterau ffurfiol o'i chymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y DU. -Dibyniaeth uchel ar ddiwydiannau â gwerth ychwanegol isel, sy'n dirywio, yn cynnwys sectorau amaethyddiaeth a chynhyrchu. -Gwariant isel ar ymchwil a datblygu, yn

deuluoedd a buddsoddwyr mewn egwyddor. -Ansawdd bywyd da yn helpu i gynyddu mewn fudo net i mewn i Gymru. -Er mai dim ond 0.55% o'r holl ynni a ddefnyddir yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n dod o ffynonellau ynni adnewyddadwy, mae'r ganran hon yn uwch nag ar gyfer gweddill Cymru a'r DU.	enwedig ymchwil a datblygu yn y sector preifat. -Cyfraddau is o ran y defnydd o TGCh gan fusnesau o'u cymharu â'r DU gyfan. -Cyfraddau isel o entrepreneuriaeth a fesurir yn ôl cofrestriadau TAW. -Nifer fach o ymchwilwyr mewn sefydliadau addysg uwch. -Cyfran is o adrannau addysg uwch â gradd RAE 5* yng Nghymru o'i chymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y DU. -Bod rhai ardaloedd o Orllewin Cymru a'r Cymoedd yn anghysbell, gyda mynediad cymharol wael at farchnadoedd a gwasanaethau cyhoeddus. -Tagfeydd ar brif lwybrau mynediad i mewn i'r rhanbarth ac o fewn y rhanbarth. -Hygyrchedd trafnidiaeth gwael a dibyniaeth fawr ar gerbydau preifat. -Prinder safleoedd strategol i ddenu buddsoddwyr newydd. -Mae angen i lawer o rannau o Orllewin Cymru a'r Cymoedd wella'r ffordd y rheolir gwastraff a dŵr mewn ymateb i ddeddfwriaeth lymach gan yr UE yn y meysydd hynny. -Lefelau uchel o amddifadedd cyffredinol, yn cael eu sbarduno'n bennaf gan amddifadedd o ran incwm a chyflogaeth.
Cyfleoedd	Bygythiadau
-Cyfle i adeiladu ar gryfderau'r cylch blaenorol o Gronfeydd Strwythurol a chynyddu'r gallu adfywio yn y sectorau cymunedol, cyhoeddus a phreifat. -Potensial i adeiladu ar rwydweithiau sydd wedi'u sefydlu gyda sefydliadau addysg uwch a busnesau a'u datblygu ymhellach. -Potensial i gynyddu gweithgarwch ymchwil a datblygu a manteisio'n	-Effeithiau crynhoad gwannach o ran ymchwil a datblygu a llai o fusnesau deilliedig oherwydd sylfaen ymchwil a datblygu isel. -Llai o bobl yn manteisio ar ddatblygiadau newydd mewn TGCh ynghyd â chwmpas daearyddol gwael mewn rhai ardaloedd. -Diffyg gwybodaeth am fusnes mewn rhai ardaloedd.

fasnachol arno o fewn ardal y Rhaglen. -Cyfleoedd i fusnesau a chymunedau ddefnyddio mwy o TGCh. -Cyfleoedd i ddatblygu busnesau newydd. -Lle i ddarparu'r amgylchedd cywir a chyfalaf dynol ar gyfer arallgyfeirio economaidd. -Cyfleoedd i fuddsoddi mewn busnesau â photensial i dyfu. -Cyfleoedd i annog busnesau i fabwysiadu prosesau ac arferion newydd. -Lle i symud busnesau i fyny'r ysgol gwerth ychwanegol. -Potensial i gefnogi twf ym mhob un o'r 10 sector allweddol, y gwelir pob un ohonynt o fewn ardal y Rhaglen. -Cyfleoedd i fanteisio ar yr effeithiau anuniongyrchol o'r ardal Gystadleuol gyfagos sy'n fwy llewyrchus ac yn fwy deinamig. -Cyfleoedd i fanteisio ar gyfleoedd penodol yn y sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol sy'n tyfu, yn cynnwys y sectorau rheoli ynni, ynni adnewyddadwy a rheoli gwastraff. -Potensial i wella'r rhwydwaith trafnidiaeth a hygyrchedd a chysylltiadau o fewn y rhanbarth a rhwng rhanbarthau. -Cyfleoedd i ddatblygu eco-arloesedd a thechnolegau arloesol wrth gynhyrchu a defnyddio nwyddau mewn ffordd gynaliadwy. -Lle i wella'r lefelau sgiliau a chynyddu maint a dyfnder y gronfa lafur. -Potensial i adeiladu ar rwydweithiau cymunedol cryf lleol er mwyn sicrhau buddiannau parhaus yn sgîl buddsoddiad yn y seilwaith ffisegol a phobl.	-Amgylchedd ffisegol gwael iawn mewn rhai ardaloedd. -Mae angen lleihau gollyngiadau CO₂ Cymru er mwyn cadw at ymrwymadau'r DU o dan brotocol Kyoto. -Newid yn yr hinsawdd yn arwain at heriau posibl. -Llai o alw am unigolion â sgiliau lefel isel yn cael ei nodi fel achos pennaf anweithgarwch economaidd uwch yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Wrth i'r galw barhau i ostwng, mae problemaucymdeithasol yn magu gwreiddiau dyfnach. -Poblogaeth sy'n heneiddio yn arwain at gyfran gymharol is o unigolion o oedran gweithio (cymhareb ddibyniaeth uchel) a mwy o bwysau ar lawer o wasanaethau cyhoeddus (er bod angen gwell dealltwriaeth o batrymau ymfudo gan y gallai hynny wrthbwysu'r duedd naturiol tuag at heneiddio yn y boblogaeth). -Gostyngiad yn y boblogaeth yn y cymoedd uchaf wrth i unigolion ymfudo i rannau eraill o Gymru a Lloegr.
--	--

PENNOD 3: Y Strategaeth

Cyflwyniad

3.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r strategaeth gyffredinol ar gyfer Rhaglen Weithredol Gydgyfeirio ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'n ystyried yr heriau allweddol sy'n wynebu'r rhanbarth ac yn adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r rhain, gan gynnwys gyda chymorth y rhaglen Amcan 1 bresennol. Mae'r strategaeth yn nodi amcanion a blaenoriaethau'r rhaglen Gydgyfeirio newydd, gan esbonio sut y bydd y rhain yn cyfrannu at adfywiad parhaus economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac yn ysgogi twf. Fe'i datblygwyd yng nghyd-destun Canllawiau Integredig y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Twf a Swyddi⁴⁷ a Chanllawiau Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant 2007-2013⁴⁸. Mae'r strategaeth yn esbonio sut y bydd y rhaglen yn cyfrannu at ymateb cyffredinol y DU at agenda Lisboa ar gyfer swyddi a thwf, fel y'i nodir yn y Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol⁴⁹ a'r Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol (NSRF)⁵⁰. Mae hefyd yn esbonio sut y caiff y cronfeydd ERDF eu defnyddio i sicrhau'r potensial mwyaf posibl o ran twf a swyddi ac i ychwanegu gwerth at strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cefnogi datblygu economaidd cynaliadwy. Yn olaf, mae'r strategaeth yn nodi'r prif egwyddorion a fydd yn llywio'r gwaith o weithredu'r rhaglen newydd, gan gynnwys y rôl allweddol a chwaraeir gan bartneriaid ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Eir ati i ddatblygu'r rhaglen gan adlewyrchu prif egwyddorion polisi Cydlyniant yr UE, yn cynnwys partneriaeth, tryloywder, cyd-ariannu, gwerthuso, cymesuredd, datblygu rhanbarthol cynaliadwy, cyfle cyfartal a gwerth ychwanegol.

Cronfeydd Strwythurol Presennol yr UE 2000-2006

3.2 Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cael cymorth o dros £1.3bn (€1.8bn) o'r rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd o dan raglen Amcan 1 2000–2006. Ar y cyd ag arian cyfatebol o'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, mae dros 1,700 o brosiectau yn cael buddsoddiad sy'n dod i gyfanswm o fwy na £3.1 biliwn. O fewn y cyfanswm hwn, mae dros 920 o brosiectau yn cael cymorth ERDF gwerth tua £830m sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddyfodol busnesau, cymunedau ac unigolion ledled y rhanbarth. Mae'r Diweddariad o'r Gwerthusiad Canol Tymor (MTEU) o raglen Amcan 1 2000–2006⁵¹ yn amcangyfrif y bydd hyd at 40,500 o swyddi net newydd a 1,895 o fusnesau bach a chanolig net newydd wedi cael eu creu erbyn diwedd y cyfnod rhaglennu yn 2009. Ymhellach, bydd hyd at 84,800 o bobl ddi-waith neu bobl sy'n anweithgar yn economaidd wedi symud i mewn i gyflogaeth neu ddysgu pellach.

⁴⁷ Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi (2005–2008)

http://ec.europa.eu/growthandjobs/pdf/COM2005_141_en.pdf

⁴⁸ Polisi Cydlyniant i Gefnogi Twf a Swyddi: Canllawiau Strategol y Gymuned, 2007-2013

http://ec.europa.eu/comm/regional_policy/sources/docoffic/2007/osc/050706osc_en.pdf

⁴⁹ Strategaeth Lisboa ar gyfer Swyddi a Thwf: Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU, Hydref 2005
http://www.hmtreasury.gov.uk/documents/international_issues/european_economic_reform/int_li_sbonstrategy_jobs.cfm

⁵⁰ Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU: 2007–2013

<http://www.berr.gov.uk/files/file34769.doc>

⁵¹ Diweddariad o'r Gwerthusiad Canol Tymor ar gyfer Rhaglen Amcan 1 2000-2006, Adroddiad Terfynol, Rhagfyr 2005 gan Old Bell 3 ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://www.wefo.wales.gov.uk/resource/2005-12-23-O1-MTEU-Final-Report6586.pdf>

Mae Cronfeydd Strwythurol wedi chwarae rôl bwysig wrth ddatblygu economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gyfrannu'n sylweddol at y nod o sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy yn unol ag agendâu diwygio Lisboa a Göteborg.

3.3 Bydd y Rhaglen Gydgyfeirio ERDF newydd yn adeiladu ar y llwyddiant hwn ac yn dysgu o brofiad y rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2000-2006, o safbwynt ei ffocws strategol a'r trefniadau ar gyfer ei rhoi ar waith. Bydd y cyfnod nesaf o weddnewid economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn bwrw ymlaen ag ymyriadau presennol llwyddiannus, tra'n hybu ffyrdd newydd ac arloesol o weithredu. Nid rhagor o'r un peth fydd hi ond rhagor o'r gorau, gyda ffocws cryf ar wella natur gystadleuol busnesau a chyflogaeth. Caiff yr arian sydd ar gael ei neilltuo i adeiladu economïau a chymunedau parhaus a fydd yn ffynnu ac yn ysgogi twf economaidd cryf a chynaliadwy. Gwneir buddsoddiadau ar sail eu potensial ar gyfer y dyfodol a'r thema hon o feithrin gallu economaidd hirdymor – sy'n hanfodol ar gyfer swyddi a thwf – fydd y conglfaen o ran dyrannu adnoddau.

Heriau Strategol Allweddol

3.4 Dangosodd Pennod 2, y Dadansoddiad, fod economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gwella'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, gan barhau â'i gweddnewidiad o gyfnod hir o ddirywiad economaidd a welodd lawer o ddiwydiannau traddodiadol yn diflannu. Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud o hyd o ran lleihau gwahaniaethau economaidd â gweddill Cymru a'r DU, er mwyn sicrhau cydgyfeirio llawn â rhannau eraill o'r UE, ac i wireddu ein huchelgais i fod ar y blaen o ran datblygu economaidd.

3.5 Mae prif sefyllfa economaidd (a fesurir yn draddodiadol drwy GYC y pen o'r boblogaeth) Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar ei hôl hi o gymharu â Chymru a'r cyfartaledd ar gyfer UE25 ar ychydig yn is na 75% o gyfartaledd yr UE25. Mae dau brif ffactor yn helpu i esbonio tanberfformiad economaidd rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o'i gymharu â gweddill y DU: gwerth ychwanegol is fesul gweithiwr (cynhyrchiant) a chyfradd gyflogaeth is.

3.6 Esbonnir y gwerth ychwanegol is fesul gweithiwr ledled Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn rhannol gan gyfansoddiad diwydiannol yr is-ranbarthau yn hytrach na bod gweithwyr Cymru yn llai cynhyrchiol na'u cymheiriaid yn y DU a'r UE. Yn ogystal â hyn, mae trefi a dinasoedd Cymru yn weddol fach, ac mae llawer o Gymru yn brin ei phoblogaeth ac ymhell o brif ganolfannau sy'n golygu nad yw Gorllewin Cymru a'r Cymoedd mewn sefyllfa i fanteisio ar effeithiau crynhoi cryf. Mae ardal y Rhaglen yn methu'r nod hefyd pan gaiff ei meincnodi yn erbyn ffactorau allweddol eraill sy'n sbarduno natur gystadleuol. Er enghraifft, mae'r rhanbarth yn llusgo y tu ôl i'r DU o ran gwariant ar ymchwil a datblygu fel canran o GYC, yn bennaf oherwydd llai o ymchwil a datblygu ymhlith busnesau, a gellir priodoli hyn unwaith eto i strwythur diwydiannol yr economi yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Er bod agweddau mwy cadarnhaol tuag at entrepreneuriaeth yn cael eu gweld yng Nghymru, mae llai o fusnesau yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn defnyddio TGCh o'u cymharu â'r DU, sy'n rhagofyniad ar gyfer datblygu economi fwy datblygedig.

3.7 Mae ardal y Rhaglen hefyd yn dioddef o seilwaith traddodiadol annigonol. Gellir defnyddio trafnidiaeth i oresgyn y prinder crynadau mawr - drwy gysylltu

cymunedau presennol a hwyluso'r llif nwyddau a phobl yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Wynebier heriau o ran llifau traffig a thagfeydd cynyddol, yr angen i wella mynediad i wasanaethau allweddol a chanolfannau cyflogaeth a lleihau effeithiau amgylcheddol, yn enwedig gollyngiadau cerbydau. Mae topograffi'r rhanbarth hefyd yn golygu bod y gwaith o adeiladu ffyrdd a rheilffyrdd yn anodd ac mewn rhai achosion nid yw'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng cymunedau nad ydynt wedi'u lleoli'n bell oddi wrth ei gilydd wedi'u datblygu'n ddigonol, os o gwbl. Mae'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran datblygu economïau lleiniau arfordirol gogledd a de Cymru wedi tueddu i waethygu'r problemau trafnidiaeth hyn. Mae hyn yn arbennig o wir yn ne Cymru, lle gwelir llifau mawr o gymudwyr o'r Cymoedd i'r prif ganolfannau cyflogaeth ar hyd yr hyn a elwir yn goridor yr M4, sy'n rhoi pwysau mawr ar y rhwydwaith trafnidiaeth o fewn ardal y Rhaglen. Mae angen mynd i'r afael â'r her hon drwy ddatblygu atebion trafnidiaeth gynaliadwy i adlewyrchu'r patrymau teithio i'r gwaith o fewn y rhanbarth.

3.8 Felly, mae hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu ardal y Rhaglen fel sylfaen economaidd lewyrchus yn flaenoriaeth. Er mwyn hwyluso'r datblygiad hwnnw, mae angen i ardal y Rhaglen allu cynnig lleoliadau modern o ansawdd uchel sydd â chysylltiadau da mewn mannau deniadol. Mae angen mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth seilwaith sylfaenol, y cyflenwad o safleoedd ac adeiladau busnes, gwasanaethau, yn cynnwys carthffosiaeth a draeniad, yn ogystal â'r her a wynebier o ran dwyn ynghyd safleoedd o faint defnyddiadwy a allai fod o dan amlberchnogaeth. Gall y materion hyn gael eu hystyried yn rhwystrau gwirioneddol i fuddsoddwyr preifat.

3.9 Er gwaethaf gwelliannau sylweddol yn amodau'r farchnad lafur a thwf mewn enillion ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae'r gyfradd gyflogaeth ar draws yr is-ranbarth yn dal yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a'r DU. Esbonnir y rhan fwyaf o'r gwahaniaeth hwn gan anweithgarwch economaidd uwch. Y consensws yn y deunydd darllen economaidd yw mai gostyngiad yn y galw am weithwyr difedr sydd wrth wraidd anweithgarwch economaidd uchel. Mae gwella sgiliau'r boblogaeth o oedran gweithio ynghyd â dileu rhwystrau i gyfranogiad (iechyd gwael, mynediad i wasanaethau megis trafnidiaeth) yn bwysig iawn o ran gwella eu rhagolygon cyflogaeth. Eir i'r afael â hyn ymhellach yn y Rhaglen Gydgyfeirio ESF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.


3.10 Yn galonogol, er hynny, mae economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi dangos arwyddion clir o welliant yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda chymorth y Cronfeydd Strwythurol yn rhannol. Yn y farchnad lafur y gwelwyd y llwyddiant hwn amlycaf, ond mae wedi bod yn amlwg hefyd wrth ddatblygu busnesau'r sector preifat a gwella seilwaith y rhanbarth. Dengys y gwelliannau hyn fod modd gwneud cynnydd a bod cynnydd wedi'i wneud o ran goresgyn problemau economaidd a chymdeithasol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

Nod ac amcanion ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio ERDF

3.11 Pennwyd yr amcanion canlynol drwy archwilio'r heriau allweddol sy'n wynebu Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yng nghyd-destun cyflawni twf economaidd cynaliadwy. Mae'r dadansoddiad SWOT yn crynhoi'r prif heriau sy'n wynebu'r rhanbarth a'r prif gyfleoedd sydd ar gael dros y saith blynedd nesaf ac mae echelau blaenoriaethau'r rhaglen wedi'u pennu yn y cyd-destun hwn. Dylid

ystyried y rhaglenni ERDF ac ESF ar y cyd, fel ffordd o wireddu ein gweledigaeth o weld Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn dod yn rhanbarth bywiog, entrepreneuriaidd sydd ar y blaen ym maes datblygu economaidd cynaliadwy. Mae'r diagram canlynol (Ffigur 12) yn dangos sut mae'r prif heriau yn arwain at y Blaenoriaethau a ddewiswyd.

Ffigur 12. Cysylltiadau rhwng y prif Heriau a'r Blaenoriaethau



3.12 Nod cyffredinol y rhaglen Gydgyfeirio yw:

Sicrhau bod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn rhanbarth bywiog, entrepreneuriaidd sydd ar y blaen o ran datblygu cynaliadwy.

3.13 Amcanion y rhaglen ERDF yw :

- hyrwyddo economi gwerth ychwanegol uchel drwy wella gwybodaeth ac arloesi ar gyfer twf a chynyddu'r defnydd o TGCh;

- cryfhau'r economi drwy gynyddu maint ac ehangu ystod y stoc busnes a mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad mewn perthynas â chynghor busnes, gwybodaeth a chyllid;
- sicrhau bod gan y rhanbarth y seilwaith ffisegol sydd ei angen i ddatblygu economi fodern a chystadleuol a goresgyn diffygion 'crynhoi';
- creu amgylchedd busnes deniadol;
- adeiladu cymunedau cynaliadwy; a
- sicrhau bod y Rhaglen yn cael ei rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

3.14 Amcanion y rhaglen ESF gydategol yw:


- darparu sgiliau i bobl ifanc ar gyfer dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol;
- cynyddu cyflogaeth a mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd;
- gwella lefelau sgiliau a gwella hyblygrwydd y gweithlu; a
- moderneiddio a gwella ansawdd ein gwasanaethau cyhoeddus drwy gyflawni nodau *Creu'r Cysylltiadau*.

3.15 Bydd yr amcanion hyn yn ategu'r gwaith o gyflwyno agenda Lisboa ar gyfer twf a swyddi i bobl Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gyda chydberthnasau cydategol rhwng polisïau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r dystiolaeth gynyddol o newid yn yr hinsawdd a'i ganlyniadau ehangach yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau na chaiff twf economaidd ei weld ar draul galwadau cynyddol ar yr amgylchedd. Mewn rhanbarth sy'n ddibynnol ar danwydd ffosil ac sydd â seilwaith trafndiaeth gyhoeddus cyfyngedig, mae'n anorffod y bydd twf economaidd yn dueddol o arwain at gynnydd mewn gollyngiadau carbon drwy fwy o ddefnydd o ynni a mwy o drafndiaeth. Fodd bynnag, bydd y rhaglen yn ceisio gwrthbwysu'r rhain drwy roi amrywiaeth o fesurau ar waith - o gamau gweithredu a bennwyd ar gyfer y rhaglen megis hyrwyddo a datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel, i integreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol fel thema lorweddol. Bydd Cronfeydd Strwythurol yn ychwanegu gwerth drwy gefnogi camau gweithredu sy'n arwain at ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon a lleihau gollyngiadau carbon. Byddant yn gwneud hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i adeiladau a safleoedd newydd ac adeiladau a safleoedd a adnewyddwyd gyrraedd safonau uchel o ran perfformiad amgylcheddol, yn ogystal â gwella perfformiad amgylcheddol busnesau drwy fabwysiadu systemau rheoli amgylcheddol a hyrwyddo arloesedd ym maes technoleg lân sy'n defnyddio ynni yn effeithlon. Caiff buddsoddiad uniongyrchol yn y seilwaith amgylcheddol ei gyfeirio at gyflawni targedau ynni adnewyddadwy a gwella perfformiad y rhanbarth o ran rheoli gwastraff. Disgwylir i bob prosiect fynd i'r afael â'r thema cynaliadwyedd amgylcheddol drwy gynnig cyfleoedd priodol i fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol sy'n effeithio ar y rhanbarth a'r amgylchedd byd-eang ehangach.

Ymateb Polisi

3.16 Mae Rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol yn rhagweld y gweithredir dull mwy strategol o raglennu yn ystod y cyfnod 2007-2013, gyda pholisi Cydlyniant yr UE yn rhoi ffocws cryfach ar agendâu Lisboa a Göteborg ar gyfer twf, swyddi a datblygu cynaliadwy⁵². Mae Aelod-wladwriaethau wedi cymeradwyo "*Canllawiau Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant*"⁵³, sy'n rhoi fframwaith ar gyfer helpu i gyflawni amcanion Lisboa fel y'u diffinnir yn y Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi. Nid yw pob elfen o'r fframwaith hwn yn berthnasol i bob rhanbarth o'r UE ac mae'n rhaid i bob rhanbarth ddewis y cyfuniad mwyaf priodol o fuddsoddiadau er mwyn cyflawni'r agenda twf a swyddi, gan ystyried ei gryfderau a'i wendidau penodol.

Ffigur 13. Cysylltiadau rhwng y Rhaglen Weithredol, Canllawiau Strategol y Gymuned a'r Canllawiau Integredig



3.17 Yn ôl Canllawiau Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant, dylai rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yn y dyfodol fynd i'r afael â thair prif flaenoriaeth:

- Gwella apêl Aelod-wladwriaethau, rhanbarthau a dinasoedd drwy wella hygyrchedd, sicrhau lefel ddigonol o wasanaethau a'u bod o ansawdd digonol, a chynnal eu potensial amgylcheddol;

⁵² Common Actions for Growth and Employment: The Community Lisbon Programme, 20 Gorffennaf 2005 http://ec.europa.eu/growthandjobs/key/index_en.htm


⁵³ Community Strategic Guidelines on Economic, Social and Territorial Cohesion 2007-2013, Cyngor yr Undeb Ewropeaidd, 18 Awst 2006 http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/docoffic/2007/osc/1180706_en.pdf

- Annog arloesedd, entrepreneuriaeth a thwf yr economi wybodaeth drwy'r gallu i ymchwilio ac arloesi, yn cynnwys defnyddio technolegau gwybodaeth a chyfathrebu newydd;
- Creu mwy o swyddi a gwell swyddi drwy ddenu mwy o bobl i mewn i gyflogaeth, gwella hyblygrwydd gweithwyr a mentrau a chynyddu buddsoddiad mewn cyfalaf dynol.

3.18 Mae pob un o dri amcan Canllawiau Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant yn berthnasol i'r strategaeth Gydgyfeirio ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, lle y bydd buddsoddiadau yn canolbwyntio ar gamau gweithredu i hyrwyddo natur gystadleuol hirdymor, creu swyddi a datblygu cynaliadwy.

3.19 Mae amcanion a blaenoriaethau rhaglen Gydgyfeirio ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gyson â Strategaeth Lisboa a byddant yn cyfrannu'n uniongyrchol at *Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol gyffredinol y DU* sydd, yn ei thro, yn ymateb i'r *Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi*. Mae'r ymateb hwn yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig ag adeiladu sector busnes mentrus a hyblyg, hyrwyddo arloesedd ac ymchwil a datblygu, ehangu cyfleoedd i gaffael sgiliau, gwella rhagolygon cyflogaeth ar gyfer y rhai mwyaf difreintiedig a chynyddu arloesedd a hyblygrwydd o ran defnyddio ynni ac adnoddau.

Ffigur 14. Cyswllt rhwng amcanion Canllawiau Strategol y Gymuned a Blaenoriaethau'r Rhaglenni Cydgyfeirio ERDF ac ESF



3.20 Nodir cyfraniad y Cronteydd Strwythurol at y rhaglen ddiwygio hon yn *Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU (NSRF)*. Mae'r Fframwaith hwnnw yn rhoi fframwaith polisi i lywio'r gwaith o baratoi Rhaglenni Gweithredol yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Mae'n cynnwys dadansoddiad o gryfderau a

gwendidau economaidd y DU ac mae'n nodi'r strategaeth a ddewiswyd ar gyfer y rhaglenni Cydgyfeirio a Chystadleurwydd Rhanbarthol a Chyflogaeth ym mhob rhan o'r DU. Mae Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU yn cynnwys pennod ar wahân sy'n nodi'r strategaeth ar gyfer twf economaidd rhanbarthol yng Nghymru a blaenoriaethau'r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer y rhaglen Gydygyfeirio a'r rhaglen Cystadleurwydd Rhanbarthol. Mae'r Rhaglen Weithredol wedi'i halinio'n agos â'r fframwaith polisi hwn.

3.21 Cynlluniwyd y rhaglen i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer creu *rhanbarth bywiog, entrepreneuraidd sydd ar y blaen o ran datblygu cynaliadwy*. Y prif sbardunau o ran cyflawni hyn drwy'r rhaglen ERDF yw:

- helpu busnesau i symud yn barhaus i fyny'r gadwyn werth a chynyddu'r gwerth ychwanegol i bob swydd, gan godi cynhyrchiant ac enillion.
- creu amgylchedd deniadol y gall pobl fyw a gweithio a buddsoddi ynddo, yn cynnwys drwy adfywio'r cymunedau tlotaf.

3.22 Datblygwyd y fframwaith polisi rhanbarthol ar gyfer cefnogi datblygu economaidd yng Nghymru yng nghyd-destun *Cymru: Gwlad Well*⁵⁴, agenda polisi strategol ehangach Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn arbennig, rhaid i gamau gweithredu i hybu datblygu economaidd ddigwydd ochr yn ochr ag elfennau eraill o'r agenda strategol hon – sef gwella ansawdd bywyd i bawb drwy wella cyfiawnder cymdeithasol, yr amgylchedd, iechyd ac addysg, yn unol â *Chynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru – Dechrau Byw'n Wahanol*⁵⁵.

3.23 Nodir y strategaeth datblygu economaidd yn *Cymru: Economi yn Ffynnu*⁵⁶, a gyhoeddwyd yn 2006 i osod y fframwaith strategol ar gyfer rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007–2013, a'r rhaglen ERDF yn benodol. Y weledigaeth sydd ynddi yw economi fywiog sy'n gallu cyflawni twf cryf a chynaliadwy drwy ddarparu cyfleoedd i bawb. Nodau *Cymru: Economi sy'n Ffynnu* sy'n bwrw ymlaen ag Agenda Lisboa yw:

- cynyddu cyflogaeth drwy gefnogi creu swyddi ac ysgogi twf ledled Cymru;
- buddsoddi yn adfywiad cymunedau difreintiedig ac ysgogi twf economaidd ledled Cymru;
- helpu busnesau i dyfu a chynyddu gwerth ychwanegol i bob swydd, cynnyrch ac enillion drwy:
 - fuddsoddi mewn trafnidiaeth, TGCh a seilweithiau economaidd eraill;
 - denu mwy o swyddogaethau gwerth ychwanegol uchel i Gymru a chefnogi busnesau a sectorau sydd â photensial cryf o ran twf;

⁵⁴ *Cymru: Gwlad Well* Llywodraeth Cynulliad Cymru

<http://new.wales.gov.uk/publications/publicationsbytopic/sustaindeveloppubs/1559445/?lang=cy>

⁵⁵ *Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypubs/startlivedifferently/?lang=cy>

⁵⁶ *Cymru: Economi yn Ffynnu* Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/publications/wave?lang=cy>

- gwella'r sylfaen sgiliau a chyflwyno mwy o hyfforddiant yn ôl y galw sydd wedi'i deilwra i anghenion busnesau; a
- helpu busnesau i ddod yn fwy cystadleuol drwy gefnogi sbardunau twf busnes; entrepreneuriaeth, arloesedd, buddsoddi a masnach.
- sicrhau bod pob rhaglen a pholisi economaidd yn cefnogi datblygu cynaliadwy, yn arbennig drwy hybu cynhyrchu ynni glân a defnyddio adnoddau yn effeithlon.

3.24 Mae *Cymru: Economi yn Ffynnu* yn nodi dull o weithredu sy'n gweithio ar draws sectorau allweddol. Nodwyd y sectorau hyn drwy nifer o ffyrdd gwahanol. Yn y lle cyntaf, maent yn cynrychioli'r sectorau hynny lle y mae gan Gymru bresenoldeb sylweddol a chryfderau mewn diwydiannau sefydledig fel y diwydiant moduro ac awyrod. Nesaf, ceir sectorau 'sy'n dod i'r amlwg' lle gwelwyd twf cyflym yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Byddai'r diwydiannau creadigol, gwasanaethau ariannol a'r sectorau nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol yn disgyn i'r categori hwn. Ac yn olaf, ceir y sectorau hynny y gellir eu hystyried fel rhai mwy cyffredinol ac y gellir eu canfod mewn llawer o economïau modern ond y cânt eu hystyried fel rhai sy'n debygol o gael eu cynrychioli'n gryf yn y rhanbarth yn y dyfodol o ystyried materion fel tueddiadau demograffig. Byddai gofal cymdeithasol yn perthyn i'r grŵp olaf hwn.

3.25 Mae'r sectorau hefyd ar wahanol gamau o ran eu datblygiad a'u haeddfedrwydd. Mae rhai, fel y diwydiant moduro, yn dangos integreiddio fertigol cryf, yn gofyn am lefelau uchel o fuddsoddiad cyfalaf ac yn ddibynol iawn ar weithgarwch ymchwil a datblygu. Mae eraill yn cynnwys nifer fawr o gwmnïau annibynnol bach sydd wedi'u cysylltu'n benodol ag adnoddau naturiol y rhanbarth ac y gellid gwella'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y farchnad yn fawr drwy ddatblygu rhwydweithiau llorweddol cryfach - mae hamdden a thwristiaeth yn enghreifftiau da o sectorau ar y cam hwn. Ac eto mae eraill, y gallent ymddangos fel pe bai rhywfaint o gydlyniant rhyngddynt a'u bod yn rhannu nifer o fuddiannau cyffredin, yn cynnwys, mewn gwirionedd, nifer o is-sectorau a chwmnïau sy'n dangos cryn symudedd ac sy'n gweithredu'n annibynnol ar y cyfan. Byddai'r sector gwasanaethau ariannol yn perthyn i'r categori olaf hwn. Mae ffactorau cyffredin, fel mynediad i gyflenwad da o unigolion medrus yn rhagofyniad i gwmnïau bancio, yswiriant a buddsoddi ac eto maent yn aml yn cystadlu'n uniongyrchol yn erbyn ei gilydd yn y farchnad.

3.26 O ystyried natur wahanol y sectorau a'r cwmnïau a welir yn y sectorau hynny, mae'r Rhaglen wedi'i chynllunio i roi ymatebion integredig i anghenion y sectorau wrth iddynt godi, yn hytrach na nodi yn union pa ymyriadau y byddai disgwyl i sectorau penodol eu defnyddio o'r cychwyn. Er enghraifft, gall cwmnïau unigol yn y sector diwydiannau creadigol geisio cyngor a chymorth a buddsoddiad sydd ar gael drwy Flaenoriaeth 2 yn ogystal â defnyddio'r rhaglenni TGCh diweddaraf sy'n deillio o Flaenoriaeth 1 a chael eu cyd-leoli gyda mentrau tebyg i sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r rhyngweithio o fewn clystyrau.

3.27 Cydategir a chefnogir y Rhaglen Gyddyfeirio ERDF gan y Rhaglen Gyddyfeirio ESF a bydd y rhaglen honno'n cymryd arweiniad strategol oddi wrth

bolisiau strategol fel *Y Wlad sy'n Dysgu 2*⁵⁷ a *Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005*⁵⁸ sy'n bwrw ymlaen ag agenda dysgu gydol oes Cymru ac sy'n dangos ymrwymiad Cymru i gyflawni amcanion y *Strategaeth Gyflogaeth Ewropeaidd*⁵⁹. Ochr yn ochr â hyn, mae strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru sef *Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14-19*⁶⁰ yn mynd i'r afael yn benodol â'r gyfran uchel o ddisgyblion 16-18 oed sydd heb unrhyw gymwysterau ac nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, ac *Ymgeisio yn Uwch*⁶¹, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ymestyn mynediad i addysg uwch.

3.28 Mae *Cynllun Gofodol Cymru*⁶² yn darparu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer camau cydweithredol yn y dyfodol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid er mwyn sicrhau twf a datblygiad economaidd cynaliadwy ym mhob rhan o Gymru. Mae'n gosod gorwel o 20 mlynedd ar gyfer y datblygiad a'r buddsoddiad sydd eu hangen ar gyfer datblygu cynaliadwy mewn cymunedau ledled Cymru. Mae'n ystyried gwahaniaethau mewn lleoliadau a blaenoriaethau ac yn gofyn am gamau cydgysylltiedig yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, megis datblygu fframwaith adfywio yn ddiweddar ar gyfer Blaenau'r Cymoedd, fel rhan gydlynol o weithredu'r *Cynllun Gofodol* yng nghymoedd de Cymru, gan adeiladu ar eu cysylltiadau economaidd pwysig â rhannau eraill o dde-ddwyrain Cymru. Mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau trawsffiniol a rhynggranbarthol.

3.29 Cynllunio gofodol yw ystyried yr hyn a all ddigwydd a'r hyn a ddylai ddigwydd ac ymhle. Mae'n ymchwilio i'r ffordd y mae gwahanol bolisiau ac arferion yn rhyngweithio ar draws gofod rhanbarthol, gan bennu rôl lleoedd mewn cyd-destun ehangach. Mae'n mynd ymhell y tu hwnt i gynllunio defnydd tir 'traddodiadol' ac yn nodi fframwaith strategol i lywio datblygiad ac ymyriadau mewn polisiau yn y dyfodol, p'un a yw'r rhain yn ymwneud â rheoli cynllunio ffurfiol ar ddefnydd tir ai peidio. Y weledigaeth ar gyfer y *Cynllun Gofodol* yw:

"Byddwn yn cynnal ein cymunedau drwy fynd i'r afael â'r sialensiau sy'n codi yn sgîl newid yn y boblogaeth a newid economaidd; byddwn yn tyfu mewn ffyrdd fydd yn cynyddu ein gallu cystadleuol ac ar yr un pryd yn lledaenu ffyniant i ardaloedd llai breintiedig a lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol; byddwn yn gwella ein hamgylchedd naturiol ac

⁵⁷ Dogfen ymgynghori *Y Wlad sy'n Dysgu 2* Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ebrill 2006: http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/education_and_skills_consult/468573-wag/learning_country2?lang=cy

⁵⁸ *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005* Llywodraeth Cynulliad Cymru: <http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/401051?lang=cy>

⁵⁹ Y Strategaeth Gyflogaeth Ewropeaidd: http://ec.europa.eu/comm/employment_social/employment_strategy/index_en.htm

⁶⁰ *Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14-19* Llywodraeth Cynulliad Cymru: http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/extending_entitlement/?lang=cy a <http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/afairfutureforourchildren/servicepoverty/learningpathways14-19years?lang=cy>

⁶¹ http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/further_and_higher_education/reaching_higher/?lang=cy&ts=3


⁶² *Cynllun Gofodol Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru: <http://new.wales.gov.uk/about/strategy/spatial/?lang=cy>

adeiledig er ei fwyn ei hun ac am yr hyn a gyfranna at ein lles ni, a byddwn yn cynnal ein hunaniaeth unigryw."

3.30 O fewn hyn cydnabyddir nad yw'r un atebion yn gweddu i bob rhan o Gymru a rhoddir dulliau gweithredu gwahanol ar waith ar gyfer ardaloedd unigol y *Cynllun Gofodol*:

- **Gogledd-orllewin:** Amgylchedd naturiol a ffisegol o safon uchel sy'n cefnogi economi ddiwylliannol a seilir ar wybodaeth a fydd yn helpu'r ardal i gadw ei chymeriad unigryw, ac i gadw pobl ifanc a'u denu yn ôl a chynnal y Gymraeg;
- **Sir Ddinbych yn y Gogledd-ddwyrain:** Ardal sy'n manteisio ar y sbardunau economaidd bob tu i'r ffin, gan leihau anghydraddoldebau a gwella ansawdd ei hasedau naturiol a ffisegol;
- **Siroedd gorllewinol Canolbarth Cymru:** Byw a gweithio o ansawdd uchel mewn aneddiadau llai o faint o fewn amgylchedd gwych, gan ddarparu modelau deinamig o ddatblygu cynaliadwy gwledig, gan symud pob sector i weithgareddau sy'n ychwanegu gwerth uwch;
- **Y siroedd sy'n cynnwys cymoedd y De-ddwyrain:** Ardal arloesol a medrus sy'n cynnig ansawdd bywyd uchel – yn rhyngwladol ac eto yn neilltuol Gymreig. Bydd yn cystadlu yn rhyngwladol drwy gynyddu ei gwelededd byd-eang drwy gysylltiadau cryfach rhwng y Cymoedd a'r arfordir ac â'r DU ac Ewrop, gan helpu i ledaenu ffyniant o fewn yr ardal a chynnig buddiannau i rannau eraill o Gymru;
- **Bae Abertawe:** Ardal o dwf cynaliadwy cynlluniedig a gwelliant amgylcheddol, sy'n gwreiddu ei photensial, gyda chefnogaeth trafndiaeth integredig o fewn yr ardal ac yn allanol, ac yn lledaenu ffyniant i gefnogi adfywiad Gorllewin Cymru; a
- **Sir Benfro:** Cymunedau cryf a gefnogir gan economi gynaliadwy a seilir ar amgylchedd unigryw'r ardal, mynediad i'r môr a chyfleoedd twristiaeth.

Ffigur 15. Gweledigaeth y Cynllun Gofodol



3.31 Lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru "*Polisi Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru 2006*" ar gyfer ymgynghori arno ym mis Tachwedd 2006. Mae'r polisi hwn yn rhoi fframwaith ar gyfer hybu ymchwil wyddonol a thechnegol a chymhwyso ymchwil o'r fath i broblemau busnes, cynnyrch a gwasanaethau. Mae'r polisi'n canolbwyntio ar dri maes - agweddau ar Wyddorau Iechyd a Bywyd, technolegau ar gyfer economi carbon isel a gweithgareddau sy'n ategu adnewyddu economaidd a chymdeithasol parhaus. Bydd y Polisi Gwyddoniaeth yn hysbysu buddsoddiadau sy'n hybu ymchwil a datblygu gwyddonol a'r gwaith o'i fasnacheiddio fel rhan o'r strategaeth Gydgyfeirio ar gyfer Gwybodaeth ac Arloesi ar gyfer Twf. Ategir y datblygiadau a'r masnacheiddio hyn ymhellach gan "*Cynllun Gweithredu Arloesi Cymru*" sydd wedi'i ddiweddarau a gaiff ei gwblhau yn ystod ail hanner 2007⁶³.

3.32 Mae'r *Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru*⁶⁴ ar ei newydd wedd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu'r amgylchedd ymhellach fel sector

⁶³ Cynllun Gweithredu Arloesi Llywodraeth Cynulliad Cymru:
<http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/publications/actionplan?lang=cy>


⁶⁴ *Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru:
http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/environment_strategy/?lang=cy

economaidd cyflym ei dwf yn ei rinwedd ei hun, ac fe'i defnyddir i sicrhau bod ymyriadau Cronfeydd Strwythurol yn cael eu targedu er mwyn sicrhau cynnydd economaidd ac amgylcheddol ochr yn ochr â'r egwyddorion y cytunwyd arnynt yng Nghyngor Göteborg ac yn unol â hwy.

3.33 Yn *Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru*, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi ei pholisi ar gyfer gwella'r sector gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru, yn cynnwys ei wneud yn fwy hygrych, cydlynol, effeithiol ac effeithlon ac yn fwy ymatebol i anghenion unigolion, busnesau a chymunedau. Mae hyn yn un o nodweddion y Rhaglen Weithredol ESF ac, er mai dim ond cyfran fach o'r adnoddau ar gyfer yr ardal Gydgyfeirio a gaiff ei defnyddio, bydd yn gwneud cyfraniad pwysig i ddatblygu sgiliau rheolwyr gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys y sgiliau sydd eu hangen i arwain a rheoli rhaglen adfywio.

3.34 Yn ogystal â'r polisiau allweddol a amlinellir uchod, caiff y rhaglen Gydgyfeirio ei llywio gan ystod o bolisiau a strategaethau thematig eraill. Nodir y rhain ym Mhennod 4 mewn perthynas â Blaenoriaethau'r rhaglen. Mae'r map polisiau canlynol yn dangos y cysylltiadau rhwng y strategaethau a'r polisiau gwahanol i Gymru.

Ffigur 16. Map o Bolisiau Cymru (drosodd)



Canolbwyntio Adnoddau

3.35 Mae Canllawiau Strategol y Gymuned ar gyfer Cydlyniant yn tanlinellu pwysigrwydd canolbwyntio adnoddau, a hynny'n thematig ac yn ddaearyddol. Y nod yw canolbwyntio ar y buddsoddiadau y mae eu hangen er mwyn gwella natur gystadleuol hirdymor, creu swyddi a datblygu cynaliadwy. Bydd y rhaglen Gydgyfeirio yn canolbwyntio'n gryf ar ymyriadau sy'n cyfrannu at agenda twf a swyddi Lisboa, a gyflawnir drwy'r canlynol;

- Targed 79% o adnoddau'r rhaglenni ERDF ac ESF a 70% o'r adnoddau Cydgyfeirio ERDF ar gategorïau o fuddsoddiad a nodir yn Erthygl 9 ac Atodiad IV i Reoliad (UE) 1083/2006 dyddiedig 11 Gorffennaf 2006 fel rhai sy'n cefnogi amcanion y Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi, o'i gymharu â'r targed lleiaf o 60%;
- Sicrhau bod y rhaglen Gydgyfeirio yn cyfrannu at y blaenoriaethau perthnasol a nodir yn Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU;
- Canolbwyntio blaenoriaethau'r rhaglen yn unol â pholisïau a strategaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys Cymru: Economi yn Ffynnu, sydd wedi'i halinio'n agos â strategaethau Lisboa a Göteborg;
- Defnyddio'r sectorau allweddol a nodwyd yn Cymru: Economi yn Ffynnu i ganolbwyntio adnoddau'r rhai hynny sydd â'r potensial i weld twf sylweddol, yn enwedig ERDF blaenoriaeth 2 (ac ESF blaenoriaeth 3);
- Defnyddio fframwaith Cynllun Gofodol Cymru i dargedu adnoddau ar feysydd lle bo angen a chyfle;
- Gweithredu'r rhaglen drwy Fframweithiau Strategol er mwyn sicrhau bod gweithgarwch prosiectau yn canolbwyntio ar amcanion allweddol y rhaglen ac yn cael ei gydlynu'n effeithiol; a
- Meithrin synergeddau â pholisïau eraill yr UE a pholisïau cenedlaethol ar lawr gwlad.

3.36 Nodir manylion y dyraniadau ariannol ym Mhennod 7, ond, yn gryno, mae Blaenoriaeth 1, sy'n ganolog i gyflawni'r weledigaeth hon, yn dangos mwy o ddyraniad. Mae cynnydd hefyd o ran gwariant ar yr amgylchedd, ynni a seilwaith, er bod newid mewn pwyslais o ran seilwaith tuag at drafnidiaeth ac ynni, gan adlewyrchu asesiad y Comisiwn Ewropeaidd o Raglen Ddiwygio Genedlaethol y DU, yn ogystal â cham tuag at ynni adnewyddadwy gan gydnabod heriau newid yn yr hinsawdd. Caiff gwariant ym maes adfywio a datblygu cymunedol ei leihau a cheir newid pwyslais i adlewyrchu pwysigrwydd ymyriadau sy'n cyfrannu'n fwy uniongyrchol at swyddi a thwf.

Fframwaith y Blaenoriaethau

3.37 Yn unol ag agenda'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer symleiddio rhaglennu a gweithredu Cronfeydd Strwythurol, caiff y rhaglen Gydgyfeirio newydd ei rhoi ar waith Drwy strwythur symlach, a fydd yn cynnwys Rhaglenni Gweithredol ERDF ac ESF ar wahân. Bydd y Rhaglen ERDF yn cynnwys fframwaith o bum prif flaenoriaeth, ynghyd â blaenoriaeth Cymorth Technegol. Ni fydd unrhyw raglennu 'ar lefel mesurau', er y bydd pob blaenoriaeth yn cynnwys nifer o 'Themâu' penodol a ddefnyddir i sicrhau ymagwedd gytbwys at weithredu. Y pum blaenoriaeth yw:

ERDF Blaenoriaeth 1: Datblygu'r Economi Wybodaeth

3.38 Amcan y flaenoriaeth hon yw hyrwyddo economi gwerth ychwanegol uchel drwy wella gwybodaeth ac annog arloesedd. Bydd yn meithrin gallu busnesau i ddod yn fwy arloesol, i ddatblygu ac i ddefnyddio cynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd a gwell. Gwneir hyn drwy ddatblygu galluedd ymchwil, technoleg ac arloesi ynghyd â'r gallu i fasnacheiddio a manteisio ar ymchwil. Bydd hyn hefyd yn galluogi busnesau i dyfu ac i wella eu natur gystadleuol a'u cynhyrchiant drwy ddatblygu technoleg, yn cynnwys lledaenu a defnyddio technoleg Gwybodaeth a Chyfrifiaduron.

3.39 Gyda lefel isel o wariant ar ymchwil a datblygu gan fusnesau o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU, mae angen eu hannog i gydweithio er mwyn creu 'effaith grynhoi rithwir'. Caiff addysg uwch, addysg bellach a busnesau eu hannog i gydweithio er mwyn hybu datblygu, trosglwyddo a masnacheiddio technoleg, ac i gynyddu eu mynediad i Raglen Fframwaith 7 yr UE. Un o'r meysydd lle mae Cymru ar y blaen yn y farchnad yw'r sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, a bydd y gwaith o ddatblygu'r sector hwn yn helpu Cymru i wynebu heriau newid yn yr hinsawdd, gan ddatblygu marchnadoedd ar gyfer technolegau amgen ac ynni adnewyddadwy. Mae dwysedd busnes isel yn cyfyngu mynediad i farchnadoedd a chyfleoedd ar gyfer rhwydweithio, ac yn cyfrannu at CMC is. Yn unol â'r strategaeth a nodir yn *Cymru: Economi yn Ffynnu*, targedir sectorau sydd â photensial ar gyfer twf uchel. Mae defnyddio manteision Cymdeithas Wybodaeth yn arbennig o berthnasol ar gyfer y rhanbarthau hynny ar gyrion prif economïau megis Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yn ogystal â'r ardaloedd mwy gwledig ac anghysbell eraill o fewn rhanbarthau.

3.40 Bydd y themâu o dan y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar:

- Adeiladu galluedd ymchwil, technoleg ac arloesi'r rhanbarth a'i allu i fasnacheiddio a manteisio ar ganlyniad ymchwil a syniadau drwy feithrin ymchwil, technoleg ac arloesi;
- Hybu cynhyrchiant drwy gynyddu'r defnydd o fuddiannau Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a'r galw amdanynt a darparu seilwaith TGCh wedi'i dargedu.

3.41 Mae Tabl 3 yn dangos sut y bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at

gategoriâu 1, 3, 4, 7, 11, 13 ac 14 o'r categorïau buddsoddiad Cronfeydd Strwythurol a nodir yn Erthygl 9 ac Atodiad IV i Reoliad (CE) 1083/2006.

Tabl 3. Cyfraniad ERDF Blaenoriaeth 1 at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU

	Cyfraniad y Flaenoriaeth at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU
Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi	C7: Cynyddu a gwella buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu C9: Hwyluso arloesi a manteisio ar TGCh C10: Cryfhau mantais gystadleuol y sylfaen ddiwydiannol Ewropeaidd
Canllawiau Strategol y Gymuned	C1.2.1: Cynyddu buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu a'i dargedu'n well C1.2.2: Hwyluso arloesi a hybu entrepreneuriaeth C1.2.3: Hybu'r gymdeithas wybodaeth i bawb
Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU	3.45-3.53 Cynyddu buddsoddiad busnes mewn ymchwil a datblygu ar arloesi 3.27-3.28 Cynyddu'r defnydd o TGCh
Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU	Hybu economi yng Nghymru sy'n ychwanegu gwerth uchel (183)

ERDF Blaenoriaeth 2: Gwella Natur Gystadleuol Busnesau

3.42 Ffactor arall sy'n cyfrannu at berfformiad economaidd gwael Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yw'r gwerth ychwanegol is fesul gweithiwr, y gellir ei esbonio i raddau gan strwythur diwydiannol hanesyddol y rhanbarth. O ran cynnyrch y pen, nid yw unigolion yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn llai cynhyrchiol na'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, unwaith eto o ganlyniad i strwythur diwydiannol ardal y Rhaglen, mae llai o fusnesau yn cael ei sefydlu yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd; mae ardal y Rhaglen yn gyfoethog o ran y sectorau hynny fel gweithgynhyrchu ac amaethyddiaeth sydd â rhwystrau cymharol uchel o ran mynediad a chyfraddau cynhyrchiant isel, sy'n arwain at lefel is o entrepreneuriaeth ac arallgyfeirio ar y cyfan.

3.43 Mae *Cymru: Economi yn Ffynnu* yn nodi deg sector sy'n cael eu cydnabod yn eang fel rhai pwysig ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol sef: moduro; awyrofod; bwyd-amaeth⁶⁵; uwch-dechnoleg; cynnyrch fferyllol/bio-gemegau; gwasanaethau ariannol; diwydiannau creadigol; adeiladu; lletygarwch, hamdden a thwristiaeth; a gofal cymdeithasol. Mewn rhai achosion, fel y diwydiant moduro, mae gan Gymru ganolfannau arbenigedd sefydledig neu, yn achos lletygarwch, twristiaeth a hamdden mae'r canolfannau wedi'u datblygu ar sail manteision naturiol y rhanbarth. Mae sectorau eraill, fel gwasanaethau ariannol a'r diwydiannau creadigol, wedi dangos twf cryf yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae gan bob un o'r deg sector botensial cryf i dyfu. Yn ogystal, ceir nifer o sectorau eraill a chlystyrau o bwys i ddatblygu economi gynaliadwy, gan

⁶⁵ Ni fydd prosesu sylfaenol mewn perthynas â chynnyrch amaethyddol yn gymwys i gael cymorth o dan y rhaglen ERDF.

gynnwys y sector ynni a sectorau sy'n ymwneud â'r amgylchedd. Gallai fod yn bosibl nodi sectorau pellach yn dilyn dadansoddiad manylach o newidiadau yn sectorau a strwythur economi Cymru, fel y sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol y cyfeirir ato uchod.

3.44 Felly, amcan y flaenoriaeth hon yw cryfhau'r economi drwy gynyddu maint ac ehangu ystod y stoc busnes a mynd i'r afael â methiannau'r farchnad mewn perthynas â chynghor, gwybodaeth a chyllid i fusnesau.

3.45 Bydd y themâu o dan y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar:

- Gefnogi entrepreneuriaeth a helpu busnesau i dyfu ac ehangu, a chefnogi a chyflymu allforion Cymru;
- Gwella mynediad i gyllid busnes mewn meysydd a dargedir yn glir.

3.46 Mae Tabl 4 yn dangos sut y bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at gategoriâu 5 a 9 o gategoriâu buddsoddiad y Cronfeydd Strwythurol a nodir yn Erthygl 9 ac Atodiad IV i Reoliad (CE) 1083/2006.

Tabl 4. Cyfraniad ERDF Blaenoriaeth 2 at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU

	Cyfraniad y Flaenoriaeth at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU
Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi	C10: Cyfrannu at sylfaen ddiwydiannol Ewropeaidd gref. C15: Hybu diwylliant mwy entrepreneuriaidd a chreu amgylchedd cefnogol ar gyfer busnesau bach a chanolig
Canllawiau Strategol y Gymuned	C1.2.2 Hwyluso arloesi a hybu entrepreneuriaeth C1.2.4. Gwella mynediad i gyllid
Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU	3.19-3.24 Hybu entrepreneuriaeth Gwella mynediad i gyllid 3.25 Gwella mynediad i gyllid
Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU	Creu amgylchedd busnes deniadol (184)

ERDF Blaenoriaeth 3: Datblygu'r Seilwaith Strategol ar gyfer Economi Fodern

3.47 Nod y Flaenoriaeth hon yw sicrhau bod gan y rhanbarth y seilwaith ffisegol sydd ei angen i ddatblygu economi fodern a chystadleuol.

3.48 Ffactor arall sy'n cyfrannu at dwf economaidd is yw diffyg effaith 'grynhoed' yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Tra bod rhanbarthau eraill yn manteisio ar y màs economaidd a gynhyrchir gan ardaloedd trefol mwy o faint, sef dinasoedd yn aml, mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd boblogaeth fwy gwasgaredig, sy'n byw yn aml mewn ardaloedd gwledig. Mae trefi a dinasoedd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn llai o faint ac wedi'u lleoli ymhellach o

ganolfannau mawr. Gall yr effeithiau crynhoi hyn gael eu hysgogi drwy fuddsoddi'n briodol mewn system drafndiaeth effeithlon ac effeithiol, gan hwyluso symud nwyddau a phobl a gwneud trefi a phentrefi yn amgylcheddau hygyrch a deniadol. Mae'r nodweddion hyn hefyd yn bwysig o ran apêl ardal y Rhaglen i fuddsoddiad y sector preifat lle y gall costau gwirioneddol fod yn fwy na'r enillion a ragwelir. Mae tystiolaeth bod ardal y Rhaglen wedi colli buddsoddiadau symudol am y rheswm hwn. O dan yr amgylchiadau hyn, mae achos dros fuddsoddi arian cyhoeddus yn y seilwaith economaidd yn cynnwys trafndiaeth a safleoedd ac adeiladau, er mwyn i'r arian hwnnw weithredu fel catalydd ar gyfer buddsoddiad o'r fath a'r buddiannau economaidd a welir yn sgîl hynny. Gall buddsoddi mewn safleoedd ac adeiladau gael effeithiau sylweddol ar gyflogaeth ac adfywio hefyd, os caiff ei dargedu'n gywir.

3.49 Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar gryfhau seilwaith economaidd strategol y rhanbarth, gan gynnwys trafndiaeth, safleoedd ac adeiladau a buddsoddiadau wedi'u targedu yn y seilwaith dysgu.

3.50 Bydd y themâu o dan y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar:

- Gefnogi atebion trafndiaeth gynaliadwy i hybu crynhoi a chynyddu hygyrchedd marchnadoedd;
- Cefnogi'r seilwaith strategol yn cynnwys buddsoddiadau wedi'u targedu mewn safleoedd ac adeiladau a'r seilwaith addysgol.

3.51 Mae Tabl 5 yn dangos sut y bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at gategorïau 9, 16, 21, 24, 26, 30, 50, 52 A 75 o gategorïau buddsoddiad y Cronfeydd Strwythurol a nodir yn Erthygl 9 ac Atodiad IV i Reoliad (CE) 1083/2006.

Tabl 5. Cyfraniad ERDF Blaenoriaeth 3 at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU

	Cyfraniad y Flaenoriaeth at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU
Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi	C10: Cryfhau mantais gystadleuol y sylfaen ddiwydiannol Ewropeaidd C16: Ehangu a gwella'r seilwaith Ewropeaidd C18: Hybu ymagwedd cylch bywyd tuag at waith C19: Gwella apêl gwaith C23: Ehangu a gwella buddsoddiad mewn cyfalaf dynol C24: Addasu systemau addysg a hyfforddiant
Canllawiau Strategol y Gymuned	C1.1.1 Ehangu a gwella seilweithiau trafndiaeth C1.1.2 Cryfhau'r synergeddau rhwng diogelwch amgylcheddol a thwf. C1.3.1 Denu a chadw mwy o bobl mewn cyflogaeth a moderneiddio systemau diogelwch cymdeithasol. C1.3.3 Cynyddu buddsoddiad mewn cyfalaf dynol

	drwy addysg a sgiliau gwell
Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU	2.23-2.25. Cynnal yr economi drwy ddarparu atebion trafndiaeth rhynggranbarthol effeithlon a dibynadwy a gwella hygyrchedd 3.91-3.102 Diogelu'r amgylchedd drwy roi atebion trafndiaeth gynaliadwy ar waith 3.79-3.90 Darparu llwybrau mwy hyblyg drwy addysg a hyfforddiant.
Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU	Hybu economi yng Nghymru sy'n ychwanegu gwerth uchel (183)

ERDF Blaenoriaeth 4: Creu Amgylchedd Busnes Deniadol

3.52 Nod y flaenoriaeth hon yw hwyluso'r broses o addasu i newid yn yr hinsawdd a gwella effeithlonrwydd adnoddau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau twf cynaliadwy a gwelliant amgylcheddol drwy ddarparu ynni glân ac adnewyddadwy, cyfleusterau rheoli gwastraff gwell, lleihau risgiau amgylcheddol a hybu twf sectorau diwydiannau perthynol.

3.53 Mae amgylchedd deniadol o ansawdd yn chwarae rhan allweddol o ran annog busnesau i fuddsoddi ac o ran denu pobl i fyw a gweithio mewn ardal. Mae hyn o bwysigrwydd cynyddol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd lle mae rhai ardaloedd gwledig yn gweld mewnfudo. Mae cadw a gwella'r ased allweddol hwn yn sbardun pwysig ar gyfer twf economaidd ac economi gynaliadwy yn ogystal ag ansawdd bywyd. Ceir cryn botensial i wella a hybu rheolaeth gynaliadwy ar yr adnoddau hyn mewn ffordd a fydd yn creu cyfleoedd swyddi ac yn gwella amodau economaidd-gymdeithasol cymunedau lleol. Caiff ffyrdd o fyw iachach eu hybu drwy hyrwyddo gweithgarwch hamdden sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol a thrwy ddarparu mynediad i fannau gwyrdd mewn ardaloedd trefnol. Bydd y mentrau hyn yn helpu ymdrechion i leihau gordewdra sydd, yn yr un modd â llawer o wledydd datblygedig eraill, yn broblem gynyddol yn y rhanbarth.

3.54 Bydd y flaenoriaeth hon yn hybu'r gwaith o ddiogelu a gwella'r amgylchedd ac yn helpu i ymateb i risg amgylcheddol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ynni glân ac adnewyddadwy ac annog effeithlonrwydd ynni, cefnogi mentrau rheoli gwastraff, a manteisio ar botensial economaidd asedau dŵr morol a mewndirol y rhanbarth.

3.55 Bydd y themâu o dan y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar:

- Gynyddu'r cyflenwad o ynni glân ac adnewyddadwy, tra'n rheoli'r galw am ynni hefyd;
- Rheoli a lliniaru risg amgylcheddol a datblygu'r seilwaith amgylcheddol;
- Hybu'r amgylchedd fel sbardun ar gyfer twf economaidd.

3.56 Mae Tab 6 yn dangos sut y bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at

gategoriâu 6, 33, 39, 40, 41, 42, 43, 44, 49, 54, 55 a 56 o gategoriâu buddsoddiad y Cronfeydd Strwythurol a nodir yn Erthygl 9 ac Atodiad IV i Reoliad (CE) 1083/2006.

Tabl 6. Cyfraniad ERDF Blaenoriaeth 4 at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU

	Cyfraniad y Flaenoriaeth at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU
Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi	C11 Hybu'r defnydd cynaliadwy o adnoddau a chryfhau'r synergeddau rhwng diogelwch amgylcheddol a thwff C16: Ehangu a gwella'r seilwaith Ewropeaidd
Canllawiau Strategol y Gymuned	C1.1.2 Cryfhau'r synergeddau rhwng diogelwch amgylcheddol a thwff C1.1.3 Mynd i'r afael â'r defnydd dwys a wneir o ffynonellau ynni traddodiadol gan wledydd Ewrop.
Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU	3.82–3.91 Diogelu'r amgylchedd drwy ddefnyddio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy ac arloesol.
Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU	Hybu economi yng Nghymru sy'n ychwanegu gwerth uchel (183)

ERDF Blaenoriaeth 5: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy

3.57 Mae ymddangosiad ffisegol yr amgylchedd adeiledig ochr yn ochr ag argaeledd amwynderau yn cael eu cydnabod fel ffactorau sy'n gwneud lleoedd yn ddeniadol i fyw a gweithio ynddynt. Bydd buddsoddi mewn codi ansawdd asedau ffisegol cymunedau difreintiedig, gan gydnabod rôl gyfnewidiol lleoedd, yn dod ag allanolion cadarnhaol os eir ati i wneud hynny yn y ffordd gywir. Er gwaethaf gwelliannau sylweddol yn amodau'r farchnad lafur a thwff mewn enillion ar draws Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae'r gyfradd gyflogaeth ar draws yr is-ranbarth yn dal yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU, gyda chrynoadau o anweithgarwch economaidd ac amddifadedd mewn rhai rhannau o'r rhanbarth.

3.58 Felly, amcan y flaenoriaeth hon yw darparu'r seilwaith ffisegol a chymunedol sydd ei angen i gynorthwyo datblygiad economïau lleol ffyniannus. Wrth wneud hynny, bydd y cymunedau hyn mewn sefyllfa i fanteisio ar ledaeniad cyfleoedd cyflogaeth a thwff economaidd ar draws pob ardal ynghyd â mwy o amrywiaeth galwedigaethol a chyflogau uwch sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau economi wybodaeth fodern. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r flaenoriaeth hon o fewn fframwaith Cynllun Gofodol Cymru gyda phwyslais cryf ar gynyddu cyfleoedd economaidd. Mae hyn yn cynnwys yr angen i annog y trydydd sector i ddatblygu mewn ffyrdd sy'n darparu cyfleoedd cynaliadwy ym maes cyflogaeth, yn cefnogi camau gweithredu economaidd cymunedol ac yn hwyluso mynediad i wasanaethau o ddiddordeb economaidd i'r boblogaeth leol.

3.59 Bydd y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag amddifadedd a gwella economïau lleol mewn ffordd integredig ar draws cymunedau mwyaf difreintiedig Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gyfuno adfywiad ffisegol â datblygu economaidd cymunedol. Bydd yn galluogi pobl sy'n byw yn ein

cymunedau mwyaf difreintiedig i gyfrannu at gyflawni amcanion Lisboa ar gyfer twf a swyddi a chael budd o hynny.

3.60 Bydd y themâu o dan y flaenoriaeth hon yn canolbwyntio ar:

- Gefnogi adfywio ffisegol, ailddatblygu safleoedd tir llwyd diffaith, adfywio tirluniau trefol a gwledig sydd wedi diraddio a gwella ansawdd mannau cyhoeddus;
- Datblygu economaidd cymunedol, gan wella mynediad i wasanaethau o ddiddordeb economaidd cyffredinol yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ynghyd ag ansawdd y gwasanaethau hynny.

3.61 Mae Tabl 7 yn dangos sut y bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at flaenoriaethau polisi'r UE a'r DU. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at gategori 61 o gategoriâu buddsoddiad y Cronfeydd Strwythurol a nodir yn Erthygl 9 ac Atodiad IV i Reoliad (CE) 1083/2006.

Tabl 7. Cyfraniad ERDF Blaenoriaeth 5 at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU

	Cyfraniad y Flaenoriaeth at Flaenoriaethau Polisi'r UE a'r DU
Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi	C19 Sicrhau marchnadoedd llafur cynhwysol ar gyfer ceiswyr swyddi a phobl ddifreintiedig
Canllawiau Strategol y Gymuned	C1.1.2 Cryfhau'r synergeddau rhwng diogelwch amgylcheddol a thwf C2.1 Cyfraniad dinasoedd i dwf a swyddi C2.2 Cefnogi arallgyfeirio economaidd mewn ardaloedd gwledig
Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU	3.82-3.91 Diogelu'r amgylchedd drwy ddefnyddio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy ac arloesol 4.6-4.29 Rhoi cyfleoedd cyflogaeth i bawb
Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol y DU	Adeiladu cymunedau cynaliadwy (185) Cymru

ERDF Blaenoriaeth 6: Cymorth Technegol

3.62 Bydd blaenoriaeth Cymorth Technegol ar wahân yn cynnig cymorth ar gyfer rheoli a gweithredu rhaglenni, gan gynnwys cyfathrebu a chyhoeddusrwydd, ymchwil a gwerthuso a chamau wedi'u targedu o ran meithrin galluedd. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at gategoriâu 85 a 86 o gategoriâu buddsoddiad y Cronfeydd Strwythurol a nodir yn Erthygl 9 ac Atodiad IV i Reoliad (CE) 1083/2006.

Ymagwedd at Werth Ychwanegol

3.63 Egwyddor ysgogol y Rhaglen Weithredol hon yw y bydd yn dod â buddsoddiad ychwanegol i'r rhanbarth na fyddai wedi'i gael fel arall. Mae gwerth

cyfraniadau'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn sylweddol iawn ynddynt hwy eu hunain mewn termau real a bydd y rhain yn gweithredu fel catalydd ar gyfer buddsoddiad pellach. Cynlluniwyd y Rhaglen hon er mwyn sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol, sylweddol ar y rhanbarth lle na fyddai'r effeithiau hynny yn cael eu gweld fel arall. Man cychwyn y broses hon o sicrhau bod y Rhaglen yn cynhyrchu gwerth ychwanegol a pharhaol oedd mynegi'r heriau sy'n wynebu'r rhanbarth o hyd o ran ei economi, ei amgylchedd a'i gymunedau yn y Dadansoddiad (Pennod 2). Datblygwyd y Strategaeth, a'r camau gweithredu o fewn yr Echelau Blaenoriaeth, drwy ymgynghori'n llawn â'r rhanddeiliaid a'r partneriaid allweddol tra'n ystyried canlyniadau'r rhaglenni cyfredol, y cynnydd a wnaed hyd yma a'r symudiad cyffredinol yn yr economi a'r gymdeithas yn gyffredinol ac, yn bwysicaf oll, sut y gellir ei halinio orau er mwyn cyflawni nodau Agendâu Lisboa a Göteborg. Mae'r synergeddau rhwng polisïau Ewropeaidd a pholisïau cenedlaethol a'u pwyslais ar gyflawni cydlyniant economaidd a chymdeithasol yn arbennig o gryf ac yn hynod berthnasol mewn perthynas â Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

3.64 Mae'r sylfaen hon wedi amlygu'r angen i adeiladu ar fuddsoddiadau a gefnogir o dan raglenni cyfredol a rhaglenni blaenorol, gan ddefnyddio'r gwerthusiad a wnaethpwyd o'u heffaith a'r gwersi a ddysgwyd wrth eu gweithredu. Mae'n amlwg hefyd bod y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn ychwanegu gwerth at y broses o weithredu polisïau a rhaglenni cenedlaethol yng Nghymru o ran sylwedd a phroses. O dan y rhaglenni cyfredol, amcangyfrifir y bydd tua 40,500 o swyddi newydd net wedi cael eu creu. Ar yr un pryd, mae'r data diweddaraf yn dangos bod CMC y pen tua 77% o'r cyfartaledd ar gyfer yr UE25 - gwelliant pendant o'r ffigur o 75% ym mis Rhagfyr 2005 ac yn cyd-fynd â chyflawni llawer o'r ymyriadau a gefnogir o dan y Rhaglenni cyfredol. Mae'r cynnydd hwn yn dyst i'r gwerth ychwanegol a sicrhawyd gan y rhaglenni hyn a chaiff y pwyslais hwn ar werth ychwanegol ei gario ymlaen i gyfnod y rhaglen newydd.

3.65 O ran nod ac amcanion cyffredinol y Rhaglen, bydd y Cronfeydd Strwythurol yn ategu polisïau cenedlaethol ac yn cynorthwyo aliniad agosach â pholisïau'r UE ar gyfer cefnogi datblygu economaidd. Bydd manteisio i'r eithaf ar y synergeddau hyn yn helpu i sicrhau bod y gwerth mwyaf posibl yn cael ei weld o'r Rhaglen newydd. Mae rhaglennu aml-flynyddol hefyd yn rhoi sail gadarn ar gyfer camau gweithredu tymor hwy sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael â materion mwy sylfaenol neu anhydrin a sicrhau newid trawsffurfiadol.

3.66 O ran buddsoddiadau penodol, bydd y Cronfeydd Strwythurol yn ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth gyfredol mewn sawl ffordd. Rhoddir enghreifftiau yn y disgrifiad o bob Echel Blaenoriaeth. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno gwasanaethau newydd neu ehangu'r gwasanaethau presennol a ddarperir drwy, er enghraifft, fuddsoddi ymhellach yn y seilwaith economaidd na fyddai wedi'i weld fel arall neu ddarparu gallu ymchwil a datblygu newydd. Gellir ychwanegu gwerth hefyd drwy wella ansawdd y gwasanaethau neu'r seilwaith drwy, er enghraifft, ddarparu gwasanaethau cymorth arloesi mwy soffistigedig er mwyn sbarduno'r economi wybodaeth. Ymhellach, mae cyfle i ddod â buddsoddiadau y gallent fod wedi'u cynllunio ar gyfer rhywbryd yn y dyfodol ymlaen drwy, er enghraifft, roi gweithgareddau adfywio a nodwyd gan Grwpiau

Cynllun Gofodol Cymru ar waith, neu ddwyn buddsoddiadau yn y seilwaith trafniadaeth neu wastraff ymlaen. Bydd y Cronfeydd Strwythurol yn ychwanegu gwerth hefyd drwy gynyddu'r ffocws ar gyfle cyfartal i bawb a chynaliadwyedd amgylcheddol drwy weithredu themâu trawsbynciol.

3.67 Gwelir gwerth o'r Cronfeydd Strwythurol drwy broses hefyd. Un o'r prif fuddiannau a welir yw'r rhyngweithio a gaiff ei annog rhwng partneriaid yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol o ran yr ymgais gyffredin i hybu twf economaidd. Bu gwaith partneriaeth o'r fath yn nodwedd allweddol o gam paratoadol y Rhaglen newydd hon a chaiff ei ehangu i gynnwys partneriaeth ar lefel Ardal y Cynllun Gofodol a'r trefniadau ar gyfer Fframweithiau Strategol. Mae'r Cronfeydd hefyd yn hybu egwyddorion tryloywder, tegwch a chyfle cyfartal a bydd yr egwyddorion hyn yn parhau i gael eu hadlewyrchu yn y trefniadau ar gyfer dyrannu cronfeydd. Yn olaf, mae rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn annog arloesedd ac yn rhoi llwyfan i weithio gyda rhanbarthau eraill ac ystod eang o sefydliadau er mwyn rhannu arfer gorau.

Themâu Trawsbynciol

3.68 Yn ogystal â'r blaenoriaethau a amlinellwyd uchod, caiff dwy thema drawsbynciol neu lorweddol eu hintegreiddio i mewn i bob agwedd ar y rhaglen Gydgyfeirio ERDF yn unol â gofynion Rheoliad UE 1083/2006, Erthyglau 16 ac 17. Eir i'r afael â'r strategaeth ar gyfer rhoi'r ddwy thema drawsbynciol, sef cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol, ar waith yn fanylach ym Mhennod 5.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol

3.69 Mae'r dystiolaeth gynyddol o newid yn yr hinsawdd a'i ganlyniadau ehangach yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau na chaiff twf economaidd ei weld ar draul galwadau cynyddol ar yr amgylchedd. Caiff effeithiau negyddol twf eu gwrthbwysu gan gamau gweithredu penodol, a thrwy integreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol ar draws y rhaglen fel thema lorweddol. Disgwylir i bob prosiect fynd i'r afael â'r thema cynaliadwyedd amgylcheddol drwy gynnig cyfleoedd priodol i fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol sy'n effeithio ar y rhanbarth a'r amgylchedd byd-eang ehangach.

Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau a Chyfle Cyfartal i Bawb

3.70 Mae'r angen i gydnabod y cyfraniad y gall pob unigolyn ei wneud yn un pwysig. Cynlluniwyd y Map Ffyrdd Ewropeaidd ar gyfer Cydraddoldeb rhwng dynion a merched 2006–2010⁶⁶, a'r pecyn o fesurau a gyflwynwyd yn 2000 gan yr Undeb Ewropeaidd i orfodi hawl pobl ym mhobman i gael eu trin yn gyfartal ac i atgyfnerthu parch at hawliau dynol ledled yr Undeb Ewropeaidd⁶⁷. Mae'r cyfarwydddebau hyn yn adlewyrchu cydnabyddiaeth gynyddol o fanteision amrywiaeth i'r economi ac i'r gymdeithas gyfan. Caiff Cyfle Cyfartal ei integreiddio i mewn i'r rhaglen Gydgyfeirio ERDF fel thema drawsbynciol er mwyn hybu mynediad cyfartal i bawb i'r cyfleoedd a gynnigir gan y rhaglen Gydgyfeirio.

⁶⁶Y Map Ffyrdd Ewropeaidd ar gyfer Cydraddoldeb rhwng dynion a merched 2006-2010
http://ec.europa.eu/employment_social/emplweb/news/news_en.cfm?id=136

⁶⁷http://ec.europa.eu/employment_social/fundamental_rights/legis/legln_en.htm

Darperir cymorth, er enghraifft, ar gyfer camau sy'n galluogi mynediad i fesurau cymorth busnes, gan gynnwys hyfforddiant ac ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer grwpiau a oedd wedi'u heithrio gynt, yn arbennig pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl. Anogir gweithgareddau a ariennir gan yr ERDF sy'n herio stereoteipio o ran rhyw, sy'n cefnogi merched a dynion i fynd i mewn i feysydd gwaith nad ydynt yn draddodiadol ac sy'n annog cydbwysedd bywyd a gwaith, ynghyd â dulliau sy'n ategu'r thema cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y rhaglen ERDF.

3.71 Dangosir yr ystod o gamau a gymerir o fewn y blaenoriaethau a'r themâu i hybu'r broses o integreiddio amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol y rhaglen mewn ffordd lorweddol gan ddadansoddiad matrices (Atodiad G).

Cydategu rhwng Rhaglenni ERDF ac ESF a Pholisïau ac Offerynnau Ariannu Eraill yr UE

ERDF ac ESF

3.72 Mae'r Rhaglenni Cydgyfeirio ERDF ac ESF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi'u datblygu ar y cyd, gan sicrhau y bydd y blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer y ddwy raglen yn cydategu'i gilydd ac yn ychwanegu gwerth at ei gilydd. Ceir cysylltiadau agos yn enwedig ym maes arloesi a sgiliau lefel uwch, lle y bydd cyflwyno elfennau ESF yn cefnogi'r mentrau arloesi, ac hefyd ym maes adeiladu cymunedau cynaliadwy, lle y cydnabyddir bod sicrhau bod pobl mewn cyflogaeth gyson yn allweddol i les hirdymor unigolion, teuluoedd a chymunedau ffyniannus. Cyflogaeth gynyddol yw un o sbardunau allweddol twf economaidd ac mae'n un o'r ffactorau sy'n esbonio'r bwlch cynhyrchiant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Bydd y rhaglenni yn cydweithio i gefnogi'r weledigaeth a rennir o economi ffyniannus yng Nghymru.

3.73 Bydd y rhaglen Gydgyfeirio yn ceisio sicrhau'r synergeddau mwyaf posibl rhwng ymyriadau ERDF ac ESF. Mae Erthygl 34 (2) o Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 1083/2006 yn darparu i'r ERDF ariannu ymyriadau sydd o fewn cwrdd ym 5% o'r gwrthwyneb), cyhyd â bod y cyfryw ymyriadau yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus a bod iddynt gyswllt uniongyrchol â'r gweithrediad hwnnw. Er mwyn hyrwyddo dull cydlynol o weithredu o dan y Flaenoriaeth hon, defnyddir uchafswm o 10% o gyfraniad yr UE i Flaenoriaethau 1, 2 a 5, ac uchafswm o 5% o Flaenoriaeth 4, i ariannu buddsoddiadau ategol o'r fath. Caiff y cyfiawnhad dros ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn ei roi ar lefel gweithrediad/prosiect a chaiff yr adnoddau a ddefnyddir yn y modd hwn eu nodi ar wahân mewn ceisiadau prosiect a chaiff y gwariant ei ddatgan. Caiff y dull o ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn ei amlinellu mewn perthynas â phob un o'r Blaenoriaethau perthnasol ym Mhennod 4.

EAFRD ac EFF

3.74 Yn unol ag Erthygl 37(1) o reoliad CE 1083/2006, nodir meini prawf llym ar gyfer gosod ffiniau a dulliau ar gyfer cydgysylltu rhwng y rhaglenni ERDF ac ESF ar yr un llaw a Chronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF) ar y llaw arall isod. Mae hyn yn

esbonio sut y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau'r synergedd a'r gwerth am arian mwyaf posibl, tra'n osgoi achosion o ddyblygu neu ariannu dwbl.

3.75 Fel egwyddor gyffredinol, bydd gweithgareddau a ariennir gan yr ERDF yn mynd i'r afael â materion gwledig yn bennaf fel rhan o weithgarwch rhanbarthol, is-ranbarthol neu genedlaethol ehangach sy'n cyfrannu at wella perfformiad economaidd neu fel rhan o raglenni cyflogaeth a sgiliau integredig. Bydd hyn yn cynnwys ymyriadau sy'n helpu i ddatblygu'r economi wybodaeth ar lefel strategol, yn galluogi mentrau bach a chanolig i ddod yn fwy cystadleuol ac yn fwy effeithlon o ran eu defnydd o adnoddau naturiol, yn adeiladu cymunedau cynaliadwy, ac yn cynyddu cyflogaeth drwy gefnogi buddsoddiadau priodol i'r seilwaith economaidd.

3.76 Bydd arian y Cynllun Datblygu Gwledig yn canolbwyntio ar gefnogi arallgyfeirio economïau gwledig yn lleol a gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau ym maes amaethyddiaeth, yn cynnwys cefnogi arallgyfeirio arloesol ar ffermydd, coedwigaeth a phrosesu bwyd. Bydd y rhaglen EFF yn rhoi'r cymorth i ddatblygu a rheoli pysgodfeydd morol a mewndirol hyfyw, cynaliadwy a chystadleuol, gan gynnwys dyframaeth, fel rhan annatod o bolisiau cydlynol ar gyfer diogelu'r amgylchedd. Bydd yr EFF hefyd yn cefnogi prosesu a marchnata cynnyrch pysgodfeydd a physgota mewndirol yn ogystal â chyflawni amcanion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a datblygu mentrau yn y sector pysgodfeydd.

Nodi Ffiniau a Chydategu

Blaenoriaethau 1 a 2

3.77 Ni fydd arian ERDF ar gael ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth na pysgodfeydd, na mentrau sy'n ymwneud â phrosesu sylfaenol ym maes cynnyrch amaethyddol, coedwigaeth neu bysgodfeydd. Nodir hyn yn glir yn y rheolau cymhwyster a bydd y gofyniad cymhwyster hwn yn berthnasol ar draws holl Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol. Ni fydd yr ERDF yn cefnogi cynlluniau bwyd-amaeth na phrosesu sylfaenol ym maes cynnyrch amaethyddol a/neu goedwigaeth. Yn yr un modd, bydd yr egwyddor hon yn berthnasol i'r rhaglen EFF mewn perthynas â chynnyrch pysgod a chregynbysgod a'r gwaith o'u prosesu.

3.78 Y posibilrwydd mwyaf ar gyfer cydategu o dan y ddwy flaenoriaeth hyn yw sut mae cymorth busnes penodol ac offerynnau ariannu ar gyfer datblygu gwledig yn gweddu i'w gilydd. Cyfeirir at hyn yn y Fframweithiau Strategol perthnasol.

Blaenoriaeth 3

3.79 Nid oes unrhyw faterion y mae angen eu nodi o ran camau gweithredu sy'n ymwneud â thrafnidiaeth, am eu bod y tu allan i gwmpas y Cynllun Datblygu Gwledig a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop. O ran datblygu safleoedd ac adeiladau busnes, ni fydd y Cynllun Datblygu Gwledig yn ariannu'r safleoedd ar raddfa fawr a ragwelir yn y flaenoriaeth hon. Anogir cydategu rhwng yr arian a fuddsoddir mewn seilwaith drwy'r ERDF a chamau gweithredu lleol y Cynllun Datblygu Gwledig drwy'r dulliau cynllunio gan ddefnyddio'r cynlluniau gweithredu lleol a

grwpiau ardal y cynllun gofodol (gweler isod). Cwmpesir trafndiaeth gymunedol o dan Flaenoriaeth 5 isod.

Blaenoriaeth 4

3.80 Bydd yr ERDF yn targedu cynlluniau â manteision economaidd posibl lle yr ymgwymerir â gwelliannau i'r amgylchedd er mwyn sicrhau canlyniad economaidd clir, er enghraifft, y defnydd o dechnoleg arloesol i fynd i'r afael â heriau cynhyrchu ynni glân. Mae darpariaethau 1698/2005 yn ei gwneud yn ofynnol i holl fuddiolwyr Echel 2 y Cynllun Datblygu Gwledig fod naill ai'n fusnesau amaethyddol cofrestredig a/neu'n fusnesau coedwigaeth cofrestredig a chaiff y cymorth a roddir o dan y Cynllun ei gyfyngu i'r grŵp targed hwn; ni fydd y grwpiau hyn yn gymwys i gael arian ERDF. Bydd Cronfa Pysgodfeydd Ewrop yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â diogelwch morol; ni fydd mentrau pysgota yn gymwys i gael arian ERDF.

3.81 Mae cyfleoedd ar gael i gydweithio er mwyn cyflawni targedau amgylcheddol ehangach yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, ansawdd/swm dŵr, llygredd aer, rheoli gwastraff ac ati. Yn ogystal, mae synergedd posibl rhwng gweithgareddau gwahanol dirfeddianwyr ar dir cyfagos a chysylltiadau â gwelliannau amgylcheddol a bioamrywiaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Mae synergedd â Chronfa Pysgodfeydd Ewrop yn fwyaf tebygol o gael ei weld mewn ardaloedd arfordirol lle y gallai gweithgareddau a gefnogir o dan ERDF Blaenoriaeth 4 wella gweithgareddau morol. Fodd bynnag, bydd y buddiolwyr yn unigryw i bob cronfa.

Blaenoriaeth 5

3.82 Bydd gweithgareddau a ariennir drwy'r ERDF o dan Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy yn canolbwyntio ar gefnogi adfywio integredig er mwyn cyflawni canlyniad economaidd clir, tra bydd gweithgareddau'r Cynllun Datblygu Gwledig yn canolbwyntio'n bennaf ar arallgyfeirio'r sylfaen economaidd wledig a gwella ansawdd bywyd mewn ardaloedd gwledig. Bydd Grŵp Ardal y Cynllun Gofodol yn cytuno ar flaenoriaethau penodol ar gyfer yr ERDF a chaiff y manylion eu nodi yn y Fframwaith Strategol Adfywio Integredig ar gyfer yr ardal honno. Er y gallai fod rhywfaint o orgyffwrdd o ran cwmpas eang gweithgareddau *posibl*, er enghraifft, gyda thrafnidiaeth gymunedol yn ymddangos yn y ddwy raglen, bydd y dulliau cynllunio sydd ar waith yn sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd o ran gweithredu'r camau hyn. Bydd y gweithgareddau a ariennir drwy Gynllun Datblygu Gwledig 2007-2013 yn digwydd o fewn un ardal awdurdod lleol neu drwy brosiectau tebyg a gynhelir mewn awdurdodau lleol cyfagos sy'n cydweithio. Er mwyn gwella cydategu, cytunir ar gynlluniau datblygu lleol y Cynllun Datblygu Gwledig mewn cydweithrediad â grŵp ardal y Cynllun Gofodol, ac i'r gwrthwyneb.

3.83 O ran Cronfa Pysgodfeydd Ewrop, ariennir camau gweithredu sy'n ymwneud yn benodol â'r sector hwnnw neu ddiddordebau buddiolwyr a'u teuluoedd yn y sector hwnnw drwy Gronfa Pysgodfeydd Ewrop. Bydd y rhain y tu allan i gwmpas yr ERDF.

3.84 Mae cryn le i ychwanegu gwerth at weithgareddau'r Cynllun Datblygu Gwledig a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop drwy'r rhaglen ERDF, gan gynnwys drwy

ddarparu seilwaith ffisegol fel rhan o raglen adfywio integredig nad yw'n bosibl o dan unrhyw un o'r rhaglenni hyn.

Canllawiau pellach a dulliau arfarnu

3.85 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod yr angen i ystyried y gwaith o osod ffiniau a'r cydategu a nodir uchod wrth weithredu'r rhaglen ERDF. Caiff hyn ei wneud mewn tair ffordd:

- Croesaelodaeth o'r holl Bwyllgorau Monitro Rhaglenni priodol ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol, Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop;
- O ran bod yn gymwys i fanteisio ar y Cronfeydd Strwythurol, mae datganiad penodol yn nodi nad yw ffermwyr a'r rheini sy'n gysylltiedig â phrosesu sylfaenol mewn perthynas â chynnyrch amaethyddol, pysgodfeydd neu goedwigaeth yn gymwys i gael cymorth gan yr ERDF ar gyfer y gweithgareddau hyn;
- Canllawiau allanol i ymgeiswyr prosiect posibl, a ddatblygwyd ar y cyd â staff sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Gwledig a'r rhaglen Cronfa Pysgodfeydd Ewrop yng Nghymru.

3.86 Er mwyn dileu achosion posibl o ariannu dwbl ac er mwyn sicrhau'r cydategu mwyaf posibl ar lefel prosiect, bydd angen sicrhau bod cyfathrebu pellach yn digwydd rhwng y timau priodol ar adeg gwneud cais. Fel rhan o broses WEFO, bydd angen i ymgeiswyr ddangos sut mae eu prosiect yn cyd-fynd â'r strategaethau a'r rhaglen berthnasol. Bydd y Cynllun Datblygu Gwledig a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop yn rhan o hyn a bydd swyddogion arfarnu WEFO yn sicrhau yr ymgynghorir â'r swyddogion perthnasol ac y cynhelir arfarniad trwyadl pan fyddant o'r farn bod gan unrhyw brosiect y potensial i gael ei gynnwys yn y meysydd a nodir uchod o ran gosod ffiniau neu gydategu. Ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, bydd y prosiectau yn destun proses fonitro lem er mwyn sicrhau eu bod yn glynu wrth delerau'r gymeradwyaeth a rhoddir yr un ystyriaeth ofalus i geisiadau dilynol i ddiwygio prosiect.

3.87 Cyflwynir telerau cytbwys ar gyfer prosiectau a gyflwynir o dan y Cynllun Datblygu Gwledig a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop.

Mentrau Ewropeaidd Eraill

3.88 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu mentrau JESSICA a JEREMIE y Comisiwn Ewropeaidd. Gweithredir y ddwy fenter hyn ar y cyd rhwng y Comisiwn Ewropeaidd (DG Regio), Banc Buddsoddi Ewrop (EIB) a Chronfa Fuddsoddi Ewrop (EIF), ac maent yn agor dewisiadau ar gyfer cyfleusterau benthyca er mwyn ategu gweithgareddau'r ERDF. Cyfleuster micro-ariannu o fewn yr EIB yw **JEREMIE** (Adnoddau Ewropeaidd ar y Cyd ar gyfer Micro Busnesau i Fusnesau Canolig) sy'n defnyddio adnoddau o'r Cronfeydd Strwythurol a'r EIB. Yr amcan fyddai creu ffynhonnell gyfalaf newydd ar gyfer y math o fusnesau (e.e. busnesau newydd) sydd yn aml yn wynebu anawsterau o ran cael gafael ar gyllid. Cyfleuster dewisol yw **JESSICA** (Cymorth Ewropeaidd ar y Cyd ar gyfer Buddsoddiad Cynaliadwy mewn Ardaloedd Dinesig) sy'n cynnig y posibilrwydd i Aelod-wladwriaethau ac Awdurdodau Rheoli ddyrannu arian o Raglen Weithredol i Gronfeydd Datblygu Trefol neu Gronfeydd Dal.

3.89 Cymerodd y DU ran mewn ymarfer cwmpasu fel rhan o gam 1 JEREMIE. Cynhaliwyd yr ymarfer gan yr EIF a SBS, ar ffurf dadansoddiad o fylchau a gwerthusiad o offerynnau cyfalaf menter o fewn y DU. Mae adroddiad JEREMIE yn cael ei gynhyrchu ar gyfer Cymru mewn partneriaeth rhwng yr EIF a Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy Cyllid Cymru, ac ystyrir argymhellion yr adroddiad hwnnw wrth bennu unrhyw ymrwymiad pellach gan Gymru yn y rhaglen. Yn yr un modd, ystyrir cyfleoedd i ddefnyddio JESSICA pan fyddant yn codi.

3.90 Ymdrinnir â pholisïau ac offerynnau Ewropeaidd eraill megis rhaglen Fframwaith Ymchwil 7⁶⁸ o dan ERDF Blaenoriaeth 1, a thrafodir y Strategaethau Cyflogaeth a Sgiliau a Dysgu Gydol Oes yn y Rhaglen ESF.

Monitro a Gwerthuso Cynnydd

3.91 Ym marn Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae gwaith monitro a gwerthuso o ansawdd uchel yn hanfodol er mwyn rheoli rhaglenni yn effeithiol a gwneud penderfyniadau ar bolisïau yn seiliedig ar dystiolaeth. Chwaraeodd gwaith monitro a gwerthuso ran bwysig yn y broses o reoli Rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2000-2006 yng Nghymru ac mae'r gwersi a ddysgwyd o'r gwaith monitro a gwerthuso wedi'u hystyried wrth gynllunio Rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2007-2013. Bydd gwaith monitro a gwerthuso yn parhau i chwarae rhan allweddol o ran sicrhau bod Rhaglen 2007-2013 o'r ansawdd gorau a'i bod yn cael ei gweithredu mor effeithiol â phosibl.

3.92 Mae ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at asesu llwyddiant y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yn seiliedig ar:

- olrhain cynnydd ystod o ddangosyddion economaidd, yn fwyaf arbennig cyflogaeth, enillion a GYC, mewn termau absoliwt ac o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU a'r UE;
- monitro yn erbyn y dangosyddion a bennwyd ar gyfer blaenoriaethau unigol, wedi'u grosio i lefel rhaglenni;
- gwerthusiad ar lefel rhaglenni;
- gwerthusiad ar lefel fframwaith strategol; a
- gwerthusiad ar lefel prosiect.

Dangosyddion Orlhain

3.93 Datblygwyd y dangosyddion olrhain lefel uchel a nodwyd yn *Cymru: Economi yn Ffynnu* i ddarparu darlun eang a chadarn o hanfodion twf economaidd cynaliadwy. Cânt eu defnyddio i fonitro cynnydd dros amser ac i gymharu Cymru â gwledydd a rhanbarthau eraill. Mae llawer o'r dangosyddion olrhain hyn ar gael hefyd ar lefel NUTS 2 a chânt eu defnyddio felly, ynghyd â

⁶⁸ Rhaglen Fframwaith Ymchwil 7 y Comisiwn Ewropeaidd (FP7) ar gyfer 2007–2013 'Building the Europe of Knowledge': http://ec.europa.eu/research/future/index_en.cfm

dangosyddion priodol eraill, i ddarparu asesiad cytbwys o gynnydd o ran economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Lle nad oes data ar gael ar lefel NUTS 2, nodwyd dangosyddion amgen priodol. Caiff cynnydd ei olrhain hefyd yn erbyn dangosyddion Lisboa penodol, y mae llawer ohonynt yn gorgyffwrdd yn agos â'r dangosyddion a nodir yn *Cymru: Economi yn Ffynnu*, ond y mae rhai ohonynt wedi'u diffinio ychydig yn wahanol.

3.94 Dylid nodi bod perfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn yn dibynnu ar ffactorau eraill fel tueddiadau macroeconomaidd a digwyddiadau byd-eang. Er hynny, mae'r dangosyddion olrhain datblygu economaidd lefel uchel canlynol yn rhoi'r cyd-destun cyffredinol ar gyfer asesu cynnydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Bydd defnyddio'r dangosyddion olrhain hyn yn sicrhau bod tueddiadau ehangach yn yr economi, yn cynnwys newidiadau strwythurol, yn cael eu hystyried wrth werthuso effeithiolrwydd y rhaglen Gydgyfeirio yng Nghymru.

Tabl 8. Dangosyddion Olrhain ar Lefel Rhaglenni⁶⁹

Categori	Dangosydd		Cymru	Ardal y Rhaglen	Dyddiad
Economaidd lefel uchel	1	GYC (£ y pen) ⁱ	13,316	11,126	2004
	2	Incwm aelwydydd i'w wario (£ y pen) ⁱ	11,278	11,021	2004
	3	Cyfradd gyflogaeth (o fewn y boblogaeth o oedran gweithio) ⁱ	71.2	69.5	2005
	4	Enillion ar gyfartaledd (£, wythnosol, llawn amser, yn cynnwys goramser) ⁱ	470	456	2006
Marchnad lafur	5	Cyfradd anweithgarwch economaidd (o fewn y boblogaeth o oedran gweithio)	24.8	26.4	2005
	5a	Cyfradd anweithgarwch economaidd heb gynnwys myfyrwyr (o fewn y boblogaeth o oedran gweithio)	21.8	23.7	2005
	6	Cyfradd ddiweithdra (o fewn y boblogaeth o oedran gweithio) ⁱ	5.1	5.4	2005
	7	Llifoedd mudo (mudo net i mewn i ardal)	12,400	9,200	Cyfartaledd canol 02 i ganol 05
Gwerth ychwanegol fesul swydd	8a	GYC (£ fesul gweithiwr) ⁱ	30,555	27,621	2004
	8b	GYC (£ fesul awr a weithir) ⁱ	18.5	17.1	2004

⁶⁹ Mesurir dangosyddion ar lefel NUTS 2, ac eithrio lle nodir yn wahanol.

Buddsoddi	9	Buddsoddiad busnes fel canran o GYC ^{i, ii}	13.8	..	Cyfartaledd 2002 i 2004
Arloesi	10	Gwariant domestig crynswth ar ymchwil a datblygu fel canran o GYC ⁱⁱⁱ	1.2	..	Cyfartaledd 2002 i 2004
	11	Gwariant Ymchwil a Datblygu Menter Busnes (canran o GYC)	0.6	..	2005
	12	Cyfran y gwerthiannau y cyfrifir amdanynt gan gynnyrch newydd neu well ^{iv}	17.5	..	Cyfartaledd 2002 i 2004
Sgiliau	13	Cymwysterau'r boblogaeth o oedran gweithio (canran a addysgwyd hyd at o leiaf NQF lefel 3)	45.0	42.7	2005
	13a	Cymwysterau pobl ifanc 16 -18 oed (canran a addysgwyd hyd at o leiaf NQF lefel 2) ⁱ	66.8	64.4	2005
	13b	Cymwysterau pobl ifanc 19 -21 oed (canran a addysgwyd hyd at o leiaf NQF lefel 3) ⁱ	51.1	47.0	2005
	14	Cyfran y cyflogeion mewn cyflogaeth broffesiynol, technegol, rheoli a gwyddonol	35.9	33.2	2005
Menter	15	Cyfanswm y gweithgarwch entrepreneuraidd ⁷⁰ , fel y mesurwyd gan y Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang	5.5	5.2	2005
	15a	Cofrestriadau TAW newydd y pen o'r poblogaeth sy'n gweithio	36	34	2005
	15b	Cyflenwad o fusnesau sydd wedi'u cofrestru am TAW y pen o'r boblogaeth sy'n gweithio	457	439	1 Ion 2006
Cystadleuaeth	17	Allforion fel canran o GYC	21.1	..	2005

⁷⁰ Diffinir cyfanswm y gweithgarwch etrepreneuraidd cam cynnar fel canran y boblogaeth o oedolion o oedran gweithio sy'n cyfrannu at y broses o ddechrau busnes newydd, neu sy'n weithredol ar hyn o bryd

Cydllyniant cymdeithasol	18	Canran yr oedolion o oedran gweithio sydd â theuluoedd nad ydynt yn gweithio ^v	14.2	..	Gwanwyn 2006
	19	Canran y plant sydd â theuluoedd nad ydynt yn gweithio ^v	15.5	..	Gwanwyn 2006
Cyfle cyfartal	20	Enillion merched fel canran o enillion dynion (fesul awr, amser llawn, heb gynnwys goramser) ^v	89.2	89.5	2006
Datblygu cynaliadwy	21	Swm y gwastraff diwydiannol a masnachol, adeiladu a threfol a gynhyrchir y flwyddyn ⁷¹ (Mt) ^v	13.22	..	..
	22	Cymhareb gollyngiadau Carbon/Gwerth Gros Ychwanegol ^{72, vi}	..	..	..

.. Ddim ar Gael

i Dangosydd yn debyg i Ddangosydd Strwythurol Lisboa ar y rhestr fer.

ii Dangosydd ddim ar gael ar hyn o bryd ar lefel NUTS 1 neu NUTS 2, gallai ddod ar gael.

iii Dangosydd ddim ar gael ar hyn o bryd ar lefel NUTS 2, gallail ddod ar gael.

iv Dangosydd ddim ar gael ar lefel NUTS 2, ddim yn debygol o ddod ar gael.

v Dangosydd ddim yn W:AVE, cynigiwyd dewis amgen.

vi Dangosydd ddim yn W:AVE. cynigiwyd dewis amgen. Data ddim ar gael ar hyn o bryd ond disgwylir y bydd ar gael erbyn diwedd 2009.

⁷¹ Diwydiannol 4.24 Mt (2003); Masnachol 1.02 Mt (2003); Trefol 1.77 Mt (2003); ac Adeiladu 6.18 Mt (2004). Nid oedd swm y gwastraff adeiladu ar gael ar gyfer 2004 ac nid oedd y data ar gyfer pob categori arall ar gael ar gyfer 2004.

⁷² Nid yw'r data ar gael ar hyn o bryd oherwydd nad oes cyfres GYC/CMC pris parhaol ar gael. Fodd bynnag, disgwylir y bydd ar gael erbyn diwedd 2009, ond dim ond ledled Cymru

Tabl 9. Dangosyddion ar Lefel Rhaglenni

Dangosydd	Llinell sylfaen	Targed
Mentrau a gynorthwywyd ⁷³	102,500 o fentrau yn weithredol, 2003 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004, Dadansoddiad o Fusnesau yng Nghymru o ran Maint)	14,150
Ymchwil a datblygu cydweithredol ⁷⁴	-	34
Nifer y swyddi gros a grëwyd ⁷⁵	777,000 o swyddi yn y gweithle, 2005 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006, Swyddi yn y Gweithle yn ôl Diwydiant yng Nghymru)	33,200 cyfwerth ag amser llawn
Mentrau a grëwyd ⁷⁶	3,790 o gofrestrïadau TAW, 2005 (Gwasanaeth Busnesau Bach yr Adran Masnach a Diwydiant)	5,044
Budd o elw ⁷⁷	-	£302,100,000
Buddsoddiad a gyflwynwyd ⁷⁸	£2,817 milwn o wariant cyfalaf net ledled Cymru, 2004 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2006, Ymchwiliad Busnes Blynnyddol)	£433,000,000
Nifer y swyddi y crëwyd lle ar eu cyfer ⁷⁹	-	1,050
Adeiladau a grëwyd neu a adnewyddwyd ⁸⁰	-	35,000m ²
Cynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd neu well a lansiwyd ⁸¹	-	5,028
Cilometrau teithwyr gros ar drafnidiaeth gyhoeddus ⁸²	66,000,000 o deithiau bws, 2005/06 (Adran Drafnidiaeth); 5,934,000 o deithiau rheilffordd, 2004/05 (Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd)	12,500,000 km teithwyr

⁷³ Nifer y mentrau a gynorthwywyd (cyngor, canllawiau neu wybodaeth ymgynghorol) drwy ymyriad Cronfa Strwythurol.

⁷⁴ Nifer yr achosion o gydweithredu rhwng menter a sefydliad ymchwil; mae'r cydweithrediad yn gydberthynas barhaus sy'n para ar hyd y prosiect ymchwil a datblygu.

⁷⁵ Nifer gros y swyddi cyfwerth ag amser llawn a grëwyd yn uniongyrchol drwy ymyriad Cronfa Strwythurol.

⁷⁶ Nifer gros y mentrau a ddechreuwyd o ganlyniad i gymorth Cronfa Strwythurol neu gymorth ariannol.

⁷⁷ Swm yr elw cynyddol a wna mentrau yn sgîl arbedion neu fuddiannau cynhyrchiant, sydd wedi deillio o gymorth Cronfa Strwythurol neu gymorth ariannol.

⁷⁸ Swm y buddsoddiad uniongyrchol yn y sector preifat, a ysgogwyd o ganlyniad i ymyriad Cronfa Strwythurol

⁷⁹ Uchafswm y swyddi a leolir o bosibl ar unrhyw un adeg o fewn adeilad a grëwyd neu a adnewyddwyd drwy ymyriad Cronfa Strwythurol.

⁸⁰ Nifer y m² o adeiladau a grëwyd neu a adnewyddwyd drwy ymyriad Cronfa Strwythurol.

⁸¹ Nifer y cynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd neu well a ddatblygwyd i'w masnacheiddio neu a weithredwyd yn fewnol.

Gwastraff a adferwyd ⁸³	484,000t o wastraff trefol wedi'i ailgylchu neu ei gompostio ledled Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007, Ystadegau Allweddol yr Amgylchedd)	1,000,000t
------------------------------------	--	------------

Dangosyddion Lefel Blaenoriaeth

3.95 Ar lefel blaenoriaeth, defnyddir amrywiaeth o ddangosyddion i fonitro cynnyrch (gweithgarwch) a chanlyniadau. Dewiswyd y dangosyddion hyn yn ofalus iadlewyrchu ehangder y blaenoriaethau unigol, tra'n canolbwyntio ar gynnyrch a chanlyniadau allweddol. Mae'r dystiolaeth o raglenni 2000–2006 yn awgrymu y bydd dewis llai o ddangosyddion, ond dangosyddion gwell, yn gwella ansawdd y systemau monitro. Ochr yn ochr â chanllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd, gwnaed ymdrechion i hwyluso a gwella ar y trefniadau presennol. Datblygwyd canllawiau hefyd ar ddiffiniadau dangosyddion a dulliau o gasglu data. Aed â'r gwaith hwn ymlaen gyda'n partneriaid trwy Ffrwd Waith Gwerthuso a Monitro: Cymru Ôl-2006.

3.96 Mae'r Awdurdod Rheoli yn ymrwymedig i gyflwyno adroddiadau yn erbyn dangosyddion craidd y Comisiwn. Drwy ddangosyddion monitro, gwybodaeth rheoli a gwerthusiadau, bydd yr Awdurdod Rheoli, fel y diffiniwyd ym Mhennod 6, yn gallu cyflwyno adroddiadau yn erbyn 32 o'r 41 o'r rhain, fel y nodir yn Atodiad C. Bydd pa mor aml y gellir cyflwyno adroddiadau yn erbyn y rhain yn amodol, mewn rhai achosion, ar gynnal gwerthusiad parhaus yn ystod y Rhaglen. Bydd yr Awdurdod Rheoli hefyd yn cyflwyno adroddiadau yn erbyn dangosyddion ychwanegol a ddewisir mewn partneriaeth; nodir y rhain o dan bob blaenoriaeth.

Gwerthusiad ar Lefel Rhaglenni

3.97 Mae Erthygl 47 o'r Rheoliad Cyffredinol yn gofyn am werthusiadau ar lefel rhaglenni a fydd yn helpu i wella ansawdd, effeithiolrwydd a chysondeb y cymorthoddi wrth y cronfeydd. Bydd y gwerthusiadau hyn yn helpu i weithredu'r rhaglen, gan roi ystyriaeth i ddatblygu cynaliadwy a deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n sicrhau y darperir yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r gwerthusiadau hyn.

3.98 Cynhelir y gwerthusiadau ar sail fwy hyblyg yn Rhaglen 2007-2013 yn unol â phwyslais y Comisiwn ar werthusiad parhaus. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y caiff gwerthusiadau eu llywio'n fwy gan alwadau, gan ymateb i anghenion polisïau a rhaglenni yn hytrach na'r ffactorau rheoliadol hanfodol.

3.99 Fodd bynnag, mae'n un o ofynion y Comisiwn o hyd bod y Rhagwerthusiad a'r Ôl-werthusiad yn cael eu cynnal a cheir rhagor o fanylion ar y gwerthusiadau hyn ar ddiwedd y strategaeth hon ac ym Mhennod 6, Gweithredu.

⁸² Nifer y gros y cilometrau a deithiwyd gan deithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau trafnidiaeth neu seilwaith a grëwyd neu a wellwyd drwy ymyriad Cronfa Strwythurol.

⁸³ Swm gros y gwastraff sydd ar gael i'w aildefnyddio drwy ymyriad Cronfa Strwythurol.

Gweithredu Strategol

3.100 Bydd ymagwedd strategol at weithredu yn helpu i sicrhau bod y Rhaglen newydd yngwneud cyfraniad cryfach byth at ddatblygu economaidd cynaliadwy. Mae gwerthusiadau o raglenni 2000–2006 wedi awgrymu bod gormod o brosiectau a'i bod yn anodd meintoli cyfraniad rhai o'r rhain at gyflawni nodau ac amcanion strategol y rhaglen. Bydd cyfuno prosiectau cydategol o fewncyd-destun fframweithiau strategol yn ysgogi'r broses o gyflawni rhannau allweddol o'r rhaglen.

3.101 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno ar set o egwyddorion i arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau bod rhaglenni yn cael eu halinio â pholisïau a strategaethau perthnasol y Llywodraeth sy'n cyfrannu at agendâu Lisboa a Göteborg ac yn cael eu cyflawni trwy brosiectau y mae angen strategol amlwg amdanynt, ar sail tystiolaeth galed. Mae'r Llywodraeth wedi cytuno hefyd y dylid cael llai o brosiectau, ond gydag ymyriadau 'dyfnach'. Bydd mwy o bwyslais ar gydweithredu rhanbarthol wrth ddatblygu strategaethau a phrosiectau, gan ystyried *Cynllun Gofodol Cymru* ynghyd â ffrydiau ariannu symlach.

3.102 Bydd *Cynllun Gofodol Cymru* yn gosod y fframwaith ar gyfer dewisiadau ar flaenoriaethau polisi ac ar gyfer cyflawni. Mae'n darparu trefniadau partneriaeth allweddol ac yn sylfaen ar gyfer meithrin cysylltiadau rhwng ardaloedd trefol a gwledig i gefnogi dyfodol cynaliadwy i gymunedau a busnesau. Bydd *Cynllun Gofodol Cymru* yn helpu i sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu at feysydd lleceir angen a chyfle. Bydd Grwpiau Ardal y *Cynllun Gofodol* yn cynghori ar y blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi o dan dair rhan y rhaglen: o dan Flaenoriaeth 3 Datblygu'r Seilwaith Strategol ar gyfer economi fodern, yr elfennau seilwaith strategol, o dan Flaenoriaeth 4, Creu Amgylchedd Busnes Deniadol, yr amgylchedd ar gyfer elfennau twf, ac o dan Flaenoriaeth 5, Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy, yr agweddau adfywio ffisegol. Bydd Grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol hefyd yn chwarae rôl wrth helpu i sicrhau bod blaenoriaethau rhaglenni eraill yn cael eu gweithredu mewn ffyrdd sy'n ystyried anghenion eu hardaloedd ac yn ymateb iddynt. Wrth fwrw ymlaen a'r gwaith hwn bydd angen i'r grwpiau ardal weithio gyda grwpiau perthnasol o randdeiliaid.

3.103 Er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith rhaglen y Gronfa Strwythurol yn y dyfodol ac er mwyn sicrhau y caiff targedau strategol eu bodloni, y nod fydd roi cyfeiriad gweithredol manylach i agweddau allweddol ar y rhaglenni trwy nifer o 'fframweithiau strategol'. Rhagwelir y cyflawnir rhan sylweddol o'r rhaglen newydd drwy fframweithiau o'r fath ac y byddant yn darparu cyd-destun cyffredinol ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau er mwyn ategu rhan benodol o'r rhaglen newydd. Ceir gwybodaeth bellach am y dull cyflawni mwy strategol hwn a'r egwyddorion a fydd yn arwain y gwaith o ddatblygu'r fframweithiau newydd ym Mhennod 6 ar y trefniadau gweithredu.

Yr Iaith Gymraeg

3.104 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dymuno i Gymru fod yn wlad wirioneddol ddwyieithog lle y gall pobl ddewis byw eu bywyd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy a lle mae presenoldeb y ddwy iaith yn

ffynhonnell weladwy ac amlwg o falchder a chryfder i bawb. Er mwyn cyflawni'r weledigaeth honno, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymrwymiad - yn *Iaith Pawb*⁸⁴, y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyeithog a'i Chynllun Iaith Gymraeg - i brif ffrydio'r Gymraeg ar draws meysydd polisi. Bydd gweithredu'r rhaglen Gydgyfeirio yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn yn llawn.

Prif Ffrydio Mentrau Cymunedol

3.105 Mae Cymru'n cymryd rhan mewn Tair Menter Gymunedol o dan raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2000–2006: sef EQUAL, URBAN II ac INTERREG. Mae Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn yn sicrhau arian o dan raglen EQUAL Prydain Fawr 2000-2006. Roedd Pedair Partneriaeth Ddatblygu ar waith yn ystod y cylch cyntaf, a dderbyniodd £1.6 miliwn o arian ESF. Cynyddodd hyn i 15 o Barneriaethau Datblygu yn ystod yr ail gylch, gyda £15 miliwn o arian ESF. Mae prosiectau fel 'Healthy Minds at Work' wedi helpu i wella'r ddealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwnganweithgarwch economaidd ac iechyd meddwl yn y gweithle. Yn ogystal â dysgu gwersi polisi gwerthfawr, mae dull EQUAL o weithredu trwy bartneriaethau datblygu wedi bod yn dra llwyddiannus wrth feithrin dealltwriaeth a phartneriaeth ym mhob agwedd ar y prosiectau, a hwyluso'r broses o brif ffrydio gwersi polisi a gweithredol. Caiff y profiad o EQUAL ei ddefnyddio yn y rhaglen Gydgyfeirio ESF yn benodol, er mwyn datblygu trefniadau i ategu camau arloesol a chydweithrediad trawsgenedlaethol.

3.106 Mae'r Flaenoriaeth 5 arfaethedig yn canolbwyntio yn benodol ar adeiladu cymunedau cynaliadwy. Yn unol â Chytundeb Bryste, bydd y camau agynigir yn datblygu'r amgylchedd ffisegol ac agweddau cymdeithasol ar adfywio. Roedd gan raglenni Amcan Un a Dau 2000–2006 record cryf o arallgyfeirio gwledig a gwella trefol, yn ogystal â'r rhaglen URBAN II llwyddiannus iawn sydd ar waith yn Wrecsam, ac Abertawe gynt. Mae gwersi'r rhaglenni hyn yn dangos ei bod yn hanfodol cynnwys y gymuned wrth adfywio a chynigir un flaenoriaeth er mwyn sicrhau y cyflawnir yr ymagwedd integredig hon.

3.107 Targedodd rhaglen URBAN II yng Ngorllewin Wrecsam nifer o gymunedau cyfagos gydag amodau economaidd-gymdeithasol tebyg, gan hybu cydweithredu ar draws ffiniau gweinyddol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cyffredin. Mae'r gwersi allweddol a ddysgwyd o raglen URBAN II Gorllewin Wrecsam yn cynnwys: diffinio cynnyrch a chanlyniadau yn glir a'u cymhwyso'n gyson; bod yn ymwybodol o ofynion cynnwys y gymuned o ran amser a chost; ac osgoi anhyblygrwydd gweithio o fewn mesurau. Bydd rhoi trefniadau'r Fframwaith Strategol ar waith yn caniatáu i ymyriadau yn y dyfodol fod yn rhan o gysyniadau datblygu trefol integredig, gan gynnwys dadansoddiad o'r sefyllfa economaidd-gymdeithasol, amcanion strategol, camau diriaethol, dyrannu cyllid a strwythurau ar gyfer gweithredu.

3.108 Dangosodd rhaglen Gorllewin Wrecsam y potensial i'r rhaglen arddel ymagwedd gyfannol at adfywio, sy'n gallu cynnwys ystod o ymyriadau gan gynnwys hybu busnesau bach a chanolig, hyfforddiant, cynhwysiant cymdeithasol

⁸⁴ *Iaith Pawb* Llywodraeth Cynulliad Cymru:
http://new.wales.gov.uk/topics/welsh_language/iaith_pawb/?lang=cy

ac adfywio ffisegol. Datblygir ymagwedd o'r fath, yn arbennig, trwy ERDF Blaenoriaeth 5 o'r rhaglen Gydgyfeirio.

Strategaeth ar gyfer Arloesedd a Gweithgarwch Trawsgenedlaethol

3.109 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn hyrwyddo ac yn ategu gweithgarwch arloesol a thrawsgenedlaethol drwy amrywiaeth o Flaenoriaethau o fewn y Rhaglen Weithredol, gan anelu at brif ffrydio'r canlyniadau. Oherwydd y diben hwn o ran prif ffrydio, ni fydd rhaglen neu echel blaenoriaeth ar wahân a phenodol o fewn y Rhaglen Weithredol ar gyfer naill ai arloesedd neu weithgarwch trawsgenedlaethol. Nodir y cwmipas ar gyfer arloesedd a gweithgarwch trawsgenedlaethol fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Fframweithiau Strategol. Bydd hyn yn sicrhau y caiff y partneriaethau Fframwaith a'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o ddewis ardaloedd lle y dylid hyrwyddo ac annog camau arloesol a gweithgarwch trawsgenedlaethol.

Camau Arloesol

3.110 Mae'r strategaeth Lisboa ddiwygiedig yn gosod pwyslais cryf ar ysgogi gwybodaeth a hybu arloesi. Adlewyrchir hyn yng Nghanllawiau'r Strategaeth Gymunedol sy'n hybu datblygu strategaethau sydd â darpariaeth benodol ar gyfer arbrofi i ysgogi sbardunau rhanbarthol a lleol i arloesi, ynghyd â'r gofynion rheoleiddiol newydd ynghylch prif ffrydio camau arloesol. Mae arloesi yn y cyd-destun hwn yn ehangach nag 'arloesi technegol' traddodiadol. Fe'i diffinnir gan y genhedlaeth o wybodaeth newydd a'i gweddnewid yn gynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd sy'n ymateb i alw gan ddinasyddion. Mae'n cynnwys arloesiadau cymdeithasol sy'n cefnogi moderneiddio'r economi, yn ogystal â diwygio polisiau achamau cyflogaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

3.111 Bydd y Rhaglen Gydgyfeirio ERDF yn annog arloesi drwy Fframweithiau Strategol y cytunwyd arnynt a bydd yn ategu'r gwaith o ledaenu canlyniadau a rhannu arfer gorau. Bydd gwerthuso trylwyr yn nodwedd graidd o bob prosiect sy'n hyrwyddo arloesi a defnyddir canlyniadau'r gwaith arbrofol hwn i lywio polisiau a phrosesau cyflawni, a bydd y gwersi a ddysgwyd yn bwydo i'r gwaith o weithredu'r rhaglen brif ffrwd a datblygu prosiectau. Datblygir strategaeth i hyrwyddo'r prif ffrydio hwn ar y cyd â'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni fel rhan o'r trefniadau i weithredu'r holl raglenni ERDF ac ESF. Nodir y cwmipas am gamau arloesol mewn ymgynghoriad â phartneriaid fel rhan o'r gwaith ar Fframweithiau Strategol a chytunir arno wedi hynny gyda'r Awdurdod Rheoli (gweler Pennod 6 - Gweithredu). Bydd hyn yn cwmpasu'r potensial i brif ffrydio camau gweithredu. Bydd prosiectau gweithredu arloesol yn destun prosesau monitro a gwerthuso penodol a byddant yn gweithredu o dan reolau cymhwyster safonol. Bydd pob prosiect gweithredu arloesol yn destun gwerthusiad allanol.

Cydweithrediad Trawsgenedlaethol a Rhyngranbarthol

3.112 Mae'r fframwaith rheoleiddiol newydd hefyd yn darparu ar gyfer prif ffrydio cydweithredu trawsgenedlaethol a rhyngranbarthol. Mae hyn yn cynnig cyfle cyffrous i ychwanegu gwerth at y Raglen Gydgyfeirio ERDF trwy hwyluso cydweithredu mewn meysydd lle ceir diddordeb cyffredin â rhanbarthau Ewropeaidd eraill. Er y caiff prosiectau sy'n cynnwys partneriaid ar draws yr

Undeb Ewropeaidd eu hystyried, rhoddir pwyslais arbennig ar weithgareddau ag Aelod-wladwriaethau arhanbarthau y mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gytundebau gweithredu ffurfiol â hwy. Mae'r rhain yn cynnwys Latfia, Llydaw, Catalonia, Silesia Uchaf a Baden-Württemberg. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sefydlu Uned Cydweithredu Trawsgenedlaethol ar wahân i ategu a chydgyssylltu gwaith o dan y rhaglen. Rhoddir trefniadau ar waith yn yr uned honno i sicrhau nad yw'r gweithgareddau trawsgenedlaethol a gefnogir drwy'r rhaglen Gydgyfeirio ERDF yn gorgyffwrdd â'r rhai a gefnogir drwy raglenni eraill y Gymuned.

3.113 Cyflwynwyd y fenter Regions for Economic Change *ddiweddaraf gan y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Tachwedd 2006*. Bydd y Rhaglen Cydweithredu Rhyngranbarthol ledled yr UE ar gyfer 2007-2013, a ategir o dan yr Amcan Cydweithredu Tiriogaethol, yn darparu offeryn pwysig ar gyfer gweithredu'r fenter hon. Mae Regions for Economic Change yn cynnig cyfleoedd sylweddol i Orllewin Cymru a'r Cymoedd ym maes prif ffrydio camau trawsgenedlaethol ac arloesol a'i nod yw cyfnewid arfer gorau rhwng rhanbarthau Ewrop. Mae'n rhoi cyfleoedd i sefydliadau yng Nghymru ymgysylltu â rhanbarthau yn ardaloedd eraill o Ewrop mewn perthynas â themâu sy'n cysylltu polisiau'r Undeb Ewropeaidd ag agenda Lisboa. Mae'n cyflwyno offeryn newydd i ranbarthau rannu a phrofi arfer gorau ar gyfer moderneiddio economaidd a gwell natur gystadleuol ac i ledaenu canlyniadau i'r Rhaglen brif ffrwd.

3.114 Yn fframwaith y fenter Regions for Economic Change mae'r Awdurdod Rheoli yn ymrwymo i wneud y canlynol:

- gwneud y trefniadau angenrheidiol i groesawu i'r broses raglennu brif ffrwd y gweithrediadau arloesol sy'n gysylltiedig â chanlyniadau'r rhwydweithiau y mae'r rhanbarth yn ymwneud â hwy;
- caniatáu i gynrychiolydd y rhwydwaith/rhwydweithiau y mae'r Rhanbarth yn ymwneud â hwy fod yn bresennol yn y Pwyllgor Monitro Rhaglenni (fel arsylwr), er mwyn cyflwyno adroddiad ar gynnydd gweithgareddau'r rhwydwaith;
- trefnu adeg benodol yn agenda'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni (neu bwyllgor rhaglennu) o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn ystyried gweithgareddau'r rhwydwaith a thrafod awgrymiadau perthnasol ar gyfer y rhaglen brif ffrwd dan sylw;
- hysbysu yn yr Adroddiad Blynnyddol ynghylch y broses o weithredu'r camau rhanbarthol a gynhwyswyd yn y fenter Regions for Economic Change.

Ymgynghoriad

3.115 Mae pennod Cymru o'r NSRF a'r rhaglen Gydgyfeirio wedi cael eu datblygu drwy broses ymgysylltu helaeth â phartneriaid. Mae hyn wedi cynnwys Grŵp Rhanddeiliaid Allanol, sy'n uno cynrychiolwyr o'r prif sefydliadau partner, a phum ffrwd gwaith arbenigol. Mae'r ffrydiau gwaith hyn wedi ategu'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Weithredol newydd ac wedi rhoi cyngor ar reoli'r rhaglen yn y dyfodol, gwerthuso a monitro a threfniadau archwilio a chydymffurfiaeth.

3.116 Lansiodwyd yr ymgynghoriad ar y rhaglen Gyddyfeirio ar 28 Gorffennaf 2006 am gyfnod o 10 wythnos, yn cau ar 06 Hydref 2006. Gwnaed dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan CRG Research Ltd ac mae'r adroddiad llawn ar gael ar wefan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)⁸⁵ ynghyd â'r ymatebion i'r ymgynghoriad ffurfiol. Cafwyd adborth hefyd ynghylch pedwar digwyddiad ymgynghori WEFO a digwyddiadau rhanddeiliaid eraill a drefnwyd gan y llywodraeth leol, busnesau, sectorau cymunedol a gwirfoddol, yr aeth swyddogion WEFO iddynt. Ers mis Gorffennaf, mae dros 1,000 o randdeiliaid wedi ymgynghori â WEFO. Cafwyd cyfanswm o 129 o ymatebion ffurfiol o'r ymgynghoriad cyhoeddus. Lle y bo'n bosibl, mae'r adroddiad yn trafod yr ymatebion yn ôl sector (Sector Gwirfoddol a Chymunedol; Partneriaethau datblygu economaidd/hyfforddi; y sector preifat; Sefydliadau AU ac AB; Sefydliadau Masnach/Proffesiynol; Awdurdodau Lleol; Asiantaethau eraill y Llywodraeth; Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Yr Amgylchedd, Diwylliant a Threftadaeth; Arall). Trafodwyd canfyddiadau cychwynnol yr adroddiad dadansoddi hefyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Allanol Ôl-2006.

Tabl 10. Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgynghoriad Cyddyfeirio yn ôl Sector

Sector	Nifer yr ymatebion
Sector Gwirfoddol a Chymunedol	17
Partneriaethau Datblygu Economaidd/Hyfforddi	35
Sector Preifat	10
Sefydliadau AU/AB	14
Sefydliadau Masnach/Proffesiynol	8
Awdurdodau Lleol	19
Asiantaethau'r Llywodraeth	8
Cynulliad Cenedlaethol Cymru	6
Yr Amgylchedd, Diwylliant a Threftadaeth	9
Arall	1

3.117 Y prif bwyntiau a ddaeth i'r golwg oedd:

- cefnogaeth eang i'r strategaeth, y blaenoriaethau a'r themâu;
- cytundeb cyffredinol ynghylch egwyddorion allweddol h.y. symleiddio, tryloywder, gwneud penderfyniadau cynhwysol ac adeiladu ar wersi a ddysgwyd o raglen 2000-2006;
- safbwyntiau cymysg ynghylch sut i rannu adnoddau rhwng blaenoriaethau;
- safbwyntiau cymysg ynghylch lefel y ffocws ar agenda Lisboa, cefnogaeth gref gan rai a phryder ynghylch ffocws llai ar rai meysydd o weithgarwch o gymharu ag eraill;
- cydnabyddiaeth o bwysigrwydd dull monitro a gwerthuso da a phrosesau clir ar gyfer casglu gwybodaeth rheoli;

⁸⁵ <http://www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?Lang=cy>

- cefnogaeth (yn enwedig gan Sefydliadau Addysg Uwch) i rôl addysg uwch o ran datblygu economaidd;
- angen parhaus i ymgysylltu â phartneriaid ar bob lefel;
- gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynghylch rôl Cynllun Gofodol Cymru a'i rhyngweithiad â'r Fframweithiau Strategol arfaethedig;
- tybiwyd nad oedd pwyslais digonol ar y sector twristiaeth.

3.118 Ceir manylion yr holl sylwadau ynghyd â rhestr o'r rhai a gyfrannodd at yr ymgynghoriad yn Atodiad H.

Crynodeb o'r rhag-werthusiad a'r Asesiad Strategol Amgylcheddol

Crynodeb o'r Rhagwerthusiad ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio ERDF

3.119 Yn unol ag Erthygl 48, cynhaliwyd Rhag-werthusiadau ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio ERDF i sicrhau bod adnoddau yn cael eu dyrannu yn y ffordd orau posibl ac i sicrhau ansawdd cynlluniau ar gyfer gweithredu'r rhaglen. Ym mis Ebrill 2006, yn dilyn proses dendro gystadleuol, rhoddodd WEFO contract i DTZ Consulting and Research i gynnal y Rhag-werthusiadau hyn. Roedd y broses yn gweithio mewn ffordd ailadroddol gyda DTZ yn roi sylwadau ar ddrafftiau cynnar o ddogfennau'r Rhaglen ac yn rhoi sylwadau ac argymhellion i'w hystyried gan WEFO. Rhoddwyd sylwadau pellach ar ddrafftiau diweddarach a chadwyd rhestr o'r argymhellion a ystyriwyd a'r rhai nas ystyriwyd. Lle nad oedd WEFO wedi ystyried sylwadau, roedd angen rhoi esboniad. Ceir manylion ynghylch hyn yn yr adroddiad llawn. Mae'r mwyafrif helaeth o argymhellion ac awgrymiadau a wnaed gan DTZ wedi'u derbyn gan WEFO ac wedi'u hymgorffori yn fersiwn drafft y Rhaglen Weithredol. Mae hyn yn gwneud yr adroddiad llawn yn hanesyddol i ryw raddau, gan ei fod yn dangos sut y gwnaeth y rhag-werthusiad ddylanwadu ar y fersiwn drafft o'r Rhaglen Weithredol, yn hytrach na rhestru'r argymhellion sy'n weddill.

3.120 Daeth y Rhag-werthusiad ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio ERDF i'r casgliad bod y dadansoddiad economaidd-gymdeithasol yn berthnasol, wedi'i ddiweddarau, yn gynhwysfawr, ac wedi'i ysgrifennu a'i lunio'n dda. Ystyriwyd bod y ffynonellau data a ddefnyddiwyd yn gredadwy ac roedd y gwerthuswyr yn fodlon bod dulliau cymharu digonol a phriodol wedi'u defnyddio. Ceir cydberthynas glir rhwng cynnwys agenda Lisboa a'r dadansoddiad ohoni, ac mae'r casgliadau y daethpwyd iddynt, ar y cyfan, yn gysylltiedig â'r dystiolaeth. Roedd y Rhagwerthusiad wedi nodi bod angen gwella cysondeb y broses o feincnodi yn erbyn data UE ac awgrymodd feysydd hefyd lle y gellid atgyfnerthu'r dadansoddiad, a rhoddwyd ystyriaeth i'r mwyafrif o'r materion hyn. Ystyriwyd yr aethpwyd i'r afael â'r mater hwn yn fersiwn terfynol y dadansoddiad. Roedd y Rhagwerthusiad hefyd wedi argymhell bod y dadansoddiad yn defnyddio data rhagolwg er bod WEFO o'r farn bod data rhagolwg yn rhy annibynadwy i'w gynnwys.

3.121 Daeth y Rhagwerthusiad i'r casgliad bod y Rhaglen, ar y cyfan, yn gysol â pholisïau a strategaethau Ewropeaidd a'i fod yn gweddu'n dda â Chanllawiau Strategol y Gymuned a blaenoriaethau Lisboa. Fodd bynnag, gwnaeth y gwerthuswyr rhai argymhellion i atgyfnerthu cysoneb â Strategaethau Ewropeaidd a pholisïau eraill yng Nghymru ymhellach a gwnaed hyn ar y cyfan. Nododd y Rhagwerthusiad fod cryn gysondeb rhwng y Rhaglenni Cydgyfeirio ERDF ac ESF.

3.122 Yn gyffredinol, daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y Rhaglen wedi'i datblygu'n dda a bod cysylltiad cryf rhwng yr heriau allweddol sy'n wynebu Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, y weledigaeth strategol, a'r elfennau allweddol o'r Rhaglen o ran Blaenoriaethau a Themâu.

3.123 Nododd y gwerthuswyr hefyd fod cryn gysondeb mewnol i'r Rhaglen, a bod ychydig o achosion o wrthdaro rhwng y Blaenoriaethau. Mae cydbwysedd priodol rhwng yr ymyriadau sy'n cyflwyno risg uchel i bolisïau ond yn addo effeithiau mawr, a'r rhai a brofwyd yn y rhaglen flaenorol. Gwnaeth y gwerthuswyr rai argymhellion a oedd yn ymwneud â rhoi mwy o sylw i'r methiant penodol yn y farchnad yr oedd y rhaglen yn mynd i'r afael ag ef, ac felly egluro'n well yr angen am ymyriad Cronfeydd Strwythurol, a meysydd lle y mae blaenoriaethau yn gorgyffwrdd â'i gilydd o bosibl. Mae ailstrwythuro'r blaenoriaethau yn lleihau'r risg o orgyffwrdd yn gyffredinol gan fod blaenoriaethau yn canolbwyntio'n gliriach ar amcanion sengl. Derbyniwyd y rhain yn gyffredinol gan WEFO a gweithrwyd arnynt o ganlyniad.

3.124 O ran trefniadau gweithredu y prif argymhelliad yw y dylid datblygu Strategaeth Fonitro a Gwerthuso (neu gynllun Gwerthuso) i roi manylion ynghylch gweithgarwch monitro a gwerthuso a gynllunnir. O ganlyniad i argymhelliad DTZ aeth WEFO ati i lunio Cynllun Monitro a Gwerthuso, a aeth i'r afael â bron pob un o'r argymhellion mwy penodol.

3.125 Fel rhan o'r rhagwerthusiad, asesodd y gwerthuswyr y graddau yr oedd y Rhaglen yn sicrhau'r gwerth ychwanegol mwyaf i'r Gymuned. Ystyriwyd gwerth ychwaegol o ran cydlyniant economaidd a chymdeithasol, gwerth ychwanegol polisïau o ran blaenoriaethau'r Gymuned, gwerth ychwanegol ariannol a gwerth ychwanegol y dull Cronfeydd Strwythurol. Asesodd y gwerthuswyr y Rhaglen ar gamau gwahanol o'i datblygiad a gwnaed argymhellion i WEFO er mwyn gwella'r Rhaglen, gan ystyried gwersi a ddysgwyd o'r rhaglenni blaenorol. Daeth y gwerthuswyr i'r casgliad bod y Rhaglen, fel y'i chyflwynir i'r Comisiwn, wedi'i chynllunio i sicrhau'r gwerth ychwanegol mwyaf i'r Gymuned, yn benodol drwy ategu amcanion cydlyniant economaidd a chymdeithasol y Gymuned, drwy gydategu blaenoriaethau'r Gymuned yn gadarn, yn enwedig Lisboa, a thrwy ychwanegu gwerth drwy'r dull gweithredu.

3.126 Yn gryno, nodweddwyd y Rhagwerthusiad gan lefel uchel o ryngweithio cadarnhaol a chynhyrchiol rhwng gwerthuswyr a'r WEFO. O ganlyniad, mae'r mwyafrif helaeth o argymhellion ac awgrymiadau a wnaed gan DTZ wedi'u derbyn gan WEFO ac wedi'u hymgorffori yn fersiwn drafft y Rhaglen Weithredol. Mae'r adroddiad yn nodi'r graddau y mae WEFO wedi ceisio ymgorffori argymhellion y rhagwerthuswyr, a ddisgrifir yn nodedig, ac, o ganlyniad, ychydig o sylwadau o sylwedd sy'n weddill.

Crynodeb o'r Asesiad Amgylcheddol Strategol

3.127 Fel sy'n ofynnol o dan Gyfarwydddeb 2001/42/EC, cynhaliwyd Asesiad Amgylcheddol Strategol ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Gyddyfeirio ERDF a'r Rhagwerthusiad. Diben yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw sicrhau bod y Rhaglen yn bodloni'r lefel uchel o ddiogelwch amgylcheddol a ddisgwylir gan raglen Cronfa Strwythurol yr UE. Cafodd Royal Haskoning eu his-gontractio gan DTZ Research and Consulting (contractwyr y Rhagwerthusiadau) i gynnal yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ystod 2006. Mae pedair rhan i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol: sgrinio; cwmpasu; cynhyrchu ac ymgynghori ynghylch yr Adroddiad Amgylcheddol drafft; ac, yn olaf, integreiddio'r pryderon, y materion a'r effeithiau a godwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

3.128 Nododd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol nifer o effeithiau cronol a allai ddigwydd o bosibl o ganlyniad i'r Rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys effeithiau ar fioamrywiaeth, ansawdd yr aer a'r dŵr, a newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, roedd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd yn cynnig nifer o fesurau lliniaru ac osgoi yr argymhellwyd y dylid eu cynnwys mewn gweithgareddau i'w hariannu gan y Rhaglen, a hefyd fel gofynion gweithgareddau perthnasol. Roedd y rhain yn cynnwys cefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo technoleg glân a gweithgaredadu sy'n canolbwyntio ar welliannau i effeithlonrwydd tanwydd. Roedd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd yn cynnig nifer o fesurau i'w hymgorffori mewn gweithgareddau a ariennir. Roedd y rhain yn cynnwys Systemau Rheoli Amgylcheddol, hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy, cyflawni safonau uchel o berfformiad amgylcheddol ar gyfer pob adeilad, a hyrwyddo bioamrywiaeth a defnydd cynaliadwy o'r tir ar gyfer safleoedd a ddatblygwyd.

3.129 Mewn ymateb i'r cynigion hyn, cynigiodd WEFO gynnwys gweithgareddau dangosol ychwanegol yn y Rhaglen sy'n cwmpasu meysydd a nodwyd yn y mesurau lliniaru uchod. Roedd y wybodaeth a roddwyd gan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd yn rhoi ffocws ychwanegol ar sicrhau'r buddiannau amgylcheddol mwyaf posibl y disgwylir iddynt ddeillio o'r Rhaglen.

3.130 Roedd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd yn cynnig nifer o fesurau i fonitro effeithiau amgylcheddol sylweddol y Rhaglen (gweler Pennod 8 o'r Adroddiad Amgylcheddol yn Atodiad F). Mae WEFO wedi ystyried y cynigion hyn wrth gadarnhau'r tefniadau ar gyfer monitro'r Rhaglen a dewis prosiectau.

Crynodeb o'r modd y cafodd ystyriaethau amgylcheddol eu cynnwys yn y Rhaglen

3.131 Cynlluniwyd y Rhaglen i sicrhau bod y gydberthynas gydategol gadarn a ragwelwyd o dan strategaethau Lisboa a Göterborg yn bodoli rhwng materion economaidd, strategol ac amgylcheddol. Mae hefyd yn adlewyrchu ffocws Canllawiau Strategol y Gymuned i gynnal potensial amgylcheddol y rhanbarthol.

3.132 Yn ystod cyfnod rhaglennu 2000-2006, daeth ymchwil annibynnol i'r casgliad bod cynaliadwyedd amgylcheddol wedi'i gynnwys yn dda yn y Rhaglen Amcan 1. Mabwysiadur dull gweithrdu tebyg ar gyfer cyfnod rhaglennu 2007-

2013: gweithgareddau llorweddol a fertigol sy'n mynd i'r afael ag amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol, gan ddefnyddio dangosyddion i annog prosiectau i fynd i'r afael â'r amcanion hynny ac i fesur cynnydd.

3.133 O ran camau fertigol, bydd y Rhaglen yn ychwanegu gwerth drwy ategu camau sy'n cynyddu effeithlonrwydd adnoddau drwy wella perfformiad amgylcheddol busnesau a hyrwyddo arloesedd mewn technoleg lân ac effeithlon o ran ynni. Gwneir buddsoddiad uniongyrchol mewn seilwaith amgylcheddol gyda'r nod o fodloni targedau ynni adnewyddadwy a gwella perfformiad y rhanbarth o ran rheoli gwastraff. Daw'r broses o adfer ac aildefnyddio tir halogedig a diffaith er defnydd economaidd a chymdeithasol â buddiannau sylweddol i ardaloedd sydd wedi diraddio.

3.134 Ceir tystiolaeth gynyddol hefyd o fuddiannau posibl yr amgylchedd fel sbardun economaidd, y mae gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd y potensial i adeiladu arno. Caiff potensial sylweddol y sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, cynnyrch a phrosesau eco-gyfeillgar, a hefyd y broses o reoli'r amgylchedd naturiol yn gynaliadwy a fydd yn helpu dulliau adfywio gwledig ei ategu o dan y Rhaglen. Bydd pwyslais hefyd ar ddull gwell o reoli risgiau ac adnoddau amgylcheddol.

3.135 Yn ogystal â darpariaethau fertigol ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol, mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn thema llorweddol allweddol. Ar lefel prosiectau, disgwylir i bob prosiect fynd i'r afael â materion amgylcheddol perthnasol ar y cam cynllunio, a bydd cynaliadwyedd amgylcheddol yn thema allweddol o bob gwerthusiad ar lefel prosiectau a lefel Rhaglenni.

3.136 Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod canllawiau ar lefel prosiectau ar gynaliadwyedd amgylcheddol wedi bod yn llwyddiannus yn y cyfnod rhaglennu cyfredol; mae'r canllawiau hyn yn cael eu diwygio a'u hehangu ar gyfer y cyfnod rhaglennu nesaf, a chynhwysir enghreifftiau 'arfer da' o integreiddio. Caiff cyngor arbenigol ei roi i brosiectau naill ai gan WEFO neu drwy'r partneriaethau sy'n ymwneud â datblygu a gweithredu prosiectau. Rhoddir cyfraniad arbenigol ar gam cynnar yn y broses er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol. Bydd cynnwys sefydliadau amgylcheddol allweddol yn y rhanbarth gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru yn bwysig er mwyn sefydlu rhwydwaith effeithiol o gymorth arbenigol.

3.137 Bydd cynaliadwyedd amgylcheddol yn thema allweddol o'r holl werthusiadau ar lefel prosiectau a lefel Rhaglenni. Cynhaliwyd Asesiad Amgylcheddol Strategol llawn o'r Rhaglen, er mwyn sicrhau bod y Rhaglen yn bodloni safonau uchel o ran diogelwch amgylcheddol a bod y Rhaglen yn manteisio ar gyfleoedd amgylcheddol cadarnhaol.

3.138 Ceir manylion pellach ar weithredu cynaliadwyedd amgylcheddol ym Mhennod 5 o'r Rhaglen Weithredol, Themâu Trawsbynciol.

Ymateb i argymhellion yr Adroddiad Amgylcheddol

3.139 Mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi cael effaith gadarnhaol iawn sef cynnal ffocws cadarn ar faterion amgylcheddol o fewn y broses o ddrafftio'r Rhaglen. Mae wedi codi nifer o faterion defnyddiol a ystyriwyd, ac wedi rhoi awgrymiadau gwerthfawr iawn ar fonitro, dewis prosiectau a mesurau lliniaru.

3.140 Rhoddodd yr adroddiad Amgylcheddol adolygiad manwl o'r sefyllfa amgylcheddol yn y rhanbarth a ategodd y materion a nodwyd yn y rhaglen weithredol. Dangosodd y broses o gymharu amcanion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r amcanion Cynaliadwyedd Amgylcheddol a ddefnyddiwyd yn y Rhaglen weithredol gyfatebiaeth dda ar wahân i amcan a oedd yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Eir i'r afael â hyn drwy atgyfnerthu cwmpas y mater hwn o fewn y canllawiau cynaliadwyedd amgylcheddol sy'n cael eu paratoi. Roedd yr adroddiad hefyd yn dadansoddi camau y gellid eu cymryd i liniaru effeithiau posibl ar yr amgylchedd sy'n rhywbeth defnyddiol i gyfeirio ato wrth baratoi'r canllawiau. Awgrymir nifer o feini prawf ar gyfer dewis prosiectau yn yr Adroddiad Amgylcheddol, a chaiff y rhain eu cynnwys fel y bo'n briodol yn y broses derfynol o ddewis prosiectau. Mae'r Adroddiad yn argymhell y dylai prosiectau ddefnyddio offeryn addasu newid yn yr hinsawdd er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio prosiectau, ac o ganlyniad caiff offeryn priodol ei nodi a'i ddefnyddio gan brosiectau (er nad yr union offeryn a argymhellir yn yr Adroddiad).

3.141 Bydd amrywiaeth o ddangosyddion a thargedau a gynigiwyd gan yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, ynghyd â'r rhai a gynigiwyd eisoes yn y rhaglen weithredol yn ffurfio'r sylfaen ar gyfer monitro effeithiau amgylcheddol (gweler isod).

Ymateb i ymgynghoriadau ynghylch yr Adroddiad Amgylcheddol

3.142 Roedd y cyrff statudol perthnaol (Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a Cadw) yn ymwneud â'r gwaith o gwmpasu'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn ystod y cyfnod cwmpasu pum wythnos. Cynhyrchwyd adroddiad cwmpasu er mwyn hwyluso trafodaethau, cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda'r cyrff statudol, a sylwadau a wnaed gan y cyrff statudol. Yn seiliedig ar yr adroddiadau hyn, cynhyrchwyd yr Adroddiad Amgylcheddol llawn i danategu ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Asesiad Amgylcheddol Strategol.

3.143 Ar ddechrau cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus, hysbyswyd amrywiaeth eang o sefydliadau â diddordeb o'r ymgynghoriad. Yn ogystal, rhoddwyd yr adroddiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dechreuodd yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn yn fuan ar ôl i'r ymgynghoriad ar y Rhaglen Gydgyfeirio ERDF ddrafft ddechrau. Cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Adroddiad Amgylcheddol drafft am wyth wythnos. Cafwyd ymatebion gan gyfanswm o ddeuddeg sefydliad.

3.144 Codwyd nifer o faterion gan y sawl yr ymgynghorwyd â hwy. Crynhoir y prif feysydd yn Tabl 11, gydag arwydd o'r camau a gymerwyd o ganlyniad. Ac eithrio lle y nodir, mae'r materion a'r camau hyn yn ymwneud â'r Adroddiad Amgylcheddol. Ceir mwy o fanylion yn yr Adroddiad Amgylcheddol.

Tabl 11. Crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol a'r camau a gymerwyd

Crynodeb o'r sylwadau	Ymateb
Crynodeb Annhechnegol yn rhy hir.	Diwygiwyd y Crynodeb Annhechnegol a'i gywasgu.
Angen diwygio geiriad Thema 4 er eglurder.	Cangen Polisi WEFO i weithredu ar hyn.
Nid yw'r asesiad yn nodi a yw effeithiau yn gadarnhaol, negyddol, uniongyrchol, anuniongyrchol, eilaidd, cronrus, tymor byr, canolig neu hir, neu'n barhaol.	Diwygiwyd yr asesiad i wahanu'r mathau gwahanol o effeithiau ac i ddarparu arwyddion penodol o effaith lle y bo'n bosibl.
Dylid adolygu polisïau, cynlluniau a rhaglenni.	Adolygwyd nifer fawr o bolisïau, cynlluniau a rhaglenni ychwanegol ar gyfer yr Adroddiad Amgylcheddol, bron bob un o'r rhai a awgrymwyd gan y sawl yr ymgynghorwyd â hwy heb gynnwys nifer fach lle na ellid cael gafael ar y dogfennau.
Nid oedd y dangosyddion yn benodol i'r Rhaglen neu nid oeddent yn gynhwysfawr.	Adolygwyd dangosyddion a'u diwygio i sicrhau bod iddynt gwmpas cynhwysfawr a'u bod yn berthnasol i'r amcanion amgylcheddol.
Awgrymwyd nifer o addasiadau i amcanion ac is-amcanion (er enghraifft y rhai yn ymwneud â nodweddion y dirwedd drefol, treftadaeth ddiwylliannol, salmonid a physgod eraill, yr amgylchedd dŵr, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, y defnydd o adnoddau, priddoedd, cefn gwlad a thirweddau, asedau sylweddol, a'r iaith Gymraeg).	Gwnaed addasiadau i'r amcanion a'r is-amcanion.
Dylid ymhelaethu ymhellach ar wybodaeth amgylcheddol sylfaenol am nifer o faterion (yn cynnwys bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd ac addasu, asedau sylweddol, ac ansawdd bywyd).	Ymhelaethwyd ar wybodaeth amgylcheddol sylfaenol yn y meysydd a nodwyd lle yr ystyriwyd bod lefel y manylion yn briodol i'r Asesiad Amgylcheddol Strategol hwn a lle yr oedd data ar gael.
Awgrymwyd rhai addasiadau i faterion amgylcheddol a gwmpaswyd (yn cynnwys treftadaeth, yr amgylchedd morol, adnoddau dŵr, tirweddau a morweddau, priddoedd, bioamrywiaeth, lles ffisegol a meddyliol).	Gwnaed y diwygiadau fel y bo'n briodol.

Crynodeb o'r sylwadau	Ymateb
Dylid ystyried effeithiau'r Rhaglen ymhellach (ar faterion yn cynnwys treftadaeth, tirweddau hanesyddol, a bioamrywiaeth).	Adolygwyd a diwygiwyd.
Nid yw'r mesurau lliniaru a nodwyd yn ddigon manwl neu wedi'u targedu'n ddigonol.	Adolygwyd, diwygiwyd ac ehangwyd y mesurau lliniaru yn dilyn ailasesiad o'r Rhaglen a'r opsiynau amgen.
Nid ystyriwyd bod yr opsiynau amgen a aseswyd yn profi'r Rhaglen.	Cafodd opsiynau amgen diwygiedig yn seiliedig ar lefelau ariannu o fewn Blaenoriaethau'r Rhaglen eu nodi a'u hasesu.
Ystyriwyd nad oedd dangosyddion wedi'u targedu'n ddigonol neu â ffocws digonol.	Adolygwyd dangosyddion monitro a'u diwygio fel eu bod yn cynrychioli'r rhai sy'n briodol i nodi newid. Fodd bynnag, cyfyngwyd hyn gan y ffaith bod effeithiau perthnasol sydd â mwy o arwyddocâd a dylanwad na'r Rhaglen.

Rhesymau dros ddewis y Rhaglen dros yr opsiynau amgen a nodwyd

3.145 Ystyriwyd tri opsiwn yn opsiynau amgen yr Asesiad Amgylcheddol Strategol: y Rhaglen Arfaethedig, Opsiwn A, ac Opsiwn B. Cynhyrchwyd Opsiwn A ac Opsiwn B drwy amrywio'r arian i'r rhan o'r Rhaglen a oedd yn arbennig o berthnasol i weithgareddau gwella'r amgylchedd. Yn Opsiwn A derbyniodd y rhan hon o'r Rhaglen 20% yn fwy o arian, gydag 20% o ostyngiad cyfatebol ar draws gweddill y Rhaglen a oedd yn gymesur i werth pob Thema o dan yr Opsiwn Arfaethedig. Yn Opsiwn B, cafwyd gostyngiad o 20% yng ngwerth ariannol Blaenoriaeth 2 Themâu 3 i 5⁸⁶, a chafwyd cynnydd o 20% yng ngwerth gweddill y Rhaglen.

3.146 Rhagwelodd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol y byddai Opsiwn A yn perfformio ychydig yn well yn gyffredinol yn erbyn y Rhaglen Arfaethedig ddrafft o ran effeithiau amgylcheddol buddiol ac osgoi effeithiau amgylcheddol niweidiol; ac y byddai'r Rhaglen Arfaethedig yn perfformio'n well nag opsiwn B. Fodd bynnag, gan ystyried anghenion economaidd a chymdeithasol Cymru ochr yn ochr ag effeithiau amgylcheddol rhagweledig y Rhaglen, penderfynwyd mai

⁸⁶ Cynhaliwyd yr Asesiad Amgylcheddol Strategol ar y ddogfen Ymgynghori. Mae strwythur y ddogfen wedi newid yn ystod trafodaethau. Mae Blaenoriaeth 2 y cyfeirir ati yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (Creu amgylchedd busnes deniadol) bellach wedi'i rhannu yn Flaenoriaeth 3 (Datblygu'r seilwaith strategol ar gyfer economi fodern) a Blaenoriaeth 4 (Creu amgylchedd busnes deniadol). Themâu 3 i 5 y cyfeirir atynt yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yw'r rhai sydd wedi symud i B4: mae Thema 3 (Ynni) bellach wedi newid i B4Th1 (Ynni); mae Thema 4 (Mynd i'r afael â risgiau amgylcheddol i dwf economaidd) bellach wedi newid i B4Th2 (Mynd i'r afael â Chyfleoedd Amgylcheddol a risgiau i dwf); ac mae Thema 5 (Amgylchedd ar gyfer Twf) bellach wedi newid i B4Th3 (Amgylchedd ar gyfer twf).

opsiwn y Rhaglen Arfaethedig yw'r cyfaddawd gorau o blith yr opsiynau a ystyriwyd.

3.147 Mae'r profiad o gynnwys Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn y rhaglen cronfa strwythurol gyfredol wedi bod o fudd i'r gwaith o baratoi'r rhaglen weithredol gydgyfeirio. O'r cychwyn, bu pwyslais mawr ar hyrwyddo gweithgareddau a fydd o fudd i'r amgylchedd. Atgyfnerthwyd hyn ymhellach drwy ymateb i'r materion a godwyd gan yr Asesiad Amgylcheddol Straetgol a'r broses ymgynghori. Ystyrir bod i'r rhaglen gydbwysedd priodol bellach o ran cynnwys yr amgylchedd mewn amcanion cymdeithasol ac economaidd yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy.

PENNOD 4: Blaenoriaethau

Erdf Blaenoriaeth 1: Datblygu'r Economi Wybodaeth

Amcan

4.1 Hyrwyddo economi gwerth ychwanegol uchel drwy wella gwybodaeth ac arloesedd ar gyfer twf, hybu ymchwil a datblygu, arloesedd a thechnoleg a'u defnyddio'n fasnachol a gwella'r cyfle i gael gafael ar TGCh a'r defnydd a wneir ohono.

Rhesymeg

4.2 Mae gwerth ychwanegol is fesul swydd yn egluro'r rhan fwyaf o'r bwlch cyfredol mewn GYC y pen rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Chymru gyfan. Felly, un o'r heriau mwyaf ar gyfer ffyniant Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn y dyfodol yw sefydlu amodau ffafriol, sefydlog er mwyn i busnesau allu ffynnu, a hefyd hyrwyddo agenda twf economaidd tymor hir a chynyddu enillion. Mae angen gwneud hyn drwy hybu natur gystadleuol a chynyddu cynhyrchiant. Un o'r ffactorau hanfodol sy'n sbarduno cynhyrchiant a gwerth ychwanegol yn yr economi yw'r gallu i ddatblygu, defnyddio a gwella cynnyrch a gwasasnaethau, ym maes gweithgynhyrchu ac mewn gwasanaethau. Mae gallu busnesau i ddatblygu cynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd a gwella a manteisio ar farchnadoedd newydd yn hanfodol. Mae'r gallu i fasnacheiddio a manteisio ar ganlyniad gwaith ymchwil a syniadau yn un o'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at dwf busnesau, yn enwedig ymhlith busnesau bach a chanolig. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae gan y rhanbarth un o'r cyfraddau isaf o weithgarwch arloesedd busnes, ymchwil a datblygu a gwariant yn y DU⁸⁷. Yn rhannol caiff hyn ei esbonio gan strwythur diwydiannol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd lle nad oes cynrychiolaeth ddigonol gan sectorau fel y sector fferyllol, sy'n buddsoddi'n sylweddol mewn ymchwil a datblygu. O ran mesurau arloesedd eraill, nid ymddengys fod Cymru (nid oes data ar gael ar y lefel is-ranbarthol) yn rhy bell ar ôl rhanbarthau eraill y DU ac mae hwn yn faes lle y mae cyfleoedd gwirioneddol i ddatblygu economi fodern. Mae hefyd yn bwysig annog cwmnïau i fanteisio ar arloesedd a thechnoleg ar draws y byd er mwyn i Orllewin Cymru a'r Cymoedd gystadlu'n fyd-eang.

4.3 Man cychwyn pwysig fydd adeiladu ar ddatblygiadau i greu diwylliant arloesedd cadarn, lle y mae pob rhan o'r gymdeithas - busnesau, cymunedau, a sefydliadau addysgol - yn ymwybodol o fuddiannau manteisio ar arloesedd, technegol ac ymchwil a datblygu.⁸⁸ Mae angen i gwmnïau cael eu cefnogi er mwyn iddynt allu manteisio ar syniadau, cynnyrch a phrosesau newydd a

⁸⁷ Yn 2003, dim ond 55% o wariant ymchwil a datblygu a oedd o fewn y sector menter busnes yng Nghymru, sy'n is na'r targed a bennwyd yn Strategaeth Lisboa sef 67% ac yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y DU gyfan, sef 68%. Gwybodaeth o ONS2003:

http://www.statistics.gov.uk/downloads/theme_economy/ET621.pdf

⁸⁸ Er enghraifft, edrychwch ar waith yr Athro Michael Porter ar 'clusters and the new economics of competition':

<http://www.oregoneconomy.org/Porter%20Clusters%20New%20Economics%20of%20Competition.pdf>

buddsoddi ynddynt. Drwy ei chyfraniad at raglen Camau Arloesol y Comisiwn Ewropeaidd 2000-2006, mae Cymru eisoes wedi nodi technolegau'r dyfodol, yn enwedig y gwaith o gydgyfeirio technolegau yn y dyfodol sy'n fwyaf tebygol o fod o fudd i'r economi dros y ddau ddegawd nesaf a thu hwnt i hynny. Bydd yn bwysig sicrhau bod busnesau yn ymwybodol o dechnolegau sy'n dod i'r golwg ac yn eu mabwysiadu, ac yn manteisio ar y cyfleoedd sydd i'w cael.

4.4 Lle y mae busnesau yn cydweithredu er mwyn cynhyrchu a gweithredu syniadau newydd mae'r twf yn gyflymach a cheir nodweddion technolegol anuniongyrchol⁸⁹. Fodd bynnag, mae llawer o drefi yng Ngorllewin Cymru yn wasgaredig iawn ac yn bell o ganolfannau mawr; o ganlyniad, mae angen ysgogi mwy o gyswllt busnes i fusnes er mwyn hwyluso rhwydweithiau, datblygiadau clwstwr, ffora sectoraidd a rhyngweithiad cadwyn gyflenwi. Bydd hyn yn arbennig o bwysig ymhlith busnesau sydd â'r potensial i dyfu'n sylweddol, yn ogystal ag ar gyfer diwydiannau a sectorau technoleg a gwybodaeth allweddol, â gwerth ychwanegol uchel a sectorau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi wedi'u nodi fel rhai sy'n hanfodol i ffyniant yr economi yn y dyfodol⁹⁰.

4.5 Mae gallu mentrau brodorol i gael gafael ar sylfaen ymchwil a datblygu gadarn yn elfen bwysig o ddarparu'r arbenigedd, y cyfleusterau a'r gallu ymchwil a datblygu sy'n ofynnol er mwyn trosglwyddo gwybodaeth a thechnoleg yn effeithiol i fusnesau a sefydliadau eraill yng Nghymru, ac ar gyfer defnyddio ymchwil yn fasnachol ac mae sefydliadau addysg uwch y rhanbarth yn adnodd sylweddol yn hyn o beth. Mae hefyd yn bwysig bod busnesau yn gallu manteisio ar waith ymchwil a datblygu a thechnoleg o'r tu allan i Gymru. Mae mentrau o dan raglen Cronfeydd Strwythurol 2000-2006 wedi gosod sylfeini ardderchog drwy greu diwylliant cwbl newydd o entrepreneuriaeth, ac arloesedd, a thrwy helpu busnesau i fanteisio ar weithgarwch ymchwil o'r radd flaenaf yn y rhanbarth.

4.6 Ceir cydategu â Rhaglen Fframwaith 7 (FP7) ar gyfer 2007-13 'Building the Europe of Knowledge'⁹¹. Bydd y rhaglen Gydgyfeirio hon yn helpu sylfaen ymchwil Cymru gyfan, cwmnïau â'r gallu i ymchwilio'n fewnol, a'r rheini heb brofiad blaenorol o ymgymryd â gwaith ymchwil i ymgysylltu â phedair rhan Rhaglen Fframwaith 7.

⁸⁹ Rice. P a Venables. A, 2004, 'Spatial determinants of productivity analysis for the regions of Great Britain', Papur Trafod CEP Rhif. 642; Boddy. M a Hudson. J, 2005, Meeting the Productivity Challenge A report for South West of England Regional Development Agency: Graham. D, 2005, Wider Economic Benefits of Transport Improvements: Link Between Agglomeration and Productivity. Yr Adran Drafndiaeth.

⁹⁰ Mae dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymru: Economi yn Ffynnu yn nodi deg sector sy'n cael eucydnabod yn eang fel rhai pwysig ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol. Gellir nodir sectorau yn y dyfodol yn dilyn dadansoddiad mwy sectoraidd a strwythurol o newid yn economi Cymru. Mae Strategaeth Wyddoniaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n cael ei datblygu hefyd yn nodi sawl sector pwysig sy'n sail i adnewyddu economaidd a chymdeithasol cynaliadwy, <http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypubs/978365/?lang=cy>

⁹¹ Rhaglen Fframwaith Ymchwil 7 (FP7) y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2007-13 'Building the Europe of Knowledge': http://ec.europa.eu/research/future/index_en.cfm

4.7 Mae ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo sectorau yn bwysig i dwf economaidd Cymru yn y dyfodol⁹². Er bod gan rai o'r sectorau megis y sectorau gweithgynhyrchu, diwydiannau creadigol a lletygarwch, hamdden a thwristiaeth glystyrau datblygedig, cryf yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae pob un o'r deg sector yn gweithredu o fewn ardal y Rhaglen. Mae cyfle da i ddatblygu technolegau amgylcheddol fel sail i dwf ac i fynd i'r afael â llawer o'r materion allweddol sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd sy'n berthnasol i Orllewin Cymru a'r Cymoedd, Cymru gyfan, a thu hwnt. Gellir cyflawni hyn drwy greu cynnyrch a phrosesau arloesol i wella'r amgylchedd mewn meysydd fel rheoli gwastraff, lleihau gollyngiadau carbon niweidiol a chodi ymwybyddiaeth o fanteision masnachol mabwysiadu polisïau 'gwyrdd' ymhlith busnesau. Yn ogystal, gellir gwneud cynnydd sylweddol drwy gynorthwyo unigolion a busnesau i ddefnyddio a lledaenu deunydd a rhaglenni arloesol gan ddefnyddio'r rhwydweithiau TGCh diweddaraf⁹³.

4.8 Yn fwy penodol, mae'r gwaith diweddar a wnaethpwyd i lywio Polisi Gwyddoniaeth Cymru wedi nodi rhai sectorau arbenigol penodol sy'n cynnig cwmpas ar gyfer datblygu economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys systemau ynni carbon isel ac, yn y sector iechyd, y gwyddorau ffisegol a gwybyddol. Bydd datblygiad llwyddiannus pob sector, ond yn fwy penodol, y sectorau mwy arbenigol hyn, yn dibynnu ar waith ymchwil o safon uchel wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â chyfleoedd masnachol.

4.9 Mae ail elfen y Flaenoriaeth hon yn ymwneud â lledaenu a defnyddio TGCh. Yn y gymdeithas fyd-eang sydd ohoni a lywir gan dechnoleg, mae manteisio i'r eithaf ar fuddiannau TGCh yn hanfodol o ran symud economïau a chymdeithasau yn eu blaen⁹⁴. Ceir tystiolaeth helaeth a chynyddol⁹⁵ o bwysigrwydd buddsoddi mewn TGCh a'i defnyddio'n effeithiol wrth ddatblygu rhanbarth yn llwyddiannus, yn economaidd ac yn gymdeithasol. Mae mabwysiadu TGCh yn gyflym, ynghyd ag arloesi, yn llwybr hanfodol i agor ac ehangu marchnadoedd gan gryfhau natur gystadleuol a llwyddiant busnesau⁹⁶. Mae amcangyfrifon diweddar yn awgrymu y bydd argaeledd band eang yn golygu

⁹² Mae fframwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru *Cymru: Economi yn Ffynnu* yn nodi deg sector y cydnabyddir yn eang eu bod yn bwysig i dwf economaidd yn y dyfodol, sef: moduro; awyrfod; bwyd-amaeth; uwch-dechnoleg; cynnyrch fferyllo/bio-gemegau; gwasanaethau ariannol; diwydiannau creadigol; adeiladu; lletygarwch, hamdden a thwristiaeth; a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o sectorau a chlystyrau eraill sy'n bwysig i ddatblygu economi gynaliadwy, yn cynnwys y sector ynni a sectorau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd. Mae *Strategaeth Wyddoniaeth* Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd ar ddod hefyd yn nodi sawl sector pwysig yn cynnwys gofal iechyd, ynni carbon isel a'r gwyddorau ffisegol a chymdeithasol/gwybyddol sy'n ategu proses adnewyddu economaidd a chymdeithasol barhaus <http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypublications/978365/?lang=cy>

⁹³ Mae gwybodaeth ar gael yn:

http://europa.eu.int/information_society/eeurope/i2010/docs/launch/i2010_press_release_en.doc

⁹⁴ Mae gwybodaeth ar gael yn:

http://ec.europa.eu/information_society/eeurope/i2010/index_en.htm

⁹⁵ Competitiveness Report 2004 y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'n amcangyfrif y bydd 90% o'r holl arloesedd a welir yn y sector moduro yn y dyfodol yn cael ei lywio gan TGCh ac y gellir priodoli 18% o dwf mewn cynhyrchiant yr UE-15 ers canol y 1990au i fuddsoddiad mewn TGCh.

http://ec.europa.eu/enterprise/enterprise_policy/competitiveness/doc/compreg_2004_en.pdf

⁹⁶ Rincon, A. et al, 2005. The Productivity Impact of e-Commerce in the UK, 2001: Evidence from microdata. <http://www.niesr.ac.uk/pubs/searchdetail.php?PublicationID=548>

budd net o £1.4 biliwn o leiaf (a hyd at £28.4 biliwn o bosibl)⁹⁷) i economi Cymru rhwng 2000 a 2015, a pho uchaf y bydd busnes yn gosod ei hun ar yr ysgol e-fabwysiadu, y mwyaf o fuddiannau busnes y gall eu disgwyl⁹⁸. Er mwyn manteisio ar botensial TGCh, rhaid i fentrau ar yr ochr alw sy'n ysgogi busnesau a'r economi gael eu paru ag ymyriadau ar yr ochr gyflenwi i ysgogi'r galw hwn ac, o ganlyniad i ffactorau megis daearyddiaeth a dwysedd poblogaeth sy'n creu costau ychwanegol ac yn lleihau'r sylfaen cwsmeriaid, gallai fod angen iddynt fod yn destun rhai ymyriadau cyhoeddus o hyd (yn hytrach nag ymyriadau cwbl fasnachol)⁹⁹.

4.10 Drwy fanteisio ar TGCh, mae dinasyddion a chymunedau yn ysgogi mwy a mwy o alw am nwyddau a gwasanaethau TGCh gwell.¹⁰⁰ Yn ogystal, bydd y broses o newid i ddigidol yn 2009 a 2010 yn arwain at gyfleoedd newydd ar gyfer gwasanaethau electronig. Mae llai o bobl yn meddu ar sgiliau TGCh yng Nghymru nag yng ngweddill y DU a gall ymgysylltu ar lefel y gymuned fod yn gam allweddol wrth fynd i'r afael â'r rhaniad digidol¹⁰¹. Mae'r unigolion hynny na allant gael gafael ar dechnolegau newydd neu nad ydynt yn gymwys i ddefnyddio'r technolegau newydd hynny yn cael eu hallgáu'n gymdeithasol ac yn economaidd fwyfwy, a byddant yn cael eu hallgáu fwyfwy yn y dyfodol hefyd.

4.11 Yn gynyddol, gall sicrhau bod mwy o deuluoedd yn defnyddio TGCh helpu i leihau allgáu economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau bod pobl yn cael gafael ar wybodaeth tra'n cyflwyno prisiau mwy cystadleuol hefyd¹⁰². Bydd yn hanfodol sicrhau mwy o degwch er mwyn i fusnesau allu cystadlu ac er mwyn i gymunedau ffynnu a bydd hyn, yn ei dro, yn helpu i gyflawni nodau cynhwysiant gymdeithasol a chyfle cyfartal Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyd-destun Polisi

Ewropeaidd

4.12 Mae'r Flaenoriaeth hon yn gysylltiedig â'r amcanion allweddol a nodir yng Nghanllawiau Strategol y Gymuned sef sicrhau bod y rhanbarth yn lle mwy cystadleuol i fuddsoddi a gweithio ynddo a'i fod felly yn cyfrannu'n effeithiol at economi gref a ddeinamig yn Ewrop. Mae'r polisiâu a'r rhaglenni thematig Ewropeaidd sy'n berthnasol i'r flaenoriaeth hon yn cynnwys, er enghraifft:

⁹⁷ Adroddiad ar fanteision Band eang a Rhaglen Band Eang Cymru i'r Economi Gymreig, Atkins Management Consultants, Medi 2006.

<http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/publications/benefits?lang=cy>

⁹⁸ Business in the Information Age: International Benchmarking Study 2003, yr Adran Masnach a Diwydiant

⁹⁹ IT use by Firms and Employees: Productivity evidence across industries. Economic Trends Rhif 625, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2005.

<http://www.statistics.gov.uk/cci/article.asp?ID=1233>

¹⁰⁰ OECD DSTI/ICCP/IIS(2005)6/FINAL <http://www.oecd.org/dataoecd/49/25/35930544.pdf>

¹⁰¹ (i) OECD (2001) Understanding the Digital Divide

<http://www.oecd.org/dataoecd/38/57/1888451.pdf>

(ii) Husing, T. a Selhofer, H. (2002) 'The Digital Divide Index' ECIS (Gweithrediadau Cynhadledd Gwlad Pŵyl) (iii) Tsiavos, P., Khanna, A. a Smithson, S. (2001) 'E-government Initiatives and Social Exclusion European Conference on e-Government, Dulyn 2001

¹⁰² OECD DSTI/ICCP/IIS(2005)6/FINAL

- Rhaglen Fframwaith Ymchwil 7 yr UE (FP7) ar gyfer 2007–13 'Building the Europe of Knowledge';
- adroddiad rhagweld 'grwpiau technolegau allweddol' y Comisiwn Ewropeaidd, Medi 2005;
- rhaglen Cystadleurwydd ac Arloesedd yr UE 2007–2013¹⁰³; a
- i2010: A European Information Society for growth and employment y Comisiwn Ewropeaidd¹⁰⁴.

4.13 Yn ogystal, mae angen sicrhau cydategu â rhaglen Fframwaith Ymchwil 7 (FP7) diweddaraf yr UE ar gyfer 2007-13 'Building the Europe of Knowledge'¹⁰⁵. Yn y cyd-destun hwn, cynlluniwyd y rhaglen Gydgyfeirio hon i helpu sylfaen ymchwil Cymru gyfan, cwmnïau â'r gallu i ymchwilio'n fewnol, a'r rhai heb brofiad blaenorol o ymgymryd â gwaith ymchwil i ymgysylltu â phedair rhan Rhaglen Fframwaith 7. Cydweithredu, Syniadau, Pobl a Galluoedd. Gan fod cysylltiad cryf hefyd rhwng y pedair elfen hyn â sectorau blaenoriaeth Cymru¹⁰⁶, mae cyfle gwych i adeiladu arnynt er mwyn helpu Gorllewin Cymru a'r Cymoedd i symud ymhellach tuag at economi arloesol, gynaliadwy. Yn benodol, mae'r maes 'potensial ymchwil' o fewn elfen 'Galluoedd' Rhaglen Fframwaith 7 yn targedu datblygiad rhanbarthau Cydgyfeirio yn arbennig. Fodd bynnag, ni fwriedir defnyddio'r cronfeydd strwythurol a Fframwaith 7 ar gyfer yr un gweithgarwch. Mae gwahaniaethau clir rhwng y math o brosiect y bydd pob un ohonynt yn ei ariannu a chaiff y broses hon ei rheoli er mwyn osgoi unrhyw orgyffwrdd neu ddyblygu.

Cenedlaethol

4.14 Mae gweledigaeth Cymru: *Economi yn Ffynnu* yn canolbwyntio ar sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy drwy helpu mwy o bobl i mewn i waith a thrwy godi enillion y rhai sydd mewn gwaith. Mae Cymru: *Gwlad Well*, yn cydnabod na all Cymru gystadlu ar gostau llafur rhatach, ac na ddylai geisio gwneud hynny; mae sgiliau ac arloesedd yn hanfodol os yw Cymru am gystadlu drwy ychwanegu gwerth a gwella ar ffigurau CMC cymharol mewn economi fyd-eang, fodern.

4.15 Mae hyrwyddo economi gynaliadwy, arloesol a gwerth uchel i Gymru yn rhan allweddol o weithredu *Cynllun Gofodol Cymru* hefyd.

4.16 Mae'r thema hon yn ategu'r dyheadau yn *Cymru o Blaid Arloesi*¹⁰⁷. Mae'r Cynllun yn pwysleisio pwysigrwydd cyfleu buddiannau arloesedd i fusnesau, yn ogystal â sicrhau bod pobl mewn sefyllfa well i arloesi. Mae hefyd yn canolbwyntio ar wneud y mwyaf posibl o alluoedd sefydliadau AU ac AB yng

¹⁰³ Cynnig y Comisiwn Ewropeaidd: http://ec.europa.eu/cip/index_en.htm

¹⁰⁴ i2010: A European Information Society for growth and employment, Mehefin 2005: http://europa.eu.int/information_society/eeurope/i2010/index_en.htm

¹⁰⁵ Rhaglen Fframwaith Ymchwil 7 (FP7) y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2007–13 'Building the Europe of Knowledge': http://ec.europa.eu/research/future/index_en.cfm

¹⁰⁶ Cymru: Economi yn Ffynnu, fel uchod.

¹⁰⁷ Cymru o Blaid Arloesi Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2003: <http://new.wales.gov.uk/about/departments/dein/consultation/944087/?lang=cy>

Nghymru, yn arbennig drwy annog datblygu, trosglwyddo a masnacheiddio technoleg, a thrwy gysylltiadau agosach rhwng y byd academiaidd a busnesau.

4.17 Mae *Strategaeth Wyddoniaeth Cymru* hefyd yn allweddol i'r broses o gyflawni amcanion Cymru o Blaid Arloesi. Mae'n cyfeirio at feysydd yr ystyrir eu bod yn bwysig i ddatblygu economaidd yng Nghymru; sef, systemau ynni carbon isel, gofal iechyd a'r gwyddorau ffisegol a chymdeithasol/gwybyddol sy'n ategu adnewyddu economaidd a chymdeithasol parhaus.

4.18 Mae rôl bwysig a thrawsffurfiadol TGCh o ran economi a gwead cymdeithasol Cymru wedi'i chydabod gan *Cymru Ar-lein – Online for a Better Wales*¹⁰⁸. Roedd y strategaeth hon yn rhoi ffocws i bob agwedd ar TGCh, ac mae wedi adeiladu ar lawer o'r egwyddorion a amlygwyd yn agenda Lisboa a'r cynllun gweithredu e-Ewrop. Mae 'Connecting the UK: the Digital Strategy', Uned Strategaeth y Prif Weinidog, Mawrth 2005 hefyd yn berthnasol yn y cyd-destun hwn. Yn erbyn y cefndir hwn, lansiwyd Rhaglen Band Eang Cymru¹⁰⁹ yn 2002 er mwyn rhoi dull cyfannol, hyblyg o ddatblygu band eang yng Nghymru.

4.19 Yn unol â'r datblygiadau TGCh ar lefel Ewropeaidd drwy i2010, mae fframwaith *Cymru Ar-lein* wrthi'n cael ei ddatblygu ymhellach gan y strategaeth sy'n ei olynu *Tuag at e-Gymru: Ymgynghoriad ar Ddefnyddio Grym TGCh*¹¹⁰ a fydd yn cyfeirio llawer o ddyheadau economaidd y Thema hon. Mae'n ymwneud â chreu amgylchedd yng Nghymru lle mae busnesau, y sector gwirfoddol, unigolion a chymunedau yn defnyddio'r sianelau pwerau a gynigir gan TGCh yn effeithiol i ennill, dysgu a rhyngweithio'n effeithiol gyda'r byd gan helpu Cymru, yn ei thro, i ffynnu mewn economi fodern, fyd-eang.

Targedau a Dangosyddion

4.20 Defnyddir y dangosyddion canlynol i olrhain hynt prosiectau a'r Rhaglen. Gellir cael rhagor o fanylion yn Atodiad Ch.

¹⁰⁸ Strategaeth *Cymru Ar-lein* Llywodraeth Cynulliad Cymru. <http://www.broadband.wales.gov.uk>

¹⁰⁹ Rhaglen Band Eang Llywodraeth Cynulliad Cymru.

¹¹⁰ Tuag at e-Gymru: Ymgynghoriad ar Ddefnyddio Grym TGCh yng Nghymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gorffennaf 2006.
<http://new.wales.gov.uk/topics/businessandconomy/broadbandandict/bbw/?lang=cy>

Tabl 12. Dangosyddion i Orlhain Hynt Prosiectau a'r Rhaglen - ERDF Blaenoriaeth 1

Dangosydd	Llinell Sylfaen	Targed
Cynnyrch		
Mentrau a gynorthwywyd (80% busnesau bach a chanolig)	102,500 o fentrau yn weithredol, 2003 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004, Dadansoddiad o Fusnesau yng Nghymru o ran Maint)	5,000
Mentrau a gafodd gymorth ariannol	102,500 o fentrau yn weithredol, 2003 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004, Dadansoddiad o Fusnesau yng Nghymru o ran Maint)	250
Unigolion a gynorthwywyd	-	500
Unigolion a gafodd gymorth ariannol	-	25
Pwyntiau seilwaith mynediad agored	-	7
Mentrau sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i ddefnyddio TGCh	-	15
Ymchwil a datblygu cydweithredol	-	20
Canolfannau arloesi a chyfleusterau ymchwil a datblygu a ddatblygwyd	-	2,500m ²
Canlyniadau		
Nifer y swyddi gros a grëwyd	777,000 o swyddi yn y gweithle, 2005 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006, Swyddi yn y Gweithle yn ôl Diwydiant yng Nghymru)	10,000 cyfwerth ag amser llawn
Mentrau a grëwyd	-	20
Budd o elw	-	£159,000,000
Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella cydraddoldeb a strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro	-	50% o gwmnïau yn cael eu cynorthwyo ac yn cael cymorth ariannol
Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella Systemau Rheoli Amgylcheddol	-	20% o gwmnïau yn cael eu cynorthwyo ac yn cael cymorth ariannol
Cynnyrch, prosesau neu wasanaethau a gofrestrwyd	116 o geisiadau am batent wedi'u caniatáu ledled Cymru, 2004 (Ffeithiau a Ffigurau'r Swyddfa Batentau 2004-05)	-

Cynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd neu well a lansiwyd	-	5,000
Buddsoddiad a gafwyd	£231 miliwn wedi'i wario gan fusnesau ar ymchwil a datblygu ledled Cymru, 2005 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2006, UK Business Enterprise Research and Development)	£150,000,000
Nifer y mentrau y crëwyd lle ar eu cyfer	-	50
Nifer y swyddi y crëwyd lle ar eu cyfer	-	150
Effeithiau		
Nifer y swyddi net a grëwyd	-	-
Cynnydd mewn trosiant	-	-
Gwerthiant cynnyrch, prosesau neu wasanaethau	-	-
Mentrau net a grëwyd	-	-
Poblogaeth â mynediad i bwyntiau seilwaithLlif traffig pwyntiau seilwaith mynediad agored	32% o bobl yng Nghymru â mynediad i fand eang (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2006, Internet Access, Households and Individuals)	-
Cyfraddau meddiannaeth	-	-
Cynnydd mewn GYC ar lefel cwmni	-	-

Buddiolwyr

4.21 Gallai'r rhain gynnwys y sector preifat, cyrff y sector cyhoeddus, Awdurdodau Lleol, Cyrff y sector gwirfoddol, Sefydliadau cymunedol, Sefydliadau Hyfforddiant, Sefydliadau Addysg Uwch, Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau anllywodraethol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, mentrau cymdeithasol a phartneriaid cymdeithasol.

Strategaeth weithredol

4.22 Cyflawnir y Flaenoriaeth hon drwy ddwy Thema.

Thema 1: Ymchwil a Datblygu, Arloesedd a Thechnoleg

4.23 Nod y Thema hon yw cynyddu gwerth ychwanegol drwy feithrin gallu busnesau i ddatblygu a defnyddio cynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd a gwell. Gwneir hyn drwy ddatblygu'r gallu ym meysydd ymchwil, technoleg ac arloesi domestig a'r gallu i fanteisio ar ymchwil a'i masnacheiddio. Croesewir cyfranogiad busnesau bach a chanolig a chwmnïau mwy o faint, gan fod y buddiannau i fusnesau bach a chanolig yn deillio'n uniongyrchol a thrwy gadwyn gyflenwi a rhwydweithiau eraill. Cyflawnir y nod hwn drwy:

- meithrin diwylliant o arloesi a gwella mewn cwmnïau a dangos manteision arloesi a gwyddoniaeth;
- helpu busnesau i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu a datblygu prosesau newydd a arweinir gan y farchnad, cynnyrch, technolegau a gwasanaethau, yn enwedig y rhai sydd â'r potensial ar gyfer twf uchel;
- datblygu gallu rheolwyr i sicrhau bod cwmnïau mewn sefyllfa well i wella cynnyrch a phrosesau; a
- cryfhau ac ymestyn gallu sefydliadau AU a, lle y bo'n briodol, sefydliadau AB i gefnogi busnesau drwy drosglwyddo gwybodaeth a masnacheiddio ymchwil, ac annog y broses o ddatblygu technolegau arloesol;

Gweithgareddau Dangosol

- gwasanaethau cymorth cynhwysfawr, yn cynnwys darpariaeth cymorth ariannol benodol, i gynorthwyo cwmnïau i fuddsoddi mewn ymchwil a datblygu, i ddefnyddio canlyniadau ymchwil a datblygu, ac i ddatblygu cynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd a gwell;
- hyfforddiant i reolwyr i'w galluogi i ddeall sut i ddefnyddio dulliau arloesol o wella cynnyrch a phrosesau;
- cymorth i annog mentrau ymchwil cydweithredol rhwng sefydliadau AU a chwmnïau, yn cynnwys cymorth ariannol ar gyfer prosiectau cydweithredol a helpu busnesau i ddod o hyd i'r partneriaid cywir;
- hybu'r gallu i ymgymryd â gwaith ymchwil yn y rhanbarth drwy gynorthwyo sefydliadau i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ariannu sydd ar gael o dan Fframwaith 7 pan fo gan y rhanbarth fudd strategol;
- sicrhau bod busnesau yn gallu cael gafael ar offer ac eiddo deallusol diweddar o safon uchel ynghyd â chymorth trwyddedu;

- technolegau amgylcheddol yn cynnwys datblygu cynnyrch a phrosesau i wella'r amgylchedd megis dulliau rheoli gwastraff gwell a gwell effeithlonrwydd ynni i ategu polisïau Amgylcheddol a Gwyddoniaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru; a
- pan fo achos clir dros wneud hynny, cryfhau gallu, capasiti ac ansawdd ymchwil sefydliadau AU (ac AB), a datblygu sgiliau lefel uwch/graddedig ac ymchwil sy'n uniongyrchol gysylltiedig â phrosiectau ERDF.

4.24 Disgwyliwn i'r thema hon ddefnyddio tua 72% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Thema 2: Seilwaith TGCh a Chymdeithas Wybodaeth i Bawb

4.25 Mae'r Thema hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwerth ychwanegol drwy gynyddu'r galw am Dechnolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu, y defnydd ohonynt a'r broses o'u mabwysiadu fel mater o drefn. Cyflawnir hyn drwy:

- annog cwmnïau i ddefnyddio TGCh;
- annog cwmnïau i sefydlu TGCh a'i defnyddio'n llawn;
- mynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol a rhwystrau eraill sy'n wynebu cwmnïau, dinasyddion a chymunedau o ran defnyddio TGCh a manteisio arni;
- hyrwyddo llwyfannau cyffredin i annog dull teg ac agored o ddefnyddio technolegau.

Gweithgareddau Dangosol:

4.26 Bydd y gweithgareddau hyn yn rhoi pwyslais ar ddefnyddio TGCh i drawsnewid prosesau busnes, cynnyrch a gwasanaethau yn hytrach na buddsoddi mewn TGCh yn unig. Bydd y gweithgareddau yn cynnwys:

- cymorth priodol i fusnesau bach a chanolig i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a greir gan e-fusnes i wella prosesau busnes, cynnyrch a gwasanaethau;
- cymorth penodol i ysgogi twf diwydiannau TGCh twf uchel, yn enwedig y rhai sy'n canolbwyntio ar greu cynnwys, gwasanaethau a rhaglenni mwy arloesol;
- creu rhwydweithiau busnes rhithwir (sector, strategol a/neu ddaearyddol) i alluogi busnesau i gydweithio;
- hyrwyddo cyfle cyfartal i bob busnes bach a chanolig drwy ddefnyddio TGCh yn effeithiol;

- cynyddu'r defnydd effeithiol a wneir o TGCh gan gymunedau, mentrau cymdeithasol, dinasyddion a'r sector gwirfoddol i oresyn y 'rhaniad digidol';
- cefnogi rhaglenni TGCh sydd â budd amgylcheddol megis gwella effeithlonrwydd adnoddau a lleihau'r angen i deithio;
- hyrwyddo a chefnogi rôl diogelwch cyfrifiadurol, er enghraifft, mewn perthynas ag e-droseddau mewn amgylchedd e-fusnes;
- annog sefydliadau AU ac AB a sefydliadau eraill i ddatblygu llwyfannau ymchwil TG cyffredin er mwyn hwyluso'r gwaith o gyfuno ymdrechion a chanfyddiadau ymchwil; a
- cefnogi buddsoddiad mewn seilwaith TGCh lle mae tystiolaeth o fethiant yn y farchnad.

4.27 Disgwyliwn i'r thema hon ddefnyddio tua 28% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

4.28 Mae llwyddiant yr ymyriadau o dan y thema hon yn gofyn am newid o ran ymddygiad busnesau bach a chanolig a sefydliadau ymchwil yn y rhanbarth, y mae'n rhaid iddynt fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan y rhaglen. Gan eu bod yn cael eu harwain gan alw yn bennaf, nid yw'n bosibl gorfodi busnesau neu gyrrff eraill i ddefnyddio'r cymorth. Fodd bynnag, mae strategaethau a pholisïau amrywiol Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd â'r Fframwaith Strategol (gweler Pennod 6, Trefniadau Gweithredu) yn rhoi cydlyniant o ran cyflwyno'r cymorth hwnnw a sicrhau y gellir cael gafael arno'n hawdd. Bydd y dulliau gweithredu hyn, ynghyd â'r trefniadau i fonitro cynnydd, yn olrhain hyn ac yn rhoi gwybodaeth i lywio unrhyw newidiadau sydd eu hangen o ran y trefniadau cyflwyno er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf posibl ohono.

Gwerth Ychwanegol

4.29 Mae gweithgarwch ymchwil a datblygu ac arloesedd yn aml wedi dod yn ail o ran blaenoriaethau busnesau bach a chanolig, gyda materion mwy uniongyrchol yn dueddol o lywio busnes o ddydd i ddydd. Gall yr ymdrech a'r adnoddau sydd eu hangen i fod yn fwy eangfrydig ac i feithrin cydberthnasau â sefydliadau ymchwil lleol ymddangos yn frawychus a gellir ystyried y gallai beri risg. O'u rhan hwy, gall gallu a chapasiti'r sefydliadau hynny i ymgysylltu â'u cymunedau busnes lleol gael eu rhwystro gan brinder arian. Gall absenoldeb cyfrwng cyfathrebu priodol, TGCh gradd uchel yn fwy penodol, fod yn rhwystro arall go iawn i'r broses ymgysylltu hon.

4.30 Drwy sicrhau mai buddsoddi mewn ymchwil a datblygu, ac arloesi yn benodol, yw prif bwyslais y Rhaglen ac ategu hyn drwy ddyrannu'r lefel uchel iawn o adnoddau a neilltuwyd ar gyfer y Flaenoriaeth hon, rhoddir yr ysgogiad i fynd i'r afael â'r diffygion hyn yn economi'r rhanbarth. Mae cydategu arbennig o uchel o fewn y Flaenoriaeth hon rhwng amcanion polisi Ewropeaidd ac amcanion polisi datganedig Llywodraeth Cynulliad Cymru er enghraifft rhwng Fframwaith Ymchwil 7 a'r Polisi Gwyddoniaeth ar gyfer Cymru. Felly, bydd yr arian o dan y

Flaenoriaeth hon yn cynyddu, mewn termau absoliwt, swm y gweithgarwch ymchwil a datblygu ac arloesi ond hefyd yn ychwanegu gwerth ychwanegol drwy ysgogi buddsoddiad newydd a pherthynol. Yn benodol, mae gan y mathau o weithgareddau y rhagwelir y byddant yn cael cymorth o dan y Flaenoriaeth hon y potensial i annog gweithgareddau allgynhyrchu a dod â gwerth ychwanegol gwirioneddol i'r rhanbarth drwy effaith lluosydd.

Cyfleuster Hyblygrwydd

4.31 Mae Erthygl 34 (2) o Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 1083/2006 yn darparu i'r ERDF ariannu ymyriadau sydd o fewn cwmplas yr ESF (ac i'r gwrthwyneb), cyhyd â bod y cyfryw ymyriadau yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus a bod iddynt gyswllt uniongyrchol â'r gweithrediad hwnnw. Er mwyn hyrwyddo dull cydlynol o weithredu camau o dan y Flaenoriaeth hon, gellir defnyddio uchafswm o 10% o gyfraniad yr UE i'r Flaenoriaeth i ariannu buddsoddiadau cydategol o'r fath. Caiff y cyfiawnhad dros ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn ei roi ar lefel gweithrediad/prosiect a chaiff yr adnoddau a ddefnyddir yn y modd hwn eu nodi ar wahân mewn ceisiadau prosiect a chaiff y gwariant ei ddatgan.

4.32 Ymhlith yr enghreifftiau lle y gall traws-ariannu o dan y Flaenoriaeth hon hyrwyddo dull gweithredu cydlynol mae:

- hyfforddiant i hyrwyddo'r broses o arloesi a defnyddio dulliau arloesol mewn perthynas â chynnyrch a phrosesau sy'n gysylltiedig â gweithredu gweithgareddau a ariennir gan yr ERDF yn llwyddiannus neu sy'n ei gydategu, er enghraifft busnesau bach a chanolig yn manteisio ar ymchwil a datblygu;
- hyfforddi personél ymchwil mewn busnesau a sefydliadau AU/AB sy'n ymwneud â gweithredoedd trosglwyddo technoleg a ariennir gan yr ERDF;
- hyfforddiant a gysylltir â busnesau bach a chanolig a sefydliadau cymunedol yn manteisio'n llwyddiannus ar TGCh.

4.33 Defnyddir dangosyddion ESF perthnasol, er enghraifft:

Tabl 13. Dangosyddion ESF ar gyfer Blaenoriaeth 1

Cynnyrch	⇒ Canlyniad	⇒ Effaith
Cyfranogwyr	Cyfranogwyr yn ennill cymwysterau	
	Cyfranogwyr yn ymgymryd â dysgu pellach	

Cydweithrediad Trawsgenedlaethol a Rhynggranbarthol

4.34 Un o brif ganlyniadau'r ymyriadau a gynigir o dan y Flaenoriaeth hon yw annog busnesau yn y rhanbarth i wneud llawer mwy o ddefnydd o ymchwil a datblygu er mwyn symud i fyny'r gadwyn gwerth a chynnal twf economaidd cynaliadwy. Fodd bynnag, o ystyried maint cyfredol yr adnodd ymchwil a datblygu sy'n bodoli eisoes, bydd gallu busnesau a'r cyfle sydd ar gael i ymchwilwyr ddefnyddio arbenigedd ymchwil ac arloesi rhanbarthau eraill yn hanfodol o ran helpu i ddatblygu gallu ac arbenigedd. Bydd y cyfle i gymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol o dan y rhaglenni Trawsgenedlaethol a

Rhyngranbarthol yn arbennig o werthfawr o ran cyflawni amcanion y Flaenoriaeth hon a chaiff ei annog felly gan ddefnyddio ERDF lle y bo'n briodol.

Grantiau Cyffredinol

4.35 Nid ydym yn rhagweld defnyddio Grantiau Cyffredinol fel y'u diffinnir gan Erthygl 42 o Reoliad (CE) 1083/2006 a wnaed ar 11 Gorffennaf 2006.

Erdf Blaenoriaeth 2: Gwella Natur Gystadleuol Busnesau

Amcan

4.36 Atgyfnerthu'r economi drwy gynyddu maint y stoc busnes a mentrau unigol drwy fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad mewn perthynas â chynghor, gwybodaeth a chyllid i fusnesau.

Rhesymeg

4.37 Caiff y broses o ddechrau busnesau newydd a thwf busnesau ei hannog drwy gymorth busnes penodol a chyfle digonol i gael gafael ar gyllid busnes.

4.38 Er bod gwerth ychwanegol is fesul swydd yn cyfrannu'n sylweddol at y bwlch GYC cyfredol yng Nghymru, (sef ffocws ERDF Blaenoriaeth 1), ffactor allweddol arall sy'n effeithio ar gyfanswm cynnyrch economaidd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yw'r lefel gymharol isel o entrepreneuriaeth.¹¹¹ Mae'r rhanbarth wedi cael ei ystyried bob amser fel ardal sydd ag economi llai entrepreneuriaidd na Chymru gyfan a'r DU gydag, er enghraifft, nifer is o gofrestriadau TAW ac mae'r cyfuniad o ddwysedd busnesau is na'r cyfartaledd yn y rhanbarth gyda nifer fawr o fusnesau bach a chanolig sydd wedi'u gwasgaru'n helaeth neu wedi'u lleoli mewn ardaloedd anghysbell neu wledig yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i rwydweithio, rhannu arfer gorau a phrofi pwysau cystadleuol cryfach.

4.39 Mae agenda Lisboa yn nodi rôl hanfodol busnesau bach a chanolig o ran y cyfraniad a wneir ganddynt tuag at dwf economaidd hirdymor. Caiff busnesau bach a chanolig eu hystyried fel 'asgwrn cefn' economi Ewrop, gan chwarae rôl hanfodol yn seiliedig ar eu dynamiaeth a'u hyblygrwydd, eu cyfraniad at gyflogaeth a datblygu cymdeithasol a rhanbarthol ac, yn y pen draw, wrth wella ffyniant rhanbarthol. Gall annog arloesedd, diwylliant entrepreneuriaidd cryf fod yn ffactor pwysig wrth greu busnesau newydd ac ehangu busnesau sy'n bodoli eisoes. Er gwaethaf gwelliannau diweddar mewn perfformiad entrepreneuriaidd, mae gwaith i'w wneud o hyd o ran y gyfradd dechrau busnesau a'r dwysedd busnes cyfartalog¹¹².

4.40 Mae nifer o fentrau sy'n cael eu rhedeg dan nawdd Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud cynnydd da o ran cefnogi busnesau newydd sy'n cychwyn, annog mwy o bobl ifanc i ystyried hunangyflogaeth fel opsiwn gyrfa a hyrwyddo ymddygiad mwy mentrus gan gwmnïau sy'n bodoli eisoes. Er mwyn cefnogi'r broses o weithio tuag at economi sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd a chynaliadwyedd swyddi newydd a swyddi sy'n bodoli eisoes, bydd yn bwysig canolbwyntio adnoddau ar fusnesau a sectorau a nodwyd fel y rhai sydd fwyaf tebygol o greu'r effaith fwyaf a chynnig gwerth gwell am arian; hynny yw sectorau cryf, twf uchel a gwerth ychwanegol fel

¹¹¹ OECD, 2002 Competition, Innovation and Productivity Growth: A Review of Theory and Evidence.

¹¹² Y Monitor Entrepreneuriaeth Byd-eang (GEM), 2004 Adroddiad Gweithredol Cymru 2004, *Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth* a gefnogir gan Awdurdod Datblygu Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach): www.gemconsortium.org

y sectorau awyrofod, cydrannau moduron, a hamdden a thwristiaeth¹¹³. Bydd yn bwysig hefyd darparu cymorth penodol ar gyfer sectorau sy'n dod i'r amlwg yn gysylltiedig â chyfleoedd adfywio ehangach ac amcanion Cynllun Gofodol Cymru, er enghraifft, yn y gwyddorau morol, amgylcheddol a thir. Cydnabyddir mai'r amgylchedd naturiol yw un o nwyddau mwyaf gwerthfawr y rhanbarth. (Gweler Blaenoriaeth 4). Yn wir, gall yr amgylchedd ei hun fod yn sbardun economaidd fel rhan annatod o lwyddiant rhanbarth mewn perthynas â thwristiaeth drwy sbarduno'r rhan o'r economi amgylcheddol sy'n tyfu gyflymaf - y sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol.

4.41 Mae busnesau sy'n masnachu'n rhyngwladol yn cael eu hamlygu i fwy o bwysau cystadleuol ac, ar gyfartaledd, maent yn fwy cynhyrchiol, yn talu cyflogau uwch ac yn cynyddu gwerth ychwanegol cyfartalog fesul swydd. Mae allforion o Gymru yn cynyddu'n sylweddol ac ar gyfradd gyflymach na'r cyfartaledd ar gyfer y DU, er eu bod yn deillio o sylfaen is. Mewn marchnad fwyfwy byd-eang mae llwyddiant busnesau o ran allforio yn debygol o gynyddu mewn pwysigrwydd. Bydd yn hanfodol rhoi cymorth fel rhan o strategaeth integredig i gynorthwyo'r sector, yn ogystal â datblygu gallu'r busnesau hynny sy'n ceisio symud o farchnadoedd bach lleol neu ranbarthol i'r arena ryngwladol am y tro cyntaf, neu ennill busnes newydd mewn marchnadoedd rhyngwladol i fasnachu'n rhyngwladol. Felly, er na chynigir ymgymryd ag unrhyw weithgarwch marchnata cyffredinol, gallai fod achlysuron pan fyddai rhoi cymorth penodol i farchnata cynnyrch, gwasanaeth neu gyfleuster newydd yn briodol, wedi'i gysylltu â chymorth arbenigol neu gymorth sectoraidd, er enghraifft, mewn perthynas ag eco-dwristiaeth neu dwristiaeth antur. Rhoddir ffocws penodol ar alluogi busnesau i fod yn fwy ymatebol i gyfleoedd yn y farchnad a hyrwyddo allforion, gan gydnabod rôl hollbwysig busnesau bach a chanolig.

4.42 Bydd y flaenoriaeth hon hefyd yn ategu'r broses o ddatblygu'r sector mentrau cymdeithasol¹¹⁴, a all gynnig cyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy a darparu gwasanaethau o fudd economaidd cyffredinol mewn lleoedd nad ydynt wedi

¹¹³ Mae fframwaith Cymru: *Economi yn Ffynnu* Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi deg sector a gydnabyddir yn eang fel rhai sy'n bwysig ar gyfer twf economaidd yn y dyfodol, sef: awyrofod; bwyd-amaeth; uwch dechnoleg; cynnyrch fferyllol/biogemegau; gwasanaethau ariannol; diwydiannau creadigol; adeiladu; lletygarwch, hamdden a thwristiaeth; a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae amrywiaeth o sectorau a chlystyrau eraill sy'n bwysig i ddatblygiad economi gynaliadwy, yn cynnwys y sector ynni a sectorau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd. Gellir nodir sectorau pellach yn dilyn dadansoddiad mwy sectoraidd a strwythurol o newid yn economi Cymru. Mae *Strategaeth Wyddoniaeth* Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd ar ddod hefyd yn nodi sawl sector pwysig yn cynnwys gofal iechyd, ynni carbon isel a'r gwyddorau ffisegol a chymdeithasol/gwybyddol sy'n ategu adnewyddu economaidd a chymdeithasol parhaus.

¹¹⁴ Diffiniad yn *Strategaeth Mentrau Cymdeithasol* ar gyfer Cymru. "ystyr menter gymdeithasol yw busnes sydd ag amcanion cymdeithasol yn bennaf y caiff ei wargedau eu hailfuddsoddi'n bennaf at y diben hwnnw yn y busnes neu yn y gymuned, yn hytrach na chael ei lywio gan yr angen i sicrhau'r elw mwyaf i randdeiliaid a pherchenogion."

Mae ffigurau ESYS yn amcangyfrif bod tua 620 o fentrau cymdeithasol yng Nghymru, a bod 438 o sefydliadau eraill naill ai'n fentrau cymdeithasol sy'n dod i'r amlwg neu â photensial i ddod yn fentrau cymdeithasol. Mae gwybodaeth o almanac y CGGC yn nodi bod yr economi gymdeithasol ehangach yng Nghymru yn cynnwys tua 30,000 o sefydliadau gyda throsiant o £1.2 biliwn, asedau o £1.6 biliwn a chyflogaeth i 22,900 o bobl, y mae 14,900 ohonynt yn gweithio'n llawn amser. Nodir y wybodaeth yn *Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mehefin 2005:

<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypubs/935789/?lang=cy>

profi'n ddeniadol i fuddsoddiad preifat. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn cymunedau ymylol sydd wedi'u hynysu'n ffisegol ac sydd â marchnadoedd bach, sy'n cyfyngu ar gystadleuaeth a maint busnesau. Bydd y flaenoriaeth hon yn cynorthwyo datblygiad a thwf y mentrau cymdeithasol hyn, gan symud y mentrau tuag at fwy o gynaliadwyedd hirdymor a'u helpu i wneud cynnydd ar y cylch datblygu busnes.

4.43 Mae buddsoddiad sy'n cynyddu'r cyfalaf ffisegol sydd ar gael i weithwyr yn debygol o'u galluogi i fod yn fwy cynhyrchiol. Pan fo methiant yn y farchnad o ran y cymorth ariannol sydd ar gael, er enghraifft, pan na all busnesau neu fentrau cymdeithasol gael cyfalaf risg gan fanciau confensiynol oherwydd lleoliad, natur y busnes neu risg ganfyddedig y fenter¹¹⁵, bydd angen ymyrraeth gan y sector cyhoeddus. Felly, bydd y flaenoriaeth hon hefyd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau allweddol i gael gafael ar arian a all rhwystro cychwyn busnesau newydd, cynhyrchiant a'r broses o greu gwerth ar draws ystod o sectorau, yn enwedig ymhlith busnesau â photensial cryf o ran twf.

Cyd-destun Polisi

Ewropeaidd

4.44 Mae'r flaenoriaeth benodol hon yn mynd i'r afael â'r prif faterion sy'n ymwneud â chynyddu lefelau entrepreneuriaeth o fewn ardal y Rhaglen ac yn gwneud cyfraniad uniongyrchol i uchelgais y Gymuned i sicrhau mai ei heconomi hi yw'r un mwyaf blaengar a chadarn yn y byd. Amlygir y thema hon yng Nghanllawiau Strategol ac Integredig y Gymuned. Mae'r polisiau a'r rhaglenni thematig Ewropeaidd sy'n berthnasol i'r flaenoriaeth hon yn cynnwys, er enghraifft:

- rhaglen Cystadleurwydd ac Arloesedd yr UE 2007–2013¹¹⁶;
- Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth yr UE¹¹⁷.

Cenedlaethol

4.45 Mae nifer o strategaethau a rhaglenni thematig, cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn berthnasol i'r flaenoriaeth hon hefyd. Ymhlith y rhain mae'r canlynol:

- Mae *Cymru: Economi yn Ffynnu* yn canolbwyntio ar sicrhau twf economaidd cryf a chynaliadwy drwy helpu mwy o bobl i mewn i waith a helpu i gynyddu enillion y rhai sydd mewn gwaith. Er mwyn cyflawni hyn a helpu i gefnogi cynhyrchiant busnesau a chreu gwerth ar draws ystod o sectorau, mae *Cymru: Economi yn Ffynnu* yn cyfeirio at gamau gweithredu allweddol, yn cynnwys: creu diwylliant cadarn o fenter i annog pobl i ddechrau busnesau newydd ac i annog twf busnesau sy'n bodoli eisoes;

¹¹⁵ Graham Review of the Small Firms Loan Guarantee Scheme, 2004.

¹¹⁶ Cynnig y Comisiwn Ewropeaidd: http://ec.europa.eu/cip/index_en.htm

¹¹⁷ Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth yr UE:
http://ec.europa.eu/enterprise/entrepreneurship/action_plan/index.htm

buddsoddi mewn busnesau drwy ystod o wasanaethau cyngor ac ariannol penodedig, ac annog masnachu rhyngwladol;

- Mae *Cynllun Gofodol Cymru* yn rhan allweddol o'r gwaith o hyrwyddo economi gynaliadwy, arloesol a gwerth uchel i Gymru. Mewn perthynas â'r Flaenoriaeth hon mae'r gwaith yn cynnwys: cefnogi cwmnïau sy'n ail-leoli neu'n buddsoddi yng Nghymru; buddsoddi mewn mentrau trosglwyddo gwybodaeth; sicrhau màs critigol o fusnesau mewn ardaloedd economaidd allweddol; manteision a photensial economaidd, o dwristiaeth i ddiwydiannau uwch-dechnoleg arbenigol;
- Mae *Cymru: Gwlad Well*, yn cydnabod na all Cymru gystadlu ar gostau llafur rhatach, ac na ddylai geisio gwneud hynny; mae sgiliau ac arloesedd yn hanfodol os yw Cymru am gystadlu o ran ychwanegu gwerth a gwella ar ffigurau CMC cymharol mewn economi fyd-eang, fodern;
- *Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau*¹¹⁸;
- *Strategaeth Fasnach Ryngwladol ar gyfer Cymru*¹¹⁹;
- *Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth*;
- *Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru*.

Targedau a Dangosyddion

4.46 Defnyddir y dangosyddion canlynol i olrhain hynt prosiectau a'r Rhaglen. Gellir cael rhagor o fanylion yn Atodiad Ch.

¹¹⁸ *Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau* Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/topics/businessandconomy/help/businessadvice/KB4B/?lang=cy>

¹¹⁹ *Strategaeth Fasnach Ryngwladol ar gyfer Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2003: <http://www.ibwales.com/server.php?show=nav.6385>

Tabl 14. Dangosyddion i Orlhain Hynt Prosiectau a'r Rhaglen – ERDF Blaenoriaeth 2

Dangosydd	Llinell Sylfaen	Targed
Cynnyrch		
Mentrau a gynorthwywyd (90% o fusnesau bach a chanolig)	102,500 o fentrau yn weithredol, 2003 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004, Dadansoddiad o Fusnesau yng Nghymru o ran Maint)	9,000
Mentrau a gafodd gymorth ariannol	102,500 o fentrau yn weithredol, 2003 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004, Dadansoddiad o Fusnesau yng Nghymru o ran Maint)	900
Mentrau cymdeithasol a gynorthwywyd	-	200
Mentrau cymdeithasol a gafodd gymorth ariannol	-	100
Unigolion a gynorthwywyd i sefydlu menter newydd	-	7,700
Unigolion a gafodd gymorth ariannol i sefydlu menter newydd	-	770
Canlyniadau		
Swyddi gros a grëwyd	777,000 o swyddi yn y gweithle, 2005 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006, Swyddi yn y Gweithle yn ôl Diwydiant yng Nghymru)	11,000 cyfwerth ag amser llawn
Mentrau a grëwyd	3,790 o gofrestriadau TAW, 2005 (Gwasanaeth Busnesau Bach yr Adran Masnach a Diwydiant)	5,000
Budd o elw	-	£143,100,000
Mentrau sydd wedi mabwysiadu neu wella strategaethau cydraddoldeb a systemau monitro	-	50% o gwmnïau yn cael eu cynorthwyo ac yn cael cymorth ariannol
Mentrau sydd wedi mabwysiadu neu wella Systemau Rheoli Amgylcheddol	-	20% o gwmnïau yn cael eu cynorthwyo ac yn cael cymorth ariannol
Buddsoddiad a gafwyd	£2,817 miliwn o wariant cyfalaf net ledled Cymru, 2004 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2006, Ymchwiliad Busnes Blynyddol)	£135,000,000
Cynnydd mewn lefelau allforio	£8,645 miliwn o allforion ledled Cymru, 2005 (Cyllid a Thollau EM)	-£34,650,000

Effeithiau		
Swyddi net a grëwyd	-	-
Cynnydd mewn trosiant	-	-
Mentrau net a grëwyd	-	-
Cynnydd net yn lefel yr allforion	-	-
Cynnydd mewn GYC ar lefel cwmni	-	-

Buddiolwyr

4.47 Gallai'r rhain gynnwys y Sector preifat, Cyrff y sector cyhoeddus, Awdurdodau Lleol, Cyrff y sector gwirfoddol, Sefydliadau cymunedol, Sefydliadau hyfforddi, Sefydliadau Addysg Uwch, Sefydliadau Addysg Bellach, Mentrau Cymdeithasol, Sefydliadau Anllywodraethol, Partneriaid Cymdeithasol a Sefydliadau Hyfforddi.

Strategaeth Weithredol

4.48 Cyflwynir y flaenoriaeth hon drwy ddwy thema.

Thema 1: Entrepreneuriaeth

4.49 Nod y thema hon yw creu amgylchedd cryfach ar gyfer mentrau drwy gefnogi busnesau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes, yn enwedig y rhai sydd â'r gallu i dyfu. Cyflawnir hyn drwy:

- roi cymorth i bobl ddechrau mentrau newydd;
- cefnogi twf mentrau sy'n bodoli eisoes, yn enwedig y rhai sydd â'r gallu i dyfu;
- hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu'r sectorau sy'n gryf yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, neu'r rhai y mae'n ceisio eu datblygu;
- gwella cynaliadwyedd mentrau cymunedol a chymdeithasol drwy gynyddu eu cyfraniad economaidd.

Gweithgareddau Dangosol

- gwella gallu busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol i brynu'n ddeallus o'r farchnad agored ac i wneud y defnydd gorau o ddarpariaeth breifat;
- gwella ansawdd cymorth busnes y sector preifat drwy bennu a gosod safonau cymhwysedd i gynghorwyr a gwella'r amrywiaeth o offer sydd ar gael;

- lle y mae bylchau yn y farchnad, rhoi cymorth busnes wedi'i dargedu ar waith yn cynnwys unrhyw ofynion sector penodol sy'n codi o strategaethau sector penodol sy'n dod i'r golwg;
- nodi clystyrau naturiol a darparu cymorth i hwyluso twf a datblygiad a rhwydweithio;
- datblygu diwylliant o entrepreneuriaeth wedi'i dargedu, er enghraifft drwy annog graddedigion i ymgymryd â hunangyflogaeth;
- sicrhau bod cymorth ar gael i bawb a rhoi cymorth wedi'i dargedu i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sydd â'r gallu i fod yn entrepreneuriaid;
- sicrhau dulliau cymorth integredig ar gyfer cwmnïau, gan weithio gyda sgiliau, arloesedd, adeiladau, cyllid a marchnata;
- cymorth busnes a datblygu penodedig ar gyfer mentrau cymdeithasol a allai gynnwys ymgyrchoedd marchnata a chodi ymwybyddiaeth sy'n ei gwneud yn haws cael gafael ar gymorth a chyllid, yn hyrwyddo arfer gorau, yn ymchwilio i gyfleoedd newydd ac yn helpu i arwain at ddiwylliant o gynaliadwyedd ariannol, a fydd yn gysylltiedig â chymorth busnes prif ffrwd yn y pen draw; a
- mentrau cymorth busnes a marchnata ar gyfer twristiaeth gynaliadwy a fydd yn cynyddu cyfraniad gwerth ychwanegol y sector i'r economi yng Nghymru. (Fe fydd gwerth cyfraniad ERDF i'r gweithgaredd yma yn cael ei gyfyngu i €5 miliwn).

4.50 Disgwyliwn i'r thema hon ddefnyddio tua 47% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Thema 2: Cyllid Busnes

4.51 Nod y thema hon yw helpu busnesau i dyfu ac ehangu drwy ei gwneud yn haws cael gafael ar gyllid busnes, lle ceir methiant clir yn y farchnad, a thrwy gefnogi a chyflymu allforion o Gymru. Cyflawnir hyn drwy:

- ddarparu cyllid dyledion a chyfalaf mentro i fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad o ran y dulliau cymorth ariannol sydd eu hangen i greu busnesau bach a chanolig newydd a datblygu'r rhai sy'n bodoli eisoes;
- darparu pecynnau cymorth grant dewisol, penodedig ar gyfer busnesau, gan gynnwys, ymhlith sectorau eraill, sectorau twf uchel;
- cefnogi a chyflymu allforion o Gymru.

Gweithgareddau Dangosol:

- darparu buddsoddiadau cyfalaf mentro cyhoeddus/preifat o fewn cyd-destun mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys y Banc Gwybodaeth ar gyfer Busnesau, Techniums, CAMPUS a'r rhaglen Ddeillio;
- darparu cymorth hyblyg ar gyfer rhwystrau a nodir i fusnesau, a allai gynnwys costau cychwyn a throthwyon twf;
- rhoi cyngor a chymorth ariannol i fusnesau sy'n ceisio cychwyn gweithrediadau dramor, megis cymorth i gysylltu busnesau â chwsmeriaid dramor, cymorth i alluogi busnesau i farchnata a hyrwyddo eu hunain yn llwyddiannus.

4.52 Disgwyliwn i'r thema hon ddefnyddio tua 53% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

4.53 Mae'r nifer uchel sy'n ymgymryd ag ymyriadau tebyg o dan y rhaglen gyfredol a gwybodaeth arall yn dystiolaeth o fethiant hirdymor y farchnad o ran cyflenwi cymorth a chyllid busnes. Fodd bynnag, gwnaed rhywfaint o gynnydd a nod y Flaenoriaeth hon yw rhoi digon o anogaeth a chymorth i sicrhau, yn ystod oes y rhaglen, y caiff y gwagleoedd hyn eu llenwi - gan y sector preifat yn y pen draw, wrth iddynt ddod yn ddigon cadarn i ddiwallu anghenion eu cleientiaid. Wrth i'r economi ddatblygu, rhagwelir y bydd y galw am wasanaethau o'r fath yn y sector preifat yn tyfu gan sicrhau y bydd yr ymyriadau hyn yn arwain at ddatblygiad cynaliadwy. Yr her fydd sicrhau bod yr adnoddau o dan y Flaenoriaeth hon ar gael yn ystod oes y Rhaglen a chaiff y gwariant ei fonitro'n ofalus i sicrhau y caiff yr arian ei reoli'n effeithiol.

Gwerth Ychwanegol

4.54 Prif fyrddwn y Flaenoriaeth hon yw mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad o ran rhoi cyngor, gwybodaeth a chyllid a fu'n rhwystrau o ran creu busnesau bach a chanolig newydd ac ehangu rhai sy'n bodoli eisoes. Gwnaed rhywfaint o gynnydd yn ystod y rhaglenni cyfredol a cheir cydnabyddiaeth gynyddol ymhlith busnesau y dylent edrych i'r sector preifat ar gyfer y mwyafrif o wasanaethau y mae eu hangen arnynt i weithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, ni ellir diwallu anghenion busnes gwasanaethau yn lleol bob amser. Ar yr un pryd, mae mentrau newydd a llai traddodiadol, ac yn enwedig y rhai a gaiff eu rhedeg gan ferched a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth berswadio buddsoddwyr i gyfranogi yn eu mentrau.

4.55 Bydd defnyddio Cronfeydd Strwythurol yn sicrhau bod y gwasanaethau a gynigir gan y sector cyhoeddus ar gael yn ehangach a'u bod yn cynnig mwy o gymorth. Bydd hyn yn ei dro yn cyflymu'r broses o ddechrau busnesau a thwf busnesau a bydd yr effaith ddilynol ar swyddi a thwf yn arwain at alwadau ychwanegol am nwyddau a gwasanaethau yn y rhanbarth gan sicrhau gwerth ychwanegol hirdymor.

Cyfleuster Hyblygrwydd

4.56 Mae Erthygl 34 (2) o Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 1083/2006 yn darparu i'r ERDF ariannu ymyriadau sydd o fewn cwrmpas yr ESF (ac i'r gwrthwyneb), cyhyd

â bod y cyfryw ymyriadau yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus a bod iddynt gyswllt uniongyrchol â'r gweithrediad hwnnw. Er mwyn hyrwyddo dull cydlynol o weithredu camau o dan y Flaenoriaeth hon, gellir defnyddio uchafswm o 10% o gyfraniad yr UE i'r Flaenoriaeth i ariannu buddsoddiadau cydategol o'r fath. Caiff y cyfiawnhad dros ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn ei roi ar lefel gweithrediad/prosiect a chaiff yr adnoddau a ddefnyddir yn y modd hwn eu nodi ar wahân mewn ceisiadau prosiect a chaiff y gwariant ei ddatgan.

4.57 Ymhlith yr enghreifftiau lle y gall traws-ariannu o dan y Flaenoriaeth hon hyrwyddo dull gweithredu cydlynol mae:

- hyfforddiant i hyrwyddo'r broses o gychwyn busnesau newydd a datblygu busnesau sy'n ategu gweithrediad llwyddiannus gweithgareddau a ariennir gan yr ERDF, er enghraifft o ran cychwyn mentrau newydd yn y sectorau targed.

4.58 Defnyddir dangosyddion ESF perthnasol, er enghraifft:

Tabl 15. Dangosyddion ESF ar gyfer Blaenoriaeth 2

Cynnyrch	⇒ Canlyniad	⇒ Effaith
Cyfranogwyr	Cyfranogwyr yn ennill cymwysterau	Cyfranogwyr mewn cyflogaeth ar ôl 12 mis
	Cyfranogwyr yn ymgymryd â chyflogaeth	
	Cyfranogwyr yn ymgymryd â dysgu pellach	

Cydweithrediad Trawsgenedlaethol a Rhynggranbarthol

4.59 Bu'r Rhanbarth yn arwain y gweithredoedd i annog entrepreneuriaeth ac mae ganddo rywfaint o arbenigedd o ran cynorthwyo twf ac ehangiad busnesau drwy wella'r broses o gael gafael ar gymorth busnes, cyngor a chyllid a bydd y Flaenoriaeth hon yn ei helpu i adeiladu ar hynny. Fodd bynnag, bydd cynnal y llwyddiant hwn yn dibynnu ar fod yn ymwybodol o ddatblygiadau mewn mannau eraill a chael gafael ar ganlyniadau gwerthusiadau a chanfyddiadau ymchwil ymyriadau tebyg mewn mannau eraill. Mae'r rhain yn feysydd lle y ceir cyfle sylweddol i ymwneud â phrosiectau sydd wedi'u cynllunio i sicrhau arfer gorau ond hefyd i fanteisio ar syniadau a phrosesau newydd ac arloesol a ddefnyddir mewn rhanbarthau eraill. Mae'r un peth yn wir yn achos ymyriadau i ddatblygu gallu masnachu rhyngwladol: mewn marchnad gynyddol fyd-eang bydd yn bwysig rhannu arfer gorau a dysgu o brofiadau Rhanbarthau eraill. Er nad yw'n bosibl ar y cam hwn i gadarnhau yn union pa fath o weithgareddau a gaiff eu hariannu mae cyfle i brosiectau cydweithredol trawsgenedlaethol a rhynggranbarthol gael eu hariannu o dan yr ERDF.

Grantiau Cyffredinol

4.60 Nid ydym yn rhagweld y defnydd o Grantiau cyffredinol fel y'u diffinnir gan Erthygl 42 o Reoliad (CE) 1083/2006 a wnaed ar 11 Gorffennaf 2006.

Erdf Blaenoriaeth 3: Datblygu Seilwaith Strategol Ar Gyfer Economi Fodern

Amcan

4.61 Sicrhau bod gan y rhanbarth y seilwaith ffisegol sy'n angenrheidiol i ddatblygu economi fodern a chystadleuol, ac i hyrwyddo effeithiau crynhoad.

Rhesymeg

4.62 Nod y Flaenoriaeth hon yw cynyddu hygyrchedd o fewn y rhanbarth a hyrwyddo crynhoad, i alluogi unigolion i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth ac i sicrhau y gall busnesau fanteisio ar farchnadoedd. Mae hyn yn gofyn am ddatblygu a gweithredu atebion a seilwaith trafndiaeth integredig a chynaliadwy ar gyfer y rhanbarth, yn enwedig buddsoddiad yn y rhwydwaith TEN-T strategol a rhwydweithiau trafndiaeth eraill. Mae hefyd yn cynnwys sicrhau bod gan y rhanbarth leoliadau, safleoedd ac adeiladau o'r safon uchaf a fydd yn denu ac yn datblygu swyddi ac yn creu sefydliadau a chanolfannau i bobl yr ardal lle y gallant feithrin y sgiliau a'r wybodaeth i'w galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd cyflogaeth hynny.

4.63 Yr asgwrn cefn sydd ei angen i atgyfnerthu seilwaith economaidd y rhanbarth a sicrhau effeithiau crynhoad mewn rhanbarth gwasgaredig prin ei boblogaeth¹²⁰ yw system drafnidiaeth effeithlon ac effeithiol. Bydd hyn yn hwyluso'r broses o symud nwyddau mewn modd cynaliadwy ac yn darparu'r cysylltiadau â marchnadoedd yn y DU, rhannau eraill o Ewrop ac mewn mannau eraill. Mae gan drafnidiaeth rôl hanfodol i'w chwarae hefyd o ran helpu i ddatblygu cymdeithas fwy cynhwysol o fewn y rhanbarth. Bydd gwella'r cyfleoedd i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a gwasanaethau allweddol yn y prif ganolfannau is-ranbarthol a lleol yn helpu i ostwng anweithgarwch economaidd ac anghydraddoldebau cymdeithasol, yn gwneud ardaloedd yn lleoedd deniadol i fyw ynddynt ac i weithio ynddynt ac yn cyfrannu at adfywio cymunedau trefol a gwledig difreintiedig. Un peth y mae angen rhoi sylw penodol iddo yn ne Cymru yw'r angen i wella cysylltedd rhwng cymunedau yn y Cymoedd a'r canolfannau cyflogaeth mawr sydd wedi datblygu ar hyd yr arfordir (coridor yr M4 fel y'i gelwir). Mae dogfen ddrafft *Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, Cysylltu Cymru*¹²¹, yn pwysleisio'r angen am newid moddol i drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn gostwng y twf yn y ddibyniaeth ar geir. Dylai gweithgareddau hefyd geisio ehangu'r cyfle i bawb ddefnyddio trafndiaeth, a mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyflogaeth, hyfforddiant a gwasanaethau eraill a wynebier gan bobl anabl, llawer o ferched, a

¹²⁰ Rice a Venables, 'Spatial determinants of productivity analysis for the regions of Great Britain', Papur Trafod CEP Rhif. 642, Mehefin 2004. Boddy a Hudson, 'Meeting the Productivity Challenge' Adroddiad ar gyfer Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol De-orllewin Lloegr <http://cep.lse.ac.uk/pubs/download/dp0642.pdf>
Graham, 'Wider Economic Benefits of Transport Improvements: Link Between Agglomeration and Productivity. Yr Adran Drafnidiaeth 2005.

¹²¹ Dogfen ddrafft *Strategaeth Drafnidiaeth Cymru - Cysylltu Cymru* Llywodraeth y Cynulliad: <http://new.wales.gov.uk/consultations/closed/busandeconclocons/con-bus-transstrategy/?lang=cy>

phobl hŷn y gallai fod ganddynt gyfleoedd prin i ddefnyddio trafndiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig neu anghysbell¹²².

4.64 Bydd datblygiadau o'r fath yn ategu mentrau trafndiaeth eraill a gynlluniwyd i oresgyn rhai o'r problemau sy'n deillio o natur ymylol y rhanbarth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn arwain rhaglen fuddsoddi fawr yn y rhwydwaith ffyrdd strategol, yn enwedig coridor yr M4/A40/A465 yn ne Cymru a choridor yr A55 yng ngogledd Cymru. Bydd hyn yn rhoi gwell cyfle i fanteisio ar farchnadoedd, yn cynnwys gwell cysylltiadau â'r porthladdoedd yng ngorllewin Cymru. Mae'r rhanbarth yn cynnwys pedwar porthladd â gwasanaethau i lwerddon, sef Abertawe, Doc Penfro, Abergwaun a Chaergybi. Mae hefyd yn cynnwys dau borthladd dŵr dwfn: Port Talbot, sy'n delio fwyaf â mwyn haearn a glo, ac Aberdaugleddau, sy'n delio fwyaf â chynnyrch petroliwm ac, yn y dyfodol, Nwy Naturiol Hylifol.

4.65 Mae cynnal twf poblogaeth a màs critigol masnachol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i leoedd ddenu a chadw pobl gymwys a chymuned fusnes amrywiol. Ymhlith yr elfennau pwysicaf o greu cymuned fusnes gynaliadwy, ffyniannus mae safleoedd ac adeiladau o safon uchel¹²³, a chyflenwad da o weithwyr medrus¹²⁴ sy'n gallu diwallu anghenion busnesau ac entrepreneuriaid modern, cystadleuol i greu busnesau bach newydd neu i ddatblygu rhai sy'n bodoli eisoes. Dylai'r gweithwyr hyn nid yn unig gael eu denu at y gymuned fusnes, drwy ail-leoli, ond dylent hefyd fod ar gael o'i mewn. Gall y rhanbarth golli cyfleoedd buddsoddi a chyflogaeth yn rhannol oherwydd absenoldeb safleoedd ac adeiladau busnes o safon uchel ar gyfer amrywiaeth o ddiwydiannau a sectorau¹²⁵. Bydd angen gweithredu mewn modd penodol er mwyn sicrhau economi wybodaeth wedi'i moderneiddio ynghyd â chyflenwad o safleoedd ac adeiladau o safon uchel sy'n gallu sicrhau cyflogaeth gan sefydliadau sy'n cychwyn, busnesau cynhenid a mewnfuddsoddwyr mewn ardaloedd twf uchel, fel uwch dechnolegau¹²⁶.

4.66 Mae *Strategaeth Eiddo ar gyfer Cyflogaeth yng Nghymru 2004-2008*, yn darparu sylfaen ar gyfer ymyrraeth benodol. Mae'r strategaeth wedi'i hategu gan ddadansoddiad o alw a chyflenwad sy'n nodi lle y ceir bylchau o ganlyniad i fethiant y farchnad neu gamweithredu yn y farchnad ac yn alinio atebion eiddo i sectorau a lleoliadau cyffredinol. Mae'r Strategaeth yn rhagweld sbectrwm eang o ymatebion, nid dim ond datblygiadau annibynnol ond ymyriadau mwy cymhleth (yn cynnwys y defnydd o bwerau cydosod tir, dymchwel ac adfer tir) y mae eu

¹²² Mae Papur trafod, Cydraddoldeb Rhyw mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Gofalu am Bobl Hŷn (Mawrth 2006), gan Gyngor Defnyddwyr Cymru a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal yng Nghymru ar y ddyletswydd Cydraddoldeb rhwng y Rhywiâu sydd ar y gweill yn amlygu'r cyfleoedd gwahanol sydd gan ddynion a merched i ddefnyddio trafndiaeth fel maes allweddol y dylid mynd i'r afael ag ef. Byddai mynd i'r afael â'r cyfleoedd gwahanol i gael gafael ar wasanaethau hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar bobl hŷn a phobl anabl.
[http://www.eoc.org.uk/pdf/Gender%20Equality%20in%20Public%20Services%20-%20Care%20for%20older%20people%20\(english\).pdf](http://www.eoc.org.uk/pdf/Gender%20Equality%20in%20Public%20Services%20-%20Care%20for%20older%20people%20(english).pdf)

¹²³ Nododd DTZ Pieda Consulting fod argaeledd adeiladau yn ffactor pwysig o ran lleoliad gwasanaethau masnachol symudol.

¹²⁴ Gweler er enghraifft, Glaeser, E, 2004 Four Challenges for Scotland's Cities:
<http://www.fraser.strath.ac.uk/Allander/Allander%20Papers/Glaeser.pdf>

¹²⁵ Strategaeth Eiddo ar gyfer Cyflogaeth yng Nghymru 2004-2008, Awdurdod Datblygu Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach) <http://www.wda.co.uk/resources/WDAProperty1.pdf>

¹²⁶ Cymru: Economi yn Ffynnu Llywodraeth Cynulliad Cymru.

hangen mewn ardaloedd canolog trefi lle nad oes llawer o ofod o ansawdd ac wrth resymoli ystadau o ansawdd gwael mewn ffordd ddethol. Mae'r Strategaeth yn cydnabod bod y farchnad eiddo yn ddeinamig a chynhelir dadansoddiad o alw a chyflenwad yn flynyddol.

4.67 Er mwyn ategu amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran datblygu cynaliadwy a chyfle cyfartal, bydd yn hanfodol sicrhau y caiff safleoedd ac adeiladau eu profi i weld a ydynt yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau datblygu cynaliadwy yn *Creu Lleoedd Cynaliadwy*¹²⁷ (h.y. rhinweddau amgylcheddol, rhesymeg economaidd, effaith/budd cymunedol ac ansawdd dylunio). Yn ei hanfod, sicrhau y caiff cynigion eu datblygu mewn ffordd integredig, sy'n adlewyrchu rolau a swyddogaethau lleoedd.

4.68 Mae denu mwy o fusnesau a swyddi â thâl uchel i ardal yn gofyn am sicrhau bod digon o bobl yng ngweithlu'r rhanbarth sydd â'r sgiliau i lenwi'r swyddi y mae busnesau am eu creu neu eu denu. Dim ond os caiff y rhanbarth ei ystyried fel lleoliad dymunol y gellir denu a chadw unigolion medrus a symudol. Mae Adolygiad Leitch ar Sgiliau (2005)¹²⁸ yn datgelu bod angen i ni wneud newidiadau radical i sicrhau y gall ein heconomi gystadlu mewn marchnadoedd byd-eang. Mae sicrhau bod gan y rhanbarth seilwaith dysgu modern yn helpu i ddenu busnesau ac unigolion ac yn darparu'r sylfaen ar gyfer yr economi wybodaeth. Gall integreiddio hyn â strategaethau adfywio helpu i wella perfformiad yr economi yn y rhannau hynny o'r rhanbarth sy'n wynebu heriau economaidd a chymdeithasol penodol. Gwneir buddsoddiad wedi'i gydgyssylltu'n ofalus mewn seilwaith dysgu er mwyn ategu gwaith ar safleoedd ac adeiladau.

4.69 Er y rhagwelir y caiff y prif gyfraniad Cydgyfeirio tuag at atgyfnerthu'r seilwaith dysgu ei ddarparu o dan y rhaglen Gydgyfeirio ESF (gan ddefnyddio 10% o'r hyblygrwydd a ddarperir o dan 34(2) o Reoliad (CE) 1083/2006), ni fydd hyn yn ddigon i gynnal y prosiectau mawr a ragwelir. Bydd yr ERDF hefyd yn cyfrannu felly at yr agenda ddiwygio hon drwy gefnogi nifer fach o fuddsoddiadau trawsfurfiadol sylweddol. Y nod fydd creu synergeddau â gweithredoedd eraill a ariennir o dan y rhaglen hon (e.e. safleoedd ac adeiladau busnes ac Ymchwil a Datblygu ac Arloesedd) ynghyd ag ategu a chynyddu gweithredoedd a ariennir o dan y rhaglen Gydgyfeirio ESF a anelir at fynd i'r afael â sgiliau isel ac anweithgarwch.

Cyd-destun Polisi

Ewropeaidd

4.70 Nod y Flaenoriaeth hon yw gwneud ardal y Rhaglen yn fwy deniadol i fuddsoddiad drwy wella'r seilwaith trafndiaeth a seilweithiau busnes eraill a helpu i baratoi'r bobl yn yr ardal drwy ddarparu amgylchedd dysgu ynghyd â chyfleoedd i wneud defnydd cynhyrchiol o'u sgiliau a'u talentau. Mae'r cysylltiadau allweddol â:

¹²⁷ *Creu Lleoedd Cynaliadwy* Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/creatingplaces?lang=cy>

¹²⁸ Adroddiad interim Adolygiad Leitch ar Sgiliau, Skills in the UK: The long-term challenge:

http://www.hm-treasury.gov.uk/independent_reviews/leitch_review/review_leitch_index.cfm

- Chanllaw 1.1.1: Ehangu a gwella seilweithiau trafndiaeth; a
- Canllaw 4.3.3: Cynyddu buddsoddiad mewn cyfalaf dynol drwy well addysg a sgiliau.

4.71 Mae'r Flaenoriaeth hon hefyd yn adlewyrchu:

- Papur Gwyn Trafnidiaeth Ewrop *European Transport Policy for 2010: Time to decide*¹²⁹, COM(2001) 370, yn ogystal â:
- *Keep Europe moving - Sustainable mobility for our continent*, Adolygiad tymor canolig o Bapur Gwyn Trafnidiaeth 2001 y Comisiwn Ewropeaidd¹³⁰, SEC (2006) 768;
- *Lisbon Agenda - 2003 call to arms*. Mae'r ddogfen hon yn rhoi addysg a hyfforddiant wrth wraidd cydlyniant economaidd a chymdeithasol ac yn dadlau bod angen llawer mwy o drawsnewid a bod yr UE ar ôl ei hôl hi o'i gymharu â'i gystadleuwyr o ran buddsoddi mewn cymdeithas ar sail gwybodaeth; a
- Mae dogfen gyfathrebu'r UE: *Making a European Area of Lifelong Learning a Reality (2001)* yn cyfeirio at fuddsoddi ar gyfer seilwaith fel canolfannau amlbwrpas. Mae'n datgan y gwahoddir Aelod-wladwriaethau i ddatblygu eu defnydd o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a'r ESF ymhellach er mwyn ategu'r broses o roi dysgu gydol oes ar waith.

Cenedlaethol

4.72 Yn dilyn deddfu Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006¹³¹, mae gan Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyniad statudol i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Drafndiaeth ar gyfer Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad, gan weithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi datblygu strategaeth ddrafft, *Strategaeth Drafndiaeth Cymru - Cysylltu Cymru*¹³². Mae'r Strategaeth hon yn cydnabod bod systemau trafndiaeth wrth wraidd pob agwedd ar ddatblygu cynaliadwy: i sicrhau economi ffyniannus; i'w gwneud yn haws i bobl mewn cymunedau difreintiedig gael gafael ar swyddi a gwasanaethau; ac i ddatblygu dulliau amgen i ddefnyddio ceir preifat a lleihau gollyngiadau nwy tŷ gwydr. Mae iddi gyswllt agos â Chynllun Gofodol Cymru a chaiff ei gweithredu drwy bedwar Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a baratoir gan y consortia trafndiaeth sy'n bodoli eisoes.

4.73 O ystyried natur drawsbynciol trafndiaeth, mae cysylltiadau cryf â pholisïau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys *Strategaeth*

¹²⁹ European Transport Policy for 2010: *Time to decide* y Comisiwn Ewropeaidd
http://ec.europa.eu/transport/white_paper/index_en.htm

¹³⁰ Adolygiad tymor canolig o Bapur Gwyn Trafnidiaeth Ewrop
http://ec.europa.eu/transport/transport_policy_review/index_en.htm

¹³¹ Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006, Swyddfa Gwybodaeth Sector Cyhoeddus:
<http://www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2006/20060005.htm>

¹³² Dogfen ddrafft *Strategaeth Drafndiaeth Cymru - Cysylltu Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru: <http://new.wales.gov.uk/consultations/closed/busandeconclocons/con-bus-transstrategy/?lang=cy>

*Amgylchedd Cymru*¹³³, *Cynllun Oes*¹³⁴, *Y Wlad sy'n Dysgu 2*¹³⁵, a *Cyflawni ein Potensial, 2005–2013*¹³⁶.

4.74 Mae'r *Strategaeth Eiddo ar gyfer Cyflogaeth yng Nghymru 2004-2008*¹³⁷ yn darparu fframwaith penodol i hwyluso'r broses o ddarparu safleoedd ac adeiladau cyflogaeth o safon uchel yn y lleoliadau cywir ar gyfer mewnfuddsoddwyr a busnesau cynhenid.

4.75 Mae *Polisi Cynllunio Cymru 2002*¹³⁸ yn cynnwys polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y system cynllunio defnydd tir. Mae'n cysoni anghenion datblygu a chadwraeth, diogelu'r economi, effeithlonrwydd a defnydd tir amwynder, a diogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol.

4.76 Mae *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith (2006)*¹³⁹ Llywodraeth Cynulliad Cymru yn galw am greu seilwaith dysgu newydd ac yn cydnabod bod addysg yn ffactor llwyddiant hanfodol o ran llwyddiant economaidd a datblygu cynaliadwy. Mae *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith a Llwybrau Dysgu 14-19* ill dau yn nodi y gall buddsoddi yn y seilwaith dysgu gyfrannu at gynyddu ansawdd ac effeithiolrwydd y system addysg a hyfforddi.

Targedau a Dangosyddion

4.77 Defnyddir y dangosyddion canlynol i olrhain hynt prosiectau a'r Rhaglen. Gellir cael rhagor o fanylion yn Atodiad Ch.

¹³³ *Strategaeth Amgylchedd Cymru* Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/Envstratforwales/?lang=cy>

¹³⁴ *Cynllun Oes* Llywodraeth Cynulliad Cymru:

http://new.wales.gov.uk/topics/health/publications/health_social_care_strategies/DesignedforLife/?lang=cy

¹³⁵ *Y Wlad sy'n Dysgu 2-* Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/educationskillsnews/wales-action-on-learning?lang=cy>

¹³⁶ *Cyflawni ein Potensial* Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/topics/tourism/about/strategy-policy/achieving-our-potential?lang=cy>

¹³⁷ *Strategaeth Eiddo ar gyfer Cyflogaeth yng Nghymru 2004-2008*, Awdurdod Datblygu Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru bellach): <http://www.wda.co.uk/resources/WDAProperty1.pdf>

¹³⁸ *Polisi Cynllunio Cymru 2002* Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/about/departments/depc/epcpublications/PlanPubs/plpolwal/?lang=cy>

¹³⁹ *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Tabl 16. Dangosyddion i olrhain hynt prosiectau a'r rhaglen – ERDF Blaenoriaeth 3

Dangosydd	Llinell Sylfaen	Targed
Cynnyrch		
Gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u creu neu eu gwella	78,341,000 km cerbyd, 2005/06 (Yr Adran Drafnidiaeth)	2,500,000 km cerbyd
Cyfleusterau rhyngfoddol wedi'u creu neu eu gwella	-	7
Rheilffyrdd wedi'u creu neu eu hailadeiladu	-	30km
Ffordd mynediad wedi'i chreu neu ei hailadeiladu	2,196km o ffyrdd, 2006 (Llywodraeth Cynulliad Cymru)	10km
Llwybr troed neu lwybr beicio wedi'i greu neu ei ailadeiladu	-	50km
Tir wedi'i ddatblygu	-	10ha
Canlyniadau		
Nwyddau a gludir ar y rheilffordd neu ar y môr	52,242,000t, 2005 (Yr Adran Drafnidiaeth)	1,000,000t
Cilometrau teithwyr gros ar drafnidiaeth gyhoeddus	66,000,000 o deithiau bws, 2005/06 (Yr Adran Drafnidiaeth); 5,934,000 o deithiau rheilffordd, 2004/05 (Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd)	12,500,000 km teithwyr
	-	-
Adeiladau a grëwyd neu a adnewyddwyd	-	25,000m ²
<i>-o ran seilwaith dysgu (yn cynnwys uchafswm o 2 fuddsoddiad seilwaith dysgu)</i>		15%
Nifer y swyddi y crëwyd lle ar eu cyfer	-	750
Nifer y busnesau bach a chanolig y crëwyd lle ar eu cyfer	-	150
Nifer y cyfranogwyr y crëwyd lle ar eu cyfer	-	-375
Nifer y swyddi gros a grëwyd	777,000 o swyddi yn y gweithle, 2005 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006 Swyddi yn y Gweithle yn ôl Diwydiant yng Nghymru)	1,000 cyfwerth ag amser llawn

Effeithiau		
Nwyddau net a gludir ar y rheilffordd neu ar y môr	-	-
Cilometrau teithwyr net ar drafnidiaeth gyhoeddus	-	-
Arbedion gwerth am amser	-	-
Cyfraddau meddiannaeth	-	-
Nifer y swyddi net a grëwyd	-	-
Arbedion gwerth am amser	-	-
Poblogaeth o fewn trothwy amser teithio i 'ganolfan allweddol'	-	-
Cyfraddau meddiannaeth	-	-
Swyddi net a grëwyd	--	--

Buddiolwyr

4.78 Gallai'r rhain gynnwys y Sector preifat, Cyrff y sector cyhoeddus, Awdurdodau Lleol, Cyrff y sector gwirfoddol, Sefydliadau cymunedol, Sefydliadau hyfforddiant, Sefydliadau Addysg Uwch, Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau anllwyodraethol a Mentrau Cymdeithasol.

Strategaeth Weithredol

4.79 Cyflwynir y flaenoriaeth hon drwy ddwy thema:

Thema 1 - Trafnidiaeth Gynaliadwy

4.80 Nod y thema hon yw ceisio gwella hygyrchedd yn y rhanbarth a hyrwyddo effeithiau crynhoad drwy ddatblygu atebion trafndiaeth gynaliadwy. Gwneir hyn drwy:

- cefnogi gwelliannau allweddol i'r rheilffordd a'r ffordd, yn enwedig y rhai ar y rhwydwaith TEN-T neu sydd â chyswllt agos â'r rhwydwaith hwn, sy'n ei gwneud yn haws manteisio ar farchnadoedd Ewropeaidd;
- lleihau'r defnydd a wneir o'r car, yn enwedig teithio ar eich pen eich hunan;
- cynyddu'r defnydd a wneir o drafnidiaeth gyhoeddus a'i gwneud yn haws manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a gwasanaethau allweddol;
- gostwng lefelau tagfeydd a gollyngiadau carbon;
- lleihau nifer y nwyddau a gludir ar y ffordd ac annog proses o gludo nwyddau ar y rheilffordd neu ar y môr;

- ei gwneud yn haws i bobl yn ardal y Rhaglenfanteisio ar swyddi, cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau allweddol;

Gweithgareddau Dangosol

- gwella'r rhwydwaith ffordd a rheilffordd TEN-T i wella dibynadwyedd ac i gael gwared ar fannau cyfyng;
- gwella rhai cysylltiadau ffordd sydd â buddiannau ehangach sylweddol o ran datblygu economaidd, adfywio neu fynediad i gyfleusterau allweddol;
- datblygu trafndiaeth drefol gynaliadwy, yn enwedig gwasanaethau rheilffordd a bws, i annog newid moddol;
- atebion trafndiaeth gymunedol a buddsoddiad i annog cerdded a beicio fel cyfrwng trafndiaeth (yn hytrach na gweithgaredd hamdden) a allai gynnwys ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth;
- hyrwyddo'r broses o gludo nwyddau ar y rheilffordd a'r môr yn hytrach nag ar y ffordd, er enghraifft, drwy fuddsoddi mewn cyfleusterau rhyngfoddol gwell;
- ategu'r dechnoleg sydd ei hangen i ddatblygu tanwydd adnewyddadwy a glanach;
- cynlluniau arloesol a fydd yn darparu enghreifftiau da neu fodelau arfer gorau o ran atebion trafndiaeth gynaliadwy yn cynnwys prosiectau sy'n ceisio dymchwel y rhwystrau sy'n gysylltiedig ag agwedd pobl, sy'n eu hatal rhag defnyddio ffyrdd eraill o drafndiaeth ar wahân i gar preifat.

4.81 Ni chât'r Rhaglen ei defnyddio i gefnogi unrhyw brosiectau ar y ddwy echel blaenoriaeth TENs sy'n rhychwantu Cymru ac sy'n cael eu hariannu o dan Raglen Aml-flynyddol TENs. Echel Blaenoriaeth Rhif 13, echel ffordd y Deyrnas Unedig/Iwerddon/Benelux ac Echel Blaenoriaeth Rhif 26, echel rheilffordd/ffordd Iwerddon/y Deyrnas Unedig/Ewrop gyfandirol yw'r rhain. Mae'r ddwy echel blaenoriaeth hyn yn cwmpasu'r coridor ffordd a rheilffordd o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws Gogledd Cymru.

4.82 Disgwyliwn i'r thema hon ddefnyddio tua 65% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Thema 2 - Seilwaith Strategol

4.83 Nod y thema hon yw rhoi'r seilwaith sydd ei angen ar y rhanbarth i ddatblygu economi fodern a chystadleuol drwy sicrhau bod gan y rhanbarth leoliadau, safleoedd ac adeiladau o'r safon uchaf. Gwneir hyn drwy:

- gefnogi'r broses o weithredu seilwaith safle er mwyn datblygu adeiladau busnes o safon uchel;

- datblygu adeiladau busnes o safon uchel er mwyn ategu'r broses o greu a datblygu busnesau modern, datblygu clystyrau, a denu mewnfuddsoddwyr;
- cefnogi nifer fach o brosiectau seilwaith dysgu ag effaith uchel sydd wedi'u hanelu at gynyddu ansawdd ac effeithiolrwydd y system addysg a hyfforddiant.

Gweithgareddau Dangosol

- datblygu safleoedd ac adeiladau o safon uchel, gan sicrhau bod pob safle ac adeilad yn cyrraedd safonau amgylcheddol (e.e., BREEAM) ac yn diwallu anghenion staff a chwsmeriaid anabl;
- darparu seilwaith ar gyfer safleoedd sy'n cael eu datblygu (e.e ffyrdd, TGCh, dŵr, draenio, gwastraff, ynni);
- dymchwel adeiladau adfeiliedig/darfodedig, gwaith dadhalogi hanfodol ar safleoedd ac adfer tir er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu seilwaith ar gyfer datblygu safleoedd;
- gwelliannau i'r amgylchedd/tirwedd mewn parciau diwydiannol /busnes sy'n bodoli eisoes;
- buddsoddiad cyfalaf strategol cysylltiedig sy'n seiliedig ar adolygiadau strategol ar gyfer adeiladu, adnewyddu neu addasu amgylcheddau dysgu;
- datblygu cyfleusterau dysgu galwedigaethol modern sy'n gysylltiedig â strategaethau datblygu economaidd ac adfywio. Bydd prosiectau ar raddfa fawr, byddant yn gyfyngedig o ran eu nifer (dau neu dri) ac yn drawsffurfiadol o ran eu natur.

4.84 Disgwyliwn i'r thema hon ddefnyddio tua 35% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Gwerth Ychwanegol

4.85 Mae buddsoddi mewn seilwaith yn ffactor pwysig o ran gallu'r rhanbarth i adfywio ei hun. Er bod rhaglenni cenedlaethol yn bodoli, er enghraifft, mewn perthynas â'r rhwydwaith trafnidiaeth a chynllunio a datblygu eiddo, maent yn gyfyngedig mewn termau absoliwt ac yn wynebu galwadau parhaus am waith cynnal a chadw ac adnewyddu. Mae'r Cronfeydd Strwythurol yn cynnig cyfleoedd i fuddsoddiadau ychwanegol neu well a fydd yn blaenoriaethu'r angen i ddod o hyd i atebion trafnidiaeth gynaliadwy integredig. Drwy fynd i'r afael â'r problemau trafnidiaeth sy'n effeithio ar adfywio economaidd y rhanbarth, bydd yn gallu denu buddsoddiad a gall y broses adfywio fod yn gynaliadwy.

4.86 Bydd y gwerth ychwanegol a ddarperir drwy'r Cronfeydd Strwythurol hefyd yn cyflymu'r broses o ddarparu safleoedd ac adeiladau, ac yn sicrhau bod y rhai a ddarperir o safon dda, gan fynd i'r afael â rhwystrau gwirioneddol a

rhwystrau canfyddedig i dwf hirdymor. Ni fyddai'r broses o wella ac adfer seilwaith a chyfleusterau, i safon dda, yn digwydd mewn llawer o ardaloedd heb gymorth y Cronfeydd Strwythurol.

Cyfleuster Hyblygrwydd

4.87 Nid ydym yn rhagweld defnyddio'r cyfleuster hyblygrwydd a ganiateir gan Erthygl 34(2) o Reoliad (CE) 1083/2006 a wnaed ar 11 Gorffennaf 2006.

Cydweithrediad Trawsgenedlaethol a Rhyngranbarthol

4.88 Er bod y Rhanbarth yn wynebu problemau penodol o ran y ddarpariaeth o drafnidiaeth a seilwaith o ganlyniad i'w dirwedd a'i hanes, nid dyma'r unig ranbarth sy'n ceisio atebion o ran trafnidiaeth integredig cynaliadwy a gwell hygyrchedd. Ceir enghreifftiau nodedig o atebion effeithiol mewn rhanbarthau eraill. Ynghyd â'i ymrwymiad cadarn i ddatblygu atebion cynaliadwy sy'n cynnig cyfle cyfartal, dylai'r mathau o brosiectau a ariennir o dan y Flaenoriaeth hon hefyd gyflwyno enghreifftiau o sut i oresgyn yr heriau y mae'r Rhanbarth yn eu hwynebu o ran datblygu ffisegol. Bydd y defnydd o arian ERDF ar gyfer cydweithredoedd trawsgenedlaethol a rhyngranbarthol, yn rhoi'r cyfle i rannu arfer gorau o ran ystod eang o ddulliau o fynd i'r afael â phroblemau o'r fath. Byddai cyfnewid arbenigedd gan ranbarthau Ewropeaidd eraill er mwyn rhoi'r gweithgareddau hyn ar waith yn llwyddiannus yn arbennig o werthfawr.

Grantiau Cyffredinol

4.89 Nid ydym yn rhagweld defnyddio Grantiau cyffredinol fel y'u diffinnir gan Erthygl 42 o Reoliad (CE) 1083/2006 a wnaed ar 11 Gorffennaf 2006.

Erdf Blaenoriaeth 4: Creu Amgylchedd Busnes Deniadol

Amcan

4.90 Hybu twf busnes cynaliadwy a chyfleoedd busnes newydd mewn perthynas â heriau a chyfleoedd amgylcheddol yn y dyfodol.

Rhesymeg

4.91 Yn ogystal â darparu cymorth ar gyfer y ffactorau allweddol sy'n gallu cael effaith ar brosesau cwmnïau unigol o greu gwerth (sef ffocws Blaenoriaethau 1 a 3) mae'n hanfodol creu amgylchedd o safon uchel i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo. Mae ansawdd bywyd yn chwarae rôl hanfodol wrth ddenu pobl a busnesau i ranbarth. Bydd rhanbarthau sy'n gallu cynnig amgylchedd o safon uchel a ffordd o fyw gadarnhaol ynghyd â chymeriad lleol a natur unigryw yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer twf economaidd cynaliadwy. Mae ffactorau fel yr amgylchedd naturiol ac adeiledig ehangach yn dylanwadu'n sylweddol ar ganfyddiadau ynghylch lleoliadau penodol a cheir tystiolaeth o hyn yn nifer y bobl sy'n mudo i rannau mwy gwledig Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

4.92 Yn ogystal, mae'n rhaid bod gan gwmnïau adnoddau a gallu digonol i ffynnu yn yr hinsawdd economaidd ac amgylcheddol presennol ac yn y dyfodol. Mae heriau newid yn yr hinsawdd, lliniaru'r achosion ac addasu i'r effeithiau, yn dod yn gynyddol bwysig i bob sector o'r gymdeithas. Bydd yn bwysig hybu dull gweithredu integredig o ran cynhyrchu ynni a sicrhau effeithlonrwydd ynni a all gynnal twf economaidd a chreu cyfleoedd busnes newydd. Bydd hyn yn adeiladu ar waith polisi ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n anelu at gynyddu'r defnydd o ffynonellau cynhyrchu ynni glân, adnewyddadwy a charbon isel, cynyddu effeithlonrwydd ynni a chefnogi buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith ynni i gyflwyno ffynonellau adnewyddadwy i'r rhwydwaith. Drwy leihau dibyniaeth y rhanbarth ar ffynonellau ynni traddodiadol ceir potensial naturiol sylweddol i gynhyrchu ynni glân o ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel fel hidlo glo/carbon glân, tonnau, gwynt, solar, gwres a phŵer cyfunedig a datblygu biomas. Mae hyn hefyd yn rhoi cyfle ar gyfer arloesedd ac ymchwil a datblygu, yn ogystal ag allforion. Ochr yn ochr â hyn, bydd angen i weithredoedd annog mwy o brosesau effeithlonrwydd ynni a chadwraeth ar draws pob sector. Bydd yr ymyriadau hyn hefyd yn helpu i arafu twf gollyngiadau nwy tŷ gwydr ac yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau ehangach newid yn yr hinsawdd.

4.93 Bydd ymyriadau Cronfeydd Strwythurol o dan y Rhaglen hon yn anelu at adeiladu ar bum elfen bwysig polisi ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r polisi hwn yn anelu at leihau gollyngiadau CO₂, cynyddu cyfran y trydan a gaiff ei gynhyrchu gan ffynonellau adnewyddadwy a gweithfeydd tanwydd ffosil glanach, mwy effeithlon, cynyddu effeithlonrwydd ynni ar draws pob sector a chefnogi gwelliannau sylweddol o ran seilwaith ynni.

4.94 Bydd pob math o ddulliau effeithlonrwydd adnoddau, a'r broses o reoli ac ailddefnyddio gwastraff yn effeithiol, yn cyfrannu at nodau economi carbon isel, o ganlyniad i'r ynni ymgorfforedig a ychwanegir yn ystod y broses weithgynhyrchu, dosbarthu a chasglu. Y nod fydd annog patrwm mwy cynaliadwy o ran defnydd a

chynhyrchu a fydd yn rhoi pwyslais ar sicrhau gwell effeithlonrwydd ar draws pob sector. Yr un mor bwysig fydd y cysyniad o eco-gynllunio, lle y gellir lleihau'r carbon ymgorfforedig sydd mewn nwyddau a gwasanaethau.

4.95 Byddai dull effeithiol o reoli adnoddau naturiol ar gyfer busnesau, a ffyrdd arloesol o wella dulliau amddiffyn rhag llifogydd mewndirol ac arfordirol¹⁴⁰ a dulliau amddiffyn rhag erydiad cysylltiedig yn galluogi Cymru i fanteisio ar y cyfleoedd menter newydd hyn, tra'n parhau i wella gwydnwch yr amgylchedd adeiledig a naturiol rhag effeithiau newid yn yr hinsawdd.

4.96 Mae rhan helaeth o Orllewin Cymru a'r Cymoedd yn cael budd o amgylchedd deniadol, naturiol a dylai hyn rhoi mantais gystadleuol i'r rhanbarth. Mae'r rhanbarth yn gyfoethog o ran ei amrywiaeth ac mae ganddo gynefinoedd tir, dŵr arfordirol a mewndirol deinamig. Mae'r tir a'r môr yn cynnal amrywiaeth o ddiwydiannau a gweithgareddau economaidd, ac mae ei harddwch cynhenid yn adlewyrchu cymeriad diwylliannol a hanesyddol y rhanbarth. Mae'r asedau amgylcheddol hyn hefyd yn rhoi mwynhad a gallant ddylanwadu'n sylweddol ar dwristiaeth ac ansawdd bywyd. Bydd yn bwysig sylweddoli'r gwerth economaidd a'r budd ariannol sy'n gallu deillio o ddefnyddio'r amgylchedd naturiol at ddiben gweithgarwch corfforol a mwynhad. Mae annog mwy o bobl i ddefnyddio cefn gwlad ac ardaloedd arfordirol yn rhoi cyfleoedd i greu busnesau newydd ac annog busnesau sy'n bodoli eisoes i wella ansawdd y cynnyrch a'r gwasanaethau a gynigir ganddynt. Fodd bynnag, mae ardaloedd eraill sy'n dioddef effeithiau halogi'r tir o ganlyniad i orffennol diwydiannol Cymru. Bydd mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau amgylcheddol hyn mewn modd cydlynol yn helpu i ddenu busnesau newydd ac arloesol a chyfleoedd swyddi i'r ardaloedd hyn yr ystyrir eu bod yn llai deniadol ar hyn o bryd. Bydd dulliau adfywio economaidd o'r fath yn helpu i wella iechyd a lles y bobl sy'n byw yn yr ardal. Er enghraifft, gwella ansawdd amgylchedd glan yr afon a chreu llwybrau cerdded ar lan yr afon, a llwybrau beicio a loncian.

4.97 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i greu'r amodau sydd eu hangen ar bobl i fyw bywydau iach a gwella eu hiechyd a'u lles drwy gefnogi 'Her Iechyd Cymru'. Mae gweithgareddau hamdden yn gwneud cyfraniad pwysig i amwynderau lleol a ffyrdd o fyw iachach, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol at ddiben gweithgarwch corfforol a mwynhad¹⁴¹. Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd economaidd, yn ogystal â buddiannau iechyd, lles ac amgylcheddol ehangach. Er enghraifft, mae Llwybr Arfordirol Sir Benfro yn cynhyrchu tua £14 miliwn y flwyddyn ar gyfer yr economi leol¹⁴² a dangosodd arolwg diweddar¹⁴³ fod llwybrau cenedlaethol yn cynnig incwm ychwanegol sylweddol a gwell proffidioldeb i ddarparwyr llety a leolir gerllaw.

¹⁴⁰ Mae gan Gangen Rheoli Risg Llifogydd ac Arfordirol Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun argyfwng ar waith ar gyfer Cymru. Asiantaeth yr Amgylchedd, Byrddau Draenio Mewnol ac Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am roi cynlluniau rheoli llifogydd graddfa fach ar waith.

¹⁴¹ Strategaeth Amgylchedd Cymru *Llywodraeth Cynulliad Cymru*.

¹⁴² Adroddiad Blynyddol Parciau Cenedlaethol Cymru 2004-2005:

http://www.nationalparks.gov.uk/welsh_annual_report_2005_welsh_language.pdf

¹⁴³ Llwybrau Cenedlaethol - Arolwg Economaidd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru:

<http://www.nationaltrail.co.uk/article.asp?PageId=3&ArticleId=91>

Cyd-Destun Polisi

Ewropeaidd

4.98 Mae'r Flaenoriaeth hon yn mynd i'r afael â'r ddwy gyfres o Ganllawiau Strategol y Gymuned, y mae cysylltiad agos rhyngddynt, sy'n ymwneud ag atgyfnerthu'r synergeddau rhwng diogelwch amgylcheddol a thwrf yn ogystal â mynd i'r afael â'r defnydd o ffynonellau ynni traddodiadol. Ymhlith y polisiau a'r rhaglenni thematig Ewropeaidd sy'n gysylltiedig â'r flaenoriaeth hon mae:

- 6^{ed} Rhaglen Gweithredu Amgylcheddol yr UE¹⁴⁴;
- Cynllun Gweithredu Technolegau Amgylcheddol yr UE¹⁴⁵;
- Papur gwyrdd ar Ynni Diogel, Cystadleuol a Chynaliadwy ar gyfer Ewrop¹⁴⁶ (2006), gyda chwe cham gweithredu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a allai fod yn sylfaen polisi ynni Ewropeaidd cynhwysfawr newydd;
- Papur gwyrdd ar Effeithlonrwydd ynni – Doing more with less¹⁴⁷ (2005), sy'n trafod sut y gall yr UE leihau'r defnydd cynyddol o ynni a sicrhau gostyngiad o 20% erbyn 2020;
- Cyfarwydddeb ar hyrwyddo gwasanaethau effeithlonrwydd ac ynni defnydd terfynol¹⁴⁸ (2006). Bydd hyn yn helpu i oresgyn rhwystrau yn y farchnad rhag y defnydd terfynol o ynni yn effeithiol ac yn effeithlon yn yr UE drwy ddefnyddio dulliau priodol;
- Seithfed Rhaglen Fframwaith ar gyfer Ymchwil a Datblygu Technolegol, sy'n cynnwys cronfeydd ar gyfer ymchwilio i ynni, prosesau arddangos a lledaenu gyda ffocws ar ynni glân ac effeithlonrwydd ynni;
- Rhaglen Ynni Deallus Ewrop II¹⁴⁹, sy'n hyrwyddo defnydd ehangach o dechnolegau ynni cynaliadwy gan y farchnad ac yn ariannu gweithgareddau lledaenu a chodi ymwybyddiaeth perthnasol;
- Cynllun masnachu gollyngiadau'r UE (2003)¹⁵⁰. Mae hyn yn creu dull capio a masnachu ar gyfer gollyngiadau CO₂ Ewrop ar draws ystod o sectorau;

¹⁴⁴ Chweched Rhaglen Gweithredu Amgylcheddol y Gymuned Ewropeaidd 2002-2012:

<http://ec.europa.eu/environment/newprg/index.htm>

¹⁴⁵ Cynllun Gweithredu Technolegau Amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd:

http://ec.europa.eu/environment/etap/index_en.htm

¹⁴⁶ Y Comisiwn Ewropeaidd. COM(2006) 105 terfynol.

http://ec.europa.eu/energy/green-paper-energy/doc/2006_03_08_gp_document_en.pdf

¹⁴⁷ Y Comisiwn Ewropeaidd. COM(2005) 265 terfynol.

http://ec.europa.eu/energy/efficiency/doc/2005_06_green_paper_text_en.pdf

¹⁴⁸ Senedd Ewrop a'r Cyngor. Cyfarwydddeb 2006/32/EC Senedd Ewrop a'r cyngor: http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/oj/2006/l_114/l_11420060427en00640085.pdf

¹⁴⁹ http://ec.europa.eu/energy/intelligent/index_en.html

¹⁵⁰ Cyfarwydddeb 2003/87/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 13 Hydref 2003

yn sefydlu cynllun ar gyfer masnachu lwfansau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr o fewn y Gymuned a diwygio Cyfarwydddeb 96/61/EC y Cyngor:

http://ec.europa.eu/environment/climat/emission/implementation_en.htm

- Y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff¹⁵¹ a'r strategaeth thematig newydd sy'n cael ei chynnig (2006/12/EC)¹⁵². Gallai Cyfarwydddebau gwastraff eraill fod yn berthnasol hefyd o fewn y Flaenoriaeth hon¹⁵³; a
- Mae'r Strategaeth Datblygu Cynaliadwy a fabwysiadwyd gan y Comisiwn ar 15-16 Mehefin 2006¹⁵⁴ yn nodi'r strategaeth o ran sut y bydd yr UE yn ymateb i heriau datblygu cynaliadwy.

Cenedlaethol

4.99 Mae nifer o strategaethau a rhaglenni thematig a chenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn berthnasol i'r Flaenoriaeth hon. Ymhlith y rhain mae:

- *Cymru: Economi yn Ffynnu*, sy'n cydnabod bod amgylchedd busnes deniadol a sefydlog yn sylfaenol i annog twf economaidd cynaliadwy. Mae'n amlygu'r rôl bwysig sydd gan ynni adnewyddadwy, arbed ynni ac effeithlonrwydd ynni wrth greu a llunio dyfodol economaidd cynaliadwy;
- Mae'r *Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru* a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau amgylchedd amrywiol ac iach sy'n cyfrannu at iechyd a lles economaidd a chymdeithasol pobl Cymru;
- Bydd *Cynllun Gofodol Cymru* yn cyfrannu at lawer o'r amcanion a nodwyd o dan themau arweiniol adeiladu cymunedau cynaliadwy; hyrwyddo economi gynaliadwy; gwerthfawrogi ein hamgylchedd; cyflawni hygyrchedd cynaliadwy; a pharchu natur unigryw;
- Nod cyffredinol y *Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy* yw datblygu economi sy'n ymateb i gyfleoedd datblygu cynaliadwy, yn lleihau'r galw ar yr amgylchedd ac yn sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl;
- Mae *Strategaeth Dwristiaeth Genedlaethol Cymru 'Cyflawni ein Potensial'*¹⁵⁵ yn nodi'r fframwaith strategol ar gyfer twristiaeth;
- Mae'r *Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol ar gyfer Cymru* yn nodi egwyddorion sylfaenol ar gyfer datblygu cynaliadwy a rheoli'r amgylchedd forol¹⁵⁶;

¹⁵¹ Cyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff (75/442/EEC).

¹⁵² http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/oj/2006/l_114/l_11420060427en00090021.pdf

¹⁵³ Fersiwn wedi'i godeiddio o'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff (2006/12/EC).

¹⁵⁴ http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/site/en/oj/2006/l_114/l_11420060427en00090021.pdf

¹⁵⁵ Tirlenwi Gwastraff (1999/31/EC), Cyfarwydddeb Gwastraff Peryglus (91/689/EEC), Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (2002/96/EC).

¹⁵⁶ <http://register.consilium.europa.eu/pdf/en/06/st10/st10117.en06.pdf>

¹⁵⁷ Cyflawni ein Potensial Llywodraeth Cynulliad Cymru

<http://new.wales.gov.uk/topics/tourism/about/strategy-policy/achieving-our-potential?lang=cy>

¹⁵⁸ Strategaeth ddrafft Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol ar gyfer Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- Mae'r *Strategaeth Twristiaeth Arfordirol* yn nodi sut y gall yr amgylchedd morol ategu datblygu cynaliadwy¹⁵⁷;
- *Strategaeth Ynni Cymru*¹⁵⁸;
- *Cynllun Gweithredu Busnes a'r Amgylchedd*¹⁵⁹;
- *Strategaeth Adnoddau Dŵr ar gyfer Cymru*¹⁶⁰;
- *Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru 'Yn Gall gyda Gwastraff'*¹⁶¹; a
- *Cynllun Oes*¹⁶².

Targedau a Dangosyddion

4.100 Defnyddir y dangosyddion canlynol i olrhain hynt prosiectau a'r Rhaglen. Gellir cael rhagor o fanylion yn Atodiad Ch.

http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/env_cons_management/countryside_coastal_access/iczm/?lang=cy

¹⁵⁷ Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/consultations/closed/tourismcloscons/1373048/?lang=cy>

¹⁵⁸ Strategaeth Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/topics/businessandconomy/help/sectors/energy/?lang=cy>

¹⁵⁹ Cynllun Gweithredu Busnes a'r Amgylchedd ar gyfer Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://www.busnesamgylchedd.cymru.gov.uk/documents/be-action-plan-w.pdf>

¹⁶⁰ Adnoddau dwr ar gyfer y dyfodol: Strategaeth ar gyfer Cymru Mawrth 2001:

http://www.environment-agency.gov.uk/commondata/acrobat/national_report_welsh.pdf

¹⁶¹ Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Yn Gall gyda Gwastraff'

http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/wise_about_waste_strategy?lang=cy

¹⁶² Cynllun Oes Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypublications/935760/?lang=cy>

Tabl 17. Dangosyddion i Orlhain Hynt Prosiectau a'r Rhaglen – ERDF Blaenoriaeth 4

Dangosydd	Llinell Sylfaen	Targed
Cynnyrch		
Mentrau a gynorthwywyd (90% o fusnesau bach a chanolig)	102,500 o fentrau yn weithredol, 2003 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004, Dadansoddiad o Fusnesau yng Nghymru o ran Maint)	150
Ymchwil a datblygu cydweithredol	-	14
Mentrau rheoli risg amgylcheddol	-	15
Mentrau i ddatblygu'r amgylchedd naturiol a/neu hanesyddol	-	21
Mynediad wedi'i reoli i gefn gwlad neu'r arfordir	-	15 km
Nifer y Prosiectau Ynni Adnewyddadwy	-	25
Canlyniadau		
Mentrau sy'n gweithredu systemau rheoli amgylcheddol ar lefel sy'n ei gwneud yn ofynnol i fonitro gollyngiadau carbon a chyflwyno adroddiad arnynt	-	25%
Ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd	1,223 GWh ledled Cymru, 2005 (Adran Masnach a Diwydiant, Tueddiadau Ynni)	400 GWh
Ynni a arbedwyd	-	600 GWh
Lleihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr	18,700kt o ollyngiadau CO ₂ (ar sail defnyddiwr terfynol), 2004 (DEFRA, 2006, Ystadegau Arbrofol ar ollyngiadau carbon deuocsid ar lefel Awdurdod Lleol a Rhanbarthol)	100 ktC
Cynnyrch, prosesau neu wasanaethau newydd neu well a lansiwyd	-	28
Buddsoddiad a gyflwynwyd	£2,817 miliwn o wariant cyfalaf net ledled Cymru, 2004 (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2006, Ymchwiliad Busnes Blynyddol)	£145,000,000

Gwastraff a leihawyd, a ailddefnyddiwyd neu a ailgylchwyd	484,000t o wastraff trefol wedi'i ailgylchu neu ei gompostio ledled Cymru 2005-06 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007, Ystadegau Allweddol yr Amgylchedd ar gyfer Cymru)	1,000,000 t
Mentrau a grëwyd	3,790 o gofrestriadau TAW, 2005 (Gwasanaeth Busnesau Bach yr Adran Masnach a Diwydiant)	14
Pobl sy'n cael budd o fesurau amddiffyn rhag llifogydd	-	2,000
Ymweliadau	8,040,000 o ymweliadau, cyfartaledd blyneddol 2003-05 (Llywodraeth Cynulliad Cymru)	196,000
Nifer y swyddi gros a grëwyd	777,000 o swyddi yn y gweithle, 2005 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006, Swyddi yn y Gweithle yn ôl Diwydiant yng Nghymru)	5,000 Cyfwerth ag amser llawn
Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro	-	50%
Effeithiau		
Cynnydd mewn trosiant	-	-
Gwastraff net a adferwyd	-	-
Gostyngiad net mewn gollyngiadau nwyon tŷ gwydr	-	-
Gwerthiant cynnyrch, prosesau neu wasanaethau	-	-
Incwm a grëwyd	-	-
Mentrau net a grëwyd	-	-
Nifer y swyddi net a grëwyd	-	-
Cynnydd mewn GYC ar lefel cwmni	-	-

Buddiolwyr

4.101 Gallai'r rhain gynnwys y Sector preifat, Cyrff y sector cyhoeddus, Awdurdodau Lleol, Cyrff y sector gwirfoddol, Sefydliadau cymunedol, Mentrau Cymdeithasol, Partneriaid Cymdeithasol, Sefydliadau anllywodraethol, a Sefydliadau Hyfforddi.

Strategaeth Weithredol

4.102 Cyflawnir y Flaenoriaeth hon mewn tair ffordd:

Thema 1: Ynni

4.103 Nod y thema hon yw ategu'r broses o ddatblygu ynni glân ac adnewyddadwy ac annog busnesau, cyrff cyhoeddus, mentrau cymdeithasol, cymunedau lleol a deiliaid cartrefi yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i wneud mwy o ymdrech i arbed ynni a sicrhau effeithlonrwydd ynni. Cyflawnir hyn drwy:

- ategu datblygiadau ynni glân a gwelliannau seilwaith ynni er mwyn cynyddu cyflenwad;
- atgyfnerthu'r sylfaen ymchwil a datblygu ynni a chysylltiadau rhwng busnesau ac academia yn cynnwys arddangos technolegau'r dyfodol;
- annog y broses of fabwysiadu dulliau microgynhyrchu a'r defnydd o ddeunyddiau adnewyddadwy;
- mesurau arbed ynni ac effeithlonrwydd ynni i leihau'r galw.

Gweithgareddau Dangosol

- datblygu ffynonellau ynni glân newydd, er enghraifft, drwy ddatblygu potensial technoleg glo glân a manteisio ar yr adnoddau adnewyddadwy naturiol sydd ar gael megis y gwynt, tonnau, llanw, biodanwydd hylif a biomas;
- cefnogi mircofusnesau, busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol i ddatblygu technolegau ynni adnewyddadwy ac sy'n defnyddio ynni'n effeithlon a hyrwyddo'r defnydd o dechnolegau microgynhyrchu;
- annog busnesau i ddefnyddio ynni yn fwy effeithlon drwy ddatblygu technolegau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon neu fabwysiadu dulliau cynhyrchu sy'n defnyddio ynni'n effeithlon;
- annog effeithlonrwydd ynni drwy weithgareddau'r gadwyn gyflenwi, rhannu arfer gorau drwy rwydweithiau a datblygiadau clwstwr ac ar draws sectorau eraill;
- lledaenu arfer gorau o ran effeithlonrwydd ynni, er enghraifft, drwy ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd;
- datblygu prosiectau sy'n ategu gwaith ymchwil a datblygu yn cynnwys modelau arddangos a allai fod yn enghreifftiau o brosiectau arloesol;
- datblygu safonau technegol, yn ogystal â phrosiectau a fydd yn ategu prosesau cyfathrebu a lledaenu arfer gorau.

4.104 Disgwyliwn i'r thema hon ddefnyddio ychydig dros draean o adnoddau'r flaenoriaeth hon.

Thema 2: Mynd i'r Afael â Chyfleoedd Amgylcheddol a Risgiau i Dwf Economaidd Cynaliadwy

4.105 Nod y thema hon yw hyrwyddo datblygiad economaidd cynaliadwy drwy gefnogi buddsoddiad mewn seilwaith a fydd yn gwella cynhyrchiant adnoddau ac yn rheoli risgiau a chyfyngiadau amgylcheddol. Cyflawnir hyn drwy:

- wella seilwaith amddiffyn rhag llifogydd mewndirol ac arfordirol;
- annog proses effeithlon o ddefnyddio, aildddefnyddio ac adfer adnoddau naturiol ar draws pob sector o'r economi;
- mesurau i leihau gollyngiadau nwyon tŷ gwyr;
- dileu ffynonellau halogi.

Gweithgareddau Dangosol:

- gwella galluoedd amddiffyn rhag llifogydd mewndirol ac arfordirol a dulliau amddiffyn rhag erydiad cysylltiedig, rhybudd rhag llifogydd ac ymateb i lifogydd, ac annog mwy o wydnwch mewn amgylcheddau adeiledig a chymunedau sydd mewn perygl;
- mentrau rheoli dalgylchoedd a fydd yn helpu i leihau risgiau llygredd a chyflawni safonau ansawdd amgylcheddol;
- lleihau ffynonellau llygredd dŵr ffo, gwasgaredig a phwynt penodol i gyrsgiau dŵr, yr atmosffer a'r ddaear;
- datblygu cyfleusterau rheoli gwastraff ac adnoddau, yn cynnwys mesurau i ddatblygu mentrau cymdeithasol yn y maes hwn;
- galluogi busnesau i ddod yn fwy effeithlon o ran adnoddau drwy fabwysiadu systemau rheoli amgylcheddol a mabwysiadu dulliau a thechnoleg gynhyrchu sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon;
- datblygu technolegau dylunio cynnyrch newydd sy'n defnyddio adnoddau yn fwy effeithlon;
- hyrwyddo effeithlonrwydd o ran adnoddau mewn busnesau, ac aildddefnyddio ac ailgylchu adnoddau er mwyn lleihau'r gwastraff a gynhyrchir a'r gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi;
- cefnogi buddsoddiad mewn prosesau ymchwil a datblygu, arloesedd a datblygu gwybodaeth er mwyn datblygu atebion cost effeithiol o ran technolegau effeithlonrwydd adnoddau.

4.106 Disgwyliwn i'r thema hon ddefnyddio tua thraean o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Thema 3: Amgylchedd Twf

4.107 Nod y thema hon yw gwireddu potensial economaidd yr amgylchedd naturiol. Cyflawnir hyn drwy:

- hyrwyddo'r broses o wella a diogelu'r amgylchedd naturiol, adeiledig a threftadaeth; a
- cynyddu potensial economaidd yr amgylchedd.

Gweithgareddau Dangosol:

- gwella apêl cyfleusterau sy'n bodoli eisoes, neu ddatblygu cyfleusterau newydd, rhai naturiol a rhai artiffisial yn cynnwys;
- datblygu canolfannau rhagoriaeth;
- seilwaith ffisegol a fydd yn dod â buddiannau economaidd fel marinas, llwybrau beicio a cherdded (ar gyfer hamdden yn hytrach na thrafnidiaeth), yn ogystal â gwasanaethau a chyfleusterau atodol;
- mentrau, megis llwybrau cerdded ar hyd yr arfordir, yn ogystal â llwybrau eraill a fydd yn gwella mynediad i'r arfordir ac i gefn gwlad, ac a fydd yn sicrhau budd economaidd sylweddol; a
- datblygu'r potensial ar gyfer gweithgareddau hamdden ac economaidd cynaliadwy sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd naturiol, er enghraifft, o gwmpas safleoedd cadwraeth a Natura 2000 pwysig.

4.108 Disgwyliwn i'r thema hon ddefnyddio tua thraean o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Gwerth Ychwanegol

4.109 Nod y tair thema yn y Flaenoriaeth hon yw defnyddio'r cyfleoedd sy'n deillio o'r amgylchedd i hyrwyddo prosesau datblygu economaidd y rhanbarth. Un dewis fyddai gwneud dim byd. Fodd bynnag, cymaint yw gwerth posibl yr amgylchedd fel adnodd a symbylydd twf economaidd fel bod y gallu i ddefnyddio'r Cronfeydd Strwythurol i ategu ymyriadau rhagweithiol yn faes pwysig ac yn un lle y mae gan y Rhaglen y potensial i gael effaith wirioneddol ar y rhanbarth. Mae gan y Flaenoriaeth, felly, gysylltiad cadarn iawn â nodau agendau Lisboa a Göteborg.

4.110 Yn arbennig, o ganlyniad i'r gweithgareddau a gynigir o dan Thema 1, bydd y Rhaglen yn annog buddsoddiadau a fydd yn rhoi mantais gystadleuol i'r rhanbarth o ran annog gwell effeithlonrwydd ynni yn uniongyrchol law yn llaw â chefnogi mentrau a fydd yn werthadwy y tu hwnt i'r rhanbarth. O dan Thema 2,

mae'r pwyslais ar ragweld yr heriau sy'n deillio o weithgareddau naturiol ac economaidd ac ymateb iddynt. Yn yr un modd, bydd yr arian a neilltuir ar gyfer y thema hon a Thema 3 yn cynnal lefelau uwch o wariant lle y nodir gweithgareddau a chyfleoedd penodol o fewn yr amgylchedd ei hun. O ganlyniad, bydd hyn yn sicrhau y cyflawnir safonau uchel o ran rheoli'r amgylchedd yn effeithiol a fydd yn cadw'r adnodd cyfyngedig hwn ac yn cynnig diogelwch parhaus iddo yn y dyfodol.

Cyfleuster Hyblygrwydd

4.111 Mae Erthygl 34 (2) o Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 1083/2006 yn darparu i'r ERDF ariannu ymyriadau sydd o fewn cwm pas yr ESF (ac i'r gwrthwyneb), cyhyd â bod y cyfryw ymyriadau yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus a bod iddynt gyswllt uniongyrchol â'r gweithrediad hwnnw. Er mwyn hyrwyddo dull cydlynol o weithredu camau o dan y Flaenoriaeth hon, gellir defnyddio uchafswm o 5% o gyfraniad yr UE i'r Flaenoriaeth i ariannu buddsoddiadau cydategol o'r fath. Caiff y cyfiawnhad dros ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn ei roi ar lefel gweithrediad/prosiect a chaiff yr adnoddau a ddefnyddir yn y modd hwn eu nodi ar wahân mewn ceisiadau prosiect a chaiff y gwariant ei ddatgan.

4.112 Ymhlith yr enghreifftiau lle y gall traws-ariannu o dan y Flaenoriaeth hon hyrwyddo dull gweithredu cydlynol mae:

- hyfforddiant i hyrwyddo busnesau bach a chanolig i ddefnyddio dulliau arloesol yn y maes effeithlonrwydd ynni ac adnoddau fel bod hyn yn cyfrannu at ganlyniad mwy llwyddiannus o dan y gweithgareddau a ariennir gan yr ERDF; ac
- hyfforddi busnesau o ran effeithlonrwydd ynni ac adnoddau.

4.113 Defnyddir dangosyddion ESF perthnasol, er enghraifft:

Tabl 18. Dangosyddion ESF ar gyfer Blaenoriaeth 4

Cynnyrch	⇒ Canlyniad	⇒ Effaith
Cyfranogwyr	Cyfranogwyr yn ennill cymwysterau	
	Cyfranogwyr yn ymgymryd â dysgu pellach	

Cydweithrediad Trawsgenedlaethol a Rhynggranbarthol

4.114 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn annog Partneriaethau Fframwaith penodol i gyflwyno prosiectau sy'n rhan o gwmpas y darpariaethau ar gyfer cydweithrediad trawsgenedlaethol a rhynggranbarthol. Mae arbenigedd sylweddol y Rhanbarth yn y sector nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol yn arbennig yn rhoi cyfle sylweddol i ymgymryd â phrosiectau a gynlluniwyd i sicrhau arfer gorau ond

hefyd i fanteisio ar syniadau a phrosesau newydd ac arloesol a ddefnyddir mewn mannau eraill. Er nad yw'n bosibl cadarnhau pa weithgareddau a fydd yn dod i'r golwg ar y cam hwn, lle y bo'n briodol, caiff adnoddau ERDF eu defnyddio i ategu cydbrosiectau a phrosiectau cydweithredol o'r fath.

Grantiau Cyffredinol

4.115 Nid ydym yn rhagweld defnyddio Grantiau cyffredinol fel y'u diffinnir gan Erthygl 42 o Reoliad (CE) 1083/2006 a wnaed ar 11 Gorffennaf 2006.

Erdf Blaenoriaeth 5: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy

Amcan

4.116 Ategu dulliau integredig o ymgymryd â gwaith adfywio hirdymor a fydd o fudd i gymunedau mwyaf difreintiedig y rhanbarth ac yn ategu'r gwaith o ddatblygu economïau lleol ffyniannus.

Rhesymeg

4.117 Mae'r gwaith o adfywio cymunedau, rhai trefol neu wledig, yn ganolog i ddatblygiad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ehangach. Mae angen gwirioneddol i adeiladu cymunedau sy'n economaidd gystadleuol, yn gymdeithasol gynhwysol ac yn ardaloedd y mae pobl am fuddsoddi, byw a gweithio ynddynt yn awr ac yn y dyfodol. Un o'r ffactorau allweddol sy'n cyfrannu at greu cymunedau ffyniannus a chynaliadwy yw creu naws am 'le', lle y gall apêl gyffredinol ardal gynyddu'r hyder sy'n ofynnol yn y gymuned ac mewn busnesau i helpu economi leol i weithredu'n effeithiol ac i ddenu pobl a buddsoddiad. Mae adfywio ffisegol a gwella'r amgylchedd adeiledig yn elfen hanfodol yn hyn o beth. Fodd bynnag, er mwyn i fuddsoddiad yn yr amgylchedd ffisegol gael effaith wirioneddol a pharhaus ar ardaloedd difreintiedig a'r bobl sy'n byw ynddynt, mae ymgysylltiad cymunedol yn hanfodol. Mae adeiladu cymunedau cynaliadwy yn golygu galluogi pobl leol i lunio, newid a bod yn gyfrifol am y broses, sy'n helpu i ddarparu sgiliau a meithrin hyder, gan roi cyfleoedd i fentrau lleol ffynnu. Mae buddsoddiad a gefnogir gan fentrau Ewropeaidd fel Mentrau Cymunedol URBAN I ac URBAN II yng Ngorllewin Wrecsam a Townhill, Abertawe, a'r grwpiau LEADER+ mewn ardaloedd trefol wedi pwysleisio pwysigrwydd partneriaethau effeithiol, integreiddio lleol, rhwydweithiau cymorth a meithrin gallu ymhlith y boblogaeth leol.

4.118 Mae heriau economaidd a chymdeithasol y rhanbarth yn effeithio ar y rhan fwyaf o Orllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae cyfraddau allfudo net ymhlith pobl ifanc mewn rhai ardaloedd wedi arwain at newid strwythur demograffig cymunedau gwledig a cholledion cyflogaeth leol, er enghraifft, yn Noc Penfro ac Aberdaugleddau yn y de-orllewin a Chaernarfon, y Rhyl a Chaergybi yn y gogledd, sydd wedi creu lefelau uchel o amddifadedd mewn llawer o drefi bach. Fodd bynnag, yng Nghymoedd uchaf De Cymru y ceir y crynodiad cymharol mwyaf o amddifadedd trefol¹⁶³. Y darlun cyffredinol a geir yma yw poblogaethau sy'n dirywio¹⁶⁴, sgiliau isel, a diwydiant gwerth ychwanegol isel. Mae ailstrwythuro economaidd, dirywiad diwydiannau traddodiadol a lefelau dilynol isel o fuddsoddiad wedi arwain at ddirywiad sylweddol yn yr amgylchedd adeiledig, ac yn y gwasanaethau a'r amwynderau a ddarperir. Mae trefi a chanolfannau dosbarth sydd mewn cyflwr gwael wedi datblygu mewn ffyrdd ad-hoc, gyda hen gyfleusterau, ac ni allant ymateb i alwadau newidiol bywyd modern. Mae lefelau

¹⁶³ Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/wimd2005/?lang=cy>

¹⁶⁴ Tra bod Gorrlewin Cymru a'r Cymoedd yn gyffredinol yn profi mewnfudo net, ceir allfudo net yng Nghymoedd de Cymru - sy'n deillio o lefelau sylweddol is o fewnfudo

anweithgarwch economaidd yn uchel ac yn amlwg iawn ymhlith y rhai â'r sgiliau isaf, ac mae nifer fawr o ddynion o oedran gwaith nad ydynt ar gael i weithio.

4.119 Mae cynorthwyo cymunedau difreintiedig i ddatblygu a chynnal gweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig â marchnadoedd ehangach ac sy'n rhoi cyfleoedd i bob rhan o'r gymuned yn hanfodol i dwf economaidd yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Dengys ymchwil gan y Comisiwn Archwilio mai cyflogaeth oedd y ffactor mwyaf effeithiol o ran lleihau cyfraddau aildroseddu gan droseddwr sy'n oedolion ifanc.¹⁶⁵ Mae bodolaeth ardaloedd o amddifadedd yn ddiau yn ffactor ataliol: yn atal buddsoddiad, yn arwain at sgiliau isel ac yn gyffredinol yn cyfyngu ar dwf economaidd ehangach. Mae adfywio cymunedau sy'n wynebu anfantais economaidd a chymdeithasol felly yn hanfodol i ategu datblygu economaidd cynaliadwy ehangach.

4.120 Mae rhannau o ranbarth y rhaglen Gydgyfeirio yn ffinio ar ardaloedd trefol sy'n perfformio'n gryf fel Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam/Glannau Dyfrdwy. Er bod gwahaniaeth mawr rhwng ardaloedd ffyniannus a rhai difreintiedig yn y rhan hon o'r ranbarth, sy'n aml yn gwneud y bwch rhwng y cyfoethog a'r tlawd hyd yn oed yn amlycach, mae angen adeiladu ar y cyfleoedd a gyflwynir. Mae angen datblygu canolfannau cydategol mewn ranbarthau dinas sy'n perfformio'n gryf sy'n darparu ystod o gyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau o fewn amgylchedd o safon uchel y gall pob cymuned fanteisio arnynt. O fewn yr ardaloedd â phoblogaeth lai, yr allwedd yw cael canolfannau sy'n perfformio'n gryf ac sydd ag ystod o swyddogaethau y gall pobl fanteisio arnynt. Bydd llawer ohonynt yn ganolfannau cyflogaeth a gwasanaethau rhanbarthol a lleol pwysig. Mewn rhai achosion bydd iddynt swyddogaeth neu botensial twristiaeth hefyd. Mae adeiladu cymunedau cynaliadwy o fewn y trefi hyn yn gofyn am nodi'r cryfderau a'r cyfleoedd lleol hyn ac adeiladu arnynt. Mae'r ranbarth hefyd yn cynnwys ardaloedd ar gyrion Ewrop. Fel arfer, nodweddir y cymunedau hyn gan farchnadoedd llai sy'n gallu atal darpariaeth breifat a chystadleuaeth o ran darparu gwasanaethau, ynghyd ag atal pobl rhag manteisio ar yr ystod o gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant¹⁶⁶.

4.121 Bydd adeiladu cymunedau economaidd gystadleuol, cymdeithasol gynhwysol a chynaliadwy y mae pobl am fuddsoddi, byw a gweithio ynddynt, yn awr ac yn y dyfodol, yn gofyn am gyfuniad o gamau gweithredu ffisegol a chymdeithasol cydgysylltiedig ac integredig. Mae'n rhaid i'r gwaith adfywio ffisegol i wella cyfansoddiad ardal gael ei ategu gan ymyriadau sy'n cynnwys pobl leol mewn gweithgareddau adfywio. Mae'r cyfranogiad hwn yn angenrheidiol er mwyn adnewyddu a meithrin hyder cymunedau: gan atgyfnerthu cydlyniant cymdeithasol, datblygu rhwydweithiau cymunedol, a meithrin gallu cymunedau i fod yn fentrus; ac i sicrhau y caiff pobl leol gyfle cyfartal i fanteisio ar fuddiannau buddsoddiadau lleol. Yn aml, y broses o gydgyssylltu atebion mewn cymunedau o'r fath sydd wrth wraidd y maes ymyriad hwn. Mae'r gallu i fanteisio ar swyddi, gwasanaethau, marchnadoedd a chyfleusterau hefyd yn hanfodol. Bydd y

¹⁶⁵ Adroddiad y Comisiwn Archwilio - Youth Justice 2004 - a review of the reformed youth justice system

<http://www.audit-commission.gov.uk/reports/NATIONAL-REPORT.asp?CategoryID=&ProdID=7C75C6C3-DFAE-472d-A820-262DD49580BF>

¹⁶⁶ Gweler adroddiadau Arsyllfa Wledig Cymru <http://www.walesruralobservatory.org.uk/> a Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, fel uchod.

flaenoriaeth hon hefyd yn ategu datblygiad a thwf gwasanaethau penodol lle y cafwyd bylchau neu lle y ceir bylchau, gan annog pobl a gaiff eu hallgáu'n gymdeithasol ac sy'n anweithgar yn economaidd i gael cyflogaeth, gan ddefnyddio dulliau sy'n ymwneud â marchnadoedd ehangach, mwy ffyniannus. Wrth weithredu ar y materion hyn, bydd yn bwysig datblygu synergeddau â gweithgarwch a gefnogir mewn rhannau eraill o'r Rhaglen ac o dan flaenoriaethau ESF.

Cyd-destun Polisi

Ewropeaidd

4.122 Mae *Bristol Accord* y Comisiwn Ewropeaidd yn amlygu wyth nodwedd sy'n cyfateb i gymuned gynaliadwy ac sy'n berthnasol i'r flaenoriaeth hon. Mae'r rhain fel a ganlyn: gweithredol, cynhwysol a diogel; wedi'i rhedeg yn dda; â chysylltiadau da; yn cael ei gwasanaethu'n dda; yn ystyriol o'r amgylchedd; yn ffyniannus; wedi'i chynllunio a'i hadeiladu'n dda; ac yn deg i bawb.

4.123 Mae'r flaenoriaeth hon hefyd yn adlewyrchu'r *Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd*¹⁶⁷, sy'n cyflwyno fframwaith polisi i aelod-wladwriaethau, eu rhanbarthau, awdurdodau lleol a'r Gymuned Ewropeaidd. Mae ei themâu eang yn cynnwys: dinasoedd ac ardaloedd trefol deinamig, deniadol a chystadleuol; datblygiad brodorol, ardaloedd gwledig amrywiol a chynhyrchiol; partneriaeth drefol-gwledig; yr un cyfle i fanteisio ar seilwaith a gwybodaeth; a dull doeth o reoli'r dreftadaeth naturiol a diwylliannol.

4.124 Yn ogystal, bydd y Flaenoriaeth hon yn ategu Canllawiau Strategol y Gymuned 4.1: Gwneud Ewrop a'i rhanbarthau yn lleoedd mwy deniadol i fuddsoddi ynddynt ac i weithio ynddynt.

Cenedlaethol

4.125 Mae agenda strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn *Cymru: Gwlad Well* yn nodi gweledigaeth ar gyfer gwlad decach, mwy ffyniannus, iachach a mwy addysgedig. Ymhlith y camau gweithredu sy'n arbennig o berthnasol i'r flaenoriaeth hon mae cyfiawnder cymdeithasol sy'n mynd i'r afael â thlodi ac iechyd gwael ac sy'n rhoi modd i bobl a'u cymunedau helpu eu hunain i ddianc rhag y fagl tlodi, yn ogystal â chamau gweithredu yn ein hamgylchedd adeiledig sy'n ennyn parch yn y gymuned ac yn hyrwyddo cyflogaeth leol.

4.126 Mae *Cynllun Gofodol Cymru* yn cydnabod yn glir yr angen i annog bywiogrwydd cymunedau fel lleoedd deniadol i fyw ynddynt ac i weithio ynddynt a lleihau'r anghydraddoldebau rhwng cymunedau, tra'n cynnal eu cymeriad a'u natur unigryw. Mae'n rhoi'r cyd-destun ar gyfer adeiladu cymunedau cynaliadwy drwy gymryd camau gweithredu penodol i fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad o fewn canolfannau trefol a gwledig tra'n lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol a chynnal cymeriad a natur unigrwydd lleoedd. Mae'n pwysleisio'r angen i gyflawni gwaith adfywio mewn ffordd gydlynol, integredig, gan roi

¹⁶⁷ *Persbectif Datblygu Gofodol Ewropeaidd*, y Comisiwn Ewropeaidd 1999: http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/docoffic/official/reports/som_en.htm

ystyriaeth gyfartal i anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cymunedau. Mae'r *Cynllun Gofodol* yn cydnabod pwysigrwydd integreiddio'r gwaith hwn â mentrau lleol fel strategaethau cymunedol a sicrhau y bydd y rhain yn adlewyrchu'r weledigaeth ynghylch sut y bydd ardaloedd ehangach Cymru yn datblygu.

4.127 Mae'r flaenoriaeth hon hefyd yn mynd i'r afael ag elfennau pwysig o *Cymru: Economi yn Ffynnu*. Ymhlith y camau gweithredu allweddol ar gyfer buddsoddi o fewn strategaeth datblygu economaidd hon yn y dyfodol mae gwneud cymunedau yn ddeniadol i fusnesau a gweithwyr medrus, sicrhau cyflenwad o safleoedd ac adeiladau busnes o safon uchel lle y mae darpariaeth y sector preifat yn wan ac ymgymryd â gwaith adfywio mewn modd cynhwysol.

4.128 Mae *Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004–2007* Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi'r angen i weithredu ar draws tri philer datblygu economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at gamau gweithredu ar gyfiawnder cymdeithasol i fynd i'r afael â thlodi, canlyniadau anfantais, a chamau i atgyfnerthu ein hunaniaeth ddiwylliannol ac i sicrhau cyfle a chyfranogiad cyfartal.

4.129 Mae nifer o strategaethau a rhaglenni thematig a chenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn berthnasol i'r flaenoriaeth hon. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:

- *Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf*¹⁶⁸;
- *Rhaglen Gweithredu dros Gymunedau Gwledig*¹⁶⁹;
- *Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru*; a
- *Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol*¹⁷⁰.

¹⁶⁸ Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cynulliad Cymru:

<http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/regeneration/communitiesfirst/?lang=cy>

¹⁶⁹ Rhaglen Gweithredu dros Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru.

¹⁷⁰ Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol:

<http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/voluntarysector/news/actionconsultresponses/?lang=cy>

Targedau a Dangosyddion

4.130 Defnyddir y dangosyddion canlynol i olrhain hynt prosiectau a'r Rhaglen. Ceir manylion pellach a llinellau sylfaen yn Atodiad Ch.

Tabl 19. Dangosyddion i Orlhain Hynt Prosiectau a'r Rhaglen – ERDF Blaenoriaeth 5

Dangosydd	Llinell Sylfaen	Targed
Cynnyrch		
Cynlluniau gwelliant ffisegol	-	30
Tir wedi'i ddatblygu	-	2 ha
Sefydliadau a gynorthwywyd	-	200
Sefydliadau a gafodd gymorth ariannol	-	100
Unigolion a gynorthwywyd i sefydlu menter gymdeithasol newydd	-	50
Unigolion a gafodd gymorth ariannol i sefydlu menter gymdeithasol newydd	-	25
Canlyniadau		
Adeiladau a grëwyd neu a adnewyddwyd	-	10,000 m ²
Nifer y mentrau y crëwyd lle ar eu cyfer	-	50
Nifer y swyddi y crëwyd lle ar eu cyfer	-	150
Nifer y swyddi gros a grëwyd	-	6,200 cyfwerth ag amser llawn
Buddsoddiad a gyflwynwyd	-	£3,000,000
Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau	-	-100,000
Nifer y mentrau cymdeithasol a grëwyd	-	30
Sefydliadau sy'n mabwysiadu neu'n gwella systemau monitro cydraddoldeb	-	50% o gwmnïau yn cael eu cynorthwyo ac yn cael cymorth ariannol
Sefydliadau sy'n mabwysiadu neu'n gwella systemau rheoli amgylcheddol	-	20% o gwmnïau yn cael eu cynorthwyo ac yn cael cymorth ariannol

Effeithiau		
Cyfraddau meddiannaeth	-	-
Nifer y swyddi net a grëwyd	-	-
Nifer y mentrau cymdeithasol net a grëwyd	-	-
Cynnydd mewn trosiant	-	-

Buddiolwyr

4.131 Gallai'r rhain gynnwys y sector preifat, cyrff y sector cyhoeddus, awdurdodau lleol, cyrff y sector gwirfoddol, sefydliadau cymunedol, mentrau cymdeithasol, partneriaid cymdeithasol, sefydliadau anllywodraethol, a chynghorau sgiliau sector.

Strategaeth Weithredol

4.132 Caiff y gweithgareddau a gefnogir o dan y flaenoriaeth hon eu cyfeirio at yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ac at y cymunedau hynny lle y mae'r gweithgarwch yn debygol o gael yr effaith fwyaf. Rhaid i'r holl gefnogaeth a roddir o dan y flaenoriaeth hon arwain at ryw fath o ganlyniad economaidd sy'n cynnwys swyddi, busnes masnachu cynaliadwy, gweithgarwch economaidd cynyddol a gweithgarwch cymunedol sy'n cynhyrchu ac yn sicrhau cyfoeth a rhaid iddo ddangos cyfranogiad cymunedol cynnar a pharhaus. Mae fframwaith *Cynllun Gofodol Cymru* yn darparu'r ffocws ar gyfer y mwyafrif helaeth o'r gweithgarwch o dan y flaenoriaeth hon. Bydd Grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol yn gyfrifol am flaenoriaethu, drwy ddatblygu Fframweithiau Strategol Adfywio Cynaliadwy ar gyfer pob ardal, y blaenoriaethau ar gyfer ymyriadau a all roi'r budd mwyaf i'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Cyflawnir y flaenoriaeth hon drwy'r ddwy thema ganlynol, y mae'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â hwy yn rhan o raglenni ardal integredig:

Thema 1: Adfywio Ffisegol (yn cynnwys adnewyddu canol y dref)

4.133 Nod y thema hon yw ategu'r gwaith o adfywio cymunedau yn ffisegol, fel rhan o strategaeth adfywio integredig a lle y gellir dangos y bydd ymyrraeth benodol yn creu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cynaliadwy. Cyflawnir hyn drwy:

- ategu'r gwaith o adfywio'r trefi a'r pentrefi mwyaf difreintiedig mewn modd integredig, drwy wella'r cyfansoddiad trefol yn ffisegol ynghyd â'r dreftadaeth naturiol ac adeiledig ehangach. Gwneir y gwaith hwn o fewn cyd-destun strategaeth berthnasol y Cynllun Gofodol ac mewn ffyrdd sy'n cynnwys cymunedau a sefydliadau lleol;
- datblygu a darparu ffyrdd effeithiol o gynnwys cymunedau lleol a datblygu rhwydweithiau lleol gyda'r nod o ddod o hyd i atebion lleol ar gyfer gweithgaredd adfywio a'u rhoi ar waith.

Gweithgareddau Dangosol:

- gwella'r dirwedd mewn trefi a phentrefi a threfniadau mynediad, yn cynnwys ailgynllunio tirweddau agored anniogel ac adnewyddu mannau cyhoeddus a sicrhau y gellir eu defnyddio o safbwynt economaidd, ynghyd â datblygu safleoedd ac adeiladau ar raddfa fach. Gallai hyn gynnwys rheoli traffig lleol yn ofalus neu ddarparu cyfleusterau ffordd a pharcio lle y mae'r rhain yn atodol i ddatblygiad neu lle y byddant yn golygu bod canol y dref yn gweithredu'n briodol, fel rhan o gynllun adfywio integredig; a
- ailddatblygu neu adnewyddu adeiladau sydd mewn cyflwr gwael, segur, yn adfeiliedig neu na chânt eu defnyddio a gwneud defnydd ohonynt unwaith eto at ddibenion economaidd a chymdeithasol/cymunedol.

4.134 Disgwyliwn i'r thema hon ddefnyddio tua 72% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Thema 2: Datblygu Economaidd Cymunedol

4.135 Nod y thema hon yw adeiladu cymunedau cynaliadwy a ffyniannus drwy gefnogi gweithgareddau sy'n rhan o strategaeth adfywio integredig i oresgyn rhwystrau i ddatblygu economïau lleol a chyfranogi ynddynt. Cyflawnir hyn drwy:

- annog mynediad i wasanaethau ar gyfer cymunedau lleol, darparu gwasanaethau neu eu gwella, lle y ceir tystiolaeth glir o fylchau mewn darpariaeth, gan adeiladu ar yr ymgysylltiad a ddatblygwyd o dan Thema 1; a
- cynyddu cyfraniad economaidd y 'trydydd sector'¹⁷¹;

Gweithgareddau Dangosol:

- cefnogi'r broses o gael gafael ar wasanaethau, gwasanaethau a chyfleusterau newydd neu wedi'u gwella lle y ceir tystiolaeth o fwlch. Caiff y rhain eu nodi fel rhan o strategaeth adfywio leol a lle y ceir methiant clir yn y farchnad, a gallent gynnwys, er enghraifft, mentrau cyllid a arweinir gan y gymuned fel undebau credyd, gwasanaethau cynghori ariannol a dyled, mentrau sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i gyflogaeth yn cynnwys gwasanaethau gofal plant a gwasanaethau gofal eraill a thrafnidiaeth gymunedol, yn ogystal â gwasanaethau eraill o fudd economaidd cyffredinol;

¹⁷¹ Y diffiniad yn seiliedig ar Drysorlys EM, yr Adran Masnach a Diwydiant, y Swyddfa Gartref (Chwefror 2005) Exploring the Role of the Third Sector in Public Service Reform ac www.cabinetoffice.gov.uk/the_third_sector/

Mae'r Llywodraeth yn diffinio'r trydydd sector fel sefydliadau anllywodraethol sy'n cael eu gyrru gan werthoedd ac sy'n ailfuddsoddi unrhyw arian sydd dros ben ganddynt i hyrwyddo amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol yn bennaf. Mae'n cynnwys mudiadau gwirfoddol a chymunedol, elusennau, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol.

- prosiectau sy'n ysgogi datblygu darpariaeth amgen i ddiwallu anghenion lleol a bylchau mewn gwasanaethau ac yn enwedig lle y maent yn helpu cymunedau i symud o weithgaredd gwirfoddol i weithgaredd busnes;
- cymorth i fentrau a gaiff eu harwain gan y gymuned sy'n adeiladu cymunedau cynaliadwy, ffyniannus drwy fynd i'r afael â materion amgylcheddol a gwneud lleoedd yn fwy deniadol i fyw a gweithio ynddynt. Caiff gweithgareddau nad ydynt yn rhan o gylch gwaith Blaenoriaeth 4 eu hariannu, er enghraifft, creu mannau cyhoeddus glanach, mwy diogel a gwyrddach;
- datblygu sefydliadol a gwasanaethau allgymorth, nad ydynt ar gael drwy gymorth mentrau busnes a chymdeithasol prif ffrwd¹⁷² ym Mlaenoriaeth 2 i annog mentrau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol sy'n cael eu datblygu i ddechrau mynd i'r afael â materion cynaliadwyedd a sut y gallant sicrhau canlyniad economaidd¹⁷³. Gallai hyn, er enghraifft, ymestyn i roi cymorth i sefydliadau dendro am wasanaethau neu fanteisio ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth;
- mentrau cyllid, lle y bo'n briodol ac o fewn fframwaith Cymorth Gwladwriaethol, fel micro gredyd a mentrau i annog buddsoddiad mewn mentrau cymdeithasol a chymunedol gyda phosibilrwydd o dwf cynaliadwy i symud sefydliadau oddi wrth ddibyniaeth ar grantiau a thuag at weithgaredd masnachu a chynaliadwyedd; a
- gweithgareddau sy'n hyrwyddo bywyd diwylliannol bywiog, h.y. cynnwys cymunedau a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol drwy weithgareddau diwylliannol a threftadaeth, er enghraifft gwyliau a digwyddiadau cymunedol, canolfannau diwylliannol cymunedol, gweithgarwch aml-gyfrwng, a phrosiectau celfyddydau cymunedol.

4.136 Disgwyliwn i'r thema hon ddefnyddio tua 28% o'r adnoddau ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Gwerth Ychwanegol

4.137 Mae'r Flaenoriaeth hon yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â chanlyniadau ffisegol a diwylliannol dirywiad diwydiannau traddodiadol sydd i'w gweld yn bennaf yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y rhanbarth. Rhagwelir y caiff y Flaenoriaeth hon yr effaith fwyaf yn y cymunedau hynny sy'n dechrau o sylfaen isel iawn, nad oes ganddynt y gallu na'r adnoddau ar hyn o bryd i fanteisio ar y cyfleoedd a gaiff eu hysgogi gan yr ymyriadau a ategir gan y Blaenoriaethau eraill. Yr hyn sy'n gwneud y rhan hon o'r Rhaglen yn werthfawr yw y bydd yn

¹⁷²Diffiniad yn y Strategaeth Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cymru, <http://new.wales.gov.uk/about/strategy/strategypublications/strategypubs/935789/?lang=cy> ystyr menter gymdeithasol yw busnes sydd ag amcanion cymdeithasol yn bennaf y caiff ei wagedau eu hailfuddsoddi'n bennaf at y diben hwnnw yn y busnes neu yn y gymuned, yn hytrach na chael ei lywio gan yr angen i sicrhau'r elw mwyaf i randdeiliaid a pherchenogion.

¹⁷³ Bydd y cymorth hwn yn cydbwethu â'r cymorth a ddarperir ar gyfer mentrau cymdeithasol ym Mlaenoriaeth 2 sy'n golygu, wrth i fusnes cymunedol neu fenter gymdeithasol aeddfedu, y bydd yn symud i'r cymorth busnes neu'r gwasanaethau mwy prif ffrwd.

cefnogi ac yn annog y gwaith o ddatblygu atebion mwy cyfannol yn debyg i'r rhai a ddatblygir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o dan raglenni cenedlaethol fel Menter Blaenau'r Cymoedd.

4.138 Bydd y broses o gydgyssylltu gwariant a fydd yn deillio o'r Flaenoriaeth hon yn golygu y bydd ei heffaith gyffredinol yn llawer mwy gwerthfawr na chyfanswm ei chydannau. Gwaith partneriaeth a ffocws lleol fydd nodweddion y Flaenoriaeth hon a rhagwelir y bydd gan y Cronfeydd Strwythurol ran arbennig i'w chwarae o ran rhoi arian ysgogi i fentrau a gweithgareddau a gaiff eu symblu a'u rheoli gan y partneriaethau Cynllun Gofodol Lleol newydd.

Cyfleuster Hyblygrwydd

4.139 Mae Erthygl 34 (2) o Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 1083/2006 yn darparu i'r ERDF ariannu ymyriadau sydd o fewn cwmplas yr ESF (ac i'r gwrthwyneb), cyhyd â bod y cyfryw ymyriadau yn angenrheidiol er mwyn sicrhau gweithrediad llwyddiannus a bod iddynt gyswllt uniongyrchol â'r gweithrediad hwnnw. Er mwyn hyrwyddo dull cydlynol o weithredu camau o dan y Flaenoriaeth hon, gellir defnyddio uchafswm o 10% o gyfraniad yr UE i'r Flaenoriaeth i ariannu buddsoddiadau cydategol o'r fath. Caiff y cyfiawnhad dros ddefnyddio'r hyblygrwydd hwn ei roi ar lefel gweithrediad/prosiect a chaiff yr adnoddau a ddefnyddir yn y modd hwn eu nodi ar wahân mewn ceisiadau prosiect a chaiff y gwariant ei ddatgan.

4.140 Ymhlith yr enghreifftiau lle y gall traws-ariannu o dan y Flaenoriaeth hon hyrwyddo dull gweithredu cydlynol mae:

- hyfforddiant ar gyfer sefydliadau cymunedol ac unigolion i'w galluogi i gymryd rhan yn effeithiol mewn gweithgareddau a ariennir gan yr ERDF i wella seilwaith ffisegol trefi a phentrefi difreintiedig;
- hyfforddiant a datblygu neu weithgareddau mentora ar gyfer sefydliadau cymunedol i'w galluogi i wneud cynnydd tuag at weithgareddau a phrosesau masnachu mwy cynaliadwy; a
- gweithgareddau hyfforddi a chyflogi sydd â chyswllt uniongyrchol â llwyddiant gweithrediadau a phrosiectau adfywio ac sy'n rhan ganolog ohonynt.

4.141 Defnyddir dangosyddion ESF perthnasol, er enghraifft:

Tabl 20. Dangosyddion ESF ar gyfer Blaenoriaeth 5

Cynnyrch	⇒ Canlyniad	⇒ Effaith
Cyfranogwyr	Cyfranogwyr yn ennill cymwysterau Cyfranogwyr yn ymgymryd â chyflogaeth Cyfranogwyr yn ymgymryd â dysgu pellach	Cyfranogwyr mewn cyflogaeth ar ôl 12 mis
Nifer y lleoedd gofal plant a lenwir		

Cydweithrediad Trawsgenedlaethol a Rhynggranbarthol

4.142 Un o brif ganlyniadau'r ymyriadau a gynigir o dan y Flaenoriaeth hon yw datblygu dulliau integredig o gyflawni gwaith adfywio hirdymor yng nghymunedau mwyaf difreintiedig y Rhanbarth a chefnogi'r gwaith o ddatblygu economïau lleol ffyniannus, yn cynnwys ei gwneud yn haws i gael gafael ar swyddi, gwasanaethau, marchnadoedd a chyfleusterau. O fewn y cyd-destun hwn ceir cyfle i ymgymryd â phrosiectau cydweithredol a meithrin dealltwriaeth o arfer gorau o dan y rhaglenni trawsgenedlaethol a rhynggranbarthol drwy ddefnyddio arian ERDF fel y bo'n briodol.

Grantiau Cyffredinol

4.143 Nid ydym yn rhagweld defnyddio Grantiau Cyffredinol fel y'u diffinnir gan Erthygl 42 o Reoliad (CE) 1083/2006 a wnaed ar 11 Gorffennaf 2006.

Blaenoriaeth 6: Cymorth Technegol

Amcan

4.144 Sicrhau y caiff y Rhaglen ei rheoli mewn modd effeithlon ac effeithiol.

Rhesymeg

4.145 Mae Cymorth Technegol yn adnodd hanfodol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Rhaglen yn effeithiol. Bydd angen systemau gweinyddu cadarn sy'n adeiladu ar y rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer y Rhaglen flaenorol er mwyn sicrhau bod y Rhaglen newydd yn gweithredu'n ddidrafferth ac yn effeithiol. Defnyddir Cymorth Technegol ochr yn ochr ag adnoddau Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid a bydd yn canolbwyntio ar ategu rhannau allweddol o'r broses weithredu.

4.146 Defnyddir Cymorth Technegol i ategu'r gwaith o ddatblygu gallu ar lefel Ardal y Cynllun Gofodol i ymgysylltu ag amrywiaeth o bartneriaid lleol a rhanddeiliaid er mwyn datblygu ac ategu'r broses o weithredu Fframweithiau Strategol perthnasol.

4.147 Mae Erthygl 46 o Reoliad y Cyngor (CE) Rhif 1038/2006 a wnaed ar 11 Gorffennaf 2006 yn caniatáu'r defnydd o gymorth technegol i ariannu gweithgareddau paratoi, rheoli, monitro, gwerthuso, gwybodaeth a rheolaeth rhaglenni gweithredol ynghyd â gweithgareddau i atgyfnerthu'r gallu gweinyddol i roi'r cronfeydd ar waith.

4.148 Gan adeiladu ar brofiad yn 2000-2006 mae'r Awdurdod Rheoli yn bwriadu defnyddio Cymorth Technegol i wella'r broses o weithredu'r rhaglen (atgyfnerthu dulliau llywodraethu a chydymffurfio) ac i wella ei heffeithiolrwydd o ran creu swyddi a thwf (datblygu ein gallu i ddarparu'r rhaglen er mwyn cynyddu ei heffaith). Er mwyn gweithredu ar hyn, mae'r Awdurdod Rheoli yn bwriadu defnyddio Cymorth Technegol i gefnogi ystod o weithgareddau cymwys a gyflawnir gan sefydliadau partner a'r Awdurdod Rheoli ei hun, fel y nodir yn Erthygl 46.

Rheoli

4.149 Bydd y gweithgareddau dangosol canlynol yn helpu i *wella gweithrediad strategol ac atgyfnerthu'r gwaith o gefnogi a datblygu'r rhaglen:*

Gweithgareddau Dangosol

- gwella a hwyluso prosiectau a dulliau cydweithredol a gwella gallu, yn cynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Fframweithiau Strategol;
- atgyfnerthu dulliau cydgysylltu a chysylltu â phartneriaethau a hyrwyddo gwaith partneriaeth;

- rhoi cyngor i brosiectau sy'n ymgorffori gweithgarwch sy'n ymwneud ag arloesedd, cydweithredu trawsgenedlaethol, rhannu arfer da a phrif ffrydio a'u cefnogi;
- gwella arbenigedd allanol a chyngor technegol;
- datblygu a gwella systemau TG pwrpasol;
- rhoi cyngor i brosiectau ar integreiddio themâu trawsbynciol a'u cefnogi;
- hyfforddiant ar gyfer rheolwyr prosiect a chymorth ar gyfer rhwydweithiau.

Monitro

4.150 Sefydli'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni unigol i oruchwylio effeithiolrwydd ac ansawdd y pedair rhaglen yng Nghymru. Caiff ei waith ei wella gan y gwelliant mewn gwybodaeth monitro a rheoli a fydd yn deillio o'r buddsoddiad mewn TG a nodir uchod. Defnyddir Cymorth Technegol i ategu dyletswyddau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni, fel y diffinnir yn Erthyglau 65 a 66, a chaiff ei is-bwyllgorau a'r costau eu rhannu rhwng y Pedair Rhaglen Gydgyfeirio a Chystadleurwydd Rhanbarthol a Chyflogaeth ar sail gymesur. Caiff arbenigwyr a benodir i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar sail teilyngdod eu talu yn unol ag arfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan dalu o ffynonellau ariannu domestig; ni ddefnyddir Cymorth Technegol i dalu aelodau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

Gweithgareddau Dangosol

- gwariant ar waith monitro a chyfarfodydd is-bwyllgorau, yn cynnwys treuliau;
- atgyfnerthu'n sylweddol agweddau ar swyddogaeth Rheoli Rhaglenni WEFO. Bydd hyn yn cynnwys nifer o swyddogaethau technegol ac arbenigol yn ogystal â darparu gwell dull o reoli'r rhaglen yn fewnol, gwell cymorth rheoli i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a gwell dull o gyflwyno adroddiadau i'r Comisiwn Ewropeaidd.

Ymchwil a Gwerthuso

4.151 Yn ystod cyfnod rhaglennu 2000-2006, mae prosesau ymchwil a gwerthuso wedi chwarae rhan ganolog o ran helpu WEFO i reoli rhaglenni yn effeithiol. Sefydlodd WEFO dîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso (RME) arbenigol i gynllunio, cyflawni neu reoli gwerthusiadau ar lefel rhaglenni.

4.152 Defnyddir Cymorth Technegol i fodloni'r gofynion gwerthuso fel y'u nodir yn Erthyglau 47 a 48 o Reoliad y Cyngor (CE) 1083/2006.

Gweithgareddau Dangosol

- gwaith ymchwil a gwerthuso ar lefel rhaglenni, yn cynnwys ymchwilio i'r Themâu Trawsbynciol;

- gwaith ymchwil a gwerthuso mewn perthynas â Fframweithiau Strategol;
- rhoi cyngor a chanllawiau ar werthuso i sefydliadau noddi;
- lledaenu gwybodaeth am ymchwil a gwerthuso a digwyddiadau gweithdy;
- rheoli ymarferion ymchwil a gwerthuso, er enghraifft drwy'r Grŵp Cyngori ar Werthusiadau.

4.153 Ceir manylion pellach am y gweithgareddau hyn a gynlluniwyd ym Mhennod 6.

Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd

4.154 Mae llwyddiant y rhaglen yn dibynnu i raddau helaeth ar ddealltwriaeth eang ymhlith y noddwyr a'r partneriaid o'i chynnwys, rheoliadau sy'n llywodraethu, a nodau ac amcanion. Rhaid cymryd camau gweithredu i sicrhau bod darpar noddwyr a gweinyddwyr y rhaglen yn ymwybodol o'r modd y mae'r rhaglen yn gweithio a'r cyfleoedd ariannu sydd ar gael. Mae hefyd yn hanfodol y rhoddir cyhoeddusrwydd eang i fanteision a chyflawniadau'r rhaglen er mwyn amlygu'r gwerth a ychwanegir gan y gwaith partneriaeth rhwng yr UE a Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid.

Gweithgareddau Dangosol

- lledaenu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a chyfathrebu yn cynnwys canllawiau i bartneriaid a noddir; seminarau/gweithdai;
- datblygu a chynnal a chadw gwefan WEFO;
- mentrau amrywiaeth a hygyrchedd;
- gweithredu Llinell Gymorth.

Gweithgareddau Rheoli ac Atgyfnerthu Gallu Gweinyddol

4.155 Mae'r Awdurdod Rheoli wedi datblygu a gwella ei systemau rheoli yn ystod cyfnod rhaglenni 2000-06. Mae'n dymuno adeiladu ar hyn er mwyn bod yn enghraifft dda o ran cronfeydd strwythurol ar draws ei ystod o swyddogaethau.

Gweithgareddau Dangosol:

- trefniadau archwilio gwell i sicrhau bod y trefniadau hyn, yn cynnwys y rhai a ddisgrifir o ran Erthygl 17 o'r Rheoliadau Gweithredu¹⁷⁴, yn gweithio'n effeithiol, gan wella ansawdd ac amseroldeb;

¹⁷⁴ Rheoliad y Comisiwn (CE) rhif 1828/2006 8 Rhagfyr 2006 sy'n nodi'r rheolau ar gyfer gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol.

- gwella gwaith monitro a chyflwyno adroddiadau o ran 'afreoleidd-dra';
- sefydlu uned gyfarwyddyd o fewn yr Awdurdod Rheoli gan ddatblygu a rhoi cyngor parhaus a chyson i noddwyr a phartneriaid.

Buddiolwyr

4.156 Bydd y rhain yn cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol.

PENNOD 5: Themâu Trawsbynciol

Cyflwyniad

5.1 Yn unol ag Erthyglau 16 a 17 o reoliad (CE) Rhif 1083/2006 ac Erthygl 6 o reoliad (CE) Rhif 1081/2006, caiff themâu trawsbynciol cyfle cyfartal a chynaliadwyedd amgylcheddol eu cynnwys yn rhaglen Gydgyfeirio'r ERDF. Bydd yn adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed wrth integreiddio'r themâu trawsbynciol hyn â'r broses o gyflwyno rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd ar gyfer 2000 -2006.

5.2 Mae'r bennod hon yn nodi'r rhesymeg, yn amlinellu'r cyd-destun polisi cyfredol ac yn diffinio'r strategaeth weithredol ar gyfer y ddwy thema. Caiff y ffyrdd y bydd y themâu hyn yn cael eu gweithredu, eu monitro a'u gwerthuso eu cwmpasu ym Mhennod 6, ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd o raglen gyfredol 2000-2006 yn Atodiad M.

CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL

Rhesymeg

5.3 Bydd cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol fel thema drawsbynciol yn helpu i sicrhau na fydd datblygu economaidd yn effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd. Bydd hefyd yn hyrwyddo potensial yr amgylchedd fel sbardun economaidd. Nodir hyn yn y Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi, yn enwedig mewn perthynas â'r defnydd cynaliadwy o adnoddau.

5.4 Mae amgylchedd iach yn hanfodol ar gyfer ansawdd bywyd pobl Cymru ac ar gyfer economi iach. Bydd amgylchedd deniadol o ansawdd yn chwarae rhan allweddol o ran denu pobl i fyw a gweithio yng Nghymru a'u cadw. Mae'n sail i ddiwydiant twristaidd Cymru sydd â £2.3 miliwn o drosiant a'r 117,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru sy'n gysylltiedig â defnyddio, rheoli a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol¹⁷⁵. Effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol y gyflogaeth hon a swyddi deilliedig eraill yw creu nwyddau a gwasanaethau gwerth £8.8 biliwn i Gymru bob blwyddyn ac maent yn cynhyrchu 9% o CMC Cymru¹⁷⁶. Mae'r amgylchedd yn gwbl gysylltiedig ag iechyd economaidd Cymru.

5.5 Caiff y materion amgylcheddol allweddol sy'n effeithio ar y rhanbarth eu nodi yn *Amgylchedd Iach a Gweithredol i Gymru: Cyflwr Amgylchedd Cymru 2003*¹⁷⁷, sef:

- Newid yn yr hinsawdd a achosir yn bennaf gan y broses o losgi tanwydd ffosil a fydd yn codi lefel y môr ac yn achosi cynnydd mewn digwyddiadau tywydd eithafol;

¹⁷⁵ Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd – Yr Effaith Economaidd Cymru 2001:

<http://www.rspb.org.uk/ourwork/policy/economicdevelopment/greeneconomy/regionalreports/wales.asp>

¹⁷⁶ Ibid.

¹⁷⁷ Amgylchedd Iach a Gweithredol i Gymru: Cyflwr Amgylchedd Cymru 2003

<http://www.environment-agency.gov.uk/regions/wales/426317/573672/?version=1&lang=w>

- Seilwaith trafndiaeth cymharol wael gyda dibyniaeth gyfatebol ar gerbydau preifat;
- Dibyniaeth fawr ar danwydd ffosil fel ffynhonnell ynni a lefel isel o ynni adnewyddadwy;
- Cyfraddau isel o ran ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff a seilwaith rheoli gwastraff annigonol;
- Diffygion posibl mewn rhai parthau cyflenwi dŵr;
- Llygredd gwasgaredig o amaethyddiaeth, dyddodiad asid a ffynonellau eraill;
- Perygl i bysgodfeydd yn sgîl llygredd ac arferion pysgota anghynaliadwy;
- Tirwedd o safon uchel er bod diwydiant hanesyddol wedi cael effaith andwyol ar rai ardaloedd;
- Ardaloedd helaeth wedi'u dynodi ar gyfer cadwraeth natur er bod bioamrywiaeth a chynefinoedd yn wynebu perygl o ganlyniad i amrywiaeth o achosion; a
- Amgylchedd hanesyddol cyfoethog.

5.6 Ceir darlun llawnach yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (Atodiad F).

Cyd-destun Polisi

5.7 Mae *Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru* yn nodi sut y bydd yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy ei holl swyddogaethau. Mae camau gweithredu allweddol wedi'u nodi mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd, helpu busnesau i ddatblygu cyfleoedd newydd yn ymwneud â datblygu cynaliadwy, cynnwys datblygu cynaliadwy mewn addysg a dinasyddiaeth, gweithio gydag eraill i godi ymwybyddiaeth o'r materion, a helpu strwythurau a phrosesau sefydliadol i sicrhau datblygu cynaliadwy.

5.8 Mae'r *Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru* yn elfen allweddol wrth gyflawni dyletswydd y Cynulliad o ran datblygu cynaliadwy. Mae'n nodi sut y caiff yr heriau penodol o ran elfen amgylcheddol datblygu cynaliadwy (elfennau cymdeithasol ac economaidd yw'r elfennau eraill) eu hateb. Gan adeiladu ar Gynllun Gofodol Cymru, mae'r Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru yn ystyried y pwysau penodol sy'n wynebu rhannau gwahanol o Gymru. Mae'n nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf a chaiff ei hategu gan Gynllun Gweithredu sydd â'r nod o wireddu'r weledigaeth a chyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn y strategaeth. Y pum thema amgylcheddol allweddol a nodir yn y Cynllun Gweithredu yw ymdrin â newid yn yr hinsawdd, defnydd cynaliadwy o adnoddau, bioamrywiaeth unigryw, tirweddau a morweddau, yr amgylchedd lleol a pheryglon amgylcheddol. Mae'r strategaeth yn cydnabod y rhan y mae'r amgylchedd yng Nghymru yn ei chwarae i wella amodau economaidd a

chymdeithasol, gan gyfrannu at agenda Lisboa. Bydd gan bolisïau a rhaglenni eraill megis y rhaglen Gydgyfeirio ran i'w chwarae i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y *Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru*.

5.9 Rhan allweddol o *Cymru: Economi yn Ffynnu* yw sicrhau bod rhaglenni a pholisïau yn ategu datblygu cynaliadwy. Pwysleisir y defnydd mwy effeithlon o adnoddau ynghyd ag annog arloesi a datblygu technolegol sy'n hanfodol wrth lywio dyfodol cynaliadwy. Mae'r defnydd mwy effeithlon o adnoddau, lleihau risgiau amgylcheddol a hyrwyddo caffael cynaliadwy yn elfennau allweddol o Creu'r Cysylltiadau, sydd â'r nod o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gwell yng Nghymru.

5.10 Er bod y mwyafrif o boblogaeth y rhanbarth yn byw yn y cymoedd diwydiannol, mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn wledig gan fwyaf a gwneir y defnydd mwyaf o'r tir at ddiben amaethyddol. Bydd gan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru, y cynllun olynol, ran allweddol i'w chwarae i ymdrin â gweithgareddau rheoli tir sy'n gyson â hyrwyddo ffermio a choedwigaeth gynaliadwy. Bydd hefyd yn ategu mesurau amgylcheddol yn y gymuned fel rhan o'r agenda flaenoriaethau a nodwyd gan Grwpiau Gweithredu Lleol. Ceir cydweithredu rhwng adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sicrhau bod y ddwy raglen yn gydategol gan gynnwys eu strategaethau amgylcheddol. Bydd angen mabwysiadu ymagwedd gydweithredol er mwyn hyrwyddo defnydd cynaliadwy o'r tir a bodloni gofynion cyfarwydddebau amgylcheddol megis y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.

5.11 Mae Chweched raglen Gweithredu Amgylcheddol 2002-2012 yr UE yn nodi'r amcanion a'r blaenoriaethau amgylcheddol sy'n rhan annatod o strategaeth datblygu cynaliadwy'r Gymuned Ewropeaidd. Diffinnir amcanion yn y rhaglen ar gyfer mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, diogelu bioamrywiaeth, hyrwyddo'r amgylchedd ac iechyd, y defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol a rheoli gwastraff. Mae rhaglen weithredu'r UE yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a chyfarwydddebau'r Gymuned sydd â'r nod o wella'r amgylchedd.

5.12 Ar y cyd â llawer o Aelod-wladwriaethau eraill, mae Cymru yn wynebu heriau mawr i fodloni gofynion rhai cyfarwydddebau amgylcheddol Ewropeaidd. Bydd y Cyfarwydddebau yn ymwneud â lleihau tirlenwi gwastraff yn gofyn am fuddsoddi sylweddol yn y seilwaith rheoli gwastraff a gwelliannau iddo. Bydd y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr yn cyflwyno heriau newydd ar gyfer rheoli llygredd mewn dalgylchoedd er mwyn cyrraedd safonau ansawdd ecolegol. Mae'n rhaid i Gymru chwarae ei rhan i gyfrannu at dargedau'r DU ar gyfer bodloni gofynion y Gyfarwydddeb a hefyd i leihau gollyngiadau CO₂ yn ymwneud â chytundeb Kyoto.

Amcanion Cynaliadwyedd Amgylcheddol

5.13 Mae cyfle amlwg i'r Rhaglenni Cydgyfeirio wneud cyfraniad mawr i'r canlyniadau a nodwyd yn strategaethau amgylcheddol Cymru ac Ewrop. Gellir cyflawni hyn o fewn fframwaith cyffredinol strategaethau Lisboa a Göteborg oherwydd y cyswllt clir rhwng amgylchedd iach, lles cymdeithasol ac economi sy'n ffynnu.

5.14 Nodir nod ac amcanion cyffredinol y Rhaglenni Cydgyfeirio o ran cynaliadwyedd amgylcheddol isod. Mae'r rhain yn unol â'r themâu a'r canlyniadau amgylcheddol a nodwyd yn y *Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru*. Maent hefyd yn gyson â:

- gwersi a ddysgwyd o raglenni Cronfeydd Strwythurol presennol 2000-2006 (gweler Atodiad M);
- ymyriadau a gaiff eu hategu gan y rhaglen;
- yr amcanion a ddiffiniwyd yn 6ed raglen Gweithredu Amgylcheddol y Gymuned Ewropeaidd.

5.15 Y nod cyffredinol yw gwella'r asedau amgylcheddol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, tra'n hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd er budd cymdeithasol ac economaidd. Cyflawnir hyn drwy'r chwe amcan canlynol:

(1) *Lleihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr er mwyn helpu i gyfyngu ar raddau newid yn yr hinsawdd a helpu i addasu i'w effeithiau*

5.16 Caiff gollyngiadau CO₂ eu lleihau drwy gynyddu effeithlonrwydd y defnydd o ynni a hyrwyddo arbed ynni.

(2) *Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy*

5.17 Caiff camau gweithredu i helpu i drosglwyddo rhwng dulliau trafnidiaeth gwahanol a lleihau'r defnydd o'r car preifat eu hannog gan leihau gollyngiadau a gwella ansawdd yr aer.

(3) *Hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau*

5.18 Camau gweithredu i annog effeithlonrwydd yn y defnydd o adnoddau fel ynni a dŵr, a gwelliannau yn y broses o reoli gwastraff.

(4) *Hyrwyddo gwaith rheoli cynaliadwy o'r tir, y môr a dyfroedd mewndirol*

5.19 Caiff lefel uchel o ddiogelwch ei ddarparu ar gyfer ardaloedd cadwraeth dynodedig gydag ymrwymiad ffurfiol na fydd unrhyw safleoedd a ddiogelir o dan Natura 2000 yn cael eu niweidio gan brosiectau a ariannwyd o dan y Rhaglenni Cydgyfeirio. Caiff gwaith rheoli cynaliadwy o'r tir, y môr a dyfroedd mewndirol, yn cynnwys adnoddau cynefinoedd a bywyd gwylt, ei hyrwyddo gan sicrhau cydbwysedd priodol rhwng ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

(5) *Gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig lleol a chyfleoedd i gael mynediad i fannau gwyrdd*

5.20 Caiff safonau uchel o berfformiad amgylcheddol eu hyrwyddo ar gyfer adeiladau newydd ac adeiladau wedi'u hadnewyddu. Caiff gwaith datblygu ac adeiladu ar safleoedd maes glas sy'n orlifoedd ei rwystro. Caiff y ddarpariaeth o fynediad i fannau gwyrdd ei hannog.

- (6) *Lleihau'r risg o lygredd a pheryglon amgylcheddol eraill gan ddiogelu iechyd cymunedau a'r amgylchedd.*

5.21 Caiff y gwaith o adfer safleoedd tir a halogwyd ac atal llygredd rhag deillio ohonynt ei hyrwyddo. Caiff systemau Draenio Trefol Cynaliadwy eu hyrwyddo ar safleoedd a ddatblygir ar gyfer busnesau er mwyn lleihau'r risg o lygredd gwasgaredig.

Strategaeth Weithredol

5.22 Bydd yn rhaid i bob prosiect a gaiff ei gefnogi gan y rhaglen gyfrannu at yr amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol perthnasol. Bydd y targedau cynaliadwyedd amgylcheddol sydd wedi cael eu hintegreiddio â'r Blaenoriaethau (Pennod 4) yn ffactor cadarn i ysgogi prosiectau i gyfrannu at yr amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol. Ymhlith y gweithgareddau penodol i ategu'r broses o weithredu'r thema cynaliadwyedd amgylcheddol bydd:

- cyngor arbenigol a fydd ar gael ar gam cynnar i sicrhau bod cyfleoedd i gyfrannu at yr amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol yn cael eu hintegreiddio â chynlluniau prosiect;
- canllawiau a fydd ar gael i ddangos i noddwyr prosiectau sut y gallant integreiddio gweithgareddau priodol â chynlluniau prosiect. Caiff yr amrywiaeth o weithgareddau y gellir eu hintegreiddio er mwyn gwrthsefyll effeithiau negyddol, diogelu'r amgylchedd a chyflawni budd amgylcheddol eu crynhoi mewn matrices (Atodiad G). Mae pwyslais cadarn ar effeithlonrwydd adnoddau o ran ynni a deunyddiau a datblygu a defnyddio technoleg amgylcheddol a fydd yn ategu cynnydd tuag at economi carbon isel;
- rhoddir cymorth i noddwyr prosiectau gan gynghorwyr cynaliadwyedd amgylcheddol o fewn WEFO a bydd yr awdurdodau amgylcheddol cymwys (Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru) yn cymryd rhan mewn partneriaethau;
- monitro dangosyddion a thargedau cynaliadwyedd amgylcheddol a darparu adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar gynnydd o ran cyflawni'r amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol.

Cyfle Cyfartal I Ddynion A Merched A Chydraddoldeb Rhwng Y Rhywiau

Rhesymeg

5.23 Mae egwyddorion sicrhau cyfle cyfartal i bob dinesydd a sicrhau na chaiff unrhyw grŵp ei allgáu'n gymdeithasol yn ganolog i Bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU, yn bennaf mewn perthynas â'r farchnad lafur. Mae integreiddio cyfle cyfartal â'r Cronfeydd Strwythurol yn bwysig nid yn unig am resymau cyfreithiol, ond hefyd oherwydd bod goresgyn anghydraddoldebau

rhwng dynion a merched yn cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol rhaglenni'r Gronfa Strwythurol. Gwneir ymrwymiad yn Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol 2006 i ymdrin â chyfle cyfartal fel un o'r ddwy thema drawsbynciol yn rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yn y DU.

5.24 Y nod yw sicrhau cyfle cyfartal i bawb yng nghyd-destun y cyfleoedd a gynigir gan y rhaglen Gydgyfeirio ac atal unrhyw achos o wahaniaethu ar sail rhyw, anabledd, tarddiad ethnig, crefydd neu gred, oedran, cyfeiriadedd rhywiol ac o ran natur ddwyieithog llawer o gymunedau'r rhanbarth.

5.25 Bydd sicrhau cyfle cyfartal i bawb yn cyfrannu at amcanion y rhaglen drwy:

- leihau anghyfiawnder ac felly hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol gydag ystod eang o fanteision yn cynnwys gwell amgylchedd ar gyfer datblygu economaidd;
- ceisio sicrhau bod gan bawb sy'n byw yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd gyfle i ddefnyddio eu sgiliau a'u galluoedd i'r eithaf;
- codi lefelau CMC y pen ac ymdrin â'r anghydbwysedd o ran cyflog dynion a merched.

5.26 Mae'r rhain yn heriau allweddol, ac mae'r dadansoddiadau a geir ym Mhenod 2 ac Atodiad A yn darparu tystiolaeth ategol o'r ffaith bod merched, pobl anabl, pobl hŷn a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig o dan anfantais gymharol ac mae hyn i'w weld yn glir o ran anweithgaredd economaidd.

Cyd-destun Polisi

5.27 Yn unol â'r egwyddorion cydraddoldeb yng Nghytuniad Amsterdam, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyletswydd i hyrwyddo cyfle cyfartal, fel y nodwyd o dan Adran 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998:

'Bydd y Cynulliad yn gwneud trefniadau priodol gyda'r bwriad o sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni gyda sylw dyladwy i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb.'

5.28 Atgyfnerthwyd yr ymrwymiad i sicrhau cyfle cyfartal yn nifer o ddogfennau strategol allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd, yn cynnwys *Cymru: Economi yn Ffynnu*. Un o'i phedair blaenoriaeth allweddol yw cynyddu cyflogaeth drwy gefnogi'r gwaith o greu swyddi a helpu unigolion i chwalu rhwystrau i gymryd rhan yn y farchnad lafur a byd gwaith.

5.29 *Mae Cynllun Gofodol Cymru* yn hyrwyddo ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i deilwra ei pholisïau i ddiwallu anghenion gwahanol rannau gwahanol o Gymru, lle y bydd cydraddoldeb yn rhan annatod o sicrhau dyfodol cynaliadwy.

5.30 Mae *Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy 2004-2007*, *Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth 2005*, *Creu'r Cysylltiadau a strategaethau fel*

Ymestyn Hawliau a Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cynulliad Cymru oll yn amlygu pwysigrwydd cydraddoldeb yn ei dull o ddarparu polisïau.

5.31 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i brif ffrydio'r iaith Gymraeg. Roedd yr ail Adroddiad Blyneddol ar *Iaith Pawb* (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru ddwyieithog) a'r Cynllun Iaith Gymraeg¹⁷⁸ yn amlygu'r cynnydd da a wnaed yn ystod 2004-2005, ond roedd yn cydnabod bod angen gwneud mwy i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio ym mhob prosiect a menter newydd.

Fframwaith Deddfwriaethol Presennol ac ar gyfer y Dyfodol

5.32 Mae amrywiaeth o ddeddfwriaeth¹⁷⁹ sy'n sail i'r agenda cydraddoldeb. Mae sawl darn newydd o ddeddfwriaeth yn cael eu datblygu ar hyn o bryd hefyd. Bydd y Mesur Cydraddoldeb a deddfwriaeth gysylltiedig yn sicrhau bod pob agwedd ar gydraddoldeb yn gyfartal, gan ei gwneud yn haws prif ffrydio cydraddoldeb yn gyffredinol ym musnes y Llywodraeth. Mae'r Mesur yn nodi cynlluniau i sefydlu corff newydd ym mis Hydref 2007, o'r enw'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (CEHR). Bydd gan y corff hwn bwerau eang i fynd i'r adael â gwahaniaethu a rhagfarn, a hyrwyddo cydraddoldeb.

5.33 Bydd y CEHR yn uno gwaith y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, y Comisiwn Hawliau Anabledd a'r Comisiwn Cyfle Cyfartal o dan un corff. Bwriedir sefydlu'r CEHR ym mis Hydref 2007. Bydd gan y CEHR gyfrifoldeb hefyd am y meysydd cydraddoldeb newydd o ran oedran, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol, a bydd yn gweithio i hyrwyddo Hawliau Dynol.

5.34 Mae'r Mesur Cydraddoldeb hefyd yn cynnwys pwerau newydd i wahardd gwahaniaethu ar sail crefydd a chred mewn perthynas â nwyddau a gwasanaethau ac mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng dynion a merched a gwahardd gwahaniaethu ar sail rhyw wrth arfer swyddogaethau cyhoeddus. Bydd y Mesur hefyd yn hwyluso'r gwaith o gyflwyno rheolau i wahardd gwahaniaethu mewn perthynas â nwyddau a gwasanaethau i bobl lesbiaid, hoyw a deurywiol.

¹⁷⁸ Y Cynllun Iaith Gymraeg:

http://new.wales.gov.uk/topics/welsh_language/WLS-CIG/1249162/?lang=cy

¹⁷⁹ Deddfau Cydraddoldeb - Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976/Deddf Cysylltiadau Hiliol (Deddf Ddiwygio) 2000 <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2000/20000034.htm>
Deddf yr Iaith Gymraeg 1993:

http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1993/Ukpga_19930038_en_1.htm#tcon

Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw (Newid Rhyw) 1999:

<http://www.opsi.gov.uk/si/si1999/19991102.htm>

Deddf Cydnabod Rhyw 2004: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2004/ukpga_20040007_en_1

Deddf Partneriaeth Sifil 2005: <http://www.opsi.gov.uk/si/si2005/20052114.htm>

Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2003:

http://www.opsi.gov.uk/si/si2003/uksi_20031661_en.pdf

Deddf Cyflog Cyfartal 1970: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1970/PDF/ukpga_19700041_en.pdf

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1985: <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2005/20050013.htm>

Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd a Chred) 2003:

http://www.opsi.gov.uk/si/si2003/uksi_20032828_en.pdf

Deddf Hawliau Dynol: <http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1998/19980042.htm>

5.35 Mae'r Adolygiad o Gydraddoldebau ac Adolygiad o'r Gyfraith Gwahaniaethu ar waith ar hyn o bryd, gyda'r nod o hyrwyddo Mesur Cydraddoldeb Unigol cyn gynted â phosibl.

Amcanion Cyfle Cyfartal

5.36 Nodir y pedwar amcan cyfle cyfartal trawsbynciol ar gyfer y rhaglen Gydgyfeirio isod. Datblygwyd y rhain gan ddefnyddio tystiolaeth o'r Dadansoddiad ym Mhennod 2 ac Atodiad A. Ceir crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd o weithredu'r themâu trawsbynciol yn Rhaglenni 2000-2006 yn Atodiad M. Cafwyd dadansoddiad hefyd o effaith bosibl y gweithgareddau a gefnogir ar amcanion cyfle cyfartal y Rhaglen. Nodir hyn ar ffurf Matrics ac mae ar gael yn Atodiad Ff.

5.37 Mae cyfle amlwg i'r rhaglen Gydgyfeirio wneud cyfraniad sylweddol i wella cyfle cyfartal. Mae'r fframwaith a nodwyd yn Strategaethau Lisboa a Göteborg ac yng Nghytuniad Amsterdam¹⁸⁰ yn cysylltu economi sy'n ffynnu â lles cymdeithasol, cydraddoldeb rhwng y rhywiau, darpariaeth ar gyfer pobl anabl a chwalu rhwystrau i gydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a datblygu ymagweddau integredig i helpu pobl sy'n wynebu rhwystrau i gyfranogi.

5.38 Ymhlith yr Amcanion Cyfle Cyfartal ar gyfer y rhaglen mae:

(1) *Cynyddu nifer yr unigolion sy'n wynebu rhwystrau lluosog i gael gafael ar gyflogaeth a hunangyflogaeth*

5.39 Mae'n hanfodol creu'r cyfleoedd a'r gefnogaeth gywir i unigolion er mwyn iddynt chwarae rhan weithgar yn y farchnad lafur. Mae angen cymryd camau gweithredu cadarnhaol er mwyn sicrhau y gall grwpiau penodol fanteisio ar gyfleoedd i gael gwaith a hyfforddiant ac mewn llawer o achosion efallai y bydd angen cymryd amrywiaeth o gamau gweithredu sy'n cynnwys dull aml-asiantaeth. Dylai'r rhai y mae angen cymryd camau gweithredu penodol yn eu cylch gael y cyfle i ddylanwadu ar gynllun y gweithgareddau arfaethedig.

(2) *Cynyddu niferoedd y merched, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl anabl sydd mewn hyfforddiant a chyflogaeth mewn sectorau sy'n talu'n uwch ac sy'n gofyn am sgiliau gwell a hunangyflogaeth*

5.40 Dim ond os bydd grwpiau a gafodd eu hallgáu yn flaenorol yn sicrhau mynediad i hyfforddiant a swyddi lefel uwch yn y pen draw y gellir sicrhau cynnydd economaidd cynaliadwy. Gellir cyflawni hyn yn rhannol drwy sicrhau mynediad cyfartal i gymorth busnes a hyfforddiant entrepreneuriaidd, mynediad i gyllid a chynghor, strategaethau cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd cartref gan gyflogwyr, hyfforddiant cydraddoldeb i ddarparwyr ac amgylchedd ffisegol cefnogol sy'n cynnig rhwyddineb mynediad, diogelwch a gofal plant.

(3) *Herio gwahanu galwedigaethol drwy gynyddu nifer y merched a'r dynion sy'n hyfforddi neu'n ailhyfforddi mewn meysydd nad ydynt yn draddodiadol, gan ganolbwyntio ar feysydd lle y ceir prinder sgiliau.*

¹⁸⁰ Cytuniad Amsterdam: <http://europa.eu/scadplus/leg/en/s50000.htm>

5.41 Mae merched yn dal i wynebu gwahaniad llorweddol a fertigol. Mae'n bwysig hwyluso mynediad merched i sectorau nad ydynt yn draddodiadol, yn yr un modd ag y mae'n bwysig hyrwyddo presenoldeb dynion mewn sectorau y mae merched yn gweithio ynddynt yn draddodiadol. Rhoddir pwyslais arbennig ar hyrwyddo mynediad merched i feysydd gwyddoniaeth, peirianeg, adeiladu, TGCh a rheoli.

(4) *Cynyddu nifer y cyflogwyr a'r sefydliadau hyfforddi sydd â strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cynnwys systemau monitro a dulliau i ymgorffori gwelliannau.*

5.42 Bydd datblygu strwythurau ac arferion cydraddoldeb da yn cynyddu'r gallu i harneisio a datblygu sgiliau a thalentau'r holl bobl hynny a all wella cyfoeth economaidd y rhanbarth. Er enghraifft, dylai cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac addysg, a chynghorwyr busnes ddatblygu eu strategaethau a'u hyfforddiant amrywiaeth eu hunain sy'n cydnabod yr angen i ddatblygu dulliau gweithio'n hyblyg a darparu hyfforddiant hyblyg, cymorth gofal plant a phobl hŷn, ac amgylcheddau hygyrch. Bydd hefyd yn bwysig hyrwyddo'r gydnabyddiaeth fod cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd teuluol yr un mor berthnasol i ddynion ag ydyw i ferched. Mae'n hanfodol monitro strategaethau cyfle cyfartal ac amrywiaeth, yn ogystal â chael dull ffurfiol i adeiladu ar welliannau.

Strategaeth Weithredol

5.43 Mae'r Awdurdod Rheoli yn ymrwymedig i sicrhau yr hyrwyddir cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chyfle cyfartal wrth baratoi, gweithredu, monitro a gwerthuso'r Rhaglen Weithredol. Yn yr un modd, bydd yr Awdurdod Rheoli yn ymdrechu i sicrhau bod nifer gyfartal o ddynion a merched yn cymryd rhan yn y gwaith o reoli a gweithredu'r rhaglen weithredol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bydd y broses o brif ffrydio cydraddoldeb rhwng y rhywiau h.y. sicrhau y caiff cydraddoldeb rhwng y rhywiau ei gynnwys ar bob cam, yn cael ei hyrwyddo ochr yn ochr â chamau gweithredu penodol i ferched a grwpiau eraill. Ystyrir mynediad i bobl anabl wrth ddiffinio'r gweithrediadau i'w hariannu gan y Cronfeydd ac yn ystod camau amrywiol y broses weithredu.

5.44 Disgwylir i bob prosiect a gefnogir o dan y rhaglen gyfrannu at yr amcanion cyfle cyfartal perthnasol a mabwysiadu'r dangosyddion cyfle cyfartal perthnasol a nodir ym Mhennod 4 mewn perthynas â phob Blaenoriaeth. Ymhlith y gweithgareddau penodol i ategu'r broses o roi'r thema Cyfle Cyfartal ar waith bydd:

- cyngor arbenigol, yn cynnwys asesiadau cyfle cyfartal, a fydd ar gael ar gam cynnar i sicrhau y caiff amcanion cyfle cyfartal eu hintegreiddio â chynlluniau prosiect;
- cyngor arbenigol i brosiectau ar faterion prif ffrydio cyfle cyfartal, a ddarperir ar gamau cynnar a chamau parhaus o'r broses;
- canllawiau ar gyfer gweithgareddau ynghyd ag enghreifftiau astudiaethau achos arferion gorau a fydd yn rhoi gwybodaeth benodol am sut y gall noddwyr fynd i'r afael â chyfle cyfartal yn eu cynlluniau prosiect;

- targedau cyfle cyfartal wedi'u cynnwys mewn blaenoriaethau a fydd yn ffactor pwysig i annog prosiectau i gyfrannu. Gweler Pennod 4 am dargedau blaenoriaeth penodol;
- monitro cynnydd yn rheolaidd, gan sicrhau amser ar gyfer ymyriad cynnar os bydd angen (Gweler Pennod 6);
- cyflwyno'r adroddiadau diweddaraf i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a rhanddeiliaid eraill;
- cyfranogiad parhaus y Grŵp Themâu Trawsbynciol allanol;
- WEFO yn annog sefydliadau cydraddoldeb allweddol i gymryd rhan er mwyn cefnogi rhwydwaith effeithiol o gymorth arbenigol.

PENNOD 6: Gweithredu Darpariaethau

Cyflwyniad

6.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r darpariaethau gweithredu ar gyfer Rhaglen Weithredol ERDF ar gyfer Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Rhoddir gwybodaeth yn unol â Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1083/2006 a wnaed ar 11 Gorffennaf 2006, sy'n cyflwyno'r darpariaethau cyffredinol ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a'r Gronfa Cydlyniant. Rhoddir gwybodaeth bellach yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 1080/2006 am yr ERDF, Rheoliad (CE) Rhif 1081/2006 am yr ESF a Rheoliad (CE) Rhif 1828/2006 sy'n nodi'r rheolau gweithredu.

6.2 Nid yw'r testun canlynol yn disodli Rheoliadau'r Cyngor 1083/2006, 1080/2006, 1081/2006 na Rheoliad y Comisiwn 1828/2006 ac mewn achosion lle ceir ansicrwydd neu wrthdaro, rhoddir blaenoriaeth i'r Rheoliadau Cyngor hyn dros y darpariaethau Gweithredu. Caiff y darpariaethau hyn eu hategu gan unrhyw benderfyniadau, rheol a chanllawiau a fabwysiadwyd yn unol â Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1083/2006¹⁸¹.

Dynodi Awdurdodau

6.3 Rheolir y rhaglen yn unol ag egwyddor rheolaeth ariannol gadarn. Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cynulliad Cymru am reoli'r rhaglen yn cydnabod yr egwyddor hon yn llawn ynghyd â'r angen i wahanu swyddogaethau yn briodol. Yn benodol:

- gwahanu swyddogaethau'r Awdurdod Rheoli, yr Awdurdod Ardystio a'r Awdurdod Archwilio yn briodol yn unol ag Erthygl 58 o Reoliad y Cyngor 1083/2006;
- gwahanu'r swyddogaethau gwirio a nodwyd yn Erthygl 13 o Reoliad y Comisiwn 1828/2006 a Llywodraeth Cynulliad Cymru fel buddiolwr o dan y Rhaglen yn briodol.

6.4 Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac, fel yr Awdurdod Rheoli, mae ganddo'r cyfrifoldeb cydlynu dros faterion rheoli ar gyfer rhaglenni 2007-2013 yr UE. Mae Cyfarwyddwr WEFO yn adrodd drwy Gyfarwyddwr yr Adran Drafnidiaeth ac Economi (DE&T) i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Awdurdod Ardystio yn adrodd drwy linell annibynnol drwy'r Gwasanaeth Ardystio Mewnol i Gyfarwyddwr Cyllid WEFO. Er mwyn ymateb i unrhyw wrthdaro yn arwain o'r ffaith fod Cyfarwyddwr WEFO yn adrodd i Gyfarwyddwr adran o Lywodraeth y Cynulliad sydd yn hefyd yn cael budd o'r Cronfeydd Strwythurol (h.y. DE&T) fe gytunwyd y byddai Cyfarwyddwr WEFO yn adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Parhaol ar faterion lle bydd angen cymodi. Mae'r organogram yn Atodiad Ng yn rhoi

¹⁸¹ Mae'r holl Erthyglau y cyfeirir atynt yn ymwneud â Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1083/2006 a wnaed ar 11 Gorffennaf 2006 - Darpariaethau Cyffredinol ar Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Gronfa Cydlyniant, ac eithrio lle y nodir fel arall. O ran sail gyfreithiol, nid yw'r testun hwn yn disodli'r rheoliad uchod.

darlun cyffredinol o'r cyfrifoldebau a'r llinellau atebolrwydd allweddol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Awdurdod Rheoli

6.5 Gweinidogion Cymru fydd yr Awdurdod Rheoli ar gyfer rhaglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Rhagwelir y caiff swyddogaethau rheoli'r Awdurdod Rheoli eu cyflawni gan staff WEFO o dan awdurdod y Gweinidog Cymreig perthnasol.

6.6 Caiff swyddogaethau eu gwahanu'n glir o fewn WEFO. Ceir siartiau sefydliadol ar wefan WEFO¹⁸². O fewn deuddeg mis i gymeradwyo'r Rhaglen Weithredol caiff disgrifiad o systemau, trefniant a gweithdrefnau'r Awdurdod Rheoli eu cynhyrchu yn unol ag Erthygl 71.

6.7 Yn unol ag Erthygl 60 ac egwyddorion dull rheoli ariannol cadarn, bydd yr Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am:

- sicrhau y caiff gweithrediadau eu dewis ar gyfer arian yn unol â'r meini prawf sy'n gymwys i'r rhaglen weithredol a'u bod yn cydymffurfio â rheolau cymwys y Gymuned a rheolau cenedlaethol ar gyfer eu cyfnod gweithredu cyfan;
- sicrhau, at ddiben y gwaith o ddewis a chymeradwyo gweithrediadau o dan Erthygl 60 (a), y caiff buddiolwyr eu hysbysu o'r amodau penodol sy'n ymwneud â'r cynnyrch neu'r gwasanaethau i'w darparu o dan y gweithrediad, y cynllun ariannu, y terfyn amser ar gyfer gweithredu, a'r wybodaeth ariannol ac unrhyw wybodaeth arall i'w chadw a'i chyfleu. Bydd yn sicrhau bod y buddiolwr â'r gallu i fodloni'r amodau hyn cyn gwneud y penderfyniad cymeradwyo;
- cynnal gwiriadau o dan Erthygl 60 (b), i gwmpasu agweddau gweinyddol, ariannol, technegol a ffisegol ar weithrediadau, fel y bo'n briodol. Bydd gwiriadau yn sicrhau bod y gwariant a ddatgenir yn wirioneddol, bod y cynnyrch neu'r gwasanaethau wedi'u darparu yn unol â'r penderfyniad cymeradwyo, bod y ceisiadau am ad-daliad gan y buddiolwr yn gywir a bod y gweithrediadau a'r gwariant yn cydymffurfio â rheolau'r Gymuned a rheolau cenedlaethol. Byddant yn cynnwys gweithdrefnau i osgoi ariannu dwbl gyda chynlluniau eraill y Gymuned neu gynlluniau cenedlaethol eraill a gyda chyfnodau rhaglennu eraill. Bydd y gwiriadau yn cynnwys y gweithdrefnau canlynol:
 - gwiriadau gweinyddol mewn perthynas â phob cais am ad-daliad gan fuddiolwyr;
 - gwiriadau yn y fan a'r lle mewn perthynas â gweithrediadau unigol.
- sicrhau y caiff gwiriadau yn y fan a'r lle eu cynnal ar sail sampl ar gyfer Rhaglen Weithredol. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn cadw cofnodion sy'n

¹⁸² Cyswllt â siartiau sefydliadol:

<http://www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?Lang=cy&action=page&ID=84>

disgrifio ac yn cyfiawnhau'r dull samplu ac yn nodi'r gweithrediadau neu'r trafodion a ddewiswyd i'w gwirio. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn penderfynu ar faint y sampl er mwyn cael sicrwydd rhesymol o ran cyfreithlondeb a rheoleidd-dra'r trafodion sylfaenol, gan ystyried lefel y risg a nodwyd gan yr Awdurdod Rheoli ar gyfer y math o fuddiolwyr a gweithrediadau dan sylw. Bydd yn adolygu'r dull samplu bob blwyddyn;

- sefydlu safonau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer y gwiriadau a gynhaliwyd a chadw cofnodion ar gyfer pob gwiriad, gan nodi'r gwaith a wnaed, dyddiad a chanlyniadau'r gwiriad, a'r mesurau a gymerwyd mewn perthynas â'r afreoleidd-dra a ganfuwyd;
- sicrhau y caiff swyddogaethau eu gwahanu'n ddigonol yn unol ag Erthygl 58 (b) o ran trefniadau ar gyfer y gwiriadau, lle y mae'r corff a ddynodir fel Awdurdod Rheoli hefyd yn fuddiolwr o dan y Rhaglen Weithredol;
- sicrhau bod system gyfrifiadurol ar gyfer cofnodi a storio cofnodion cyfrifyddu ar gyfer pob gweithrediad o dan y Rhaglen Weithredol a bod y data ar weithredu sy'n angenrheidiol ar gyfer rheolaeth ariannol, monitro, gwiriadau, archwiliadau a gwerthuso yn cael ei gasglu;
- sicrhau bod buddiolwyr a chyrrff eraill sy'n gysylltiedig â chynnal gweithrediadau yn cadw naill ai system gyfrifyddu ar wahân neu god cyfrifyddu digonol ar gyfer pob trafodyn sy'n ymwneud â'r gweithrediad heb fynd yn groes i reolau cyfrifyddu cenedlaethol;
- sicrhau y cynhelir gwerthusiadau o'r Rhaglen Weithredol yn unol ag Erthygl 47;
- sefydlu gweithdrefnau i sicrhau bod pob dogfen sy'n ymwneud â'r gwariant a'r archwiliadau sy'n ofynnol i sicrhau llwybr archwilio digonol yn cael ei chadw yn ôl gofynion Erthygl 90;
- sicrhau bod llwybrau archwilio yn unol â'r Rheoliad Gweithredu. At ddiben Erthygl 60 (f), ystyrir bod llwybr archwilio yn ddigonol lle, ar gyfer y Rhaglen Weithredol dan sylw, y bydd yn cydymffurfio â'r meini prawf canlynol:
 - mae'n caniatáu i'r symiau cyfun a ardystiwyd i'r Comisiwn gael eu cysoni â'r cofnodion cyfrifyddu manwl a'r dogfennau ategol a ddelir gan yr Awdurdod Ardystio, yr Awdurdod Rheoli a'r buddiolwyr o ran gweithrediadau a gyd-ariennir o dan y Rhaglen Weithredol;
 - mae'n caniatáu i'r cyfraniad cyhoeddus a delir i'r buddiolwr gael ei wirio;
 - mae'n caniatáu i'r modd y cymhwysir y meini prawf ar gyfer dethol a sefydlwyd gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar gyfer y Rhaglen Weithredol gael ei wirio;
 - mewn perthynas â phob gweithrediad, fel sy'n briodol, mae'n cynnwys y manylebau technegol a'r cynllun ariannu, dogfennau sy'n ymwneud â chymeradwyo grant, dogfennau sy'n ymwneud â gweithdrefnau caffael

cyhoeddus, adroddiadau cynnydd ac adroddiadau ar wiriadau ac archwiliadau a gynhaliwyd.

- sicrhau bod yr Awdurdod Ardystio yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol am y gweithdrefnau a'r gwiriadau a wnaed mewn perthynas â gwariant at ddiben ardystio;
- y weithdrefn cofnodi a monitro afreoleidd-dra ac adennill symiau a dalwyd yn ddiangen yn unol ag Erthygl 58 o Reoliad (CE) 1083/2006. Bydd hyn yn sicrhau y diogelir buddiannau ariannol y Gymuned Ewropeaidd (Rheoliadau (CE) Rhifau 2988/95 a 2185/96);
- arwain gwaith y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a rhoi'r dogfennau sydd eu hangen arno er mwyn i ansawdd y broses o weithredu'r rhaglen weithredol gael ei fonitro yn sgîl ei nodau penodol;
- llunio'r adroddiadau gweithredu blynyddol a therfynol, ac ar ôl cael cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni, eu cyflwyno i'r Comisiwn;
- sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion gwybodaeth a chyhoeddusrwydd a nodir yn Erthygl 69;
- rhoi gwybodaeth i'r Comisiwn i'w alluogi i arfarnu prosiectau mawr.

Awdurdod Ardystio

6.8 Gweinidogion Cymru fydd yr Awdurdod Ardystio ar gyfer rhaglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Rhagwelir y caiff swyddogaethau rheoli'r Awdurdod Ardystio eu cyflawni gan staff Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o dan awdurdod y Gweinidog Cymreig perthnasol.

6.9 Caiff swyddogaethau eu gwahanu'n glir o fewn WEFO. O fewn WEFO, bydd swyddogaethau'r Awdurdod Rheoli a'r Awdurdod Ardystio ar wahân, a chaiff cyfrifoldebau a threfniadau rheoli eu rhannu'n glir. Ceir siart sefydliadol ar wefan WEFO¹⁸³. O fewn deuddeg mis i gymeradwyo'r Rhaglen Weithredol caiff disgrifiad o systemau, trefniant a gweithdrefnau'r Awdurdod Rheoli eu cynhyrchu yn unol ag Erthygl 71.

6.10 Yn unol ag Erthygl 61 bydd yr Awdurdod Ardystio yn gyfrifol am:

- lunio datganiadau ardystiedig o wariant a cheisiadau am daliad a'u cyflwyno i'r Comisiwn;
- ardystio bod:
 - y datganiad o wariant yn gywir, ei fod yn deillio o systemau cyfrifyddu dibynadwy a'i fod yn seiliedig ar ddogfennau ategol gwiriadwy;

¹⁸³ Cyswllt â siartiau sefydliadol:

<http://www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?Lang=cy&action=page&ID=84>

- y gwariant a ddatganwyd yn cydymffurfio â rheolau cymwys y Gymuned a rheolau cenedlaethol ac yr aed iddo mewn perthynas â gweithrediadau a ddewiswyd ar gyfer arian yn unol â'r meini prawf sy'n gymwys i'r rhaglen a'i fod yn cydymffurfio â rheolau'r Gymuned a rheolau cenedlaethol;
- sicrhau, at ddiben ardystio, ei fod wedi cael gwybodaeth ddigonol gan yr Awdurdod Rheoli am y gweithdrefnau a'r gwiriadau a gynhaliwyd mewn perthynas â gwariant a gynhwyswyd mewn datganiadau o wariant;
- ystyried, at ddiben ardystio, ganlyniadau'r holl archwiliadau a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Archwilio neu o dan ei gyfrifoldeb;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cyfrifiadurol o'r gwariant a ddatganwyd i'r Comisiwn;
- cadw cofnod o'r symiau y gellir eu hadennill a'r symiau a dynnwyd yn ôl yn dilyn canslo cyfraniad cyfan ar gyfer gweithrediad neu ran ohono. Caiff y symiau a adenillir eu had-dalu i gyllideb gyffredinol yr Undeb Ewropeaidd, cyn cau'r Rhaglen Weithredol drwy eu didynnu o'r datganiad gwariant nesaf;
- anfon datganiad i'r Comisiwn erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn o 2008 ymlaen, yn y fformat yn Atodiad XI o'r Rheoliad Gweithredu, yn nodi, ar gyfer pob echel blaenoriaeth yn y Rhaglen Weithredol, y manylion canlynol:
 - y symiau a dynnwyd yn ôl o ddatganiadau o wariant a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn dilyn canslo'r cyfraniad cyhoeddus cyfan ar gyfer gweithrediad neu ran ohono;
 - y symiau a adenillwyd a ddidynnwyd o'r datganiadau hyn o wariant;
 - datganiad o'r symiau i'w hadennill ar 31 Rhagfyr y flwyddyn flaenorol, wedi'u dosbarthu yn ôl y flwyddyn y rhoddwyd y gorchmynion adennill.

Awdurdod Archwilio

6.11 Gweinidogion Cymru fydd yr Awdurdod Archwilio ar gyfer rhaglen Gydgyfeirio ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Rhagwelir y caiff swyddogaethau rheoli'r Awdurdod Archwilio eu cyflawni gan staff y Gwasanaethau Archwilio Mewnol o dan awdurdod y Gweinidog Cymreig perthnasol.

6.12 Mae'r IAS yn annibynnol ar yr WEFO a bydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y system reoli yn gweithio'n effeithiol. Bydd yr IAS yn cynnig barn ar y systemau rheoli. Mae staff yr IAS yn gweithio yn ôl safonau archwilio cenedlaethol ac maent yn cynnwys archwilwyr neu gyfrifyddion cymwys neu rannol gymwys yn bennaf. O fewn deuddeg mis i gymeradwyo'r Rhaglen Weithredol caiff disgrifiad o systemau, trefniant a gweithdrefnau'r Awdurdod Rheoli eu cynhyrchu yn unol ag Erthygl 71.

6.13 Yn unol ag Erthygl 62, bydd yr Awdurdod Archwilio yn gyfrifol am:

- sicrhau y cynhelir archwiliadau i gadarnhau bod systemau rheoli'r Rhaglen Weithredol yn gweithredu'n effeithiol;
- sicrhau y cynhelir archwiliadau o weithrediadau ar sail sampl briodol er mwyn cadarnhau'r gwariant a ddatganwyd;
- cyflwyno strategaeth archwilio i'r Comisiwn o fewn naw mis i gymeradwyo'r Rhaglen Weithredol sy'n cwmpasu: y cyrff a fydd yn cynnal yr archwiliadau y cyfeiriwyd atynt yn y ddau bwynt bwled uchod; y dulliau a gaiff eu defnyddio; y dull samplu ar gyfer archwiliadau o weithrediadau; a'r dull dangosol o gynllunio archwiliadau i sicrhau y caiff y prif gyrrff eu harchwilio ac y caiff archwiliadau eu gwasgaru'n gyfartal ar hyd y cyfnod rhaglennu;
- erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn o 2008 i 2015:
 - cyflwyno adroddiad rheolaeth blynyddol i'r Comisiwn yn nodi canfyddiadau archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod 12 mis blaenorol yn gorffen ar 30 Mehefin yn ystod y flwyddyn dan sylw yn unol â strategaeth archwilio'r rhaglen weithredol a chyflwyno adroddiad ar unrhyw ddiffygion a welwyd yn y systemau ar gyfer rheoli'r rhaglen. Bydd yr adroddiad cyntaf i'w chyflwyno erbyn 31 Rhagfyr 2008 yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ionawr 2007 i 30 Mehefin 2008. Caiff y wybodaeth sy'n ymwneud â'r archwiliadau a gynhaliwyd ar ôl 1 Gorffennaf 2015 ei chynnwys yn yr adroddiad rheolaeth terfynol sy'n ategu'r datganiad ynglŷn â chau;
 - rhoi barn, ar sail y rheolau a'r archwiliadau a gynhaliwyd o dan gyfrifoldeb yr Awdurdod Archwilio, ar b'un a yw'r system reoli yn gweithio'n effeithiol, er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau o wariant a gyflwynwyd i'r Comisiwn yn gywir, ac o ganlyniad, sicrwydd rhesymol bod y trafodion sylfaenol yn gyfreithiol ac yn rheolaidd;
 - cyflwyno, lle y bo'n gymwys, ddatganiad ar gyfer cau yn rhannol, gan asesu cyfreithlondeb a rheoleidd-dra'r gwariant dan sylw;
- cyflwyno i'r Comisiwn, erbyn 31 Mawrth 2017 fan bellaf, ddatganiad cau yn asesu dilysrwydd y cais am dalu'r balans terfynol a chyfreithlondeb a rheoleidd-dra'r trafodion sylfaenol a gwmpaswyd gan y datganiad terfynol o wariant, a gaiff ei ategu gan adroddiad rheolaeth terfynol;
- sicrhau bod y gwaith archwilio yn ystyried safonau rhyngwladol.

Cyrff Cyfryngol

6.14 Bydd yr Awdurdodau Rheoli ac Ardystio yn cyflawni'r holl dasgau fel yr amlinellir yn yr adrannau uchod ac ni chaiff unrhyw Gyrff Cyfryngol eu cyflogi fel y disgrifir yn Erthygl 59(2).

Partneriaeth

6.15 Mae sicrhau atebion cynaliadwy ac effeithiol i'r heriau sy'n wynebu Cymru yn dibynnu'n gynyddol ar gyfranogiad uniongyrchol a gweithredol pob rhanddeiliad yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae'r Awdurdod Rheoli yn ymrwymedig i weithio drwy bartneriaethau a rhwydweithiau o ansawdd da er mwyn annog rhanddeiliaid allweddol i gefnogi agenda ddiwygio Lisboa fel bod adnoddau yn cael eu cyfeirio'n wirioneddol at dwf a swyddi.

6.16 Yn unol ag Erthygl 11, bydd yr Awdurdod Rheoli yn cydweithio'n agos â'r Comisiwn a phartneriaid cynrychioliadol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, gan gynnwys cynrychiolwyr yn y meysydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Bydd y gwaith partneriaeth hwn yn cwmpasu'r broses o baratoi, gweithredu, monitro a gwerthuso'r Rhaglen Weithredol.

(a) Paratoi'r Rhaglen Weithredol

6.17 Datblygwyd pennod Cymru o'r Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol (NRSF) a'r Rhaglen Weithredol hon mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol ar draws pob sector perthnasol yn cynnwys partneriaid cymdeithasol, cyrff cydraddoldeb, y sector addysg uwch ac addysg bellach, asiantaethau'r amgylchedd, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a chymunedol, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Cafwyd y prif gyfraniad partneriaeth gynrychioliadol gan y Grŵp Rhanddeiliaid Allanol Ôl-2006. Fforwm partneriaeth â sylfaen eang yw hwn, sy'n dod â chynrychiolwyr o blith yr holl rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd. Cafwyd cyfraniad arbenigol hefyd gan bum grŵp ffrwd gwaith sy'n cynnwys partneriaid o ystod eang o sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Yn arbennig, rhoddodd Grŵp y Rhaglen Weithredol gyngor ar y broses o baratoi'r rhaglen a chyfrannodd at y gwaith o'i drafftio; rhoddodd y ffrwd gwaith Monitro a Gwerthuso gyngor ar ddatblygu'r systemau monitro a gwerthuso, yn cynnwys dangosyddion rhaglen a blaenoriaeth, a goruchwyliodd y rhag-werthusiad; a rhoddodd Ffrwd Gwaith Rheoli'r Rhaglen gymorth i ddatblygu'r strategaeth weithredu, yn cynnwys y trefniadau ar gyfer Fframweithiau Strategol. Yn unol ag egwyddor tryloywder, cyhoeddwyd nodiadau cyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid Allanol Ôl-2006 a'r grwpiau ffrwd gwaith amrywiol ar wefan WEFO¹⁸⁴.

6.18 Cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y rhaglen Gydgyfeirio yn ystod y cyfnod o fis Gorffennaf i fis Hydref 2006, ac fe'i hategwyd gan ddigwyddiadau rhanbarthol. Ceir rhestr lawn o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn Atodiad H. Ceir crynodeb byr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad fel rhan o'r bennod ar y Strategaeth (Pennod 2) ac mae dadansoddiad manylach a baratowyd gan CRG Research Ltd wedi'i gyhoeddi, ochr yn ochr ag ymatebion unigol i'r ymgynghoriad, ar wefan WEFO.


(b) Rhoi'r Rhaglen Weithredol ar Waith

¹⁸⁴Yn www.wefo.wales.gov.uk

6.19 Mae cyfranogiad partneriaid yn y broses o roi'r Rhaglen Weithredol ar waith yn gonglfaen i'r strategaeth weithredu gyffredinol. Bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni (gweler paragraffau 6.24-6.29 a 6.31-6.35) yn gweithio gyda'r Awdurdod Rheoli i sicrhau effeithiolrwydd ac ansawdd y broses o roi'r Rhaglen Weithredol ar waith. Yn unol ag Erthygl 11, caiff y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ei benodi gan yr Awdurdod Rheoli a bydd yn cynnwys partneriaid cynrychioliadol ac arbenigol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol yn y meysydd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ac mewn meysydd eraill.

6.20 Bydd ffocws i'r broses fanwl o gynllunio gweithrediadau ar gyfer y Rhaglen hon drwy gyfrwng nifer o "Fframweithiau Strategol" (gweler paragraffau 6.36 i 6.49). Strategaethau gweithredol ar gyfer cyflawni'r themâu amrywiol o fewn y Rhaglen Weithredol yw'r fframweithiau hyn. Cânt eu defnyddio, ynghyd ag unrhyw feini prawf eraill ar gyfer dethol a blaenoriaethu a bennwyd gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn unol ag Erthygl 65(a), i arwain yr Awdurdod Rheoli yn y gwaith o ddethol prosiectau. Bydd pob fframwaith yn cwmpasu'r agweddau gofodol ar y broses ddarparu a chaiff nifer ohonynt eu llywio gan agweddau gofodol, sy'n gysylltiedig â meysydd *Cynllun Gofodol Cymru* ac fe'u datblygir drwy bartneriaethau lleol ac is-ranbarthol. Caiff y grwpiau hyn eu cadeirio gan Weinidog o Lywodraeth Cynulliad Cymru ac maent yn cynnwys arweinwyr o awdurdodau lleol, cynrychiolwyr busnes, undebau llafur, sefydliadau cydraddoldeb, y sector gwirfoddol, sefydliadau amgylcheddol, Addysg Uwch a'r Ganolfan Byd Gwaith.

Ffigur 17. Strwythurau Cydweithredu a Gweithredu Cynllun Gofodol Cymru



6.21 Caiff y Fframweithiau Strategol a gaiff eu llywio gan themâu eu datblygu a'u gweithredu drwy ymgysylltiad â phartneriaethau sy'n berthnasol i'r themâu a gwmpesir ganddynt. Bydd llawer o'r rhain yn bartneriaethau sefydledig sy'n bodoli

eisoes (e.e. Fforwm Gwastraff Cymru, Partneriaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol, Panel Cyngori ar Gyflogaeth Cymru, Grŵp Llywio Dyfodol Sgiliau Cymru, y Rhwydwaith Sgiliau i Fusnes ac ati). Bydd angen sefydlu trefniadau pwrpasol newydd ar gyfer rhai fframweithiau. Bydd y trefniadau ar gyfer ymgysylltu â phartneriaethau yn rhoi dull agored, effeithlon ac effeithiol o gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid ar y gwaith o ddatblygu a mireinio Fframweithiau Strategol yn y dyfodol ynghyd â'u cyfraniad at y gwaith hwnnw. Bydd y trefniadau hyn hefyd yn hwyluso her adeiladol wirioneddol.

6.22 Caiff y Fframweithiau Strategol eu rhoi ar wefan WEFO ar ffurf ddrafft er mwyn cael sylwadau arnynt cyn cytuno arnynt, gan sicrhau'r ymgysylltiad ehangaf posibl ag unigolion a sefydliadau ar bob lefel. Bydd y wefan hefyd yn rhoi lle i ddarpar noddwyr prosiectau gynnwys manylion cryno ynghylch eu syniadau prosiect gyda'r nod o annog gwaith partneriaeth a chydweithrediad ar lefel prosiect.


6.23 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau y caiff pob Fframwaith Strategol ei ddatblygu a'i adolygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid perthnasol. Bydd y trefniadau partneriaeth ar gyfer pob fframwaith yn gofyn am gytundeb yr Awdurdod Rheoli a chânt eu disgrifio'n glir o fewn y dogfennau fframwaith er gwybodaeth i bob rhanddeiliad.

(c) Monitro'r Rhaglen Weithredol

6.24 Yn unol â darpariaethau Erthygl 63, caiff un Pwyllgor Monitro Rhaglenni ei sefydlu ar gyfer y ddwy raglen Gydyfeirio (ERDF ac ESF) a'r ddwy raglen Cystadleurwydd Rhanbarthol (ERDF ac ESF) yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i sicrhau'r synergeddau mwyaf posibl rhwng y priod raglenni a hyrwyddo camau gweithredol cydategol ar draws ffiniau rhaglenni. Bydd un Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn ategu'r gwaith o drosglwyddo arfer gorau a'r gwersi a ddysgwyd yn effeithiol a hwyluso dull cydlynol o weithredu yng Nghymru gyfan mewn perthynas â materion fel gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, ymchwil a gwerthuso, themâu trawsbynciol, cydweithredu tiriogaethol a hyrwyddo arloesedd. Wrth geisio sicrhau'r cyfryw integreiddio mae'r Awdurdod Rheoli yn cydnabod y bydd angen bod trefniadau cadarn ar waith er mwyn sicrhau y caiff pob un o'r 4 Rhaglen ei monitro'n effeithiol. Bwriedir sefydlu dau is-bwyllgor sefydlog a fydd yn gyfrifol am fonitro a rhoi cyngor i'r prif Bwyllgor Monitro Rhaglenni ar berfformiad y rhaglen ERDF a'r rhaglen ESF. Cyfrifoldeb y Pwyllgor Monitro Rhaglenni llawn fydd penderfynu ac ymhelaethu ar y tasgau manwl y bydd yr is-bwyllgorau hyn yn eu cyflawni, ynghyd â'u haelodaeth, o fewn y rheolau trefn.

6.25 Gwahoddir y Pwyllgor Monitro Rhaglenni, yn ei gyfarfod cyntaf, i drafod aelodaeth a swyddogaethau'r ddau bwyllgor sefydlog a chytuno arnynt a phenderfynu ar y lefel y caiff ei gyfrifoldebau eu cyflawni ganddynt yn unol â'r Rheoliadau Ewropeaidd. Yn ystod cyfnod rhaglennu 2007-2013, efallai y bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn penderfynu sefydlu is-grwpiau eraill, naill ai grwpiau gorchwyl a gorffen neu ar sail fwy parhaol. Lle y bo angen efallai y bydd y Pwyllgor yn cynnig i'r Awdurdod Rheoli bod arbenigwyr neu grwpiau rhanddeiliaid eraill yn cael eu penodi i roi cyngor i is-bwyllgorau o'r fath. Nodir y model arfaethedig yn Ffigur 18.

Ffigur 18. Strwythur arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'r is-bwyllgorau sefydlog



6.26 Bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn cynnwys 24 o Aelodau yn ogystal â Chadeirydd. Bydd Cadeiryddion y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i bwyllgorau sefydlog yn gynrychiolwyr yr Awdurdod Rheoli. Bydd y Comisiwn Ewropeaidd, staff WEFO a, lle y bo'n briodol, yr EIB a'r EIF yn rhoi cyngor i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i bwyllgorau.

6.27 Yn unol â darpariaethau Erthygl 11, daw'r mwyafrif o'r aelodau o brif bartneriaid rhanbarthol a chyrrff statudol fel a ganlyn:

Tabl 21. Aelodaeth Gynrychioliadol y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn ôl Sefydliad Sector

Sefydliad Sector	Aelodau
Llywodraeth Leol (1 Gorllewin Cymru a'r Cymoedd; 1 Dwyrain Cymru)	2
Llywodraeth Cynulliad Cymru: Menter, Arloesi a Rhwydweithiau	1
Llywodraeth Cynulliad Cymru: Addysg a Dysgu Gydol Oes	1
Llywodraeth Cynulliad Cymru: Yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad	1
Addysg Uwch	1
Addysg Bellach	1
Y Ganolfan Byd Gwaith	1
Undebau Llafur	1
Sector Preifat - Busnes	1
Y Sector Gwirfoddol	1
Economi Gymdeithasol	1
Asiantaeth yr Amgylchedd/Cyngor Cefn Gwlad Cymru	1
Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb	1
Cyfanswm	14

6.28 Bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni hefyd yn cynnwys 10 arbenigwr a ddewisir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dilyn cystadleuaeth agored sy'n destun craffu annibynnol. Daw'r arbenigwyr hyn ag ystod o alluoedd, profiadau a chymwysterau i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a fydd yn ategu rhinweddau cynrychiolwyr partneriaeth. Caiff yr arbenigwyr hyn eu talu yn unol ag arfer

Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac fe'u telir o ffynonellau ariannu domestig ac nid o'r Cronfeydd Strwythurol.

6.29 Rydym yn cynnig isafswm targed o 40% o ddynion a 40% o ferched ar Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru gyfan, gyda hyblygrwydd ynghylch yr 20% sy'n weddill. Rydym yn gobeithio y bydd sefydliadau partner yn cefnogi'r targed hwn. Rhoddir gweithdrefnau priodol ar waith hefyd i sicrhau bod y rhaglenni ESF ac ERDF yn ategu ei gilydd, ynghyd â'r rhaglenni RDP ac EFF.

(ch) Gwerthusiad o'r Rhaglen Weithredol

6.30 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn adeiladu ar arfer da Rhaglen 2000-06 drwy sefydlu Grŵp Cynghori ar Werthusiadau (EAG). Caiff yr EAG ei gadeirio gan uwch swyddog o'r Awdurdod Rheoli. Bydd yr aelodau yn cynnwys arbenigwyr o sefydliadau partner yn cynnwys y Comisiwn Ewropeaidd a rhanddeiliaid eraill. Bydd y grŵp hefyd yn cynnwys arbenigwyr technegol o Swyddfa'r Prif Ymchwilydd Cymdeithasol, yr Is-adran Cyngor Economaidd a'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

6.31 Bydd yr EAG yn rhoi cyngor a chymorth i gynllunio'r Cynllun Monitro a Gwerthuso; cytuno ar gynlluniau ymchwil; rheoli ansawdd adroddiadau terfynol; a sicrhau bod y canfyddiadau'n cael eu dosbarthu'n eang. Bydd yr EAG yn gyfrifol am gyflogi arbenigwyr technegol pan fydd eu hangen er mwyn cynorthwyo â'i waith.

Dyletswyddau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni

6.32 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn darparu'r swyddogaeth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i gyfarfodydd. Bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn llunio ei reolau trefn ei hun ac yn cytuno arnynt gyda'r Awdurdod Rheoli. Diffinnir dyletswyddau'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn Erthyglau 65 a 66 o Reoliad (CE) 1038/2006.

6.33 Yn ei gyfarfod cyntaf, bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn cymeradwyo darpariaeth fanwl ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau a bennwyd iddo mewn modd priodol ac effeithlon, yn cynnwys pa mor aml y bydd yn cynnal cyfarfodydd (gofyniad i gynnal o leiaf ddau gyfarfod y flwyddyn) ac aelodaeth a swyddogaethau'r ddau is-bwyllgor sefydlog arfaethedig. Bydd y darpariaethau hyn yn cynnwys yn benodol:

- y meini prawf ar gyfer dewis y gweithrediadau i'w hariannu ac unrhyw achos o ddiwygio'r meini prawf hynny yn unol ag anghenion rhaglennu;
- trefniadau ar gyfer adolygu cynnydd tuag at gyflawni amcanion a thargedau penodol y Rhaglen Weithredol ar sail y dogfennau a gyflwynir gan yr Awdurdod Rheoli.

6.34 Bydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i is-bwyllgorau fel y bo'n briodol yn bodloni eu hunain o ran effeithiolrwydd ac ansawdd y broses o roi'r Rhaglen Weithredol ar waith. At y diben hwn, ac yn ychwanegol at y swyddogaethau uchod, bydd yn:

- monitro cynnydd tuag at gyflawni'r dangosyddion a'r targedau ffisegol ac ariannol a nodir ar gyfer y Rhaglen Weithredol a phob echel Blaenoriaeth ac archwilio'r gwerthusiadau y cyfeirir atynt yn Erthygl 48(3).
- ystyried a chymeradwyo'r adroddiadau gweithredu blynyddol a therfynol y cyfeirir atynt yn Erthygl 67 cyn i'r adroddiadau hyn gael eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd;
- cael ei hysbysu ynghylch yr adroddiadau rheolaeth blynyddol ac unrhyw sylwadau y gall y Comisiwn eu gwneud ar ôl archwilio'r adroddiadau hyn neu mewn perthynas â'r adroddiadau hyn;
- gofyn i'r Awdurdod Rheoli ddiwygio neu archwilio'r Rhaglen Weithredol er mwyn gwella'r dull o'i rheoli, yn cynnwys rheoli ariannol;
- ystyried a chymeradwyo unrhyw gynigion i ddiwygio cynnwys y Rhaglen Weithredol gymeradwy.

6.35 Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i is-bwyllgorau lle y bo'n briodol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel y nodwyd uchod bydd yr Awdurdod Rheoli hefyd yn sicrhau bod y Pwyllgor:

- yn cael gwybodaeth am ymrwymïadau, gwariant a chynnyrch (arfaethedig ac a wireddwyd) ar gyfer pob thema o fewn y Blaenoriaethau unigol, o leiaf bob blwyddyn;
- yn cytuno ar y defnydd o Fframweithiau Strategol gan yr Awdurdod Rheoli fel rhan o'r meini prawf ar gyfer dewis gweithrediadau. Yn rhoi cyngor ar alinio Fframweithiau Strategol unigol ag amcanion a thargedau yn y Rhaglen Weithredol, yn cynnwys unrhyw addasiadau dilynol,
- yn ystyried Cynllun Monitro a Gwerthuso'r Awdurdod Rheoli, ac unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun Monitro a Gwerthuso, fel y cyfeirir atynt yn Erthygl 48(1);
- yn cyfrannu at y Strategaeth Camau Arloesol; ac
- yn cael adroddiadau blynyddol ar gynnydd y Themâu Trawsbynciol.

Trefniadau Gweithredu a Chyflawni

Cynllunio

6.36 Mae gwerthusiadau o raglenni wedi nodi y gellir gwella effaith gyffredinol drwy sicrhau dulliau mwy 'cydgysylltiedig' o ymgymryd â gweithgaredd prosiect ac aliniad cryfach â phrif amcanion rhaglenni. Awgrymwyd hefyd yr angen i roi pwyslais cryfach ar gydweithredu is-ranbarthol a symleiddio strwythurau rhaglenni a threfniadau gweithredu. At hynny, yn yr ymgynghoriad ar y rhaglen

Ôl-2006, cafwyd cytundeb eang ar yr angen i fabwysiadu dull gweithredu mwy strategol yn y dyfodol o ran y defnydd o gronfeydd Strwythurol.

6.37 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn hyrwyddo dulliau mwy strategol o weithredu, yn cynnwys cyflwyno *Fframweithiau Strategol*. Strategaethau Gweithredol fydd y fframweithiau hyn sy'n defnyddio'r Blaenoriaethau a'r themâu yn y Rhaglen Weithredol fel eu man cychwyn. Byddant yn helpu i sicrhau'r ffocws a'r ymdrech sydd eu hangen i wneud y defnydd gorau posibl o'r cronfeydd strwythurol; byddant yn annog gwaith partneriaeth a chydweithredu ac yn helpu i sefydlu cysylltiadau gweithredol a chydweithredu rhwng prosiectau.

6.38 Diffinnir Fframwaith Strategol fel:

Cynllun i gyflawni diben strategol penodol drwy nifer o ymyriadau sydd wedi'u cysylltu'n strategol.

6.39 Bydd y Fframweithiau yn ddogfennau cynllunio ac nid yn offerynnau ariannol. Y prosiectau fydd y "cyfrwng" yn y Rhaglen Weithredol a'r Awdurdod Rheoli fydd yn gyfrifol am ddewis prosiectau, eu blaenoriaethu a'u cymeradwyo. Llunnir fframweithiau yn unol â'r canllawiau a roddwyd gan yr Awdurdod Rheoli ac fe'u defnyddir wrth ddewis a blaenoriaethu prosiectau.

6.40 Bydd y Fframweithiau yn darparu trosolwg strategol clir a chanllawiau ar feysydd Ymyrraeth a'r mathau o brosiectau a threfniadau cyflawni a fydd yn cyflawni'r Thema a'r Flaenoriaeth berthnasol yn y ffordd orau. Byddant yn nodi cysylltiadau strategol pwysig â Fframweithiau eraill a, lle y ceir posibilrwydd o "orgyffwrdd" canfyddedig, byddant yn rhoi esboniad clir, er budd darpar noddwyr, o'r mathau o brosiectau a gaiff eu cwmpasu gan Fframweithiau penodol. Byddant hefyd yn nodi'r cwmpas o fewn eu maes am Gamau Arloesol a Chydweithredu Trawsgenedlaethol (gweler paragraff 6.50). Ceir rhestr ddangosol o'r Fframweithiau Strategol ar gyfer y Rhaglen yn Atodiad I.


6.41 Caiff y gwaith o ddatblygu Fframweithiau Strategol ei gydgyssylltu gan Adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru a Grwpiau Ardal Cynllun Gofodol Cymru. Byddant yn sicrhau aliniad da rhwng polisïau'r UE ar gyfer Twf a Swyddi a pholisïau a strategaethau Cenedlaethol perthnasol yn cynnwys Cynllun Gofodol Cymru.

6.42 Caiff Timau Ewropeaidd Gofodol Penodedig eu sefydlu i ategu gwaith Grwpiau Ardal y Cynllun Gofodol i gydgyssylltu'r Fframweithiau Strategol a lywir gan elfennau gofodol. Byddant hefyd yn cynorthwyo cydgysylltwyr Fframweithiau Strategol thematig i ymgysylltu â phartneriaid yn lleol ac yn is-ranbarthol. Bydd gan gydgyssylltwyr Fframweithiau Strategol rôl i'w chwarae hefyd, ochr yn ochr â Thimau Ewropeaidd Gofodol ac eraill sy'n gysylltiedig â chefnogi darpar noddwyr, i drafod syniadau cynnar gyda darpar ymgeiswyr prosiect a rhoi barn "ddiduedd" iddynt ar eu rhan debygol o fewn fframwaith. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn ceisio barn Cydgysylltwyr Fframweithiau, ynghyd ag arbenigwyr eraill, yn ôl yr angen yn ystod y broses o ystyried y cyflwyniadau prosiect; ond bydd yr Awdurdod Rheoli yn gwneud penderfyniadau ar brosiectau yn annibynnol ar sail cynnwys cyhoeddedig y Fframweithiau a meini prawf eraill o ran dethol a blaenoriaethu a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.


6.43 Wrth gytuno ar y Fframweithiau Strategol, bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau bod y trefniadau partneriaeth a nodir ynddynt yn sicrhau llawer o "her" gan bartneriaid a rhanddeiliaid sy'n ymwneud â datblygu'r fframweithiau. Wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, efallai y bydd canlyniadau gwaith monitro a gwerthuso yn amlygu'r angen i addasu strategaethau'r fframweithiau; felly bydd angen adolygu, addasu a mireinio eu cynnwys o bryd i'w gilydd ar y cyd â'r partneriaethau perthnasol. Bydd Cydgysylltwyr Fframweithiau yn gyfrifol am gydgysylltu'r gwaith parhaus hwn o gynnal y Fframweithiau ar hyd oes y rhaglen, a byddant yn parhau i wneud hynny drwy ymgysylltu â'u partneriaethau. Nodir cyfrifoldebau Cydgysylltwyr Fframweithiau yn Atodiad J.

6.44 Unwaith y bydd y Cydgysylltydd a'r Awdurdod Rheoli yn tybio bod Fframwaith yn addas i'w ddefnyddio, fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Yn amodol ar gyngor y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ar ei aliniad â'r Rhaglen Weithredol a'i gytundeb ei fod yn addas i'w ddefnyddio fel un o'r meini prawf o ran dethol a blaenoriaethu prosiectau, bydd yr Awdurdod Rheoli yn cytuno ar y Fframwaith. Bydd addasrwydd prosiect ar gyfer y Fframwaith yn un o'r meini prawf o ran dethol a blaenoriaethu prosiectau; caiff meini prawf eraill eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ynghyd â'r meini prawf cymhwyster sy'n berthnasol i bob prosiect. Mae Ffigur 19 a Ffigur 20 yn dangos rôl y Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn hyn o beth a'r ffordd y caiff yr holl feini prawf eu cymhwyso i'r broses o ddethol a blaenoriaethu prosiectau er mwyn cymeradwyo grant.

Ffigur 19. Pennu meini prawf dethol a blaenoriaethu



Ffigur 20. Cymhwysio meini prawf dethol a blaenoriaethu



6.45 Unwaith y bydd yr Awdurdod Rheoli wedi cytuno arno, rhoddir Fframwaith ar y wefan, ac fe'i nodir fel "CYTUNWYD", er gwybodaeth ac arweiniad i ddarpar noddwyr a rhanddeiliaid eraill. Fe'i defnyddir hefyd gan Swyddogion Datblygu Prosiect a Rheolwyr Blaenoriaeth yr Awdurdod Rheoli wrth iddynt ystyried ceisiadau Datganiadau o Ddiddordeb (EOI) ac yn y broses ddilynol o ddethol a blaenoriaethu prosiectau.

Trefniadau ar gyfer ymdrin â phrosiectau, eu dethol a'u blaenoriaethu


6.46 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau bod sefydliadau sydd am fanteisio ar arian drwy'r Rhaglen Weithredol yn deall natur y rhaglen a'r llwybr y mae angen iddynt ei ddilyn er mwyn sicrhau grant. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn darparu cyfleusterau gwefan rhyngweithiol er mwyn gwella ymgysylltiad â rhanddeiliaid a darpar noddwyr ac er mwyn galluogi noddwyr i gyflwyno eu cynigion prosiect a'u ceisiadau yn electronig.

6.47 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn cynnal Llinell Gymorth i ymdrin ag ymholiadau gan ddarpar noddwyr a rhanddeiliaid eraill ac i roi gwybodaeth, cyngor a chyfeiriadau cychwynnol. Bydd hyn yn welliant pwysig ar drefniadau blaenorol a bydd yn sicrhau gwasanaeth cwsmeriaid o safon dda ar gyfer darpar noddwyr a rhanddeiliaid eraill.

6.48 Bydd y trefniadau ar gyfer darparu'r Rhaglen Weithredol yn syml. Bydd Fframweithiau Strategol yn darparu Strategaethau Gweithredol i arwain natur yr ymyriadau, a gaiff eu darparu drwy brosiectau. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn cymeradwyo'r prosiectau hynny yn uniongyrchol ac nid yw'n rhagweld defnyddio Grantiau Byd-eang fel y'u diffinnir gan Erthygl 42 o Reoliad (CE) 1083/2006.

6.49 Yn ogystal â'r meini prawf cymhwyster sylfaenol o dan y rheolau a'r meini prawf o ran bod yn addas ar gyfer y Fframwaith, caiff y meini prawf ar gyfer dethol a blaenoriaethu prosiectau, sy'n cwmpasu agweddau pwysig ar fudd a risg, eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Mae Ffigur 21 yn dangos y llwybr y bydd darpar noddwr prosiect yn ei dilyn i sicrhau grant Cronfa Strwythurol:

Ffigur 21. Llwybr ar gyfer sicrhau grant Cronfeydd Strwythurol



6.50 Caiff prosiectau camau arloesol a phrosiectau sy'n cynnig gweithredu trawsgenedlaethol neu ryngranbarthol eu nodi'n benodol gan yr Awdurdod Rheoli ar adeg cyflwyno Datganiad o Ddidddordeb a rhoddir cyngor a chanllawiau penodol i noddwyr mewn perthynas â'u gweithredu, eu gwerthuso a'u dosbarthu. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn monitro'r prosiectau hyn ar wahân ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Bydd rheolau cymhwyster cenedlaethol yn gymwys i bob prosiect o'r fath. Yn achos pob prosiect a gymeradwyir, bydd y noddwr yn gyfrifol am ddarparu a gwario yn erbyn y proffil er mwyn sicrhau'r cynnyrch a'r canlyniadau a ragamcenir.

6.51 Gall yr Awdurdod Rheoli adfachu cronfeydd noddwr prosiect os bydd unrhyw fath o brosiect, ar unrhyw adeg, yn mynd yn groes i unrhyw un o'r amodau canlynol:

- Rheoliadau'r UE;

- y rheolau Cenedlaethol a bennwyd i reoli'r broses o gyflawni'r Rhaglen Weithredol;
- Rheolau Cymorth Gwladwriaethol;
- y telerau a'r amodau penodol a gymhwyswyd i'r prosiect gan yr Awdurdod Rheoli yn ei lythyr yn cynnig grant.

Gweithredu'r Themâu Trawsbynciol

6.52 Mae'r Themâu Trawsbynciol yn rhan annatod o'r broses o reoli'r Rhaglen Weithredol a phrosiectau. Bydd pob Blaenoriaeth o fewn y rhaglen yn defnyddio amcanion y themâu trawsbynciol yng nghyd-destun y gweithgarwch sydd i'w ariannu. Caiff canllawiau ar gyfer gweithgareddau eu paratoi ynghyd ag enghreifftiau astudiaethau achos arferion gorau a fydd yn rhoi gwybodaeth benodol ar gam cynnar am sut y gall noddwyr prosiectau ymdrin â Chynaliadwyedd Amgylcheddol a Chyfle Cyfartal o fewn eu cynlluniau prosiect. Mae cyngorwyr arbenigol ym maes Cynaliadwyedd Amgylcheddol a Chyfle Cyfartal yn gweithio o fewn WEFO ac yn rhoi cymorth i gydgyssylltwyr fframweithiau, noddwyr prosiectau a phartneriaethau. Bydd cyngor arbenigol ar gael hefyd drwy gyfraniad sefydliadau allweddol yn y rhanbarth yn cynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Un o'r amcanion allweddol fydd darparu'r cyfraniad arbenigol ar gam cynnar yn y broses er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i hyrwyddo'r themâu hyn.

6.53 Mae targedau'r themâu trawsbynciol a bennir ar lefel y gweithgareddau i'w cefnogi gan y Rhaglen Gydgyfeirio yn ffactor pwysig wrth annog prosiectau i ymdrin ag amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol a chyfle cyfartal y Rhaglen. Ystyrir integreiddiad llorweddol y ddwy thema fel gweithgarwch sy'n gymwys i gael cymorth ariannol fel y gall wrthbwysu unrhyw effeithiau negyddol posibl (er enghraifft ffactorau allanol amgylcheddol negyddol) neu sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl ar gyfer integreiddio (er enghraifft mewn gweithlu mwy amrywiol). Paratowyd matricesau sy'n dangos y gweithgareddau manwl a gaiff eu cefnogi o dan y Blaenoriaethau a'r Themâu er mwyn cyflawni integreiddiad llorweddol (gweler Atodiadau Ff a G).

Cyrff Talu

Taliadau gan y Comisiwn

6.54 Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael taliadau Cronfeydd Strwythurol gan y Comisiwn Ewropeaidd. Gwneir taliadau i'r cyfrif banc a enwebwyd a gaiff ei reoli gan yr Is-adran Cyllid, Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd WEFO yn cysylltu â'r Is-adran Cyllid i sicrhau y rhoddir cyfrif cywir am daliadau Cronfeydd Strwythurol o'r Comisiwn Ewropeaidd ac y gellir eu nodi ar wahân.

6.55 Yn fuan ar ôl etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2007 caiff swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a elwir gyda'i gilydd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru). Ar yr adeg hon, bydd Is-adran Cyllid Llywodraeth

Cynulliad Cymru, sy'n gweithredu ar ran Gweinidogion Cymru yn cael taliadau gan y Comisiwn.

Taliadau i Fuddiolwyr

6.56 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn talu'r buddiolwyr (prosiectau) ar ôl derbyn ceisiadau dilys yn unol ag Erthygl 80. Bydd WEFO yn gyfrifol am wneud taliadau i fuddiolwyr. Bydd Cangen Taliadau WEFO yn gweithio mewn partneriaeth â Swyddogion Datblygu Prosiectau yn yr Is-adran Rheoli Rhaglenni ar faterion monitro prosiectau ond byddant yn gwbl gyfrifol am awdurdodi taliadau, gan sicrhau bod dyletswyddau'r rhai sy'n cymeradwyo a'r rhai sy'n talu yn gwbl ar wahân. Bydd y gangen hefyd ar wahân i'r Awdurdod Ardystio a fydd yn gyfrifol am wneud datganiadau gwariant i'r CE. Mae siart strwythur ar gyfer WEFO ar gael ar wefan WEFO¹⁸⁵.

6.57 Disgwylir i fuddiolwyr gyflwyno ceisiadau yn rheolaidd er mwyn cyflwyno adroddiad ar wariant gwirioneddol a gweithgarwch prosiect. Disgwylir i geisiadau cael eu cyflwyno naill ai'n fisol neu'n chwarterol, er mwyn i brosiectau allu cael eu monitro'n ofalus yn erbyn gweithgarwch cymeradwy. Bydd y broses ceisiadau yn galluogi noddwyr i gyflwyno adroddiad ar gynnydd prosiectau a darparu cynlluniau gwariant diwygiedig a fydd yn hanfodol er mwyn monitro prosiectau a rhaglenni at ddibenion N+2.

6.58 Yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn gwneud cais ar-lein drwy gronfa ddata System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau (PPIMS) WEFO y bwriedir ei chyflwyno yn ystod 2007 a 2008. Bydd y system awtomataidd hon yn gwahodd ceisiadau ac yn eu dilysu cyn eu cyflwyno. Bydd y system hefyd yn sicrhau bod pob maes ar y ffurflen gais wedi'i gwblhau a bydd yn gwneud cyfrifiadau rhifyddol. Bydd hefyd yn nodi ac yn ceisio esboniadau am unrhyw achosion o dorri'r rheolau lle nad yw prosiectau'n cael eu cyflawni fel y cymeradwywyd. Bydd hyn nid yn unig yn gwella ansawdd ceisiadau a gyflwynir, gan arwain at leihad yn y nifer y mae'n rhaid eu dychwelyd, ond bydd hefyd yn sicrhau y caiff prosiectau eu monitro'n agos gan hysbysu WEFO a buddiolwyr o unrhyw broblemau wrth iddynt godi. Bydd ffurflenni cais papur a argraffwyd ymlaen llawn ar gael i'r noddwyr hynny na allant wneud eu trafodion ar-lein. Caiff y rhain eu dilysu yn yr un modd ar yr adeg y cânt eu mewnbynnu i PPIMS gan staff WEFO.

6.59 Bydd pob prosiect yn ddarostyngedig i reolau cadw grant (10% fel arfer) yn amodol ar gyflwyno cais terfynol a thystysgrif archwiliad allanol yn foddhaol.

Cymhwyster Gwariant

6.60 Bydd yr Awdurdod Rheoli ar gyfer y Rhaglen Weithredol yn llunio rheolau ar gymhwyster gwariant yn unol ag Erthygl 56(4). Bydd y rheolau hyn yn ystyried y darpariaethau a'r eithriadau fel y'u nodir yn Rheoliad ERDF (CE) 1080/2006, Rheoliad Cyffredinol (CE) 1083/2006, Rheoliad Gweithredu (CE) 1828/2006, Rheoliad ESF (CE) 1081/2006, canllawiau a llawlyfrau gweithredol presennol (ac a ddiweddarwyd) a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Rheoli.

¹⁸⁵ <http://www.wefo.wales.gov.uk/default.asp?Lang=cy>

6.61 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn rhoi gwybodaeth i'r Comisiwn am y rheolau cymhwyster cenedlaethol a sefydlwyd ac sy'n gymwys i'r Rhaglen Weithredol erbyn dyddiad cyflwyno'r disgrifiad o'r systemau rheoli a'r adroddiad ar gydymffurfiaeth y systemau fan bellaf, yn unol ag Erthygl 71 o Reoliad (CE) 1083/2006.

Llog a Gynhyrchwyd

6.62 Caiff unrhyw log a gynhyrchir gan daliadau o'r Rhaglen Weithredol hon i gronfeydd fel y'i diffinnir yn Erthygl 44 ei ddefnyddio yn unol â darpariaethau Erthygl 78(7). Er enghraifft, caiff llog a gynhyrchir o daliadau i offerynnau peirianeg ariannol ei ailfuddsoddi er budd mentrau bach a chanolig.

6.63 Yn unol ag Erthygl 83, caiff unrhyw log a gynhyrchir gan y broses rhagariannu ei drosglwyddo i'r Rhaglen Weithredol dan sylw, a'i ystyried fel adnodd ar gyfer yr Aelod-Wladwriaeth ar ffurf cyfraniad cyhoeddus cenedlaethol, ac fe'i datganir i'r Comisiwn ar adeg cau'r Rhaglen Weithredol yn derfynol.

Trefniadau Archwilio

6.64 Mae'n ofynnol i noddwyr prosiectau ddarparu tystysgrifau archwilio a wiriwyd yn annibynnol fel rhan o'u proses rheoli prosiect eu hunain ac er mwyn ategu ceisiadau am daliadau i WEFO. Bydd angen darparu'r tystysgrifau hyn bob 12 mis yn ystod oes y prosiect a hefyd ar ddiwedd y prosiect. Cynhelir yr archwiliadau hyn gan archwilydd cymwys allanol i'r sefydliad sy'n gwneud cais am y grant.

6.65 Bydd pob tystysgrif archwilio yn cwmpasu'r cyfnod ers yr archwiliad diwethaf (neu o ddechrau'r prosiect), hyd at ddyddiad y cais diwethaf. Fel arfer, caiff taliadau eu hatal os ceir archwiliad coll neu amodol.

6.66 Ymchwilir i bob mater archwilio a chaiff penderfyniadau eu dogfennu'n llawn. Rhagdybir na chaiff unrhyw symiau sy'n ddarostyngedig i amodau archwilio eu talu hyd nes bod y mater wedi'i ddatrys. Os codir materion archwilio bydd WEFO yn ceisio sicrwydd gan noddwyr ac archwilwyr o ran ceisiadau yn y dyfodol, bod unrhyw symiau nas caniatwyd wedi'u heithrio hefyd. Caiff pob mater archwilio ei gofnodi ar PPIMS fel y gellir nodi materion cyffredin ac ymchwilio iddynt.

6.67 Mae WEFO yn bwriadu comisiynu cwmni/cwmnïau archwilio allanol yn uniongyrchol i archwilio prosiectau ar gyfer Rhaglen 2007-2013. Bydd hyn yn sicrhau gwell reolaeth a sicrwydd a bydd yn darparu dull gweithredu cyson ar draws pob prosiect a chronfa.

Defnyddio'r Ewro

6.68 Yn unol ag Erthygl 81, caiff datganiadau gwariant ardystiedig, ceisiadau am daliadau a gwariant yn yr adroddiadau blynyddol a therfynol eu nodi mewn ewro. Caiff y symiau sterling eu trosi i'r ewro gan ddefnyddio cyfradd gyfnewid gyfrifyddu fisol y Comisiwn yn ystod y mis y cofrestrwyd y gwariant yng nghyfrifon yr awdurdod ardystio.

Cymorth Gwladwriaethol

6.69 Rhaid i unrhyw gymorth cyhoeddus o dan y rhaglen hon gydymffurfio â rheolau gweithdrefnol a pherthnasol Cymorth Gwladwriaethol y CE sy'n gymwys ar yr adeg y rhoddir y cymorth cyhoeddus. Yr Aelod-Wladwriaeth, ac yn enwedig yr Awdurdod Rheoli ac Ardystio sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob gweithrediad Cronfeydd Strwythurol yn y rhaglen yn cydymffurfio â rheolau Cymorth Gwladwriaethol.

6.70 Wrth gynllunio ar gyfer y rhaglen newydd, rhoddir ystyriaeth, i ddechrau, i sicrhau bod unrhyw gymorth a ddyfernir yn cael y gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Comisiwn Ewropeaidd, naill ai drwy sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn â chynllun cymeradwy sy'n bodoli eisoes neu esemptiad bloc neu drwy roi gwybod am y cymorth ar wahân. Wrth ddatblygu fframweithiau strategol, bydd angen i'r prif sefydliadau nodi'r gymeradwyaeth berthnasol o ran Cymorth Gwladwriaethol ar gyfer y gweithgareddau a gynllunnir, gan sicrhau bod asesiad trwyadl o faterion Cymorth Gwladwriaethol yn cael ei gynnal wrth ddechrau datblygu, gan leihau'r perygl o gael problemau wrth eu gweithredu.

6.71 Bydd WEFO, fel yr Awdurdod Rheoli ac Ardystio, yn cydweithio'n agos ag Uned Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru ac â'r prif sefydliadau i fynd i'r afael â materion Cymorth Gwladwriaethol a nodir mewn perthynas â'r Fframweithiau Strategol, gan sicrhau bod y gymeradwyaeth briodol yn ei lle ar gyfer y gwahanol weithgareddau a gynigir o dan y Fframwaith Strategol. Bydd hyn yn ei dro yn rhoi sicrwydd cadarn i WEFO y cydymffurfir â'r rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol. Gan adeiladu ar y profiad a gafwyd yn ystod y rhaglen bresennol, bydd WEFO yn sicrhau bod systemau a gweithdrefnau priodol yn cael eu sefydlu i ddellio â materion Cymorth Gwladwriaethol. Bydd y rhain yn cynnwys:

- rhoi canllawiau clir i bartneriaid, ymgeiswyr a staff;
- cymorth a chanllawiau penodol yn ystod camau datblygu prosiectau o dan Fframwaith Strategol;
- methodoleg gadarn ar gyfer asesu Cymorth Gwladwriaethol mewn perthynas â phrosiectau unigol a chynigion a gomisiynir; a
- gweithdrefnau ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â Chymorth Gwladwriaethol wrth gofnodi a monitro.

6.72 I gydnabod y gwaith cyfredol o ddiwygio'r rheolau Cymorth Gwladwriaethol, bydd WEFO yn cydgysylltu'n agos ag Uned Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cael eu cynnwys wrth gyflwyno Rhaglen Weithredol y Cronfeydd Strwythurol, tra'n sicrhau bod yr holl reolau yn cael eu cymhwyso i ategu'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd.

Gweithdrefn ar gyfer Llifau Ariannol

6.73 Bydd yr Awdurdod Ardystio yn gwneud pob cais am daliad i'r Comisiwn Ewropeaidd. Bydd ceisiadau dros dro a cheisiadau terfynol yn deillio o ddatganiadau o wariant a gyflwynwyd gan fuddiolwyr. Ceir diagram sy'n dangos y llifau ariannol hyn a'r rheolaethau ariannol cysylltiedig yn Atodiad L.

6.74 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn cynnal systemau i nodi pob derbynneb gan y Comisiwn a thaliadau unigol i fuddiolwyr. Bydd gweithdrefnau ar waith i sicrhau y cydymffurfir â rheoliadau'r UE ar daliadau prydlon. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am sicrhau bod gan y systemau talu a ddefnyddir reolaethau ariannol cadarn. Caiff safonau uniondeb a phriodoldeb sy'n gyson â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer gwariant Llywodraeth y DU eu cymhwyso at y broses o reoli cronfeydd y Gymuned. Fel sy'n ofynnol yn Erthygl 37(1)(g)(iv), cynhelir tryloywder yn y broses o symud a dosbarthu llifau ariannol drwy ddiffinio'r gweithdrefnau a ddefnyddir. Mae amlinelliad o lif cronfeydd y Gymuned fel a ganlyn:

- Yr Awdurdod Rheoli yn rhoi mewnbwn i system gweinyddu grantiau WEFO, y System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau (PPIMS), y gwariant ar geisiadau dros dro a ddatganwyd gan y buddiolwyr.
- Yr Awdurdod Ardystio yn cyflwyno ceisiadau am daliadau i'r Comisiwn ar lefel rhaglenni.
- Y Comisiwn yn gwneud taliadau i gyfrif yr Awdurdod Rheoli.
- Yr Awdurdod Rheoli yn ardystio ac yn awdurdodi taliadau i fuddiolwyr ac yn cymryd unrhyw gamau adennill fel y bo angen.
- Yr Awdurdod Rheoli yn gwneud taliadau i fuddiolwyr drwy ei gyfrif BACS.
- Lle y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn gofyn am ad-daliad, bydd yr Awdurdod Rheoli yn gwneud y taliadau angenrheidiol.

6.75 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw afreoleidd-dra a gwneud cywiriadau ariannol fel y bo'n ofynnol. O fewn dau fis yn dilyn diwedd pob chwarter, bydd yr Awdurdod Rheoli yn hysbysu'r Comisiwn o unrhyw afreoleidd-dra a fu'n destun canfyddiad gweinyddol neu farnwrol sylfaenol, a chan gyfeirio at unrhyw afreoleidd-dra a nodwyd yn flaenorol, unrhyw newidiadau sylweddol.

System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni A Phrosiectau (PPIMS)

6.76 Mae prosiect Grantiau WEFO yn datblygu ffyrdd newydd o weithio drwy gyfrwng system integredig ar y we i gydymffurfio'n llawn â gofynion cydymffurfiaeth y Comisiwn, ac i alluogi buddiolwyr i gynnal eu busnes â WEFO yn well.

6.77 Gelwir y system a weithredir ar y we yn PPIMS (System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau). Darperir y swyddogaeth ar-lein drwy gyfrwng Porth y Llywodraeth, a ddefnyddir ar draws y llywodraeth i ddarparu gwasanaethau ar-lein.

6.78 Mae'r system yn cynnig dull syml a diogel o edrych ar ddogfennau allweddol ynghyd â dull o rannu gwybodaeth ar draws holl swyddfeydd WEFO mewn ffordd effeithlon a chosteffeithiol. O fewn PPIMS cedwir yr holl ddata mewn un man sy'n golygu ei bod yn haws edrych ar wybodaeth am bob prosiect drwy'r system hon nag ydyw drwy systemau cyfredol.

6.79 Gall noddwyr eu hunain ryngweithio â WEFO ar-lein ar nifer o gamau yn ystod oes y prosiect. Bydd angen i bob noddwr gofrestru â Phorth y Llywodraeth a chaiff enw defnyddiwr a chyfrinair unigryw i'w defnyddio pan fydd angen mynediad ar-lein arnynt. Bydd noddwyr wedyn yn gallu rhyngweithio â WEFO ar-lein er mwyn gwneud nifer o bethau, er enghraifft:

- cwblhau ffurflenni Datganiad o Ddiddordeb;
- llenwi ffurflenni cais sydd wedi'u cwblhau ymlaen llaw;
- edrych ar y Cynllun Busnes diweddaraf ar gyfer eu prosiect;
- cyflwyno dogfennau ategol; ac
- edrych ar unrhyw adroddiadau Erthygl¹⁸⁶ 13 neu 17.

6.80 Ymhlith y buddiannau i noddwyr prosiect mae:

- y defnydd o ffurflenni/dogfennau safonol ar gyfer pob Rhaglen;
- ffurflen gais ar-lein a fydd yn cynnwys data ymlaen llaw;
- cael eu hysbysu drwy gyfrwng e-bost os bydd unrhyw wybodaeth ar y wefan y bydd angen tynnu eu sylw ati neu y bydd angen iddynt weithredu yn ei chylch;
- cael yr holl wybodaeth am y prosiect mewn un man;
- defnydd o Borth y Llywodraeth, sy'n rhoi cryn ddiogelwch; caiff pob noddwr ei wirio yn erbyn 'ffeithiau hysbys' a ddelir gan WEFO.

6.81 Cesglir data monitro ar adeg cyflwyno'r ffurflenni cais sydd wedi'u cwblhau ymlaen llaw. Mae'r data hwn yn faes gorfodol yn y cais. Felly, bydd angen darparu data monitro fel rhan o'r cais er mwyn iddo gael ei dderbyn gan PPIMS fel cais dilys. Mae gan yr Awdurdod Rheoli y gallu hefyd i oedi cyn talu'r buddiolwyr hynny nad ydynt wedi darparu data monitro.

¹⁸⁶ Cyfeiriad at Reoliad Gweithredu (CE) 1828/2006

6.82 Yn ogystal, bydd WEFO yn gallu cael gafael ar wybodaeth reoli er mwyn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'r Comisiwn yn haws, gyda llwybr archwilio clir wedi'i gynnal mewn un lle. Bydd y prosesau sy'n cael eu cynllunio yn cydymffurfio â gofynion yr UE a chânt eu hategu gan system TG a fydd hefyd yn cydymffurfio â'r un gofynion hyn.

Cyfnewid Data Cyfrifiadurol

6.83 Bydd y Comisiwn yn sefydlu system gyfrifiadurol fel y gellir cyfnewid data yn ddiogel rhwng y Comisiwn a WEFO. Bydd WEFO yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r system gyfrifiadurol honno, ac unrhyw waith ailddatblygu mawr. Defnyddir y system gyfrifiadurol i gyfnewid gwybodaeth am y Rhaglen Weithredol fel y nodir yn Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn ac yn Erthygl 37(1)(g)(vi).

6.84 Bydd y Comisiwn a WEFO yn sicrhau y cydymffurfir â darpariaethau'r Gymuned a darpariaethau cenedlaethol ar ddiogelu data personol. Bydd unrhyw wybodaeth a gyfnewidir yn gyfrinachol a chaiff ei diogelu yn yr un modd ag y caiff gwybodaeth debyg ei diogelu gan ddeddfwriaeth genedlaethol y Deyrnas Unedig.

6.85 Yn ogystal, ni ellir defnyddio gwybodaeth at unrhyw ddiben ar wahân i'r un y cytunir arno rhwng WEFO a'r Comisiwn, oni bai bod WEFO wedi rhoi ei chaniatâd penodol, ac ar yr amod nad yw'r darpariaethau sydd mewn grym yng Nghymru yn gwahardd defnydd o'r fath.

6.86 Bydd y system gyfrifiadurol yn cynnwys gwybodaeth sydd o ddiddordeb cyffredin i'r Comisiwn a WEFO. Manylir ar gynnwys y system gyfrifiadurol ar gyfer cyfnewid data yn Erthygl 40 o Reoliad Gweithredu (CE) 1828/2006 a chaiff ei drosglwyddo yn y fformat a roddir yn atodiadau'r Rheoliad Gweithredu. Bydd hyn yn hwyluso trafodion ariannol ac yn caniatáu dull o fonitro.

6.87 Caiff data a gyfnewidir a thrafodion eu llofnodi'n electronig yn unol ag Erthygl 37(1)(g)(vi) a'r Rheoliad Gweithredu. Bydd y Comisiwn yn nodi'r trefniadau ar gyfer defnyddio llofnodion electronig.

6.88 Ystyrir bod dogfen wedi'i hanfon i'r Comisiwn unwaith y bydd wedi cael ei llofnodi gan WEFO yn y system gyfrifiadurol. Mae'r Comisiwn yn cydnabod mai'r dyddiad derbyn gan y Comisiwn fydd y dyddiad y bydd WEFO yn anfon y dogfennau.

6.89 Mewn achosion o force majeure, yn enwedig methiant y system gyfrifiadurol neu gyswllt parhaus, efallai y bydd WEFO yn anfon gwybodaeth a dogfennau i'r Comisiwn ar ffurf copi caled.

6.90 Bydd y Comisiwn yn darparu'r manylebau technegol ar gyfer cyfnewid data a bydd WEFO yn datblygu ei systemau cyfrifiadurol i fodloni'r manylebau hynny.

6.91 Bydd WEFO yn datblygu ei systemau cyfrifiadurol i gadw'r data sy'n ofynnol er mwyn cynnal archwiliad o'i chyfrifon. Bydd WEFO yn sefydlu systemau cyfrifiadurol dibynadwy ar gyfer cyfrifyddu, monitro a chyflwyno adroddiadau ariannol yn unol ag egwyddorion cyffredinol y systemau rheoli yn Erthygl 58.

6.92 Mae WEFO wedi datblygu system gyfrifiadurol newydd, PPIMS (System Rheoli Gwybodaeth Rhaglenni a Phrosiectau) a bydd hon yn cynnwys yr holl ddata sy'n ymwneud â'r trafodion ariannol a gwybodaeth fonitro.

6.93 Drwy dynnu data o'r system PPIMS bydd WEFO yn gallu cyfnewid data â'r Comisiwn gan fodloni Erthygl 66(3) ac Erthygl 37(1)(g)(vi). Bydd WEFO yn defnyddio'r Rhaglen We safonol a ddarperir gan y system SFC2007 sydd newydd ei datblygu gan y Comisiwn. Gellir mynd i wefan y Comisiwn drwy'r Rhynggrwyd (<https>) gan ddefnyddio Internet Explorer ac edrych ar y data drwy'r opsiynau a'r sgriniau yn y ddewislen.

Monitro a Gwerthuso

Cynllun Monitro a Gwerthuso

6.94 Caiff y cynlluniau manwl ar gyfer monitro a gwerthuso eu nodi mewn Cynllun Monitro a Gwerthuso, fel y nodir yn Erthygl 48(1). Caiff y cynllun ei gyhoeddi ar wefan WEFO a'i ddiweddarau'n rheolaidd. Ceir crynodeb o'r Cynllun Monitro a Gwerthuso ym mharagraffau 6.96 i 6.120 ac yn Atodiad LI.

Monitro

6.95 Mae Erthygl 66 yn datgan y bydd yr Awdurdod Rheoli a'r Pwyllgor Monitro yn cynnal y gwaith monitro drwy gyfeirio at y dangosyddion ariannol a'r dangosyddion y cyfeirir atynt yn Erthygl 37(1)(c), ac a nodir yn y Rhaglen Weithredol o dan yr Echelau Blaenoriaeth (Pennod 4).

6.96 Mae'r Rhaglen Weithredol yn cynnwys dangosyddion olrhain lefel uchel (y cyfeirir atynt hefyd fel dangosyddion cyd-destun) a dangosyddion rhaglen (ar lefel Blaenoriaeth ac wedi'u cyfuno â lefel rhaglen).

6.97 Daw'r dangosyddion olrhain lefel uchel o Ddangosyddion Strwythurol Lisboa sydd ar y rhestr fer a strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymru: Economi yn Ffynnu (gweler Strategaeth - Pennod 3). Fe'u defnyddir i fonitro newidiadau yng nghyd-destun economaidd-gymdeithasol y rhaglen ac fe'u diweddarir lle y bo'n briodol yn yr Adroddiad Gweithredu Blyneddol.

6.98 Mae dangosyddion rhaglenni yn ymwneud ag effeithiau'r ymyriad. Maent yn perthyn i dri chategori: cynnyrch (gweithgarwch); canlyniad; ac effaith, ac fe'u cysylltir â'i gilydd mewn cadwyn resymegol. Pennir y dangosyddion hyn ar lefel Blaenoriaeth ac fe'u dewiswyd yn ofalus i adlewyrchu lled blaenoriaethau unigol, tra'n canolbwyntio ar yr amcanion blaenoriaeth allweddol a'r themâu trawsbynciol. Drwy fonitro yn erbyn y dangosyddion hyn, gellir asesu cynnydd y Rhaglen, gan gynorthwyo felly â'r gwaith o reoli'r Rhaglen. Pennwyd targedau yn erbyn y dangosyddion lefel Blaenoriaeth lle y gellir pennu targedau ystyrlon.

6.99 Bydd yn ofynnol i brosiectau gyflwyno adroddiad yn erbyn yr holl ddangosyddion perthnasol a, lle y bo'n berthnasol, roi gwybodaeth lefel cyfranogwyr sy'n ofynnol o dan Erthygl 66(2) o Reoliad Cyffredinol 1083/2006 ac

Atodiad XXIII o Reoliad Gweithredu 1828/2006. Bydd prosiectau yn cytuno â'r Awdurdod Rheoli ar yr amserlenni ar gyfer cyflwyno adroddiad ar y data monitro pan fydd y prosiect yn cael ei ddatblygu.

Cyflwyno Adroddiadau

6.100 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn casglu data ar gynnyrch a chanlyniadau yn rheolaidd gan reolwyr prosiect drwy ddefnyddio ei system gweinyddu grantiau, PPIMS, er mwyn rhoi darlun cyfredol o gyflawniadau a ragwelir a chyflawniadau gwirioneddol. Caiff y data hwn ei ddadansoddi'n rheolaidd gan yr Awdurdod Rheoli a chyflwynir adroddiad arno, fel y bo'n briodol, i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni. Bydd y dadansoddiadau hyn yn ategu'r angen, pe bai'n codi, i gynnal gwerthusiad o dan Erthygl 48(3) - gweler 6.111. Caiff y cynnydd o ran y dangosyddion effaith ei asesu drwy werthusiadau ac fe'u llywir gan y data ar gynnyrch a chanlyniadau.

6.101 Mae Erthygl 9(3) yn pennu targedau ar gyfer gwariant ar gyfer blaenoriaethau penodedig. Mae Atodiad IV yn cynnwys categorïau o wariant i helpu i sicrhau gwariant tuag at y targedau hynny. Defnyddir y categorïau hyn i gyflwyno adroddiad ar y modd y mae'r rhaglen yn targedu cymorth tuag at flaenoriaethau'r UE o ran creu swyddi, yn cynnwys cyflawni amcanion y Canllawiau Integredig ar gyfer Twf a Swyddi (2005 i 2008).

6.102 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau bod adroddiadau ar gael i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni er mwyn iddo allu bodloni ei hun ynghylch effeithiolrwydd ac ansawdd y broses o roi'r Rhaglen Weithredol gyfan ar waith.

Adroddiadau Gweithredu Blynyddol

6.103 Yn unol ag Erthygl 67 bydd yr Awdurdod Rheoli yn anfon Adroddiad Gweithredu Blynyddol yn electronig i'r Comisiwn o fewn chwe mis i ddiwedd pob blwyddyn galendr lawn o weithredu. Caiff yr Adroddiad ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i is-bwyllgorau lle y bo'n briodol; yn unol ag Erthygl 65(d). Disgwylir yr adroddiad cyntaf erbyn 30 Mehefin 2008.

6.104 Mae'r Adroddiad Gweithredu Blynyddol yn hanfodol er mwyn adolygu cynnydd y Rhaglen. Yn unol ag Erthygl 67 bydd yn cynnwys manylion ynghylch:

- y cynnydd wrth roi'r Rhaglen Weithredol a'i Blaenoriaethau ar waith ynghyd â meintoliad o'r dangosyddion y cyfeirir atynt yn Erthygl 37(1)(c) ar lefel Blaenoriaeth;
- y broses o roi'r Rhaglen Weithredol ar waith o safbwynt ariannol, ynghyd â'r manylion canlynol ar gyfer pob Blaenoriaeth:
 - y gwariant a dalwyd gan y buddiolwyr a gynhwyswyd mewn ceisiadau am daliadau a anfonwyd i'r Awdurdod Rheoli a chyfraniad cyfatebol y cyhoedd;
 - cyfanswm y taliadau a dderbyniwyd gan y Comisiwn a meintoliad o'r dangosyddion ariannol y cyfeirir atynt yn Erthygl 66(2);

- y gwariant a dalwyd gan y corff sy'n gyfrifol am wneud taliadau i'r buddiolwyr;
- er gwybodaeth yn unig, y dadansoddiad dangosol o'r dyraniad o Gronfeydd fesul categori, yn unol â'r rheolau gweithredu a fabwysiadwyd gan y Comisiwn y cyfeirir atynt yn Erthygl 103(3);
- y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod Rheoli a'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni i sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd y broses weithredu. Mae hyn yn cynnwys monitro a gwerthuso, a threfniadau i gasglu data, manylion unrhyw broblemau mawr a gafwyd wrth roi'r Rhaglen Weithredol ar waith a'r camau a gymerwyd mewn ymateb a'r defnydd a wnaed o Gymorth Technegol;
- y mesurau a gymerwyd i roi gwybodaeth am y Rhaglen Weithredol ac i roi cyhoeddusrwydd iddi;
- manylion unrhyw broblemau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfraith y Gymuned a gafwyd wrth roi'r Rhaglen Weithredol ar waith a'r mesurau a gymerwyd i ddelio â hwy;
- cynnydd unrhyw brosiectau mawr a'r broses o'u hariannu;
- gwybodaeth am y cyfraniad at y fenter Regions for Economic Change;
- y defnydd a wnaed o Gymorth Technegol;
- y defnydd a wnaed o gymorth a roddwyd yn dilyn y cywiriadau ariannol a oedd yn ofynnol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra unigol neu systemig wrth roi'r Rhaglen ar waith, yn unol ag Erthygl 98(2);
- achosion lle y gwnaed addasiad sylweddol o dan Erthygl 57.

Adolygiad Blynyddol

6.105 Ar ôl derbyn Adroddiad Gweithredu Blynyddol fel y nodir uchod, bydd y Comisiwn a'r Awdurdod Rheoli yn archwilio'r cynnydd a wnaed wrth roi'r Rhaglen Weithredol ar waith gan gynnwys y prif ganlyniadau a gyflawnwyd dros y flwyddyn flaenorol, gweithrediad ariannol, ac unrhyw faterion eraill.

6.106 Efallai y bydd y Comisiwn am roi sylwadau ar y broses o roi'r Rhaglen ar waith i'r Awdurdod Rheoli, a fydd yn hysbysu'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i is-bwyllgorau o'r sylwadau lle y bo'n briodol, ac yn rhoi ymateb a fydd yn cynnwys y camau a gymerir mewn ymateb.

Adroddiad Gweithredu Terfynol

6.107 Caiff Adroddiad Gweithredu Terfynol, fel sy'n ofynnol o dan Erthygl 67(1), ei gyflwyno i'r Comisiwn erbyn 31 Mawrth 2017. Mae'r un cynnwys a gweithdrefn (yr Awdurdod Rheoli yn cyflwyno'r adroddiad i'r Comisiwn ar ôl i'r Pwyllgor

Monitro Rhaglenni ei ystyried a'i gymeradwyo) yn berthnasol i'r adroddiad terfynol hwn ag sy'n berthnasol i'r Adroddiadau Gweithredu Blyneddol. Fodd bynnag, ar gyfer yr Adroddiad Gweithredu Terfynol ar Raglen Weithredol, y terfyn amser fydd uchafswm o bum mis i'r dyddiad y derbyniwyd adroddiad derbyniol. Os na fydd y Comisiwn yn ymateb o fewn y terfyn amser, tybir nad yw'r adroddiad wedi'i dderbyn.

Gwerthuso

6.108 Mae tri maes allweddol ar gyfer gwerthuso'r Rhaglen Weithredol, sef: lefel Rhaglen; fframwaith strategol; a lefel prosiect.

Gwerthusiad ar Lefel Rhaglenni

6.109 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau (Erthyglau 47 a 48) y caiff gwerthusiadau o'r Rhaglen Weithredol eu cynnal drwy gyfres o 'werthusiadau parhaus', gan ymateb i anghenion polisi a rhaglennu. Bydd y gwerthusiadau hyn yn gysylltiedig â dull monitro rhaglenni, yn enwedig lle y bydd y dull hwnnw'n datgelu gwriad sylweddol o'r nodau cychwynnol. Cynhelir gwerthusiad hefyd lle y bwriedir newid cynllun rhaglen yn sylweddol neu lle y mae unrhyw newidiadau amlwg yn yr amgylchedd allanol.

6.110 Bydd gwerthusiadau ar lefel raglenni yn ystyried y materion canlynol: Perthnasedd; Effeithiolrwydd; Effeithlonrwydd; Defnyddioldeb; Cynaliadwyedd; a Synergedd. Yn unol ag Erthygl 48(3) caiff canlyniadau'r gwerthusiadau hyn eu hanfon i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'r Comisiwn. Mae Atodiad Ll yn cynnwys crynodeb o'r gwerthusiadau dangosol ar lefel Rhaglenni.

6.111 Cynhaliwyd y Rhagwerthusiadau (Erthygl 48) ar gyfer y Rhaglen Gydgyfeirio (ERDF ac ESF) i sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu yn y ffordd orau posibl ac i sicrhau ansawdd cynlluniau ar gyfer gweithredu'r rhaglen. Proses ryngweithiol ydoedd, gyda'r ymgynghorwyr (a benodwyd yn unol â gofynion caffael y sector cyhoeddus) yn rhoi sylwadau ar ddrafftiau cynnar o ddogfennau'r rhaglen a diwygiadau'n cael eu gwneud yn sgîl y sylwadau hyn.

6.112 Caiff y Rhagwerthusiad, Erthygl 49(3), ei gynnal gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn cydweithrediad agos â'r Awdurdod Rheoli.

Gwerthusiad ar Lefel Fframwaith Strategol a Lefel Prosiectau

6.113 Caiff y gweithgarwch gwerthuso ar lefel rhaglenni ei ategu gan werthusiad ar lefel Fframwaith Strategol a lefel prosiectau. Mae cyflwyno adroddiadau yn erbyn y dangosyddion monitro yn rhan o'r gwaith o asesu cynnydd ac effaith prosiectau. Am y rheswm hwn, bydd yn ofynnol i holl noddwyr prosiectau gynnal neu gomisiynu gwerthusiadau o'u prosiectau. Bydd graddau'r gweithgarwch gwerthuso yn gymesur â maint neu risg y prosiect a chytunir arno gyda'r prosiect yn ystod y cam datblygu. Tybir bod costau sy'n gysylltiedig â chynnal y gwerthusiad yn gostau cymwys. Bydd yn ofynnol i'r holl noddwyr prosiect y dyfernir grant o £2 filiwn neu fwy iddynt (ESF neu ERDF) ar gyfer un prosiect a phob prosiect sy'n ymwneud â gweithredu camau arloesol neu arbrolfol â

chymorth ERDF, sicrhau bod eu prosiectau'n cael eu gwerthuso'n allanol gan gontractwyr annibynnol.

6.114 Bydd gwerthuso effeithiolrwydd strategaethau Fframwaith Strategol yn hanfodol i lywio unrhyw adolygiadau fframwaith a wneir yn ystod cyfnod y rhaglen.

6.115 O ganlyniad i'r gofynion ychwanegol hyn, datblygir canllawiau i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu cynlluniau gwerthuso a dewis dulliau gwerthuso priodol yn ystod cam datblygu'r prosiect. Drwy gydol y cyfnod rhaglennu bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau bod ansawdd sampl o werthusiadau ar lefel prosiectau yn cael ei asesu er mwyn sicrhau bod gwerthusiadau o ansawdd cadarn addas.

Rheoli Dulliau Monitro a Gwerthuso

6.116 Cynhelir gwerthusiadau allanol gan arbenigwyr neu gyrff, rhai mewnol (er enghraifft Swyddfa'r Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol, yr Is-adran Cyngor Economaidd neu'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol) neu allanol, sy'n annibynnol ar yr Awdurdodau Rheoli, Ardystio ac Archwilio.

6.117 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn bennaf gyfrifol am fonitro a gwerthuso ar lefel rhaglenni ac am sicrhau y rhoddir cyngor a chanllawiau a chymorth ar fonitro a gwerthuso Fframweithiau Strategol a phrosiectau.

6.118 Cynhelir y gwerthusiadau mewn partneriaeth felly caiff y gwaith ei oruchwylio gan Grŵp Cyngori ar Werthusiadau (gweler 6.30-6.31: Gwerthusiad o'r Rhaglen Weithredol).

6.119 Caiff y Cynllun Monitro a Gwerthuso ei gyflwyno i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni er mwyn iddynt ei ystyried. Caiff adroddiadau terfynol ar yr holl waith ymchwil a wnaed ac a gomisiynwyd i fodloni gofynion y cynllun eu cyflwyno i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni a'i is-bwyllgorau lle y bo'n briodol, ac i'r Comisiwn.

Mesurau ar gyfer Monitro'r Rhaglen mewn perthynas â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol

6.120 Bydd yr Awdurdod Rheoli, yn unol ag Erthygl 10 o Gyfarwyddeb (CE) 2001/42/EC, yn monitro effeithiau amgylcheddol sylweddol y Rhaglen Gydgyfeirio er mwyn nodi unrhyw effeithiau niweidiol nas rhagwelwyd, ac er mwyn cymryd camau unioni priodol. Gwneir y gwaith monitro ar dair lefel.

6.121 Yn gyntaf, mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi awgrymu detholiad o ddangosyddion olrhain y gellir eu defnyddio i fonitro perfformiad amgylcheddol yr ardal Gydgyfeirio. Fel y nodir yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, mae'n annhebygol y byddai unrhyw effaith niweidiol sylweddol a nodir gan y dangosyddion hyn yn deillio o weithgareddau a gefnogir gan y Rhaglen Gydgyfeirio. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod Rheoli yn monitro yn erbyn y dangosyddion hyn, lle y bo'n briodol, i nodi newidiadau sy'n digwydd a chysylltiadau posibl â gweithgareddau'r rhaglen. Fel y nodir yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol, gellir cael data ar gyfer y mwyafrif o'r dangosyddion hyn

o ffynonellau sydd ar gael yn hawdd. Cyflwynir adroddiad ar berfformiad yn erbyn y dangosyddion hyn yn yr Adroddiadau Gweithredu Blynyddol.

6.122 Yn ail, caiff effeithiolrwydd y broses o brif ffrydio Cynaliadwyedd Amgylcheddol fel Thema Drawsbynciol (a ddisgrifir yn fanwl ym Mhennod 5) ei asesu drwy'r dangosyddion lefel Blaenoriaeth perthnasol. Cyflwynir adroddiad ar gynnydd yn erbyn y dangosyddion lefel Blaenoriaeth hefyd yn yr Adroddiadau Gweithredu Blynyddol. At hynny, trafodir cynnydd yn erbyn y dangosyddion hyn yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

6.123 Yn drydydd, mae'r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cynnig gwirio meini prawf er mwyn arfarnu priodoldeb gweithgareddau a gefnogir yn unigol lle y byddent yn arwain at ddatblygiad ffisegol. Defnyddir y meini prawf hyn, lle y bo'n briodol, ar gam datblygu'r prosiect, fel y gellir rheoli effeithiau niweidiol posibl gweithgareddau a gefnogir yn briodol. Ni chaiff prosiectau sydd ag effeithiau negyddol sylweddol na ellir eu lliniaru ac sy'n drech na'r buddiannau cadarnhaol eu cefnogi gan y Rhaglen. Bydd gweithdrefnau ar waith i ganfod unrhyw brosiect sy'n cael effaith negyddol bosibl ar safleoedd Natura 2000 a safleoedd eraill a ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur. Byddai WEFO yn craffu ar y rhain mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Amgylcheddol Cymwys er mwyn sicrhau na chefnogir unrhyw weithgareddau a fydd yn achosi niwed i safleoedd dynodedig. Bydd y broses arfarnu hefyd yn cwmpasu cyfleoedd i atgyfnerthu'r agweddau amgylcheddol ar brosiectau a bydd y canllawiau sy'n cael eu datblygu yn rhoi cyngor ar sut y caiff hyn ei gyflawni a sut y caiff ei fonitro.

Cyhoeddusrwydd a Gwybodaeth

6.124 Bydd mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd i'w cymryd gan Aelod-Wladwriaethau ac Awdurdodau Rheoli ynglŷn â chymorth gan y Cronfeydd Strwythurol yn cydymffurfio â darpariaethau Erthygl 69 ac unrhyw reolau a fabwysiadwyd oddi tani, a Phennod II o'r Rheoliadau Gweithredu.

6.125 Mae'r Rheoliadau Gweithredu yn cyflwyno methodoleg a dull gweithredu cyffredin i'r sawl sy'n gyfrifol am gymryd mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, sy'n ystyried sefyllfa benodol pob Aelod-Wladwriaeth. Bydd yr Awdurdod Rheoli sy'n gyfrifol am roi'r rhaglen ar waith yn gyfrifol am unrhyw ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yn y fan a'r lle. Cynhelir ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ar y cyd â'r Comisiwn Ewropeaidd, a gaiff ei hysbysu o'r mesurau a gymerir at y diben hwn.

6.126 Caiff y mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd a roddir ar waith eu cyflwyno ar ffurf strwythuredig ('Cynllun Cyfathrebu'), a byddant yn nodi'n glir y nodau cyffredinol a'r grwpiau targed; rhaglen o weithgarwch gwybodaeth a chyhoeddusrwydd; cyllideb ddangosol a dulliau cyflwyno; y cyfrifoldeb am ddarparu'r gweithgaredd a ffyrdd y caiff y gweithgarwch ei fonitro a'i werthuso. Cyhoeddir y Cynllun Cyfathrebu ar wefan WEFO ar ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd asesu'r Cynllun. Cyflwynir y Cynllun Cyfathrebu i'r Comisiwn er mwyn iddo ei ystyried o fewn pedwar mis i fabwysiadu'r Rhaglen Weithredol.

6.127 Bydd gweithgarwch cyfathrebu yn egluro'r cyfleoedd ariannu a gynigir gan y Rhaglen Weithredol, a bydd hefyd yn codi ymwybyddiaeth o'r modd y byddant

yn sicrhau buddiannau a gwerth ychwanegol i Orllewin Cymru a'r Cymoedd, a rôl yr UE yn y broses datblygu rhanbarthol yng Nghymru. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau tryloywder yn y cymorth a ddarperir gan y cronfeydd yn ei weithgarwch cyfathrebu.

6.128 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn sicrhau bod canllawiau cyhoeddusrwydd digonol ar gael ar gyfer noddwyr prosiectau a bod noddwyr prosiectau yn bodloni'r gofynion a roddir arnynt gan Reolau'r Comisiwn (Erthygl 69(1) a'r Rheoliadau Gweithredu) i roi cyhoeddusrwydd i'r arian a dderbynnir gan y rhaglen Cronfeydd Strwythurol.

6.129 Caiff y symiau a neilltuir i gefnogi gwaith yr Awdurdod Rheoli i ledaenu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a dulliau cyfathrebu o ran gwybodaeth a chyhoeddusrwydd eu nodi yn y Flaenoriaeth Cymorth Technegol.

6.130 Bydd yr Awdurdod Rheoli yn penodi un neu fwy o bobl i fod yn gyfrifol am weithredu mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, a bydd yn hysbysu'r Comisiwn o'r rhai a gaiff eu penodi.

PENNOD 7: Darpariaethau Ariannol

7.1 Mae *Canllawiau Strategol y Gymuned* yn pwysleisio pwysigrwydd canolbwyntio adnoddau yn thematig ac yn ddaearyddol ar y buddsoddiadau sy'n sylfaenol er mwyn cynyddu natur gystadleuol, lefel y swyddi a grëir a datblygu cynaliadwy yn yr hirdymor. Wrth benderfynu ar y ffordd orau o ddyrannu adnoddau i ategu'r rhaglen Gydgyfeirio, ystyriwyd nifer o faterion. Ymhlith y rhain mae:

- blaenoriaethau'r rhaglen a sut y gall y Cronfeydd Strwythurol gyfrannu orau at y gwaith o fynd i'r afael â'r rhain mewn ffyrdd sy'n ychwanegu gwerth at strategaethau a chymau presennol;
- y gofyniad i 'glustnodi' adnoddau yn erbyn blaenoriaethau sy'n ategu strategaeth Lisboa;
- gwersi a ddysgwyd o brofiad blaenorol o effeithiolrwydd Rhaglen Amcan Un 2000-2006;
- yr ymatebion o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Rhaglen Weithredol ddrafft;
- y gallu i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael o fewn yr amserlen N+2 sy'n ofynnol o dan y rheoliadau;
- yr arian cyfatebol sydd ar gael;
- gofynion cymorth gwladwriaethol;
- y rhyngwyneb â rhaglenni Ewropeaidd eraill fel y Gronfa Amaethyddol Ewropeaidd ar gyfer Datblygu a Chronfa Pysgodfeydd Ewrop.

7.2 Mae polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu economaidd a nodir yn *Cymru: Economi yn Ffynnu* yn unol ag agenda Lisboa. Mae'r agenda hon yn galw am gynnydd mewn adnoddau mewn meysydd fel ymchwil a datblygu ac arloesedd, TGCh, defnydd cynaliadwy o adnoddau, sgiliau a chyflogaeth a rhai agweddau ar seilwaith strategol. Ar yr un pryd mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod buddsoddiadau sy'n gysylltiedig ag agweddau ar adfywio trefol a gwledig, datblygu economaidd cymunedol, diogelwch amgylcheddol ac atal peryglon, rheoli gwastraff, twristiaeth, a diwylliant yn parhau'n ffactorau pwysig wrth ddenu swyddi a hybu twf, er na fyddant yn cyfrannu'n uniongyrchol at dargedau clustnodi Lisboa fel y'u diffinnir yn y Rheoliad Cyffredinol.

7.3 Mae'r Tablau Ariannol isod yn dangos sut y caiff gwariant y rhaglen ei ddyrannu ar draws y blaenoriaethau amrywiol. Wrth baratoi'r tablau hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ystyried y Canllawiau Integredig ar gyfer Swyddi a Twf, yn ogystal â Chanllawiau Strategol y Gymuned, y mae'r ddau yn pwysleisio pwysigrwydd cyfeirio gwariant at feysydd a fydd yn ysgogi economi gystadleuol, a lywir gan wybodaeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi ystyried asesiad y Comisiwn Ewropeaidd o *Raglen Ddiwygio Genedlaethol* y

DU fel y nodir yn Adroddiad Cynnydd Blyneddol 2006 ar Dwf a Swyddi: "Time to move up a gear". Daeth hwn i'r casgliad bod angen i'r DU roi mwy o sylw i'r blaenoriaethau canlynol:

- hybu ymchwil a datblygu ac arloesedd;
- gwella seilwaith trafnidiaeth;
- mynd i'r afael â heriau sgiliau; a
- gwella cyfleoedd pobl o dan yr anfantais fwyaf i gael cyflogaeth.

7.4 Yn gyffredinol, o gymharu â'r Rhaglen Amcan Un gyfredol, ceir symudiad mewn adnoddau tuag at feysydd gwariant sy'n cefnogi agenda Lisboa yn uniongyrchol - mae hyn wrth wraidd gweledigaeth y rhaglen i barhau â'r gwaith o drawsnewid economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Gan edrych ar bob Blaenoriaeth yn ei thro:

Blaenoriaeth 1: Datblygu'r Economi Wybodaeth - Nod y Flaenoriaeth hon yw hyrwyddo economi gwerth ychwanegol uchel drwy wella gwybodaeth ac arloesedd ar gyfer twf, hybu ymchwil a datblygu, arloesedd a thechnoleg a'u defnyddio'n fasnachol a gwella'r cyfle i gael gafael ar TGCh a'r defnydd a wneir ohono. Dengys y Dadansoddiad (Pennod 2) yn y Rhaglen hon fod gan Orllewin Cymru a'r Cymoedd gynnyrch arbennig o isel y pen sy'n adlewyrchu cymysgedd cymhleth o ffactorau diwydiannol a galwedigaethol. Dyrennir cyfran gymharol isel o CMC yng Nghymru i weithgareddau ymchwil a datblygu, ac mae'r diffyg hwn yn amlwg iawn yn y sector busnes. O ystyried pwysigrwydd ymchwil a datblygu i sicrhau twf a datblygiad yn y dyfodol, ac yn unol ag agenda Lisboa, mae'r Rhaglen hon yn cynnig cynnydd sylweddol yn yr adnoddau a ddyrennir i'r gweithgareddau hyn o gymharu â'r rhaglen gyfredol, gydag ystod o weithgareddau a nodir ym Mhennod 4 yn cynnwys ehangu'r rhyngwyneb allweddol rhwng addysg a diwydiant a datblygu ein gallu i ymateb i gyfleoedd TGCh.

Blaenoriaeth 2: Gwella Natur Gystadleuol Busnesau - Nod y Flaenoriaeth hon yw atgyfnerthu'r economi o ran cynyddu maint ac ehangu ystod busnesau drwy fynd i'r afael â methiannau yn y farchnad mewn perthynas â chynghor, gwybodaeth a chyllid i fusnesau. Ceir tystiolaeth o fwlch entrepreneuriaeth yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, er nad yw'r data yn gadarn. Bydd yn bwysig parhau i fynd i'r afael â hyn, yn ogystal â chynorthwyo busnesau o bob maint i gystadlu yn y farchnad fyd-eang gystadleuol. Defnyddir ystod o fesurau cyngor busnes a chymorth ariannol er mwyn cyflawni'r Flaenoriaeth hon, ac mae'r adnoddau sylweddol a ddyrennir i'r flaenoriaeth yn adlewyrchu ei phwysigrwydd. Ceir rhywfaint o ostyngiad yn yr adnoddau a ddarperir i'r gweithgaredd hwn o gymharu â'r rhaglen ddiwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r farn y dylid cymhwyso adnoddau ychwanegol i weithgareddau Blaenoriaeth Un sy'n hanfodol i gyflawni agenda Lisboa, ynghyd â chydabyddiaeth bod lle i ad-drefnu faint o gyngor busnes a roddir heb gael effaith niweidiol sylweddol ar ansawdd cyffredinol y cyngor a roddir, tra'n ceisio cyfeirio'r cynnyrch a gyflawnir yn well.

Blaenoriaeth 3: Datblygu'r Seilwaith Strategol ar gyfer economi fodern - Nod y Flaenoriaeth hon yw rhoi'r seilwaith ffisegol sydd ei angen ar y rhanbarth er mwyn datblygu economi fodern a chystadleuol. Un o'r prif ffactorau sy'n sail i'r cynnyrch cymharol isel y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yw anallu i fanteisio ar effeithiau crynhoi cryf yn sgîl y ffaith bod trefi a dinasoedd Cymru yn gymharol fach a bod llawer o Orllewin Cymru a'r Cymoedd yn brin ei boblogaeth ac yn bell o ganolfannau mawr. Dangosir hyn yn glir yn y dadansoddiad. Nod y Flaenoriaeth yw gwneud buddsoddiadau strategol mewn trafndiaeth a fydd yn cynyddu hygyrchedd o fewn y rhanbarth, er mwyn galluogi unigolion i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a hefyd i alluogi busnesau i fanteisio ar farchnadoedd mewn mannau eraill yn y DU ac ar dir mawr Ewrop. Mae'r prif ffocws ar ddatblygu a gweithredu atebion trafndiaeth integredig cynaliadwy, buddsoddiadau strategol yn y rhwydwaith trafndiaeth TEN-T, darparu safleoedd ac adeiladau strategol a datblygu nifer gyfyngedig iawn o sefydliadau addysgol sy'n gallu cael effaith economaidd uniongyrchol a sylweddol. Mae mwy o dystiolaeth ar gael ar effeithiau crynhoi ers datblygu rhaglen Amcan 1, ac mae'n glir bod buddsoddiadau o'r fath mewn trafndiaeth a wnaed yn y rhaglen gyfredol wedi bod yn effeithiol iawn. Awgryma'r cynigion felly y dylid cyfeirio gwariant at Drafnidiaeth a bod y drafnidiaeth honno yn canolbwyntio ar atebion trafndiaeth cynaliadwy sy'n ystyriol o agenda Lisboa.

Blaenoriaeth 4: Creu Amgylchedd Busnes Deniadol - Nod y Flaenoriaeth hon yw hybu twf busnes cynaliadwy a chyfleoedd busnes newydd mewn perthynas â heriau a chyfleoedd amgylcheddol yn y dyfodol. Mae adran y dadansoddiad yn nodi'r angen clir i Gymru leihau ei gollyngiadau nwyon tŷ gwydr a gwella ei pherfformiad mewn perthynas â rheoli yn sylweddol. Mae llawer o amgylchedd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o ansawdd amgylcheddol uchel a cheir morlin, mynyddoedd ac afonydd deniadol. Prif ffocws y gweithgaredd o fewn y Flaenoriaeth hon yw datblygu ynni adnewyddadwy, lleihau gwastraff a helpu i liniaru rhai o ganlyniadau newid yn yr hinsawdd, a hefyd i fanteisio ar y cyfleoedd sylweddol sy'n bodoli ar gyfer gweithgarwch economaidd sy'n dibynnu ar fodolaeth amgylchedd o ansawdd uchel a chynnal yr amgylchedd hwnnw. Yn sgîl yr ystyriaethau hyn cafwyd cynnydd sylweddol iawn yn yr adnoddau a ddyrannwyd i'r Flaenoriaeth hon o gymharu â'r hyn a ddyrannwyd yn y rhaglen ddiwethaf, a cheir mwy o bwyslais ar weithgareddau ynni adnewyddadwy.

Blaenoriaeth 5: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy - Nod y Flaenoriaeth hon yw cefnogi strategaethau a dulliau gweithredu integredig o ran adfywio, er mwyn datblygu economïau lleol lle y gall cymunedau ffynnu a chynnal eu hunain. Mae'r Dadansoddiad o fewn y rhaglen yn dangos yr ystod eang o wahaniaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y mae cymunedau ledled Cymru yn eu hwynebu. Nod y Flaenoriaeth hon yw sicrhau cymunedau bywiog a chynaliadwy a chreu naws gref am 'le' a nodwyd yn gynyddol fel ffactor pwysig o ran datblygu economaidd ac adfywio. Bydd llawer o'r gweithgarwch hwn yn canolbwyntio ar adfywio ffisegol, yn cynnwys adnewyddu canol trefi, gyda rhywfaint o gymorth pellach yn cael ei ddarparu ar gyfer datblygu economaidd cymunedol. Yn unol â'r ffocws cryfach yn y rhaglen ar agenda Lisboa caiff gwariant ym maes adfywio a datblygu economaidd cymunedol ei leihau o gymharu â'r rhaglen gyfredol a cheir newid pwyslais i adlewyrchu pwysigrwydd ymyriadau sy'n cyfrannu'n fwy uniongyrchol at swyddi a thwf.

Tabl 22: Rhaglen Gydgyfeirio ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2007-2013
Cyfeirnod y Rhaglen Weithredol (Rhif CCI) 2007UK161PO002
Echelau blaenoriaeth yn ôl ffynhonnell ariannu (mewn miliynau ewro)

		Arian Cymunedol	Gwrthran Genedlaethol	Dadansoddiad dangosol o'r wrthran genedlaethol		Cyfanswm yr Arian	Cyfradd Cyd-Ariannu	Er gwybodaeth	
		(a)	(b) = (c) + (d)	Arian Cyhoeddus Cenedlaethol (c)	Arian Preifat Cenedlaethol (d)	(e)=(a)+(d)	(f)=(a) / (e)	Cyfraniad EIB	Arian Arall
B1	Blaenoriaeth 1 Ymchwil a Datblygu, Arloesi a TGCh	€313,878,019.00	€244,709,467.00	€164,275,165.00	€80,434,302.00	€558,587,486.00	56.19%	€11,683,345.00	€0
B2	Blaenoriaeth 2 Cyllid Mentrau a Busnesau	€192,778,000.00	€190,072,990.00	€121,196,140.00	€68,876,850.00	€382,850,990.00	50.35%	€40,786,767.00	€0
B3	Blaenoriaeth 3 - Seilwaith Trafnidiaeth a Strategol	€330,823,802.00	€247,810,005.00	€237,383,721.00	€10,426,284.00	€578,633,807.00	57.17%	€0	€0
B4	Blaenoriaeth 4 - Ynni a'r Amgylchedd	€229,898,349.00	€156,402,059.00	€123,962,861.00	€32,439,198.00	€386,300,408.00	59.51%	€0	€0
B5	Blaenoriaeth 5 - Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy	€158,000,019.00	€65,995,723.00	€60,729,440.00	€5,266.283.00	€223,995,742.00	70.54%	€0	€0
B6	Blaenoriaeth 6 Cymorth technegol	€25,000,000.00	€20,259.046.00	€20,259,046.00	€0	€45,259,046.00	55.24%		
	CYFANSWM	€1,250,378,189.00	€925,249,290.00	€727,806,373.00	€197,442,917.00	€2,175,627,479.00	57.47%	€52,470,112	€0

TABL 23: Rhaglen Gydgyfeirio ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2007-2013
Cyfeirnod y Rhaglen Weithredol (Rhif CCI) 2007UK161PO002

Ffynhonnell y rhaglen yn ôl blwyddyn (mewn ewros)

	Arian Cymunedol
2007	€ 168,190,816.00
2008	€ 171,554,632.00
2009	€ 174,985,725.00
2010	€ 178,485,440.00
2011	€ 182,055,149.00
2012	€ 185,696,251.00
2013	€ 189,410,176.00
Cyfanswm 2007-2013	€ 1,250,378,189.00

Tabl 24: Dyroniadau dangosol yn ôl categori o ymyriad¹⁸⁷

Tabl 1 CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN THEMA FLAENORIAETH		
Cod	Disgrifiad	Swm y Gymuned
	<i>Ymchwil a datblygu technolegol, arloesedd ac entrepreneuriaeth</i>	
01	Gweithgareddau ymchwil a datblygu technolegol mewn canolfannau ymchwil	31,387,802
03	Trosglwyddo technoleg a gwella rhwydweithiau cydweithredu	78,469,505
04	Cymorth ar gyfer ymchwil a datblygu technolegol mewn busnesau bach a chanolig (yn cynnwys defnyddio gwasanaethau ymchwil a datblygu technolegol mewn canolfannau ymchwil)	47,081,703
05	Gwasanaethau cymorth datblygedig ar gyfer cwmnïau a grwpiau o gwmnïau	90,605,660
06	Cymorth i fusnesau bach a chanolig i hyrwyddo cynnyrch a phrosesau cynhyrchu ecogyfeillgar (.)	9,195,934
07	Buddsoddiad mewn cwmnïau sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag ymchwil ac arloesedd (.)	69,053,164
09	Mesurau eraill i ysgogi ymchwil ac arloesedd ac entrepreneuriaeth mewn busnesau bach a chanolig	184,878,291
10	Seilwaith ffôn (yn cynnwys rhwydweithiau band eang)	28,000,000
	<i>Cymdeithas wybodaeth</i>	
11	Technolegau gwybodaeth a chyfathrebu (.)	25,110,241
13	Gwasanaethau a rhaglenni i ddinasyddion (e-iechyd, e-lywodraeth, e-ddysgu, e-gynhwysiant, ac ati)	15,693,901
14	Gwasanaethau a rhaglenni i fusnesau bach a chanolig (e-fasnach, addysg a hyfforddiant, rhwydweithio, ac ati)	19,081,703
	<i>Trafnidiaeth</i>	
16	Rheilffyrdd	52,931,808
21	Priffyrdd (TEN-T)	33,082,380
24	Llwybrau beicio	3,308,238
26	Trafnidiaeth amlfoddol	79,397,713
30	Porthladdoedd	3,308,238
	<i>Ynni</i>	
33	Trydan	2,298,983
39	Ynni adnewyddadwy: gwynt	11,494,917

¹⁸⁷ Categorïau gwariant dangosol yw'r rhain a bwriedir iddynt gael eu defnyddio at ddiben gwybodaeth yn unig

40	Ynni adnewyddadwy: solar	4,597,967
41	Ynni adnewyddadwy: biomas	6,896,950
42	Ynni adnewyddadwy: hydro-electrig, geothermol ac eraill	13,793,901
43	Effeithlonrwydd ynni, cyd-gynhyrchu, rheoli ynni	39,082,719
	<i>Diogelu'r amgylcheddol ac atal risgiau</i>	
44	Rheoli gwastraff cartrefi a gwastraff diwydiannol	16,092,884
49	Lliniaru newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo	34,484,755
50	Adnewyddu safleoedd diwydiannol a thir halogedig	13,232,952
52	Hyrwyddo trafndiaeth drefol lân	43,007,094
54	Mesurau eraill i ddiogelu'r amgylcheddol ac atal risgiau	16,092,884
	<i>Twristiaeth</i>	
55	Hyrwyddo asedau naturiol	22,989,835
56	Diogelu a datblygu'r dreftadaeth naturiol	52,876,620
	<i>Adfywio trefol a gwledig</i>	
61	Prosiectau integredig ar gyfer adfywio trefol a gwledig	158,000,019
	<i>Buddsoddi mewn seilwaith cymdeithasol</i>	
75	Seilwaith addysg	19,849,428
85	Paratoi, gweithredu, monitro ac arolygu	12,500,000
86	Gwerthuso ac astudiaethau; gwybodaeth a chyfathrebu	12,500,000
Cyfanswm		1,250,378,189

Tabl 2 CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN MATH O GYLLID		
Cod	Disgrifiad	Swm y Gymuned
01	Cymorth nad oes angen ei ad-dalu	1,088,726,189
03	Cyfalaf menter (cyfranogi, cronfa cyfalaf menter)	161,652,000
Cyfanswm	—	1,250,378,189

Tabl 3 CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN TIRIOGAETHOL		
Cod	Disgrifiad	Swm y Gymuned
00	Ddim yn berthnasol	1,250,378,189
Cyfanswm	—	1,250,378,189

Tabl 4 CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN GWEITHGARWCH ECONOMAIDD		
Cod	Disgrifiad	Swm y Gymuned
00	Ddim yn berthnasol	1,250,378,189
Cyfanswm	—	1,250,378,189

Tabl 5 CODAU AR GYFER Y DIMENSIWN LLEOLIAD		
Cod	Disgrifiad	—
UKL1	GORLLEWIN CYMRU A'R CYMOEDD	—

Ar gyfer ymholiadau cysylltwch â WEFO ar:

Rhif Ffôn: 0845 010 3355

WEFO Cangen Polisi
Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

<http://www.wefo.cymru.gov.uk>

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.



0845 010 3355

www.wefo.cymru.gov.uk